Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC47: Asesiad seilwaith gwyrdd

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Hydref 2020**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

Ymchwiliwyd a drafftiwyd y ddogfen hon gan The Environment Partnership (TEP) Ltd mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

TEP | THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

**Rhagair**

Mae seilwaith Gwyrdd a Glas yn seilwaith hanfodol ar gyfer iechyd trigolion, bioamrywiaeth a chynefinoedd Conwy. Mae yna swm mawr iawn o amrywiaeth eisoes yng Nghonwy, ond nawr mae angen i ni weithio gyda thirfeddianwyr, datblygwyr a sefydliadau cymunedol ar wella ansawdd, hygyrchedd ac amlbwrpasedd yr asedau yma a gwella'r cysylltiadau rhyngddynt, yn arbennig yn yr ardaloedd trefol.

Er gwaetha'r ymdrechion hyd yma, mae Conwy yn parhau i wynebu heriau yn cynnwys lefelau uchel o anweithgarwch ymysg trigolion, effeithiau newid yn yr hinsawdd yn arbennig risg llifogydd, hollti coridorau bywyd gwyllt, a'r her o dyfu economi ymwelwyr sydd yn tyfu, a hynny mewn ffordd gynaliadwy. Gellir gwella hyn i gyd drwy gyfoethogi ac ehangu'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ledled Conwy sydd wedi gweld cynnydd a newid o ran defnydd yn ystod pandemig C-19.

Mae gan nifer o brosiectau cyfredol sydd yn cael eu cynnal gan grwpiau a chynghorau cymuned, NGOau a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd yn gwarchod a gwella'r amgylchedd ar gyfer trigolion lleol, ac mae angen i ni barhau i gefnogi ac annog y gwaith rhagorol yma.

Mae'r Asesiad yn darparu arweiniad i gyfleoedd i greu Conwy fwy gwyrdd, iach, mwy bioamrywiol a ffyniannus drwy integreiddio Seilwaith Gwyrdd i ddatblygiadau newydd, drwy'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a chynllunio cymunedol. Gobeithir y bydd hynny yn arwain at fwy o integreiddio GI a gwaith rhyngadrannol er mwyn sicrhau gwelliannau drwy brosiectau ledled Conwy i'r dyfodol.

Llofnodwyd

Y Cyngh Charlie McCoubrey – Aelod Cabinet dros Dai a Rheoleiddio

Y Cyngh Greg Robins – Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

# Cynnwys

Rhagair ........................................................................ 4
Crynodeb Gweithredol ........................................................................ 6
1.0 Cyflwyniad ........................................................................ 9
2.0 Cyd-destun Polisi ........................................................................ 18
3.0 Seilwaith Gwyrdd Conwy ........................................................................ 25
4.0 Dadansoddiad o Anghenion a Swyddogaethau GI ........... **Error! Bookmark not defined.**
5.0 Astudiaeth Achos – Parc Hanes ..................................... **Error! Bookmark not defined.**
6.0 Safleoedd Strategol ........................................................................ 95
7.0 Argymhellion Polisi Cynllunio ........................................................................ 111

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Adolygiad o Bolisïau a Dogfennau |
| Atodiad 2 | Dadansoddiad o Rywogaethau Adar ac Ystlumod Allweddol |
| Atodiad 3 | Geirfa |


# Crynodeb gweithredol

Mae Seilwaith Gwyrdd (GI) yn seilwaith hanfodol ar gyfer iechyd trigolion a bywyd gwyllt Conwy. GI yw'r rhwydwaith o ofodau gwyrdd a glas amlbwrpas sydd yn darparu ecosystemau sydd yn hanfodol i bobl a byd natur ffynnu. Bydd yr Asesiad GI yma, a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn arwain y gwaith o ddarparu Conwy fwy gwyrdd, iach, mwy bioamrywiol a ffyniannus ar gyfer y cyfnod hyd at 2033.

Mae amgylchedd Conwy eisoes yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei fywyd gwyllt, ac mae yna amrywiaeth mawr ac ansawdd gwych yn perthyna i'r tirlun ledled y fwrdeistref. Mae trefi arfordirol prysur yn cyferbynnu ag ardaloedd anghysbell a gwledig mewndirol, ac mae traethau a phenrhynau tywodlyd yn cael eu gwerthfawrogi gymaint â chorsydd agored a choetiroedd naturiol sydd yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae gan Gonwy asedau hanesyddol ac amgylcheddol cyfoethog, a phum safle dynodedig o bwysigrwydd rhyngwladol.

Mae yna gyfoeth o brosiectau amgylcheddol sydd yn cael eu cynnal gan gymunedau, tirfeddianwyr, busnesau, NGOau, CBSC a Chyfoeth Naturiol Cymru; ac mae GI yn rhan ganolog o bob un, ac maent eisoes yn cyfrannu llawer at gynyddu ymgysylltiad cymunedol a gwella'r amgylchedd.

Ond mae ecosystemau'r fwrdeistref sirol yn wynebu her fyd-eang o ran newid cyflym yn yr hinsawdd a dirywiad bioamrywiaeth, a hynny yn golygu bod angen cydymdrechion ar lefel genedlaethol a lleol. Mae Conwy ei hun un parhau i wynebu ei heriau lleol ei hun yn cynnwys lefel o anweithgarwch ymysg trigolion, pocedi crynodedig o amddifadedd, ansawdd aer gwael mewn ardaloedd, hollti coridorau bywyd gwyllt,  a'r her o dyfu economi ymwelwyr sydd yn tyfu, a hynny mewn ffordd gynaliadwy.




Mae Cymru yn genedl flaengar o ran cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd - erbyn hyn mae'n bum mlynedd ers i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddod i rym, sydd yn amcanu at arwain pob penderfyniad cyhoeddus tuag at saith nod lles. Mae GI o ansawdd uchel yn hanfodol i bob un o'r amcanion.

Er bod gan y rhan fwyaf o fathau o GI bwrpas neu swyddogaeth sylfaenol efallai, oherwydd ei natur mae GI yn amlbwrpas, gan ddarparu amrywiaeth o fuddion. Mae'r asesiad yma wedi mapio amlbwrpasedd GI presennol Conwy, gan roi darlun defnyddiol o ble fyddai buddsoddiad mewn GI yn fuddiol er mwyn creu'r buddion mwyaf posibl i bobl a bywyd gwyllt.

Mae'r angen i greu, gwella neu warchod GI wedi cael ei asesu drwy amrywiaeth o fforymau yn cynnwys adolygiad o gronfa dystiolaeth, ymgynghori â rhanddeiliaid, dadansoddi ansoddol a mapio. Mae mapio teipoleg yn dangos ble mae yna ddiffyg neu ddigonedd o fathau penodol o GI, ac mae'n sylfaen ar gyfer gweddill yr Asesiad GI. Mae gwybodaeth leol wedi chwarae rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd GI, o ran gwirio synnwyr dadansoddiadau gofodol ac ansoddol ac arwain y gwaith o ddarparu cyngor ymarferol.

Mae'r asesiad yma yn argymell gweledigaeth ar gyfer seilwaith gwyrdd Conwy.

**Gweledigaeth**

'Erbyn 2033, byd Conwy yn lle hyd yn oed mwy gwyrdd a ffyniannus i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo. Bydd seilwaith gwyrdd yn creu buddion o ran iechyd a lles, yn cefnogi twf cynaliadwy yn yr economi, yn tanategu ymateb y sir i newid hinsawdd ac yn darparu rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig a chydnerth.'

Er mwyn ymateb i gyd-destun lleol Conwy, helpu i wireddu amcanion amgylcheddol ac amlygu meysydd ble gall buddsoddi mewn GI greu buddion lluosog, mae'r asesiad GI yn enwi pum blaenoriaeth:

1. **Gwarchod, gwella, creu ac adfer cynefinoedd er mwyn creu rhwydwaith bywyd gwyllt a bioamrywiaeth cydnerth;**
2. **Galluogi amgylchedd glas ffyniannus;**
3. **Hyrwyddo twf cynaliadwy a datblygiad economaidd drwy GI;**
4. **Annog, galluogi a hyrwyddo ffyrdd o fwy'n iach a gwella lles;**
5. **Gwella cysylltedd.**

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau yma, mae'r Asesiad GI yn darparu cyngor ar gyfer optimeiddio adnoddau GI Conwy.

Mae'r Asesiad GI hefyd yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd penodol sydd yn wynebu GI mewn pum safle penodol a'r Parc Hanes posibl ym Mae Cinmel. Mae'r olaf mewn perchnogaeth gyhoeddus ac mewn ardal sydd angen GI yn nhermau ansawdd mannau agored, amddifadedd iechyd a phrinder gorchudd canopi coed. Mae dyluniad cysyniadol wedi cael ei baratoi ar gyfer y safle sydd yn dangos y cyfleoedd ar gyfer gofod agored amlbwrpas fyddai'n rheoli risg llifogydd dŵr wyneb, yn darparu rhwydwaith cynefinoedd gwlypdir, yn cynnal llystyfiant presennol ar gyfer bioamrywiaeth, yn creu ardaloedd chwarae ac yn galluogi rhwydwaith o lwybrau cylchredeg ar gyfer cerdded a seiclo drwy amgylchedd amrywiol yn agos at Afon Clwyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu canllawiau er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau GI ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (2018-2033). Mae hyn yn cynnwys:

- Polisi GI Strategol;
- GI mewn cynllunio datblygiadau;
- Argymhellion ar gyfer gwella GI yn nhermau'r pum blaenoriaeth thematig;
- Darparu GI yn y pum safle strategol

# 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd (GIA) yma yn darparu'r egwyddorion arweiniol er mwyn cefnogi'r broses o greu rhwydwaith seilwaith gwyrdd (GI) amlbwrpas, sydd yn cefnogi a gwella iechyd a lles, yr economi, byd natur a bioamrywiaeth, yn cyfrannu at daclo newid yn yr hinsawdd, ac yn gritigol, yn bodloni anghenion y boblogaeth leol. Mae'r GIA wedi cael ei gynhyrchu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac mae'r Cyngor a nifer o randdeiliaid wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i baratoi.

1.2 Bydd darparu a rheoli GI yn golygu y bydd angen cydweithio rhwng CBSC, trigolion, tirfeddianwyr, partneriaid a datblygwyr er mwyn creu'r buddion mwyaf posibl i bobl a bywyd gwyllt.

1.3 Mae'r GIA yn creu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Conwy, drwy bennu fframwaith ar gyfer GI hygyrch o ansawdd uchel. Mae'r GIA yn ddogfen strategol ond mae hefyd yn darparu cronfa dystiolaeth ar gyfer darparu prosiectau a llunio polisïau.

1.4 Bydd GI amlbwrpas cynhwysfawr wedi'i gysylltu'n dda yn galluogi i Fwrdeistref Sirol Conwy fodloni dyheadau deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10 yn 2018 yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ar GI a'r broses o ddarparu hynny yn y system gynllunio. Mae hyn yn dal ar waith, ond oherwydd yr angen i CBSC baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP) 2018-2033, mae'r GIA yma wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio'r ffynonellau data gorau sydd ar gael. Byd CBSC yn parhau i fonitro unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi mewn perthynas â GI.

Beth yw Seilwaith Gwyrdd?

> **Diffiniad:**
>
> 'Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd naturiol a lled naturiol sydd yn gwasgaru a chysylltu llefydd' (PPW 10, 2018)

1.5 Mae'r nodweddion GI sydd yn cyfrannu at rwydweithiau yn eang, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i barciau a gerddi, arfordir a thraethau, coetiroedd, llynnoedd, coed strydoedd, toeau a waliau gwyrdd, mynwentydd a mynwentydd eglwysi a rhandiroedd. Yn unigol, mae'r nodweddion yma yn asedau GI, er bod pob un yn chwarae un rôl neu rolau lluosog yn y rhwydwaith GI ehangach, a elwir yn swyddogaethau GI[1].

1.6 Mae GI yn gweithio ar nifer o raddfeydd, yn gweithio ar raddfa tirlun sydd yn cynnwys ecosystemau cyfan neu nodweddion amgylcheddol eang megis cadwyni o fynyddoedd, i raddfa leol ble mae GI yn cynnwys parciau, cyrsiau dŵr a rhandiroedd. Ar lefel stryd, mae coed, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd yn cyfrannu hefyd i'r rhwydwaith GI ehangach. Mae'r gwaith ar wella ansawdd ac amlbwrpasedd GI yr un mor bwysig ar bob graddfa er mwyn sicrhau rhwydwaith gydnerth a rhyng-gysylltiedig o GI ledled y fwrdeistref.

---

[1] Datganiad Sefyllfa GI y Sefydliad Tirlun (2013)

*Buddion GI*

1.7 Mae GI yn rhan bwysig o gymunedau cydnerth, ffyniannus, iach, cydradd, cydlynol a bywiog oherwydd y 'gwasanaethau ecosystem' niferus y mae nodweddion GI yn eu darparu. Gwasanaethau ecosystem yw'r buddion y mae pobl yn eu cael o fyd natur[2]. Mae Ffigwr 1 yn amlinellu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem y gall GI eu darparu i gymunedau a'r amgylchedd. Dylai GI gael ei gynllunio a'i adfer er mwyn creu y nifer mwyaf posibl o fuddion tra'n bodloni angen lleol a bod yn briodol i'r amgylchedd lleol.

***Ffigwr 1 – Buddion Cyhoeddus a Gwasanaethau Ecosystem a ddarperir gan Seilwaith Gwyrdd***

| Newid yn yr Hinsawdd | Iechyd a Lles | Twf Economaidd a Buddsoddiad | Bioamrywiaeth | Amgylchedd Dŵr |
|---|---|---|---|---|
| Cysgodi a Lleddfu Gwres | Gwella Iechyd Corfforol | Mewnfuddsoddiad | Cynyddu Ardal Cynefin | Gwella ansawdd dŵr |
| Gwella Ansawdd Aer | Gwella Iechyd Meddyliol | Creu Swyddi | Cysylltedd Cynefinoedd | Lleihau Risg Llifogydd |
| Storio Carbon | Teimlad o Le | Ysgogi Twristiaeth | Cynyddu poblogaethau rhywogaethau | Draenio Trefol Cynaliadwy |
| | Ffynhonnell bwyd ffres a lleol | Codi Gwerth Eiddo | Priddoedd Iach | |

1.8 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (PPW) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae GI yn annog agwedd ehangach, gynaliadwy sydd yn datrys problemau sydd yn canolbwyntio ar integreiddio amyd i'r afael â materion niferus.

Amlbwrpasedd

1.9 Er bod gan y rhan fwyaf o fathau o GI bwrpas neu swyddogaeth sylfaenol, oherwydd ei natur mae GI yn amlbwrpas, sydd yn golygu bod swyddogaethau niferus yn cydfodoli. Drwy hyrwyddo amlbwrpasedd, mae GI yn galluogi i'r un ardal o dir neu ddŵr berfformio nifer o swyddogaethau, gan gynnig amrywiaeth o fuddion i bobl ac ecosystemau.

[2] Gwasanaethau Ecosystem https://www.iucn.org/commissions/commission-ecosystem-management/our-work/cems-thematic-groups/ecosystem-services

1.10 Tra bod buddion GI i'w teimlo yn fwy eang, mae swyddogaethau GI yn cyfeirio at y defnydd penodol o barseli o dir. Er enghraifft, gall cynllun plannu coed stryd ychwanegu ansawdd esthetig i ardal drefol, darparu cysgod ar hyd y stryd a chefnogi iechyd amgylcheddol drwy leihau llygredd aer lleol. Swyddogaethau GI yw y rhain. Y buddion fyddai'r cyfraniadau ehangach, llai diriaethol o bosibl i fywydau pobl a byd natur, megis cyfraniad at rwydwaith bywyd gwyllt strategol, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, teimlad o le, treftadaeth a gwella amgylcheddau trefol er mwyn denu mewnfuddsoddiad. Ledled Conwy, mae dadansoddiad gwaelodlin wedi dangos y gall GI ddarparu hyd at 22 o swyddogaethau. Mae'r amlbwrpasedd yma wedi cael ei asesu a'i fapio, fel y disgrifir hynny yn Adran 3.0.

1.11 Mae swyddogaethau GI, yn union fel asedau GI, yn gweithredu ar nifer o raddfeydd gofodol, a phan fônt yn cydweithio gallant gynyddu cydnerthedd y rhwydwaith GI at ei gilydd.

<u>Sir Conwy</u>

1.12 Mae Sir Conwy yn rhan o dirlun Gogledd Orllewin Cymru, sydd wedi ei nodweddu gan gymysgedd o ardaloedd ucheldir ac arfordirol eang, yn ogystal ag iseldiroedd ac aneddiadau yn y canol. Mae'r sir yn ymestyn ar hyd yr arfordir o Llanfairfechan yn y gorllewin i fae Cinmel yn y dwyrain, a chyn belled i'r de â phentrefi bychan gwledig Cwm Penmachno a Cherrigydrudion yn y de. Mae yna amrywiaeth mawr yn y tirlun ledled y fwrdeistref. Mae trefi arfordirol prysur yn cyferbynnu ag ardaloedd anghysbell a gwledig mewndirol, ac mae traethau a phenrhynau tywodlyd yn cael eu gwerthfawrogi gymaint â chorsydd agored a choetiroedd naturiol sydd yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae gan Gonwy asedau hanesyddol ac amgylcheddol cyfoethog, a phum safle dynodedig o bwysigrwydd rhyngwladol.

*Tirlun neilltuol*

1.13 Mae dyffryn Conwy yn dirlun neilltuol, sydd yn ffurfio ffin ddwyreiniol penodol i fynyddoedd y Carneddau yn Eryri ac mae yna ffyrdd a rheilffordd ar hyd y dyffryn. Mae'r dyffryn yn creu cyferbyniad rhwng yr afon droellog sydd yn llifo drwy fryniau, coetiroedd a phorfeydd yr iseldir, a Chonwy yn aber yr Afon sydd yn dref 'porth' i Eryri. Mae yna nifer o drefi pwysig lleol, prif bentrefi a phentrefannau llai yn Nyffryn Conwy, yn cynnwys Llanrwst, Tal-y-cafn, Dolgarrog a Thal-y-bont.

1.14 Mae Conwy yn gartref i nifer o nodweddion treftadaeth dynodedig. Mae Canol Tref Conwy mewn Safle Treftadaeth y Byd sydd yn bwysig o ran ei gyfraniad i'r economi dwristaidd. Mae'r Gogarth yn Llandudno wedi ei ddynodi fel Arfordir treftadaeth oherwydd bod ei glogwyni calchfaen a'i laswelltir yn cael eu cydnabod ymysg golygfeydd arfordirol gorau Cymru. Yn briodol ddiogon mae treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei ddathlu am ei rôl o ran darparu gosodiadau penodol i drefi Conwy. Bydd integreiddio asedau treftadaeth i rwydweithiau GI Conwy yn ysgogi addysg a dysgu traws-sector ac yn hyrwyddo teimlad o le.

1.15 Fel yr RLDP, mae'r GIA yma yn cynnwys rhan o CBSC sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, ond mae'r cysylltiadau gweledol a'r rhyngweithio naturiol rhwng GI Conwy a'r Parc Cenedlaethol sydd yn cydffinio a'i dirluniau mynyddig yn bwysig.

*Aneddiadau a Phoblogaeth*

1.16 Mae'n rhaid i'r broses o gynllunio ar gyfer GI yng Nghonwy ystyried patrymau aneddiadau Conwy. Mae 85% o boblogaeth Conwy yn myw ar y llain arfordirol cul. Mae'r 15% arall wedi eu gwasgaru mewn aneddiadau gwledig. Tref arfordirol Llandudno, sydd yn dref gwyliau Fictoraidd draddodiadol, yw'r ardal fwyaf poblog yn y fwrdeistref, gyda thua 20,000 o drigolion. Mae'r dref wedi ei lleoli ar Benrhyn Creuddyn, sydd yn ymestyn i Fôr Iwerddon.

1.17 Conwy yw'r ail anheddiad mwyaf, gyda thros 14,000 o drigolion, ac yna Abergele, Bae Colwyn a Thowyn a Bae Cinmel. Mae aneddiadau trefol pwysig lleol yn cynnwys Llanfairfechan a Phenmaenmawr i'r gorllewin. Mae holl aneddiadau arfordirol Conwy yn cael eu gwasanaethu gan gysylltiadau ffyrdd rhagorol a thrafnidiaeth gyhoeddus da.

1.18 Hefyd, mae Llanrwst, tref fewndirol ar lannau Afon Conwy, 20km i'r de o dref Conwy, wedi ei dosbarthu fel ardal drefol oherwydd ei maint. Ond mae iddi gymeriad gwledig.

1.19 Erbyn 2036, bydd poblogaeth Conwy wedi cynyddu 1.7%, yn bennaf mewn ardaloedd arfordirol, a hynny yn achosi posibilrwydd o gynyddu'r pwysau ar adnoddau GI presennol. Bydd y gyfran fwyaf o dwf yn y boblogaeth yn y grŵp oedran 65+, sydd yn golygu y bydd raid cynllunio GI i fod yn addas i anghenion cenedlaethau hŷn, eu bod yn hygyrch ac o fewn pellter cerdded o'u cartrefi.

1.20 Hefyd, gall GI cydlynol o ansawdd uchel gyfrannu at ddenu gweithlu sgiliedig iawn a chadw'r boblogaeth oedran gweithio, y rhagfynegir fydd yn parhau i ostwng yng Nghonwy yn ystod oed yr RLDP hyd at 2033; ac oherwydd hynny mae'r cynllun yn cynnwys mesurau i ddenu swyddi mewn amrywiol sectorau sydd yn apelio at fywyd teuluol. Mae CBSC yn bwrw ymlaen â nifer o Safleoedd Strategol, a bydd dylunio GI i'r ardaloedd tai a chyflogaeth newydd yma yn ychwanegu gwerth, ac yn gwella ansawdd lleoedd ac ansawdd bywyd.

*Yr Arfordir ac Afon Conwy*

1.21 O'r 56km o arfordir y mae CBSC yn gyfrifol amdano, mae 37km yn cael eu gwarchod gan amddiffynfeydd arfordirol, ond mae risg llifogydd yn dal yn uchel. Mae Strategaeth Reoli Risg Llifogydd Lleol Conwy (2013) yn nodi risg o lifogydd dan ddylanwad y llanw mewn nifer o ardaloedd trefol, megis Llanddulas, Llanfairfechan, Bae Cinmel, Llandudno, Hen Golwyn (arglawdd rheilffordd) a thref Conwy. Mae llifogydd hefyd yn broblem fewndirol, gyda digwyddiadau llifogydd mynych ar hyd Afon Conwy, yn cynnwys Llanrwst a Threfriw.

Ymgynghori â Rhanddeiliaid

1.22 Roedd ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys gweithdai a chyfweliadau ffocysedig, yn elfen allweddol o'r GIA a darparodd wybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas â mentrau GI presennol yn yr ardal a gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol allweddol. Mae Tabl 1 yn amlinellu crynodeb o'r gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid sydd wedi digwydd. Mae'r broses o ymgysylltu wedi helpu i hysbysu gweledigaeth, amcanion a nodau'r GIA, tra bod rhanddeiliaid hefyd wedi gallu rhannu eu gwybodaeth leol ragorol a helpu i ganfod a yw GI presennol yn bodloni angen yn lleol.

**Tabl 1: Amlinelliad o Ymgynghori â Rhanddeiliaid**

| Sefydliad | Ymatebydd | Sylwadau allweddol |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) | Swyddog Pobl a Bywyd Gwyllt | Mae angen i'r GIA gael ei hysbysu gan gofnodion rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt sydd wedi eu dogfennu gan NWWT a Cofnod. |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | Swyddog Tirluniau Byw | Mwy o gynefinoedd cysylltiedig fel yr argymhellwyd gan Adroddiad Lawton 'Creu Lle i Fyd Natur' (2010). Dyhead i blannu mwy o goed a sefydlu mesurau rheoli tir er mwyn mynd i'r afael ag angen sydd yn briodol i'r lleoliad. |
| Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel | Cynghorydd | Mae'r Cyngor Tref yn actif yn hyrwyddo GI amlbwrpas er mwyn cefnogi bioamrywiaeth, iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr ac er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ecolegydd | Angen rhoi mwy o ystyriaeth i goridorau bywyd gwyllt strategol. GIA hefyd i hysbysu y Cynllun Gweithredu ar Adnoddau Naturiol ymddangosol ar gyfer gogledd a gogledd ddwyrain Cymru. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned a Lleoedd | Mae pob prif anheddiad yn datblygu ei 'Gynllun Lle' ac mae yna gyfle i GI hysbysu'r cynlluniau hynny. Mae yna fwriad i ddatblygu 'Cynllun Lle' ar gyfer pob un o'r pum safle strategol. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Swyddog yr Amgylchedd a Mannau Agored | Sylwad cyffredinol - darpariaeth ar gyfer mannau agored yn bodloni angen lleol. Ond diffyg arian refeniw ar gael yn dilyn y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol. Angen pendant am fwy o orchudd coed trefol a nodweddion SuDS er mwyn lliniaru llifogydd dŵr wyneb. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Swyddog Coed | Collwyd coed strydoedd dros y blynyddoedd a diffyg rhaglenni plannu coed yn ystod y blynyddoedd diweddar. Angen menter coed strydoedd mewn ardaloedd trefol; dylid cynnwys canllawiau oherwydd gall strydluniau fod yn destun cyfyngiadau sylweddol. |
| Cyngor Sir Ddinbych | Swyddog Cynllunio | Angen i GIA Conwy roi argymhellion polisi. Mae'n bwysig ystyried cysylltiadau trawsffiniol mewn perthynas â'r asesiad o fannau agored a llwybrau teithio actif. |

| Sefydliad | Ymatebydd | Sylwadau allweddol |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru (NWRT) | Cynrychiolydd | Cynhaliodd NWRT arolwg o ddalgylch Conwy yn ystod haf 2020 a chynllun gweithredu i ddilyn. Rhaglen ar y cyd ar hyn o bryd mewn perthynas â dalgylch Conwy gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Eryri. |
| Sustrans | Rheolwr Datblygu Rhwydwaith a Phartneriaethau | Amlygwyd gwaith amddiffyn arfordirol presennol ac arfaethedig. Cyfleoedd i greu cyfleusterau â gwell mynediad ar gyfer cerdded a seiclo ar hyd yr arfordir. |

1.23 O'r ymgynghori â rhanddeiliaid, roedd yn amlwg bod gan randdeiliaid sydd yn gweithio yng Nghonwy ddealltwriaeth glir o natur amlweddog GI. Eiriolwyd mwy o gydweithio ymysg rhanddeiliaid sydd yn gweithio ar GI er mwyn creu cymaint o fuddion â phosibl ar gyfer pobl a byd natur, felly ystyriwyd bod cael un lle i ddod â chyfleoedd a syniadau at ei gilydd ar gyfer ymyriadau GI yn angenrheidiol.

1.24 Roedd yr ymgynghori hefyd yn darparu ciplun o'r prosiectau, mentrau a rhaglenni GI sydd yn cael eu cynnal yn ogystal â dyheadau ac amcanion i'r dyfodol. Er enghraifft, mae Cartrefi Cymru (cymdeithas tai) eisoes yn gweithio ar ystod o gynlluniau adfywio sydd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd yn cynnwys creu mannau chwarae naturiol amlbwrpas ar ystâd Tre Cwm yn Llandudno, a man gwyrdd amrywiol a chymunol yng Nglanrafon yn Llanrwst ar gyfer chwarae, bioamrywiaeth, draenio cynaliadwy, cydnerthedd llifogydd a choridor gwyrdd hanfodol.

1.25 Mae NWRT yn cynnal arolwg o ddalgylch Conwy yn 2020 er mwyn hysbysu eu gwaith i'r dyfodol, a gall hynny hysbysu gwaith rhanddeiliaid eraill hefyd. Mae rhai cynghorau tref eisoes yn cynllunio rôl weithredol o ran eirioli GI yn cynnwys Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel, ble roedd prosiect Coetir Heol Caer yn llwyddiannus.

1.26 Yn fewnol yn CBSC mae gweithgareddau a phrosiectau wedi bod yn mynd rhagddynt er mwyn datblygu adnoddau GI y fwrdeistref sirol. Mae'r Swyddog Cynlluniau Lleoedd yn gweithio'n uniongyrchol â chymunedau lleol, gan fynd i'r afael â phryderon ynghylch mynediad i fannau agored. Mae yna gynlluniau arfordirol hefyd sydd newydd gael eu rhoi ar waith er mwyn gwella mynediad, cydnerthedd llifogydd ac amwynder hamdden.

<u>Datganiad Ardal Gogledd Orllewin - Cyfoeth Naturiol Cymru</u>

1.27 Yn 2020 cyhoeddodd CNC y fersiwn gyntaf o'u Datganiadau Ardal sydd yn cynnwys saith o rannau gwahanol ac amrywiol o Gymru. Mae'r datganiadau Ardal yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas ag atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystem ar raddfa leol. Maent yn nodi ardaloedd ble gall gweithredu ar y raddfa briodol greu'r buddion mwyaf posibl. Bydd ardaloedd blaenoriaethol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn y Datganiadau Ardal yn ystyriaeth gynllunio sylweddol.

1.28 Mae CNC yn rhoi pwyslais mawr ar ymgynghori â'r gymuned a gellir adeiladu ar hynny drwy GIA Conwy. Drwy fwrw ymlaen â chamau allweddol ar lefel leol, gall y GIA fod yn un o nifer o adnoddau a gweithredoedd ymatebol lleol lluosog all daclo blaenoriaethau mewn ardal gyfan.

1.29 Mae'r cynigion a nodir yn Natganiad Ardal y Gogledd Orllewin wedi hysbysu themâu ac amcanion allweddol GIA Conwy. Oherwydd ei ehangder a'i ddylanwad, roedd rhanddeiliaid wedi enwi'r argyfwng hinsawdd ac amgylchedd fel y thema bwysicaf a throsfwaol ar gyfer Datganiad Ardal y Gogledd Orllewin. Mae themâu eraill yn cynnwys:

- Annog economi gynaliadwy: enwi ymagweddau cynaliadwy tuag at gyfleoedd economaidd sydd yn cyfoethogi'r adnoddau naturiol sydd yn unigryw yn y Gogledd Orllewin;
- Ailgysylltu pobl â byd natur: galluogi cymunedau i ailgysylltu, deall, ymgysylltu a dylanwadu ar y defnydd creadigol o'r amgylchedd naturiol lleol;
- Cyfleoedd i greu ecosystemau cydnerth: gweithio i ddadwneud y dirywiad, a gweithredu er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth; a
- Chefnogi rheoli tir yn gynaliadwy: gweithio gyda rheolwyr aer, tir a dŵr ledled Gogledd Orllewin Cymru er mwyn datblygu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau.

1.30 Bydd y Datganiad Ardal yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd ac yn cael ei wella o un flwyddyn i'r llall, a bydd y cyfleoedd a nodir yn y GIA yn cael eu diweddaru drwy gydol cyfnod yr RLDP (2033) er mwyn sicrhau dull cydlynol o oresgyn yr heriau cymhleth sydd yn wynebu'r amgylchedd naturiol.

<u>Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd</u>

1.31 Mae'r argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd yn cwmpasu'r holl amcanion, ac felly mae iddo rôl ganolog yn y GIA yma. Er enghraifft, bydd cynlluniau i greu rhwydwaith bywyd gwyllt cydnerth, drwy fentrau plannu coed, cysylltu bywyd gwyllt a chynefinoedd a rheoli priddoedd yn well yn cyfrannu at storio carbon, lleihau gorchudd wyneb sydd wedi'i selio ac yn cyfrannu at gysgodi.

**Gweledigaeth ar gyfer yr Asesiad o Seilwaith Gwyrdd**

| **Gweledigaeth** |
| --- |
| 'Erbyn 2033, bydd Conwy yn lle hyd yn oed mwy gwyrdd a ffyniannus i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo. Bydd seilwaith gwyrdd yn creu buddion o ran iechyd a lles, yn cefnogi twf cynaliadwy yn yr economi, yn tanategu ymateb y sir i newid hinsawdd ac yn darparu rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig a chydnerth.' |

1.32 Mae amgylchedd naturiol Conwy yn unigryw ac amrywiol, ac mae'r economi a'r boblogaeth yn dibynnu ar ei asedau naturiol gwerthfawr. Mae'r GIA yn cydnabod yr asedau GI sydd gan Gonwy yn barod a phwysigrwydd eu rheoli yn y ffordd fwyaf effeithiol a gyfer pobl a byd natur. Mae yna hefyd angen i GI newydd gefnogi twf yn y boblogaeth, brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd, ac ymateb i anghenion lleol am fannau gwyrdd hygyrch.

**Nodau ac Amcanion**

1.33 Mae nodau ac amcanion GIA Conwy yn fras wedi'u halinio â themâu Datganiad Ardal CNC ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru, ond maent wedi cael eu siapio drwy ymgynghori ar raddfa sir gyda rhanddeiliaid ac ymchwil gwaelodlin er mwyn mynd i'r afael ag anghenion Bwrdeistref Sirol Conwy.

1.34 Mae gan y GIA bum blaenoriaeth ar gyfer gwireddu gweledigaeth rhwydwaith GI cydnerth ledled Conwy. Mae'r meysydd blaenoriaethol yn cynnwys bioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr, datblygu economaidd, iechyd a lled a chysylltedd.

1.35 Mae'r pum blaenoriaeth yn rhyng-gysylltiedig, ac mae ganddynt y gallu i greu buddion lluosog. Mae gan bob blaenoriaeth brif nod a nifer o amcanion:

- **Gwarchod, gwella, creu ac adfer cynefinoedd er mwyn creu rhwydwaith bywyd gwyllt a bioamrywiaeth cydnerth**
    - *Gwarchod a gwella safleoedd dynodedig â gwerth bioamrywiol;*
    - *Gwella ansawdd a chynyddu'r arwynebedd tir yr ystyrir bod iddo werth uchel o ean bioamrywiaeth;*
    - *Gwella cysylltiadau a chysylltedd rhwng cynefinoedd.*
- **Galluogi amgylchedd glas ffyniannus**
    - *Gwella ansawdd dŵr drwy weithio gyda thirfeddianwyr er mwyn lleihau llygryddion a gwaddodion rhag mynd i gyrsiau dŵr;*
    - *Eirioli am systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ac ôl-osod SuDS yn yr amgylchedd trefol;*
    - *Dylanwadu ar ddyluniad datblygiadau newydd ar gyfer rheoli dŵr yn gynaliadwy.*
- **Hyrwyddo twf cynaliadwy a datblygiad economaidd drwy GI**
    - *Darparu amgylcheddau deniadol drwy GI y gellir buddsoddi ynddynt;*
    - *Galluogi i'r economi ymwelwyr ffynnu drwy greu amgylcheddau porth deniadol;*
    - *Annog 'twristiaeth gwyrdd' drwy wella mynediad i asedau ymwelwyr a chefn gwlad.*
- **Annog, galluogi a hyrwyddo ffyrdd o fwy'n iach a gwella lles**
    - *Gwella ansawdd aer mewn ardaloedd trefol;*
    - *Gwella ansawdd, argaeledd a hygyrchedd cyfleoedd hamdden;*
    - *Lleihau anghydraddoldeb iechyd drwy wella mynediad i fannau gwyrdd i bawb;*
    - *Gwella mynediad i fwyd a dyfir yn lleol.*

- **Gwella cysylltedd**
    - *Ailgysylltu pobl â byd natur;*
    - *Gwella hawliau tramwyo a rhwydweithiau seiclo er mwyn annog ffyrdd o fyw iach;*
    - *Ei gwneud yn bosibl, diogel a syml i gerdded a seiclo i’r gwaith a’r ysgol.*

1.36 Mae’r amcanion yma yn hysbysu’r Dadansoddiad o Anghenion a Chyfleoedd yn Adrannau 4.0.

# 2.0 Cyd-destun y polisi

2.1 Mae'r GIA yn rhan o fframwaith cynaliadwyedd ehangach ar gyfer Conwy, a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP) 2018-2033 yn benodol. Dechreuodd CBSC adolygiad o'r LDP ym mis Hydref 2017 fel rhan o'u dyletswydd i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae'r GIA yma yn rhan o'r gronfa dystiolaeth ar gyfer yr RLDP. Mae Conwy yn rhan o glytwaith o dirluniau ac ecosystemau ble mae yna ymrwymiadau cenedlaethol i gynnal ac adfer yr amgylchedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

2.2 Mae'r asesiad yma yn dangos sut y bydd GI amlbwrpas yn galluogi i'r fwrdeistref fodloni gofynion deddfwriaeth a pholisi Cymru. Mae Atodiad 1 y darparu crynodeb llawn o'r polisïau a'r ddeddfwriaeth a adolygwyd at ddibenion y GIA yma, ac mae'r prif ganfyddiadau yn cael eu darparu isod.

**Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol**

<u>Argyfwng yr Amgylchedd</u>

2.3 Ar 29 Ebrill 2019, datganwyd Argyfwng yr Amgylchedd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Lesley Griffiths, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

*"Rwyf yn credu bod gennym y penderfyniad a'r dyfeisgarwch yng Nghymru i greu economi carbon isel tra'n sicrhau bod ein cymdeithas yn decach a iachach ar yr un pryd. Nid yw taclo newid yn yr hinsawdd yn fater y gellir ei adael i unigolion na'r farchnad rydd. Mae angen cydweithredu.*

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)</u>

2.4 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r dyfodol yn rhoi dyletswydd ar cyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy, ac mae'n gofyn am wella sut y darperir y pedair elfen o les: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

2.5 Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod lles y bwriedir iddynt siapio gwaith pob corff cyhoeddus yng:

- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
- Cymru Lewyrchus

<u>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)</u>

2.6 Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi egwyddorion ar gyfer hyrwyddo dull cydlynol a chynaliadwy o reoli adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru.

2.7 Gosodir dyletswydd ar Gynghorau i warchod a gwella bioamrywiaeth a chynnal ecosystemau cydnerth.

Deddf Newid Hinsawdd (2008)

2.8 Rhan greiddiol o'r Ddeddf, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU yn 2008, yw targed 2050 er mwyn creu gostyngiad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y DU o' gymharu â 1990, a'r system o gyllidebau carbon sydd yn darparu camau fesul pum mlynedd tuag at darged 2050. Gellir eu cyrraedd drwy gyfuniad o fesurau yn cynnwys datrysiadau naturiol sydd yn cwmpasu GI ar gyfer storio carbon, cynhyrchu bwyd a lleihau'r angen i deithio mewn car.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10 (2018)

2.9 Mae PPW10 yn rhoi pwyslais newydd ar gyflawni buddion amlbwrpas mewn perthynas â datblygu drwy ddarparu GI integredig.

2.10 Erbyn hyn mae creu lleoedd yn rhan greiddiol o PPW, sydd yn ddull holistig o gynllunio a dylunio datblygiadau a gofodau. Mae'n ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylchfyd ehangach, er mwyn hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl yn yr ystyr ehangach. Mae creu lleoedd yn gynaliadwy yn broses gynhwysol, sydd yn cynnwys pawb sydd â buddiant yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae cynllunio ar gyfer GI yn golygu bod angen y dull aml-ddimensiynol yma o gynllunio, dylunio a rheoli ardaloedd, a dyna yw craidd creu lleoedd.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft (NDF)

2.11 Mae'r NDF Drafft yn gynllun datblygu ymddangosol byd yn pennu cyfeiriad datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040. Mae'n pennu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, yn cynnwys cynnal a datblygu economi bywiog, datgarboneiddio, datblygu ecosystemau cydnerth a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

2.12 Mae'r NDF Drafft yn amlinellu pwysigrwydd GI a chamau gwella bioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol ar gyfer twf cynaliadwy, tra'n lleihau'r angen i deithio mewn car drwy ymgorffori GI fel rhan annatod o rwydweithiau trafnidiaeth.

*Polisi 8 - Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystem*

2.13 Cefnogi GI Strategol yw ffocws Polisi 8 mewn perthynas â'i rôl o ran dadwneud dirywiad bioamrywiaeth a cynyddu cydnerthedd yr ecosystem. Cynghorir y dylid ehangu safleoedd dynodedig presennol a bod cysylltiadau rhwng safleoedd yn cael eu gwella ar gyfer rhwydweithiau ecolegol. Mae'r NDF yn nodi y gellir cymryd camau i ddiogelu tir er mwyn ehangu neu gysylltu safleoedd dynodedig er mwyn eu cydnerthedd hirdymor, a dylai hynny gael ei nodi drwy GIAau awdurdodau lleol.

2.14 Yn benodol i GI trefol, mae'r NDF yn cynghori bod raid i awdurdodau lleol wneud y mwyaf o fuddion lles GI mewn ac o gwmpas ardaloedd trefol, tra'n adfer nodweddion naturiol a rhwydweithiau ecolegol mewn tirluniau trefol. Mae mannau gwyrdd a choridorau o ansawdd uchel sydd yn hygyrch yn lleol yn flaenoriaeth o dan Bolisi 8.

*Polisi 9 - Y Goedwig Genedlaethol*

2.15 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed ar gyfer cynyddu gorchudd coetir yng Nghymru, a hynny ar raddfa o o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020. Mae Polisi 9 yn amlinellu'r ymrwymiad i ddatblygu Coedwig Genedlaethol er mwyn helpu i gyrraedd y targed hwnnw, a bydd yn cael ei ddarparu drwy nodi safleoedd darparu priodol, mecanweithiau darparu a chamau i ddiogelu tir.

**Polisi Lleol**

2.16 Mae deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol yn cael ei gefnogi gan strategaeth, polisi a chanllawiau CBSC.

2.17 Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol Conwy (LDP) presennol yn mis Hydref 2013 ac mae'n cynnwys y cyfnod 2007-2022. Erbyn hyn mae CBSC yn y broses o baratoi LDP newydd (RLDP) sydd yn cynnwys 2018-2033. Diben y GIA yma yw hysbysu'r RLDP.

Blaenoriaethau Conwy

*Newid yn yr Hinsawdd*

2.18 Ym Mai 2019, nododd CBSC eu bod yn ymrwymedig i weithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn yr un modd 'mae'r Cyngor yn nodi bod newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithriadol eisoes wedi effeithio ar drigolion yn y sir, a rhai sydd yn byw mewn ardaloedd sydd yn wynebu risg uchel cynyddol o lifogydd.' Mae datblygu amrywiaeth o gyfleoedd GI er mwyn hysbysu'r RLDP yn cael ei wneud yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, sydd yn golygu bod materion megis llifogydd, bioamrywiaeth a theithio cynaliadwy erbyn hyn yn bwysicach nag erioed yn y broses gynllunio.

*Twf Economaidd Cynaliadwy*

2.19 Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017-2027 wedi ei osod yng nghyd-destun y weledigaeth twf economaidd sengl ar gyfer y rhanbarth a ddatblygwyd gan Gonwy ac awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, y sector preifat, a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Y weledigaeth yw sicrhau datblygiadau seilwaith sylweddol ledled y rhanbarth.

2.20 Mae'r Strategaeth yn enwi mentrau strategol all greu a gwella swyddi yn yr economi leol, gan symud o gyflogaeth tymhorol i gyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r strategaeth yn enwi'r themâu drawsffiniol sydd yn cefnogi twf ac sydd yn gysylltiedig â GI, a amlinellir yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Y berthynas rhwng GI a themâu yn y Strategaeth Twf Economaidd**

| Thema | Disgrifiad | Sut all GI gyfrannu at fodloni'r thema yma? |
|---|---|---|
| Seilwaith sydd yn Galluogi Twf | Gwneud y sir yn fagned ar gyfer pobl sydd eisiau sefydlu a thyfu busnesau dynamig sy'n edrych i'r dyfodol | Gall GI fod yn un o nifer o ffactorau sydd yn cyfrannu at greu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy, drwy ddarparu gofodau deniadol ac ysgogi mewnfuddsoddiad. Rhaid i drefi ffyniannus fyd yn drefi cydnerth hefyd yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae cydfuddion GI mewn seilwaith trefol yn niferus, yn cynnwys adenillon ariannol uwch ar eiddo, a chyflenwad a rheolaeth mwy effeithlon ar ddŵr. Gall nifer o'r cydfuddion yma effeithio ar hyfywedd buddsoddiad i'r dyfodol a thwf busnesau. |
| Twristiaeth Trawsnewidiol | Gwneud Conwy yn gyrchfan gydol y flwyddyn wirioneddol ryngwladol. | Bydd angen i Gonwy weithredu fel cyrchfan ryngwladol mewn perthynas â holl agweddau profiadau ymwelwyr ledled y Sir, ac mae hynny angen rheoli cyrchfannau yn gynaliadwy. Mae teimlad o le a chanfyddiad yn agweddau allweddol o brofiad ymwelwyr, a gall GI gyfrannu at wella hynny oherwydd ei allu i annog rhyngweithio gyda byd natur. Hefyd gellir defnyddio GI fel 'pyrth' i asedau twristaidd allweddol Conwy pan fo hynny yn briodol. Mae gan ffyrdd gwyrdd a choridorau gwyrdd y potensial i gysylltu asedau twristiaeth yn well, a gwella'r profiad cyffredinol i dwristiaid. |

*Yr Amgylchedd Naturiol*

2.21 Mae Papur Pwnc 6 RLDP Yr Amgylchedd Naturiol, a gyhoeddwyd gan CBSC yn Awst 2018, yn nodi y bydd '*RLDP yn gweithi er mwyn gwarchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.* Mae hynny yn ei dro yn arwain at fuddion i dwristiaeth*, seilwaith gwyrdd a chyfleoedd o ran iechyd* a lles.'

2.22 Mae'r Papurau Pwnc yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu a gwella cymeriad ac edrychiad yr arfordir annatblygedig.

*Twristiaeth*

2.23 Ffocws Papur Pwnc 4 RLDP Twristiaeth, a gyhoeddwyd gan CBSC ym mis Medi, yw gwarchod gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, gan archwilio mwy i'r potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

2.24 Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Conwy, sydd yn cefnogi 12,208 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan greu £839m o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol. Nodir bod yr Economi Ymwelwyr yn llawer mwy eang nag effaith uniongyrchol yr elfen dwristiaeth yn unig, yn arbennig i gymunedau gwledig. Gall GI greu gosodiadau deniadol a chynaliadwy i eilwaith twristiaeth a denu mewnfuddsoddiad.

*Trafnidiaeth*

2.25 Mae Papur Pwnc 8 RLDP (Medi 2018) yn ymdrin â'r materion allweddol mewn perthynas â thrafnidiaeth sydd yn gofyn am newid yn yr adolygiad o'r LDP. Gan alinio â themâu allweddol eraill, mae'r Papurau Pwnc trafnidiaeth yn nodi y dylai'r RLDP gynnwys mwy o amcanion ynghylch sut y gellir integreiddio trafnidiaeth cynaliadwy i ardal y cynllun, yn cynnwys ymgorffori canllawiau newydd ar GI a draenio cynaliadwy. Bydd hynny yn golygu cydbwyso'r angen am dwf cynaliadwy gyda lleoliad safleoedd dyranedig newydd ar gyfer datblygu.

*Mannau Hamdden*

2.26 Ym Mhapur Pwnc 12, mae CBSC yn cydnabod bod mannau hamdden yn werthfawr oherwydd eu gallu i hyrwyddo gweithgareddau corfforol ac iechyd a lles, yn ogystal â'u rôl o ran cadwraeth natur a bioamrywiaeth. Mae'r GIA yma yn bwrw iddi gyda'r gofynion mannau agored a pharamedrau pellter a amlinellir ym Mhapur Testun 12.

2.27 Mae pwyntiau allweddol eraill a nodir ym Mhapur Pwnc 12 sydd yn berthnasol i GIA Conwy yn cynnwys:

- *'Dylai'r Cyngor ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da mewn lleoliadau.*
- *Dylai'r RLDP nodi polisïau clir ar gyfer darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden.* Dylai'r rhain bennu *safonau darpariaeth fel bod y broses gynllunio yn gallu adnabod a mynd i'r afael â diffygion lleol.'*

*Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo 2019- 2029*

2.28 Mae'r Cynllun yn cynnwys Datganiad o Gamau Gweithredu sydd yn cynnwys 5 prif nod:

**1.** Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwyo cyhoeddus yn agored ac ar gael i ddefnyddwyr;
**2.** Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol ac sydd ar gael yn eang;
**3.** Darparu rhwydwaith sydd yn fwy cysylltiedig, diogel a hygyrch sydd yn addas i bob defnyddiwr;
**4.** Gwella'r broses o hyrwyddo rhwydwaith a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohoni; ac
**5.** Annog mwy o gyfranogiad cymunedol o ran rheoli hawliau tramwyo lleol.

2.29 Drwy'r ROWIP, dylai'r cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru gael eu cynnal i safon uchel. Mae'r rhan sydd yn rhedeg drwy Gonwy yn dilyn yr arfordir, ac mae yna gysylltiad cylchol ar draws Mynydd Conwy hefyd. Swydd a ariennir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd yn rheoli'r prosiect yn strategol erbyn hyn. Mae'r ROWIP wedi cael ei ysgrifennu yng nghyd-destun adnoddau cwtogedig o'i gymharu â lefelau yn y gorffennol, ac felly rhoddir mwy o bwyslais ar weithgaredd tirfeddianwyr.

*Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017- 2022*

2.30 Gweledigaeth CBSC fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Corfforaethol yw bod yn 'Sir flaengar sydd yn creu cyfleoedd.' Mae themâu perthnasol y Cynllun Corfforaethol i GIA Conwy yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 1.

Y Gronfa Dystiolaeth

*Gorchudd Coed Mewn Trefi ym Mwrdeistref Sirol Conwy (2016)*

2.31 Mae'r astudiaeth hon[3] yn rhan o'r 'Gorchudd Coed yng Nghymru' ehangach gan CNC sydd yn asesu gorchudd canopi coed trefol ledled y sir gan ddefnyddio data o 2013. Nod y gwaith yw rhoi'r wybodaeth waelodlin sydd ei hangen ar benderfynwyr i gynllunio a rheoli'r adnodd coed trefol yn strategol. Mae'n canolbwyntio ar y gorchudd canopi coed yn hytrach na chyfrif coed unigol oherwydd mai drwy ledaeniad gorchudd yn bennaf y mae coed yn creu buddion.

2.32 Amcangyfrifwyd bod y gorchudd coed cymedrig yn ardaloedd trefol Bwrdeistref Sirol Conwy yn 13.8% ar gyfer 2013 fel canran o'r ôl troed trefol, a hynny i lawr o 14.6% yn 2009.

2.33 Mae'r astudiaeth yn cymharu gorchudd canopi ar gyfer yr 11 ardal trefol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r gorchudd canopi mwyaf yn: Llanfairfechan (23.7%), Penmaenmawr (22.6%) a Chonwy (22.2%). Roedd y gorchudd canopi lleiaf yn: Towyn / Bae Cinmel (6.4%), Llandudno (7.7%) a Thywyn / Deganwy / Cyffordd Llandudno (11.3%).

2.34 Mae'r astudiaeth yn ystyried bod mabwysiadu gorchudd canopi yn helpu i ysgogi'r broses o reoli coed trefol a darparu meincnod ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.

2.35 Mae'r astudiaeth yn amlygu'r lefelau isel o orchudd coed yn Nhowyn /Bae Cinmel a Llandudno, a'r potensial ar gyfer dull cynlluniedig er mwyn gwella darpariaeth canopi er lles economaidd gymdeithasol cymunedau lleol i'r dyfodol yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion mewn perthynas ag ansawdd aer a llifogydd.

2.36 Mae'r dadansoddiad lefel ward yn darparu mwy o fewnwelediad o ran ble fydd angen plannu coed wedi ei dargedu efallai.

Canllawiau Arferion Gorau

*Canllawiau CIEEM*

2.37 Cyn cyhoeddi canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar GI a rhoi hynny ar waith yn y system gynllunio, ar ôl cyhoeddi PPW10, cyhoeddodd Grŵp Polisi Cymru CIEEM argymhellion yn 2019 ar gyfer rhoi GI ar waith mewn datblygiadau ac wrth wneud penderfyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhoi mwy o bwyslais ar amlbwrpasedd ac ymgysylltu cynnar gyda rhanddeiliaid;
- Cyfeirio at enillion net;
- Sicrhau bod seilwaith glas yn cael ei ystyried mewn uwch gynlluniau; a
- Rhoi mwy o bwyslais ar 'adnewyddu' seilwaith llwyd e.e. Rheilffyrdd, ffyrdd.

[3] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), Gorchudd Coed Mewn Trefi ym Mwrdeistref Sirol Conwy

*Datganiad Sefyllfa y Sefydliad Tirlun (LI): Seilwaith Gwyrdd (2016)*

2.38 Nod datganiad Sefyllfa LI yw rhoi i gyrff yn y sectorau preifat a chyhoeddus, cleientiaid a gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd naturiol ac adeiledig fewnwelediadau newydd i'r buddion y gall GI eu cyflawni drwy greu tirluniau amlbwrpas a dangos sut y gall pobl gydweithio i gyflawni hynny.

2.39 Mae'r Datganiad Sefyllfa yn amlinellu saith cam ar gyfer datblygu dull strategol mewn perthynas â Gi, yn ogystal â rhestr eang o argymhellion ar gyfer cynhyrchu Strategaethau a Chynlluniau GI. Mae'r argymhellion wedi cael eu hadolygu a'u cyfieithu i'r fethodoleg ar gyfer cynhyrchu'r GIA yma. Mae sampl o'r argymhellion yma fel a ganlyn:

- Oherwydd ei natur, mae GI yn aml yn croesi ffiniau gweinyddol a gweithredol, ac rydym yn credu y dylid mynd i'r afael â hynny drwy weithio ar y cyd rhwng cyrff cenedlaethol ac awdurdodau lleol;
- Dylid mabwysiadu dull integredig. Mae GI yn cynnig ffordd nid yn unig o dracio heriau penodol yn uniongyrchol, ond o wireddu buddion eilaidd niferus ar yr un pryd;
- Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o amcanion GI strategol ardal ac yn gwerthfawrogi sut mae'r amcanion hynny yn cyfrannu at liniaru effeithiau amgylcheddol datblygiadau newydd a chreu lleoedd neilltuol.

# 3.0 Seilwaith Gwyrdd Conwy

3.1 Mae gan Gonwy amgylchedd naturiol unigryw, a thirlun amrywiol ac arfordir eang. Mae strategaeth ar gyfer cynnal a gwella asedau GI gwerthfawr presennol, yn ogystal â chreu GI newydd mewn ymateb i angen lleol, yn dechrau gyda dealltwriaeth o'r adnoddau sydd yn bodoli eisoes. Drwy fapio GIS, datblygwyd gwaelodlin sydd yn amlinellu 'teipoleg' ac 'amlbwrpasedd' presennol GI Conwy. Mae dull y GIS o fapio teipoleg ac amlbwrpasedd yn dilyn y dull a ddefnyddir yn eang a ddatblygwyd gan Mersey Forest ers 2008. Mae'r broses fapio yn defnyddio ystod o setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus a setiau data a ddarparwyd gan y Cyngor, ac mae'n strategol ei natur. Efallai bod yna fân anghysonderau rhwng y mapio a'r gwir fanylder 'ar y tir' a gellid mynd i'r afael â hynny drwy waith mapio ychwanegol manwl y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon.


**Teipoleg GI**

3.2 Mae 96% o Gonwy yn wyrdd. Mae Tabl 3 yn crynhoi GI yn nhermau gwahanol deipolegau. Mae Ffigwr 2 yn dangos hynny. Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw hynny yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri.


**Tabl 3: GI yng Nghonwy yn ôl teipoleg**

| Teipoleg | Arwynebedd (ha) | Canran o Gonwy (%) |
|---|---|---|
| Amaeth | 41627.76 | 57.55 |
| Glaswelltir neu Brysgdir | 9873.18 | 13.65 |
| Coetir | 7492.91 | 10.36 |
| Corstir | 4031.81 | 5.57 |
| Dŵr Llanwol | 2038.23 | 2.82 |
| Gerddi Preifat | 1628.72 | 2.25 |
| Mannau Gwyrdd Naturiol | 587.38 | 0.81 |
| Cyrff Dŵr | 533.83 | 0.74 |
| Gwlypdiroedd | 462.52 | 0.64 |
| Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored | 427.70 | 0.59 |
| Cyrsiau Dŵr | 215.90 | 0.3 |
| Coed Strydoedd | 131.51 | 0.18 |
| Traethau | 122.45 | 0.17 |
| Parciau a gerddi | 88.38 | 0.12 |
| Amwynder | 72.80 | 0.1 |
| Mynwentydd | 35.79 | 0.05 |
| Twyni tywod | 16.53 | 0.02 |
| Coridorau gwyrdd | 3.62 | 0.01 |
| Rhandiroedd | 6.33 | 0.01 |
| Perllannau | 3.03 | <0.01 |
| **Cyfanswm GI** | **69400.39** | **95.94** |

**Ffigwr 2: Teipoleg GI ledled Conwy**



3.3 Fel y dangosir yn Ffigwr 2 a 3, mae bron i 58% o Sir Conwy yn dir amaethyddol, sydd yn cynnwys ardaloedd eang o'r fwrdeistref nad ydynt yn rhan o'r llain arfordirol. Mae amaeth a choedwigaeth yn weithgareddau diwydiannol a chyflogaeth pwysig yn yr ardaloedd gwledig ble siaredir Cymraeg yn bennaf.




**Ffigwr 3: GI yng Nghonwy yn ôl math**

3.4 Mae yna wahaniaethau amlwg rhwng rhannau gorllewinol a dwyreiniol y Sir. Mae Dyffryn Conwy yn ffin naturiol rhwng y gorllewin mwy mynyddig a'r corstiroedd mwy gwastad ar yr ucheldir tua'r dwyrain. Mae glaswelltir a phrysgdir, sydd yn gorchuddio bron i 14% o'r sir, wedi ei ganolbwyntio yn bannaf o gwmpas ucheldir Mynydd Hiraethog, sydd yn rhannau canol a dwyreiniol y sir, sydd yn ymestyn i Sir Ddinbych dros y ffin. Mae hwn yn dirlun agored ac anghysbell, sydd yn cynnwys rhannau sylweddol o gorstir grug Conwy. Mae ei werth golygfaol uchel yn cael ei adlewyrchu yn nynodiad rhanbarthol Ardal Tirlun Arbennig Hiraethog (SLA), yn ogystal â bod yn ardal allweddol ar gyfer twristiaeth oherwydd ei llwybrau cerdded.

3.5 Mae ardal coetir mwyaf sylweddol Conwy yn ne ddwyrain y sir, yn cynnwys coedwigoedd o gwmpas cronfeydd dŵr mawr Llyn Brennig ac Alwen a nifer o lynnoedd llai. Mae'r cronfeydd dŵr wedi eu hamgylchynu â choetir conwydd, ac mae'r ganolfan ymwelwyr ar lannau Llyn Brennig yn golygu bod y fan hon yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr ar gyfer chwaraeon dŵr, cerdded, seiclo a physgota. Mae rhannau o Goedwig Clocaenog hefyd yn rhan o ardal weinyddol CBSC ac maent yn cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a reolir oherwydd eu bywyd gwyllt a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden.

3.6 Mae teipolegau GI sydd yn cynnwys ardaloedd bychan o'r sir yn cynnwys perllannau, rhandiroedd, twyni tywod a choridorau gwyrdd. Er nad ydynt yn eang, mae'r nodweddion yma yn ychwanegu chymeriad lleol a neilltuol. Er enghraifft, mae Grŵp Perllan Gymunedol Conwy wedi bod yn gweithio ar adfer hen berllan ar hyd hen waliau tref ganoloesol Conwy, gan adfer teimlad o stiwardiaeth gymunedol a chyfrannu at gynnyrch gaiff ei dyfu yn lleol.

3.7 Mae yna 12 o safleoedd rhandiroedd o amrywiol feintiau ledled Conwy ar hyd y llain arfordirol sydd yn gwasanaethu'r boblogaeth yn Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy, Deganwy, Bae Penrhyn, Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn a Thowyn. Defnyddir dadansoddiad o angen lleol i benderfynu a fyddai cymunedau gwledig a mewndirol yn elwa o randiroedd.

3.8 Mae bwrdeistref sirol Conwy gyfan yn rhan o Ddalgylch Rheoli Conwy fel y diffinnir hynny gan CNC. Mae tarddiad Afon Conwy yn ucheldir Migneint, sydd yn ardal eang o gorstir a rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC). Mae SAC Migneint yn storfa garbon sylweddol. Mae Afon Conwy yn llanwol hyd at Drefriw ac mae topograffeg llawr y dyffryn yn gymharol wastad gyda'r afon yn dilyn llwybr troellog. Amaeth a choedwigaeth sydd yn fwyaf blaenllaw yn nalgylch Conwy. Mae gan yr 17 o afonydd sydd yn nalgylch Conwy ansawdd dŵr cymedrol i dda. Mae gan Afon Conwy ansawdd dŵr cymharol. Mae'r pwysau allweddol ar ansawdd dŵr yn cynnwys

- Llygredd gwasgaredig, o ffynonellau amaethyddol a choedwigaeth, yn effeithio ar rai afonydd;
- Mae gollyngiadau o hen gloddfeydd metel yn effeithio ar nifer o afonydd yn cynnwys Conwy isaf a Chrafnant;
- Mae addasiadau ffisegol, yn bennaf oherwydd cronni ar gyfer pŵer hydro, yn effeithio ar gyrff dŵr uwch ben Dolgarrog ar ffin orllewinol dalgylch reoli Conwy;
- Yn rhan isaf y dalgylch mae bacteria o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn achosi risg i welyau pysgod cregyn.

3.9 Mae cynefinoedd mawndir yr ucheldir yn chwarae rôl bwysig mewn perthynas â rheoli dŵr. Mae mawndiroedd iach hefyd yn gweithredu fel dalfeydd carbon. Mae prosiectau adfer mawndiroedd wedi cael eu cynnal yn rhan uchaf dalgylch Conwy drwy Brosiect Dalgylch Conwy Uchaf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae monitro yn mynd rhagddo. Mae priddoedd ar waelod y dyffryn yn seiliedig ar lifwaddod, sydd yn cefnogi porfeydd yr iseldir a dolydd gwair, gyda defaid mynydd yn pori ar briddoedd teneuach llethrau mwy serth y dyffryn.

3.10 Mae ardaloedd eang o'r fwrdeistref sirol yn cael eu cydnabod yn genedlaethol a rhyngwladol am eu diddordeb cadwraeth natur ac am ansawdd eu bywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) yn gorchuddio cyfran dda o arwynebedd tir Conwy, ac maent yn cynnwys ystod eang iawn o gynefinoedd o dwyni tywod a marianau arfordirol, i borfeydd heli, gwelyau brwyn, cynefinoedd corstir ar laswelltiroedd heb eu gwella yn yr ucheldir ac amrywiaeth o wahano fathau o goetiroedd. Roedd Conwy ar un adeg yn gartref i nifer o dirluniau twyni tywod naturiol a chynefinoedd sydd wedi cael eu hailddatblygu ar gyfer cyrsiau golff a datblygiadau twristaidd. Gallai ailnaturioli cynefinoedd twyni tywod ddigwydd pan fo cyfleusterau presennol yn cael eu cau neu'n cael eu hailstrwythuro.

3.11 Mewn nifer o ardaloedd, megis ar ymylon gorllewinol Dyffryn Conwy, mae ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel i gymedrol yn cydfodoli ag ardaloedd o arwyddocâd hanesyddol ac archeolegol uchel. Ar hyn o bryd mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal 25 o ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r castell a waliau tref Conwy wedi eu dynodi fel Safle Treftadaeth y Byd, a'r cyfan yn cyfrannu yn sylweddol at gymeriad yr ardal.

3.12 Mae gan Gonwy bedwar dynodiad tirlun hanesyddol ac 17 o erddi ar Gofrestr Tirluniau Hanesyddol Cymru yn ei ardal gynllunio, ac mae'r enghreifftiau nodedig yn cynnwys Plas Maenan, Neuadd Benarth, Neuadd Caer Rhun a Gerddi Bodnant, a'r cyfan yn asedau GI ac yn gyrchfannau i ymwelwyr. Mae'r Gogarth, sydd nid yn unig wedi ei ddynodi am ei ddiddordeb cadwraeth natur, hefyd yn barc gwledig sydd yn croesawu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.

3.13 Mae diwydiant twristiaeth Conwy wedi ei alinio i raddau helaeth gydag ansawdd a harddwch yr amgylchedd naturiol. Mae ymwelwyr yn ymweld â'r traethau baner las, llwybrau cerdded a seiclo eang Conwy, cyrsiau golff a chyfleoedd ar gyfer antur awyr agored yn yr ardaloedd eang o GI megis Zip World, Parc Antur Eryri a chwaraeon dŵr ar hyd Afon Conwy.

**GI presennol - Negeseuon Allweddol**

- Mae 96% o Gonwy yn wyrdd; mae gan y sir asedau GI a gefnogir gan brosiectau cymunedol a gwirfoddol;
- Mae'r rhan fwyaf o'r sir (bron i 58%) yn amaethyddol, sydd yn creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau GI a ddarperir gan ffermydd a thirfeddianwyr;
- Mae Conwy yn gartref i ardaloedd sylweddol o goetir, megis coetir conwydd yn Llyn Brennig yn y e ddwyrain;
- Mae rhai teipolegau GI yn meddiannu ardaloedd bychan iawn, megis rhandiroedd a pherllannau, ond mae eu gwerth lleol, cymunedol yn allweddol;
- Mae gan gyrsiau dŵr Conwy ansawdd dŵr cymedrol a da - mae gan Afon Conwy ei hun ansawdd dŵr cymedrol, gyda lle i wella;
- Mae gorlifdir Afon Conwy wedi ei nodweddu gan briddoedd clai a silt, gyda mawndir ar yr ucheldir sydd yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri;
- Mae ardal fawr yn cael ei chydnabod yn genedlaethol a rhyngwladol am ansawdd ei bywyd gwyllt a'i chynefinoedd;
- Mae sector twristiaeth Conwy yn dibynnu'n drwm ar asedau GI presennol sydd yn denu nifer o ymwelwyr.

**GI Trefol**

3.14 Mae'r adran hon yn disgrifio'r GI presennol yn nhrefi arfordirol Conwy, o Llanfairfechan yn y gorllewin i Abergele yn y dwyrain.

<u>Llanfairfechan a Phenmaenmawr</u>

3.15 Mae Llanfairfechan a Phenmaenmawr ymysg yr aneddiadau trefol llai ar hyd llain arfordirol Conwy yng ngogledd orllewin y Sir, rhwng mynyddoedd y Carneddau ac Afon Menai. Mae'r aneddiadau wedi eu lleoli ar dir arfordirol sydd yn wynebu Bae Conwy a Môr Iwerddon. Mae ardal fawr yn cynnwys Pen-dinas a Chwareli Graiglwyd yn gwahanu Llanfairfechan a Phenmaenmawr, ac yn ardal y chwarel yma mae yna ardaloedd sylweddol o blannu coed, glaswelltir a chorstir.

*Llanfairfechan*

3.16 Mae'r promenâd ar hyd yr arfordir yn rhan o Lwybr Gogledd Cymru ac mae'n mynd heibio llyn cychod a chyfleusterau hamdden awyr agored eraill, sydd yn cydffinio â'r traeth Baner Las. Mae'r A55 sydd yn rhedeg i'r gogledd o ganol y dref yn gwahanu'r dref a'r arfordir. Yn ystod yr haf mae'r dref yn cynnal nifer o ddigwyddiadau awyr agored yn cynnwys Carnifal Llanfairfechan a Ras Môr i'r Copa.

3.17 Mae gerddi preifat yn rhan sylweddol o GI yn y dref ei hun. Yng nghanol y dref ar hyd Ffordd y Pentref, Ffordd Penmaenmawr a Ffordd Lannerch, mae yna ddiffyg GI cyffredinol, er bod y diffyg yma yn bennaf yn ganlyniad i ffurf adeiledig.

3.18 Mae'r Afon Ddu yn llifo drwy'r dref i'r gorllewin o Ffordd y Dyffryn ac mae ardaloedd coediog ar y naill ochr a'r llall iddi yn ogystal â defnyddiau tir preswyl a manwerthu. Mae'r coridor coetir yn rhedeg ar hyd yr Afon bron yn ddi-dor o'r ucheldir i fynyddoedd y Carneddau. Mae ymyl ddeheuol Llanfairfechan yn borth i Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae Gwarchodfa Natur Nant y Coed ar y ffin weinyddol. Mae'r Afon Ddu yn llifo drwy'r warchodfa natur goediog ac yn cynnig llwybr cerdded gydag arwyddion.

*Penmaenmawr*


3.19 Mae Penmaenmawr yn cynnwys pentrefi Penmaenan, Pant Yr Afon, Dwygyfylchi a Chapelulo. Yn gyffredinol mae yna orchudd GI da. Mae yna ychydig o goed ar hyd Hen Ffordd Conwy sydd yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r dref.

3.20 I'r gogledd ddwyrain o ganol y dref mae yna ddau barc carafannau a champio mawr. Mae yna nifer o barciau yn y dref yn cynnwys Gardd y Deillion oddi ar Hen Ffordd Conwy. Mae Parc Plas Mawr i'r dwyrain a'r de ddwyrain o ganol y dref. Mae'r parc yma sydd yn agored i'r cyhoedd yn cynnwys llwybrau coetir a llyn ac mae iddo arwyddocâd o ran treftadaeth. Mae Gardd Gwêl yr Ynys ar lethr y bryn i'r de ddwyrain o Benmaenmawr, ond nid oes mynediad i'r cyhoedd iddo.

3.21 Mae Traeth Penmaenmawr wedi cael ei wahanu oddi wrth y dref gan Drafffordd yr A55. Mae'r promenâd yn cynnwys ardaloedd o wellt wedi eu tirlunio gyda phwll padlo awyr agored a llefydd parcio ym mhen gorllewinol y promenâd.

3.22 I'r dwyrain o'r dref, mae penrhyn garw Penmaen Bach, sydd wedi ei orchuddio ag ardaloedd sylweddol o rostir, yn gwahanu Dwygyfylchi oddi wrth Conwy Morfa. Penmaenbach yw pen mwyaf gogleddol Parciau Cenedlaethol Eryri, sydd yn cynnwys rhan fawr o Ddwygyfylchi a Chapelulo. I'r de o'r dref mae yna fwa o fryniau ac ucheldiroedd sydd yn ffurfio tirlun dramatig yn gefnlen i'r dref, ac mae yna rwydwaith o GI yn agos i ffin ddeheuol y dref.

**Ffigwr 4: Teipoleg GI  - Penmaenmawr a Llanfairfechan**




## Conwy a Chyffordd Llandudno

*Conwy*

3.23 Mae tref Conwy yn Safle Treftadaeth y Byd, wedi ei lleoli  o fewn waliau'r castell, ar lannau Moryd Conwy. Mae'r castell a'r waliau yn y Safle Treftadaeth y Byd ymysg prif atyniadau Gogledd Orllewin Cymru, sydd yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi, tra hefyd yn cefnogi atyniadau eraill o ran datblygu profiad gwyliau. Mae Cei Conwy, yr harbwr bychan ar lannau'r afon, yn gartref i nifer o amwynderau, sydd yn darparu mynediad i'r afon ar gyfer teithiau a hamdden.

3.24 Mae'r dref wedi ei nodweddu gan dirwedd amrywiol. Mae castell Conwy ar godiad creigiog ar ben dwyreiniol y dref, yn agos i ble mae Afon Conwy yn cyfarfod â Môr Iwerddon. Mae'r ardal ar hyd y cei ac i'r de o Eglwys Santes Fair ar dir gwastad yn gyffredinol, sydd yna'n codi tua'r gorllewin i fyny'r Stryd Fawr. Mae'r lefelau newidiol yn rhan bwysig o edrychiad a chymeriad y dref.

3.25 Mae yna ddiffyg GI cyffredinol yng nghanol canoloesol y dref ac eithrio gerddi preifat, a hynny oherwydd y ffurf adeiledig manwl a'r strydoedd cul. Ond, ar hyd waliau'r castell ac yn nhiroedd y castell mae yna ardaloedd mawr o laswelltir, a ddefnyddir ar gyfer hamdden anffurfiol. O'r harbwr, mae yna fynediad uniongyrchol i'r foryd tywodlyd ar lanw isel, yn ogystal â Llwybr Arfordir Gogledd Cymru, sydd yn darparu cysylltiadau cerdded i Landudno i'r gogledd ddwyrain a Phenmaenmawr i'r de orllewin.

3.26 Parc Bodlondeb yw'r unig barc, ac mae'n fawr ac yn cael ei ddefnyddio'n dda gan y cyhoedd. Mae'r parc ar ochr orllewinol Aber Conwy a thu allan i waliau castell Tref Conwy gyda golygfeydd trawiadol o aber Conwy. Mae cyfleusterau chwaraeon yn y parc yn cynnwys cyrtiau tennis, cae criced, cae pêl-droed ac ardal chwarae i blant.

3.27 Mae presenoldeb GI yng ngosodiad y dref yn drawiadol. Mae Mynydd Conwy yn codi i'r gogledd orllewin, mae Tal y Fan yn weladwy i'r gorllewin, mae bryn coediog Benarth i'r de, ac yn y pellter tua'r de mae mynyddoedd y carneddau yn gefnlen.

3.28 Yng nghanol tref Conwy rhaid defnyddio ymagwedd gytbwys er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei warchod a'i wella tra'n bodloni angen lleol o ran GI, ac amcanion eraill mewn perthynas â chynaliadwyedd. Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth adeiladau a strwythurau hanesyddol o ganlyniad i dywydd anrhagweladwy a difrifol yn cynnwys llifogydd, ac mae eithafion newidiol y achosi problemau megis crebachiad pridd ac ymsuddiant. Mae asedau archeolegol oedd ar un adeg wedi eu gwarchod erbyn hyn yn wynebu risg o ddifrod o ganlyniad i eithafion o ran tymheredd. Gall gwelliannau ac ymyriadau GI yng nghanol tref Conwy nid yn unig wella ansawdd lle a gosodiad asedau treftadaeth presennol ond hefyd leihau risg llifogydd ac eithafion tymheredd. Gall amgylchedd hanesyddol o ansawdd uchel helpu i greu llefydd ble mae pobl eisiau ymweld â nhw a byw a gweithio ynddynt.

*Cyffordd Llandudno*


3.29 Mae Cyffordd Llandudno yn ganolfan fasnachol allweddol ar gyfer Sir Conwy. O gwmpas y ganolfan fasnachol yma, sydd wedi ei lleoli o naill ochra'r llall i'r A547 Ffordd Conwy, mae yna ddiffyg GI amlwg, megis Ystâd Ddiwydiannol Tre Marl. Ond, mae yna rai ardaloedd cul o goetir sydd yn cysylltu ac yn gwahanu safleoedd cyflogaeth.

3.30 Yn uniongyrchol ;r de ddwyrain o'r ardal fasnachol brysur yma mae 50 hectar Gwarchodfa Byd Natur RSPB Conwy. Mae'r warchodfa yn wlypdir ar lannau dwyreiniol Aber Conwy, sydd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt ac sydd yn gyrchfan fynych ar gyfer nifer o weithgareddau teuluol. Mae'r mynediad gorau i'r warchodfa ar y ffordd o gyffordd 18 yr A55, ac nid oes yna fawr o fynediad i gerddwyr heb groesi ffyrdd prysur.

3.31 Yn yr ardal breswyl i'r gogledd o'r ardal fasnachol, mae Cae Derw, sydd wedi ennill Baner Werdd, yn barc trefol o ansawdd uchel yn rhan ddwyreiniol y dref, sydd yn darparu cyfleoedd hamdden hanfodol am ddim i gymuned Cyffordd Llandudno. Mae yno ardd synhwyrau, ardaloedd penodol ar gyfer cŵn a chaeau chwaraeon. Mae mannau agored eraill yn yr ardal breswyl yn cynnwys Parc Fictoria a Pharc Sglefrio, tiroedd y Neuadd Goffa a'r gofod agored i'r dwyrain o Heol Fictoria.

3.32 Mae Coetiroedd a Gwarchodfa Natur Neuadd Marl i'r gogledd o'r dref, ac mae'n ased GI arwyddocaol sydd yn agos i'r ardal breswyl. Mae'r coetir lled naturiol hynafol 12 hectar yn cael ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Coetir ac mae'n nodwedd amlwg yn y tirlun. Mae'n safle arwyddocaol ar gyfer ystod eang o fioamrywiaeth, ac mae hefyd yn darparu cyfleoedd hamdden gyda nifer o lwybrau cerdded yn y coetir a golygfeydd gwych ar draws dyffryn Conwy.

**Ffigwr 5: Teipoleg GI – Conwy a Chyffordd Llandudno**




<u>Llandudno</u>

3.33 Llandudno yw'r dref fwyaf poblog yng Nghonwy. Mae dref nid yn unig yn gyrchfan glan môr boblogaidd i ymwelwyr, ond mae hi hefyd yn ganolfan siopa a masnach isranbarthol. Mae Glannau'r Gogledd yn Llandudno (Bae y Gogarth neu Fae Llandudno) yn fwa a fae sydd yn ymestyn am tua 2 filltir rhwng y Gogarth yn y gorllewin a'r Gogarth Bach yn y dwyrain. Mae'r rhan fwyaf o Landudno wedi ei hadeiladu ar dir isel rhwng y Gogarth a' Gogarth Bach. Mae yna benrhynau calchfaen carbonifferaidd ar y naill ben a'r llall i'r bae sydd yn nodweddion tirlun trawiadol sydd yn cyfrannu at osodiad y dref.

3.34 Mae agosrwydd y Gogarth, y môr a'r traeth yn gyferbyniad i natur adeiledig dwys y dref. Mae'r Gogarth yn ased GI sylweddol i'r dref, ac mae'n gartref i barc gwledig, sydd hefyd wedi ei ddynodi fel Ardal gadwraeth Arbennig (SAC), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac Arfordir Treftadaeth. Mae'r Gogarth yn cael ei werthfawrogi am ei fioamrywiaeth, ac mae'n cefnogi amrywiaeth o gynefinoedd yn cynnwys rhostiroedd a chlogwyni môr serth yn ogystal â rywogaethau prin. Gall ymwelwyr fynd ar y ceir cebl neu'r tram i'r top, ble mae yna ganolfan ymwelwyr, Cloddfa Hynafol, Llethr Sgio Llandudno a'r Ganolfan Eirafyrddio a nifer o lwybrau cerdded gyda golygfeydd panoramig dros Landudno ac allan i'r môr.


3.35 Mae'r promenâd llydan yn Llandudno yn dilyn linell Glannau'r Gogledd ac mae'n ofod agored gwerthfawr, sydd yn gyfochrog â'r wal fôr a'r traeth. Mae ardaloedd wedi'u plannu a lawntiau ar rannau o'r promenâd yn darparu elfennau gwyrdd.

3.36 Ar y cyfan, fel y dangosir yn Ffigwr 6, mae yna ddiffyg GI yng nghanol y dref, yn arbennig yr ardaloedd manwerthu a busnes ar hyd Ffordd Conwy yn cynnwys Parc Manwerthu Llandudno, Parc Siopa Mostyn Champneys a nifer o siopau mawrion. Mae patrwm grid strydoedd Llandudno, yn arbennig y rhai yn yr Ardal Gadwraeth, yn cyfrannu at gymeriad ac edrychiad y dref. Mae strydoedd cul yn cyferbynnu â Mostyn Broadway, Stryd Mostyn a Stryd Mostyn Uchaf, sydd yn gyfochrog â'r Promenâd ac sydd â cherbytffordd a phalmentydd llydan, er mai'r ffurf adeiledig sydd amlycaf. Yn gyffredinol mae yna brinder coed strydoedd er bod yna enghraifft o goed stryd wedi'u hintegreiddio'n dda ar hyd yr A546, sef un o'r prif ffyrdd i'r dref. Mae croesfannau mawr hefyd yn creu teimlad agored, er bod yno ddiffyg GI at ei gilydd.

3.37 Mae yna nifer o fannau agored trefol bychan yng nghanol y dref yn cynnwys Gerddi'r Gogledd Orllewin, yr ardal o gwmpas y senotaff a mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, y gofod agored cyhoeddus ar Lannau'r Gorllewin. Mae Parc Craig y Don yn nwyrain y dref ac mae'n ased cymunedol, sydd yn gartref i ardaloedd mawr o wellt ac offer chwarae awyr agored. Mae'r parc yn cynnal digwyddiadau cymunedol megis 'parti yn y parc' a diwrnodau hwyl i'r teulu. Mae yna gyfleusterau chwaraeon awyr agored mawr o fewn ffurf adeiledig Clwb Criced Llandudno a Clwb Rygbi'r Undeb Llandudno.

3.38 Y tu hwnt i ganol y dref i'r de a'r dwyrain, mae yna ardaloedd eang o GI yn cynnwys cyrsiau golff Gogledd Cymru a Maesdu. Mae ardaloedd mawr o laswelltir yn gwahanu ffin ddeheuol Llandudno a Llanrhos i'r de, ac i'r de o'r dref mae ardaloedd coetir Coed y Gell, Coed Gaer a Choed Isaf, a nifer o hawliau tramwyo (PRoW) yn eu croesi.

**Ffigwr 6: Teipoleg GI - Llandudno**




<u>Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn</u>

*Llandrillo-yn-Rhos*

3.39 Mae Llandrillo-yn-Rhos yn dref glan môr fechan rhwng Llandudno a Bae Colwyn. Mae llwybr y glannau yn dilyn y morglawdd ac yn cynnig golygfeydd dros yr harbwr bychan.

3.40 Mae gan y dref ganran uchel o orchudd GI. Ble mae yna ddiffyg GI, mae hynny yn weladwy ar hyd y prif goridorau ffyrdd megis Ffordd yr Abaty a Heol y Môr. Mae mannau gwyrdd bychan a chyfleusterau chwaraeon yn torri ar y ffurf adeiledig, megis Parc Rhos, campfa awyr agored Llandrillo-yn-Rhos a mannau gwyrdd amwynder mewn ardaloedd preswyl.

3.41 O ran gweithgareddau hamdden, mae Llwybr Treftadaeth Llandrillo-yn-Rhos yn cynnwys 25 o safleoedd hanesyddol ar daith tair awr. Mae hwylio, pysgota a nofio môr yn boblogaidd, ac mae llwybr yr arfordir yn boblogaidd gyda seiclwyr. Mae yna nifer fynedfeydd i gerddwyr i'r llwybr arfordir a thraeth Llandrillo-yn-Rhos, er bid Heol y Môr yn darparu peth gwahaniad. Mae'r rhyngwyneb rhwng y dref a'r arfordir yn fwy cydlynol nag yn nhrefi cyfagos Bae Colwyn a Hen Golwyn ble mae'r A55 yn darparu peth gwahaniad.

3.42 Mae Gwarchodfa Natur Bryn Euryn yn ne orllewin y dref ac mae'n fryn calchfaen amlwg sydd yn cynnwys glaswelltir a choetir, a rhan ohono wedi ei ddynodi yn SSSI. Mae'r warchodfa yn hygyrch iawn gyda llwybr cerdded cylchog wedi ei farcio, ac mae yna olygfeydd trawiadol o ben y bryn, sydd hefyd wedi ei ddynodi fel Heneb Cofrestredig. Mae cwrs golff Llandrillo-yn-Rhos i ogledd orllewin y dref, yn ffinio â'r arfordir.

*Bae Colwyn*

3.43 Mae gan Fae Colwyn tua 9,700o drigolion ac mae'n ail ganolfan fanwerthu fwyaf Conwy. Mae'r A55 yn mynd drwy ogledd y dref, yn gyfochrog â rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru, ac mae'r A547 Ffordd Conwy yn mynd drwy ganol y dref. Mae'r A55 yn achosi peth gwahaniad rhwng y brif dref a thraeth Baner Las Bae Colwyn, gyda mynediad drwy danffyrdd a ffyrdd ac arwyddion cyfyngedig i Lwybr Arfordir Gogledd Cymru sydd yn uniongyrchol yng ngogledd y dref. Mae promenâd yn ffinio â'r traeth, gyda lefydd parcio ar y stryd yn uniongyrchol i'r de.

3.44 Y canol tref clos, sydd wedi ei ganoli ar Ffordd Abergele yw'r ardal sydd â GI cyfyngedig. Mae yna ddiffyg coed stryd penodol yn amgylchedd canol y dref, er eu bod yn cynyddu ar hyd strydoedd preswyl i'r gogledd a'r de. Fel yn Llandrillo-yn-Rhos, mae gerddi preifat yn chwarae rôl allweddol o ran cynyddu gorchudd GI ledled y dref yn fwy eang.

3.45 Mae Bae Colwyn wedi wynebu cyfnodau estynedig o ddirywiad economaidd ac amddifadedd mynych, sydd yn golygu bod gwelliannau i amodau economaidd gymdeithasol yn hanfodol. Yn benodol, mae Bae Colwyn wedi wynebu dirywiad sylweddol yn y diwydiant twristiaeth. Mae CBSC wedi datblygu Uwchgynllun Bae Colwyn - 'Uwchgynllun Bywyd y Bae' - drwy gynnal ymgynghoriadau a gweithdai lleol. Mae'r Uwchgynllun yn darparu fframwaith ar gyfer adferiad ffisegol y dref gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol o ran newid er mwyn sefydlu Bae Colwyn fel canolfan ranbarthol ar gyfer busnes a hamdden.

3.46 Un o asedau GI allweddol y dref a Chonwy yn ehangach yr Parc Eirias, parc cyhoeddus 20 hectar i'r gogledd ddwyrain o ganol y dref, sydd yn gartref i gyrtiau tennis awyr agored, llyn cychod, ardal chwarae i blant, ardal bicnic, cyfleusterau chwaraeon, Stadiwm Eirias a Chanolfan Hamdden Colwyn. Mae'r parc nid yn unig yn cael ei werthfawrogi fel man awyr agored gwyrdd gan drigolion, ond mae hefyd yn cynnal cyngherddau ac yn dangos ffilmiau sinema awyr agored sydd yn denu ymwelwyr a thrigolion o ardal ehangach.

3.47 Ased arall i'r de o ganol y dref yw Coed Pwllycrochan, sydd a mynediad cyhoeddus o strydoedd preswyl cyfagos. Mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn bennaf gysylltiedig â thiroedd ysgol, er bod Parc Eirias yn darparu ystod eang o gyfleusterau hygyrch i'r cyhoedd, sydd yn rhai dan do ac awyr agored.

3.48 Mae gan y dref nifer o grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Er enghraifft, mae Bae Colwyn wedi derbyn gwobr aur wyth gwaith yn y gystadleuaeth Cymru'n Blodeuo.

*Hen Golwyn*


3.49 Mae Hen Golwyn yn uniongyrchol i'r dwyrain o Fae Colwyn. Eto, gerddi preifat yw'r rhan fwyaf o GI yn y dref at ei gilydd, er mai'r ardal sydd â'r diffyg amlycaf o GI yw canol y dref ble mae'r A547 yn rhannu'r dref.

3.50 Mae Gerddi Wynn yn barc trefol bychan mewn ardal breswyl yn bennaf, ac mae mewn lleoliad canolog yn Hen Golwyn. Gerddi Wynn oedd parc trefol cyntaf Conwy i dderbyn statws Baner Werdd yn 2009. Mae'r parc yn ased cymunedol sydd yn cael defnydd da sydd yn cynnwys cerfluniau, ffynnon, gardd synhwyrau, gardd gyfeillgar i loÿnnod byw a digonedd o ofod gwyrdd i ymlacio.

3.51 Mae Gwarchodfa Natur Leol (LNR) Fairy Glen yn cwmpasu pant coediog sydd yn dilyn cwrs Afon Colwyn. Mae Fairy Glen yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac ymwelwyr am ei fywyd gwyllt a chyfleoedd hamdden. Mae'r LNR wedi derbyn buddsoddiad a gwelliannau er mwyn gwella mynediad i'r ardal. Mae'r rhwydwaith llwybrau yn cynnwys Llwybr Gogledd Cymru sydd ar echel gogledd-de er mwyn ymuno â Llwybr Arfordir Cymru yn y gogledd.

3.52 Ymhellach i'r gogledd ar hyd Afon Colwyn mae Coetir Min-y-Don 12 acer, sydd nid yn unig yn cyflawni swyddogaethau o ran hamdden a bywyd gwyllt, ond mae iddo hefyd ddiddordeb treftadaeth, oherwydd plannwyd pob coeden fel cofeb byw i drigolion Hen Golwyn a laddwyd yn ystod y ddwy Ryfel Byd. I'r gorllewin i'r coetir mae llain fowlio Min-y-Don.

**Ffigwr 7: Teipoleg GI – Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn**




<u>Abergele, Pensarn a Thowyn a Bae Cinmel</u>

3.53 Mae Abergele yn dref farchnad fechan i'r dwyrain o Fae Colwyn sydd â thua 10,000 o drigolion. Mae wedi ei lleoli ar yr A55 ac wedi ei hamgylchynu â bryniau coediog i'r de, sydd yn gartref i nifer o asedau treftadaeth megis caerau oes yr haearn. Mae'r dref yn llawn asedau GI presennol, gyda rhai ardaloedd heb GI ar hyd yr A547 drwy ganol y dref, ble mae unedau masnachol a manwerthu yn amlwg. Ond, mae tiroedd Castell Gwrych a Pharc Gele yn yr ardal hon ar echel gogledd-de ac maent yn hygyrch o'r ardal fasnachol.

3.54 Mae yna brinder penodol o goed stryd yn y dref, Roedd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn amlygu'r gwaith gwaredu coed stryd sylweddol a ddigwyddodd yng Nghraig y Don nad ydynt wedi cael eu hamnewid, ac mai dim ond un goeden stryd sydd yng nghanol y dref ar hyn o bryd.

3.55 Mae'r dref yn nodedig oherwydd Castell Gwrych a'r tiroedd 250 acer i'r de orllewin o Abergele. Mae'r castell yn agored yn ddyddiol ac mae tâl mynediad yn golygu bod y castell yn fwy o brofiad i ymwelwyr.

3.56 Pentre Mawr yw'r parc mwyaf yn y sir, wedi ei leoli yng ngogledd y dref a ddenodd fuddsoddiad yn 2012 ar gyfer platfform gwylio newydd ac ynysoedd cynefinoedd yn y llyn mawr yn 2012. Mae'r parc yn ased GI gwerthfawr, yn cynnwys llwybr perimedr, ardal bioamrywiaeth, gardd a dôl tawel o fewn muriau.

3.57 Pensarn yw cangen arfordirol Abergele, sydd yn gartref i draeth tywod traddodiadol gyda phromenâd, cyfleusterau difyrrwch a chaffi. Ym Mhensarn mae'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghonwy. Mae'r traeth wedi derbyn Gwobr y Glannau. Mae'r promenâd yn un bychan ond yn un sydd yn cael defnydd da, ond yn bennaf gan ymwelwyr. Mae yna wal galed ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd a llefydd parcio, a chyfyngiad cyflymder o 30mph, er bod hynny yn cael ei dorri yn aml. Mae'n amlwg o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid mai'r nod ar gyfer yr ardal yw bod yn gyrchfan ymwelwyr fydd yn denu ymwelwyr o ardal ehangach.


*Towyn a Bae Cinmel*

3.58 Mae trefi arfordirol bychan Towyn a Bae Cinmel yn rhan ogledd ddwyreiniol Bwrdeistref Sirol Conwy, ar y ffin â Sir Ddinbych, yn agos i'r Rhyl. Mae Rheilffordd Gogledd Cymru yn rhannu'r anheddiad, gan redeg o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae ardaloedd eang wedi eu meddiannu â pharciau carafannau ar y glannau, yn arbennig yr ardal sydd yn gwahanu'r aneddiadau oddi wrth Abergele. Mae'r Afon Clwyd yn llifo i'r dwyrain o Fae Cinmel ac mae Marine Lake yn Y Rhyl ar ei glannau. Mae yna laswelltir a phrysgdir, yn cynnwys datblygiadau preswyl, hyd at lan yr afon.

3.59 Mae'r diffyg GI yn y ddwy dref yn deillio'n bennaf o drefniant y ffurf adeiledig, gyda gerddi preifat, ardaloedd amaethyddol a choetir yn ffurfio'r rhan fwyaf o GI. Mae yna berllan oddi ar Heol Morfa ym Mae Cinmel a nifer o barciau gydag ardaloedd chwarae awyr agored. Mae twyni tywod llinol yn rhedeg ar hyd ffiniau Bae Cinmel, sydd yn gwahanu'r dref a'r traeth. Mae Gwarchodfa Natur Horton's Nose ar bwynt mwyaf gogledd ddwyreiniol Bwrdeistref Conwy, gyda llwybr pren a golygfeydd trawiadol. Mae Parc Towyn i'r dwyrain o Dowyn, sydd yn cynnwys llyn mawr, campfa awyr agored, gofod agored a lleiniau chwaraeon.

3.60 Amlygodd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid bod llifogydd yn broblem fawr yn y dref yn dilyn llifogydd yn 1990, 2012, 2013 a 2014. Mae yna rai prosiectau cymunedol cysylltiedig â GI sydd wedi creu buddion lleol gwych hyd yma. Coetir Cymunedol Heol Caer, a grëwyd 15 mlynedd yn ôl ar dir dirlawn. Er gwaetha'r enw 'Heol Caer' nid yw'r ffordd yn gartref i unrhyw goed stryd, er eu harwyddocâd hanesyddol mewn perthynas ag enwi'r heol. Mae Heol Llanelwy yn gartref i wrych sefydledig o werth bioamrywiaeth, sydd yn goridor bywyd gwyllt lleol arwyddocaol.

**Ffigwr 8: Teipoleg GI – Pensarn a Thowyn a Bae Cinmel**




**GI presennol yn yr ardaloedd Arfordirol Trefol - Negeseuon Allweddol**

- Mae yna brinder GI cyffredinol mewn rhannau o ganol trefi ar hyd y llain arfordirol;
- Mae'r A55 yn creu peth gwahaniad ar gyfer cerddwyr rhwng trefi arfordirol a thraethau;
- Eisoes mae yna nifer o asedau GI yn bodoli ymysg y ffurf adeiledig yn nhrefi allweddol Conwy y dylid eu gwella, a dylid gwella mynediad;
- Mae parciau canol trefi presennol yn asedau GI pwysig, a gellid eu gwneud yn fwy hygyrch;
- Mae asedau treftadaeth megis y rhai yng nghanol tref Conwy yn agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- Mae diffyg gorchudd coed ar hyd prif ffyrdd wedi arwain at drefoli tirlun golygfaol iawn;
- Yn gyffredinol mae yna fynediad da mewn car o drefi arfordirol i gefn gwlad i'r de, er y gellid gwneud mwy i hyrwyddo teithio actif; a
- Mae gan GI y potensial i wella asedau economi ymwelwyr a threftadaeth Conwy.

Amlbwrpasedd GI


3.61 Gan ddefnyddio meddalwedd mapio, mae amlbwrpasedd GI yn cael ei fapio ledled Conwy. Mae'r dull yn ffeithiol, gwrthrychol a meintiol ac yn defnyddio meini prawf a gydnabyddir yn genedlaethol sydd yn gymwys i Gonwy. Fel rhan o'r GIA, mae pob ased wedi cael ei asesu am ei allu i gyflawni hyd at 22 o swyddogaethau. Dewiswyd y swyddogaethau yma oherwydd mai'r rhain oedd fwyaf perthnasol i flaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cyngor Conwy a Gogledd Orllewin Cymru, ac fe'u dangosir yn Ffigwr 9 isod. Mae Ffigwr 9 yn cyflwyno crynodeb o'r penderfyniadau a wneir mewn asesiadau amlbwrpasedd. Mae mwy o wybodaeth am sut a pham yr asesir swyddogaeth ar gael yn Ffigwr 10 a Thabl 4.

**Ffigwr 9: Swyddogaethau a Disgrifiadau GI**

| Swyddogaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| Hamdden - Cyhoeddus | Tir hygyrch i'r cyhoedd sydd ar gael at ddibenion hamdden |
| Hamdden - Preifat | Tir preifat sydd yn galluogi gweithgareddau hamdden megid gardd breifat, neu safle sydd yn gofyn am ffi mynediad megis eiddo |
| Llwybr Teithio Gwyrdd | Fel arfer, llwybr oddi ar y ffordd ar gyfer seiclwyr a cherddwyr mewn gosodiad gwyrdd |
| Esthetig | Mae'n darparu gosodiad neu amgylchedd sydd yn weledol apelgar neu |
| Cysgod rhag yr Haul | Mae'n darparu ardaloedd o gysgod, megis plannu coed |
| Anweddu drwy oeri | Tymheredd is yn arwain at ddŵr yn anweddu oddi ar ddail |
| Gwaredu llygryddion | Y gallu i waredu neu hidlo llygryddion o'r aer |
| Amsugno Sŵn | Y gallu i weithredu fel rhwystr sŵn neu i amsugno sŵn, ac mae o fewn 250m o Ffyrdd A, traffyrdd neu reilffyrdd |
| Cynefin i Fywyd Gwyllt | Mae'n darparu cynefin ar gyfer un neu ystod o rywogaethau a ddangosir drwy groestorri â dynodiad ecolegol |
| Coridor ar gyfer Bywyd | Cynefinoedd sydd yn cysylltu ac yn darparu tramwyfa i fywyd gwyllt |
| Sefydlu Pridd | Y gallu i leihau erydiad dŵr a gwynt, sydd yn arbennig o bwysig ar lethrau er mwyn lleihau'r risg o fanciau ansefydlog neu dirlithriadau. |
| Treftadaeth | Parsel o dir â dynodiad treftadaeth neu ag arwyddocâd treftadaeth lleol |
| Diwylliant | Parsel o dir sydd â diddordeb neu arwyddocâd diwylliannol |
| Storio Carbon | Mae'n galluogi gwaredu carbon deuocsid o'r atmosffer a'i storio |
| Cynhyrchu bwyd | Mae cynnyrch megis ffrwythau a llysiau yn gynnyrch y tir, er enghraifft rhandir |
| Cysgod rhag y gwynt | GI sydd yn darparu cysgod rhag y gwynt. Gall coed arafu cyflymder y gwynt mewn ardaloedd trefol er mwyn lleihau sianelau gwynt |
| Dysgu | Mae'n darparu cyfleoedd addysgol |
| Rhyng-gipio dŵr | Y gallu i rhyng-gipio dŵr gan ddail, canghennau, planhigion a llawr y goedwig, sydd yn lleihau'r dŵr glaw sydd yn cyrraedd y pridd. |
| Trawsgludo dŵr | Mae'n galluogi cludiant neu lif dŵr |
| Storio Dŵr | Mae'n galluogi cadw dŵr, megid yn achos pwll |
| Ymdreiddiad dŵr | Wyneb sydd yn galluogi i ddŵr fynd i mewn i'r pridd |
| Gostyngiad Llif drwy Erwinder Wyneb | Mae wyneb â gwead garw, megis llawr coedwig neu brysgdir, yn lleihau cyflymder llif dŵr |

3.62 Mae'r cynlluniau amlbwrpasedd (Ffigyrau 12-18) yn cynnwys mapiau 'gwres' sydd yn rhoi arwydd defnyddiol o ble mae'r GI mwyaf amlbwrpas wedi ei leoli. Mae'r dull yn defnyddio setiau data ffynhonnell agored a rhai sydd yn eiddo i'r cyngor er mwyn asesu nifer y swyddogaethau y gall pob ardal ei ddarparu, yn seiliedig ar ei deipoleg GI a'i leoliad. Mae Ffigwr 10 a Thabl 4 isod yn enghraifft o'r dull ar waith mewn parsel o goetir yng Nghonwy.

**Ffigwr 10: Parsel o goetir enghreifftiol a ddadansoddwyd am ei amlbwrpasedd**




**Tabl 4: Asesiad Amlbwrpasedd a gynhaliwyd ar gyfer pob parsel o dir**

| Swyddogaeth | Cyflawnwyd gan y Parsel o Dir? | Eglurhad |
|---|---|---|
| Hamdden - Cyhoeddus | Do | Os nad oes dim rhwystrau mynediad |
| Hamdden - Preifat | Na | Nid yw'n croestorri â chyfleoedd hamdden preifat |
| Llwybr Teithio Gwyrdd | Do | O fewn 20m o rwydwaith seiclo neu PRoW |
| Esthetig | Do | Gi yn cyfrannu at amwynder gweledol ac ansawdd olygfaol |
| Cysgod rhag yr Haul | Do | Parsel yn cynnwys gorchudd coed |

| Swyddogaeth | Cyflawnwyd gan y Parsel o Dir? | Eglurhad |
|---|---|---|
| Anweddu drwy oeri | Do | Llystyfiant yn trydarthu ac yn cyfrannu at broses anweddu drwy oeri |
| Gwaredu llygryddion | Do | Mae'n cynnwys gorchudd coed |
| Amsugno Sŵn | Na | Dim o fewn 250m i Ffyrdd A, Traffyrdd neu Reilffyrdd |
| Cynefin i Fywyd Gwyllt | Do | Os yw'n croestorri dynodiad ecolegol (SSSI, SPA, SAC safleoedd Bioamrywiaeth Lleol neu Gynefin Blaenoriaethol) |
| Coridor ar gyfer Bywyd Gwyllt | Do | 50M o gynefin presennol ar gyfer swyddogaeth bywyd gwyllt, neu yn y setiau data rhwydwaith cynefinoedd |
| Sefydlu Pridd | Na | Nid yw'n croestorri â phridd tywodlyd |
| Treftadaeth | Do | Mewn ardal o bwysigrwydd hanesyddol |
| Diwylliant | Na | Nid oes ganddo ddynodiad treftadaeth ddiwylliannol |
| Storio Carbon | Do | Mae'n cynnwys gorchudd coed |
| Cynhyrchu bwyd | Na | Nid yw'n cyfrannu at gynhyrchu bwyd |
| Cysgod rhag y gwynt | Do | Cynnwys gorchudd coed sydd yn newid grym y gwynt |
| Dysgu | Na | Ddim o fewn 500m o ganolfan addysg |
| Storio Dŵr | Na | Nid yw'n croestorri â phridd tywodlyd |
| Rhyng-gipio dŵr | Do | mae'n cynnwys gorchudd coed sydd yn rhyng-gipio dŵr glaw |
| Ymdreiddiad dŵr | Do | Mae' cynnwys wyneb athraidd |
| Trawsgludo dŵr | Na | Ddim o fewn 10m i gwrs dŵr |
| Gostyngiad Llif drwy Erwinder Wyneb | Do | Gerwinder wyneb sylweddol |
| **Cyfanswm sgôr swyddogaethau** | **14** | |

3.63 Mae'n bwysig nodi nad yw swyddogaeth GI isel o reidrwydd yn golygu mai gwerth neu ansawdd isel sydd i'r tir. Efallai na fydd rhai asedau GI ond yn gallu cyflawni nifer cyfyngedig o swyddogaethau, ac eto gallent fod yn bwysig iawn i'w defnyddwyr, neu i fywyd gwyllt. Y ffactor allweddol yw fod GI yn bodloni anghenion lleol, ac oherwydd hynny mae'r gwaith o gynhyrchu'r GIA yma wedi bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi cynnwys ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.


3.64 Bydd cynllunio ar gyfer GI amlbwrpas ond yn effeithiol os bydd hynny yn cael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy. Mae cyflawni datblygu cynaliadwy yn golygu bod angen i ni weithio tuag at dair colofn cynaliadwyedd, sydd yn cynnwys tair nod trosfwaol[4]:

- Y nod economaidd - helpu i adeiladu economi gref, ymatebol a chystadleuol.
- Y nod gymdeithasol - cefnogi cymunedau cryf ac iach mewn amgylchedd diogel wedi ei ddylunio yn dda, gyda gofodau agored hygyrch ar gyfer y boblogaeth gyfan.
- Y nod amgylcheddol - cyfrannu at warchod a gwella ein amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol; gwneud defnydd effeithiol o dir, gwella bioamrywiaeth, defnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol, lleihau gwastraff a llygredd, lliniaru ac addasu i newid hinsawdd a symud i economi carbon isel.

3.65 Mae Ffigwr 11 yn dangos sut mae'r swyddogaethau a'r buddion niferus sydd yn deillio o GI a amlinellir uchod yn perthyn i bob colofn. Gall amcanu at bob colofn cynaliadwyedd arwain at greu ystod eang o fuddion rhyng-gysylltiedig ar gyfer cymunedau cyfan.

[4] Gan gyfeirio at baragraff 8 y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

**Ffigwr 11: Y cysylltiad rhwng buddion GI (cyfeirier at Ffigwr 1) a 3 colofn cynaliadwyedd**





3.66 Fel y dangosir yn Ffigwr 12, yr ardal daearyddol mwyaf o ran amlbwrpasedd yw'r ardal coetir ym Mynydd Hiraethog a choedwig Clocaenog yn ne ddwyrain y fwrdeistref. Mae ardaloedd coediog eraill ledled y fwrdeistref hefyd yn dangos lefel uchel o amlbwrpasedd, gan waredu llygryddion, darparu coridorau bywyd gwyllt, amsugno sŵn, rhyng-gipio dŵr a chysgodi rhag yr haul i enwi dim ond rhai o'r swyddogaethau a gyflawnir.


3.67 Ar hyd y llain arfordirol, mae swyddogaethau GI yn tueddu i gynyddu tuag ymylon y trefi arfordirol, ond mae yna eithriadau amlwg, megis yr ardaloedd parciau trefol a'r coridorau afonydd. Mae mwy o wybodaeth ar swyddogaeth GI presennol ar hyd y llain arfordirol yn cae ei dangos yn Ffigyrau 13-18.

3.68 Mae'r ardal sydd yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri yn dangos lefel uchel o amlbwrpasedd, a Choed Dolgarrog hefyd.

**Ffigwr 12: Amlbwrpasedd GI ledled Conwy**




**Ffigwr 14: Amlbwrpasedd GI - Llanfairfechan a Phenmaenmawr**




**Llanfairfechan a Phenmaenmawr – Negeseuon Allweddol**

- Yn gyffredinol mae mwy o GI amlbwrpas ar gyrion y trefi ac mae’r lefelau isaf o amlbwrpasedd i’w gweld yng nghanol y trefi ac ardaloedd preswyl.
- Mae ardaloedd mwy gyda lefelau amlbwrpasedd uwch yn gyffredinol gysylltiedig â choetir, ar gyrion yr anheddiad, yn benodol i’r de orllewin o Benmaenmawr.
- Mae rhai rhannau o dir ar hyd coridor Afon Ddu yn amlbwrpas, er bod amlbwrpasedd yn lleihau pan fo’r afon wedi ei chyfyngu gan ddatblygiad preswyl.
- Mae’r tir amaethyddol sydd yn amgylchynu’r aneddiadau yn perfformio swyddogaethau cymharol fychan o ran niferoedd.
- Chwarel Pen Dinas i’r de orllewin o Benmaenmawr yw’r ardal fwyaf sydd yn perfformio yn benodol wael mewn perthynas ag amlbwrpasedd.


**Ffigwr 15: Amlbwrpasedd GI - Conwy a Chyffordd Llandudno**




**Conwy a Chyffordd Llandudno - Negeseuon Allweddol**

- Mae amlbwrpasedd yn wael yng nghraidd hanesyddol Conwy, yn y dref furiog, yn ogystal â'r ardaloedd preswyl i'r de a'r de orllewin.
- Mae ardal goediog Coed Benarth SSSI i'r de ddwyrain o ganol tref Conwy, ar hyd Afon Conwy, yn perfformio'n dda o ran amlbwrpasedd.
- Mae Parc a Gwarchodfa Natur Leol Bodlondeb yn ardal amlbwrpas sylweddol i'r gogledd o ganol y dref, sydd yn hygyrch o lwybr yr arfordir, gyda nodweddion megis llwybrau troed drwy goetir, cyfleusterau chwaraeon a chynefinoedd amrywiol.
- Mae'r tir amaethyddol sydd yn amgylchynu'r ddwy dref yn perfformio swyddogaethau cyfyngedig.
- Mae Ystâd Ddiwydiannol Tre-Marl yng Nghyffordd Llandudno a'r ardaloedd manwerthu amgylchynol yn perfformio'n wael o ran amlbwrpasedd, er bod lleiniau coetir sydd yn gwahanu unedau, ar hyd yr A55 ac ar lannau Afon Conwy, yn ychwanegu rhai ardaloedd rhygn-gysylltiedig o amlbwrpasedd.
- Nid yw strydoedd preswyl yng Nghyffordd Llandudno yn perfformio'n dda o ran GI, ac mae rhai coed strydoedd ar hyd rhai ffyrdd yn cynyddu amlbwrpasedd (megis Heol San Sior).
- Mae Coed a Gwarchodfa Natur Neuadd Marl i'r gogledd ddwyrain o'r dref yn ased amlbwrpas, sydd yn perfformio cymaint ag 17 o swyddogaethau.


**Ffigwr 16: Amlbwrpasedd GI - Llandudno**




**Llandudno - Negeseuon Allweddol**

- Mae amlbwrpasedd yn gyfyngedig yng nghanol trefi Llandudno, Llanrhos a Llandrillo-yn-Rhos a'r ardaloedd preswyl amgylchynol.
- Mae'r Gogarth yn ardal sydd yn perfformio nifer cymedrol o swyddogaethau.
- Mae'r tir amaethyddol sydd yn gwahanu'r trefi yn gyffredinol â lefel isel o swyddogaethau gyda rhai rhannau o goetir gwasgaredig yn cynyddu amlbwrpasedd.
- Mae'r ardal coetir i'r dwyrain o Landudno yn cynnwys Coed Caer a Choed Isaf â lefelau uchel o amlbwrpasedd, yn ogystal â gwarchodfa Natur Bryn Pydew ymhellach i'r de.


**Ffigwr 17: Amlbwrpasedd GI - Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn**




**Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn– Negeseuon Allweddol**

- Mae yna brinder penodol o GI amlbwrpas yn ardaloedd adeiledig Llandrillo-yn-Rhos, yn arbennig ar hyd y strydoedd preswyl. Mae Gwarchodfa Natur Bryn Euryn i'r de orllewin o Landrillo-yn-Rhos yn darparu ardal amlbwrpas yng nghanol y ffurf adeiledig.
- Yn gyffredinol, mae GI yn perfformio swyddogaethau cyfyngedig yng nghanol trefi Bae Colwyn a Hen Golwyn, gyda mwy o GI amlbwrpas ar gyrion y trefi. Mae Parc Eirias yn ased GI sylweddol sydd yn perfformio yn gymedrol i uchel o ran swyddogaethau rhwng y ddwy dref.
- Mae coridorau Nant y Groes ac Afon Colwyn yn ardaloedd amlbwrpas sydd yn rhedeg i'r gogledd drwy'r ardaloedd trefol tua'r arfordir, gyda choetir o boptu a llwybrau troed hygyrch megis Gwarchodfa Natur Leol Fairy Glen yn Hen Golwyn.
- Mae'r byffer coetir a blannwyd sydd yn gwahanu'r trefi oddi wrth yr A55 yn perfformio nifer o swyddogaethau.
- Mae LNR Coed Pwllycrochan yn ased amlbwrpas mawr sydd yn hollti Bae Colwyn ar echel dwyrain/gorllewin.

**Ffigwr 18: Amlbwrpasedd GI - Abergele, Pensarn a Thowyn a Bae Cinmel**




**Abergele, Pensarn a Thowyn a Bae Cinmel– Negeseuon Allweddol**

- Yn gyffredinol, mae GI yn ardal adeiledig Abergele yn perfformio swyddogaethau cyfyngedig iawn, er bod y coed strydoedd yn yr ardaloedd preswyl i'r de o Stryd y Farchnad yn darparu rhai ardaloedd o GI amlbwrpas.
- Mae'r coetir i'r de orllewin (Coed y Gopa) a'r de ddwyrain (Coed Abergele) o'r ardal adeiledig yn Abergele yn perfformio nifer uwch o swyddogaethau.
- Mae GI yn Nhowyn a Bae Cinmel yn perfformio swyddogaethau cyfyngedig iawn o'i gymharu â threfi arfordirol eraill Conwy, gydag ardaloedd â diffyg GI o gwmpas Ffair Tir Prince, Ystâd Fasnachu y Bae ac ar hyd yr arfordir.
- Mae gan Goridor Afon Clwyd amlbwrpasedd cymedrol.
- Mae'r tir amaethyddol rhwng yr aneddiadau yn perfformio swyddogaethau cyfyngedig.
- Mae Coetir Parc Cinmel, i'r de o'r A55, yn ardal eang o GI sydd yn perfformio nifer o swyddogaethau.

Ansawdd GI

3.69 Mae'r mapiau amlbwrpasedd yn dangos bod swyddogaethau mynych yn aml yn gysylltiedig ag ansawdd amgylcheddol uchel[5], er enghraifft lefelau uchel o ran swyddogaethau mewn ardaloedd yn cynnwys Mynydd Hiraethog a'r coetiroedd sydd yn amgylchynu Abergele. Mae lefel uchel o ran swyddogaethau fel arfer yn awgrymu amrywiaeth ac aeddfedrwydd GI, ac fel arfer yn awgrymu bod y safle yn cael ei werthfawrogi gan amrywiaeth o ddefnyddwyr, ond byddai angen asesiad safle benodol er mwyn barnu a yw ardal benodol yn cael ei rheoli'n dda ai peidio ac mewn cyflwr da.

3.70 Nid yw swyddogaeth GI isel yn cyfateb yn uniongyrchol â thir sydd â gwerth neu ansawdd isel. Mae amgylchedd â swyddogaeth uchel yn fwy tebygol o gael ei werthfawrogi'n eang ac o gael ei reoli'n dda o ganlyniad i hynny, ond byddai dal angen asesiadau ansawdd safle benodol er mwyn asesu a yw safleoedd penodol yn cael eu rheoli mor dda ag y gellid, o ystyried anghenion lleol.

3.71 Mae angen mynd i'r afael ag ansawdd, a pherthynas hynny gyda chyflawni buddion GI, ar bob cam, yn cynnwys dylunio, amodau cynllunio, darparu a rheoli yn y tymor hir. Ni fydd hyd yn oed GI a ddylunnir yn dda yn cyflawni'r ystod lawn o fuddion oni bai yr ymdrinnir â'r ffordd y'u rheolir yn yr hirdymor o'r dechrau.

3.72 Mae cynnal asesiad ansawdd GI ar gyfer y fwrdeistref gyfan ac enwi targedau ansawdd penodol neu ddiffygion presennol y tu hwnt i gwmpas y comisiwn yma. Er hynny mae'r ymgynghori â rhanddeiliaid wedi nodi prosiectau sydd yn taclo diffygion hysbys mewn ansawdd GI. Er bod amlbwrpasedd yn adnodd defnyddiol, mae'n bwysig bod hynny yn cael ei groeswirio â gwybodaeth leol a'i fod wedi'i alinio ag anghenion pobl a byd natur ledled y fwrdeistref, ac mae'r broses hon wedi ei hamlinellu yn Adran 4.0.

[5] Mesur o gyflwr amgylchedd mewn perthynas â gofynion un neu ragor o rywogaethau, unrhyw angen gan bobl neu ddiben. Mae'n cynnwys mesurau megis llygredd, potensial esthetig ac o ran cynefin (Johnson et al (1997). "Meanings of environmental terms." *Journal of Environmental Quality.* 26: 581–89.)

# 4.0 Dadansoddiad o Anghenion a Swyddogaethau GI

4.1 Un o brif amcanion y GIA yw nodi ble mae'r angen am GI yn cael ei fodloni, neu ddim yn cael ei fodloni ar hyn o bryd. Gan ddefnyddio dadansoddiad gofodol gwrthrychol, wedi ei hysbysu gan ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae'r adran hon yn nodi ble gall buddsoddiad mewn GI amlbwrpas greu mwyaf o fuddion i gymdeithas a by natur er mwyn bodloni angen lleol yn effeithiol, a chefnogi amcanion y GIA a'r RLDP, yn ogystal â Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru CNC.

4.2 O ystyried bod bron i 98%o Gonwy yn GI, ffocws y cam yma yw creu darlun y ble dylid targedu ymyriadau GI er mwyn creu'r deilliannau mwyaf effeithiol. Er mwy deall ble gall GI greu'r buddion mwyaf, defnyddir amrywiaeth o adnoddau megis canllawiau a meincnodau cenedlaethol a lleol, gwybodaeth rhanddeiliaid a'r map amlbwrpasedd a ddangosir yn Adran 3.0.

4.3 Yn ddelfrydol, dylai GI amlbwrpas gael ei alinio ag angen, sydd yn golygu bod GI yn creu'r buddion mwyaf pan fo galw yn bodoli gan bobl a byd natur.  Mae Ffigwr 19 isod yn fatrics sydd yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu strategaeth. Mae'n amlygu y dylai GI, pan fo iddo swyddogaeth uchel, gael ei ddiogelu a'i wella er mwyn parhau i fodloni angen lleol. Er enghraifft, mae'r corstir uchel ar Fynydd Hiraethog ar y ffin â Sir Ddinbych, yn ardal â swyddogaeth GI lefel uchel. Gall rheoli a gwarchodaeth effeithiol sicrhau bod swyddogaethau niferus y corstir uchel yma, yn cynnwys darpariaeth hamdden, storio carbon a darparu cynefinoedd bywyd gwyllt, yn cael eu cynnal a'u gwella, yn unol â blaenoriaethau Datganiad Ardal CNC ar gyfer ecosystemau cydnerth.


4.4 Ar y llaw arall, pan fo anghenion yn cael eu bodloni yn annigonol gan GI presennol neu ddiffyg GI, mae angen creu a gwella GI. Mae yna ardaloedd mawr o drefi arfordirol Conwy ble mae yna ddiffyg Gi ar hyn o bryd neu ble mae GI yn perfformio nifer fechan o swyddogaethau. Mae gwella asedau GI presennol a chreu gofodau gwyrdd amlbwrpas newydd yn darparu ystod o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn agos i drefi poblog Conwy.

4.5 Yn nhermau amlbwrpasedd GI ar gyfer Abergele, Pensarn, Towyn a Bae Cinmel, roedd y negeseuon allweddol (a amlygwyd yn Adran 3) yn dangos y GI â lefel isel o swyddogaethau yn Nhowyn a Bae Cinmel. Mae'r astudiaeth achos ar gyfer Pac Hanes a Bae Cinmel (gweler adran 5) yn ystyried sut y gellid trawsnewid nifer o gaeau amaethyddol ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru i fod yn ofod agored amlbwrpas ar gyfer pobl a byd natur, gan fynd i; afael ag anghenion megis iechyd a lles, risg llifogydd a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

4.6 Mewn rhai achosion, mae ardaloedd ag anghenion cyfyngedig yn gartref i ardaloedd o GI â lefel uchel o amlbwrpasedd. Yn yr achosion  hyn, dylai GI gael ei warchod rhag ofn y daw pwysau yn y dyfodol o ran dyrannu safleoedd.

4.7 Yn ogystal â GI isel, gall ardaloedd anghenus hefyd ddeillio o ganlyniad i ddatblygu eilwaith yn y dyfodol fydd yn arwain at fwy o alw ar GI presennol neu pan na fydd amcanion amgylcheddol a fabwysiedir yn lleol ddim yn cael eu bodloni oni bai y buddsoddir mewn GI. Mae'r adran ddiweddarach ar safleoedd strategol Conwy yn ystyried y cyfle i fynd i'r afael â rhai anghenion lleol drwy argymell GI amlbwrpas ar gyfer y safleoedd hynny.

**Ffigwr 19: Matrics Angen a Swyddogaeth**




4.8 Mae'r dadansoddiad o angen yn yr adran hon yn cael ei arwain gan y meysydd blaenoriaethol a gyflwynwyd yn Adran 1.0:

- Bywyd Gwyllt Cydnerth a Rhwydwaith Bioamrywiaeth
- Amgylchedd Glas Ffyniannus
- Twf Cynaliadwy a Datblygu Economaidd
- Ffyrdd o Fyw'n Iach a Lles
- Gwella cysylltedd

4.9 Mae'r adran hon yn dod â cynlluniau dadansoddi at ei gilydd sydd yn cadarnhau:

- Ardal GI i'w hamddiffyn (ardaloedd anghenus ble mae GI yn bodoli ac yn weithredol)
- Ardal GI i'w wella (ardaloedd anghenus ble mae GI yn bodoli ond ddim yn bodloni angen yn llawn)
- Ardal o botensial i greu GI (ardaloedd anghenus gydag adnoddau GI cyfyngedig neu ddim o gwbl)

4.10 Mae'r dadansoddiad o 'angen' o dan pob maes blaenoriaethol yn cael ei nodi isod. Oherwydd bod GI yn gynhenid amlbwrpas, mae tystiolaeth wedi cael ei defnyddio o ystod eang o ffynonellau data; gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth daearyddol (GIS) er mwyn dadansoddi asedau map ac ardaloedd anghenus yn ofodol. Mae'r dadansoddiad GIS wedi cael ei fireinio gan wybodaeth leol, anghenion cymunedol a gwerthoedd.

**Blaenoriaeth 1: Bywyd Gwyllt Cydnerth a Rhwydweithiau Bioamrywiaeth**

4.11 Mae ystod o fetrigau mewn perthynas â bioamrywiaeth a bywyd gwyllt wedi cael eu mapio er mwyn caffael dealltwriaeth ofodol o angen a chyfleoedd mewn perthynas â GI. Ar hyn o bryd mae yna ddau gyfyngiad ar y mapiau, fel y disgrifir hynny isod.

4.12 Mae mapio rhwydweithiau ecolegol yn golygu bod angen nodi gwybodaeth seiliedig ar gynefin/safle sydd ar gael ar gyfer pob parsel o dir. I'r gwrthwyneb, mae gwybodaeth seiliedig ar rywogaethau ond ar gael yn gyffredinol ar sail "sgwâr-grid". Mae'r GIA yma yn cyflwyno'r mathau yma o wybodaeth ar wahân er mwyn lleihau dryswch ac er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu polisi.

4.13 Problem ymarferol arall fydd angen datrysiad ychwanegol yw nad yw gwybodaeth ofodol ynghylch lleoliad 7 cynefin blaenoriaethol o ran bioamrywiaeth ar gael yn ddigidol ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol caffael gwybodaeth ar ardaloedd o dir gaiff sydd yn destun rheolaeth gadwraethol gadarnhaol (e.e. Trefniadau Glastir CNC) er mwyn targedu polisi GI ar ardaloedd ble byddai trefniadau o'r fath yn creu'r ystod ehangaf o fuddion GI.

<u>Blaenoriaethau GI seiliedig ar Gynefin a Safle</u>

4.14 Gan ddefnyddio'r mapio sydd ar gael, dangosir y blaenoriaethau canlynol:

*Ardaloedd Cynefinoedd GI i'r Gwarchod*

- Safleoedd a warchodir yn statudol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Conwy a choetir hynafol sydd yn destun gwarchodaeth polisi.
- Ardaloedd trefol gyda gorchudd canopi coed cymharol uchel (>18%)
- Yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol mapio ardaloedd ble mae yna lefel uchel o gynefinoedd s7 eisoes yn destun rheolaeth cadwraeth gadarnhaol

*Ardaloedd Cynefinoedd GI i'w Gwella*

- Parseli o dir addas sydd yn croestorri byffer 250m o safleoedd dynodedig, yn seiliedig ar y ffaith y bydd ehangu a chreu byffer ar safleoedd sydd eisoes yn warchodedig yn creu'r buddion "mwy, gwella a mwy cydlynol" a amlygir yn adroddiad Lawton.
- Gorlifdiroedd ble mae'r potensial mwyaf ar gyfer ailnaturioli a/neu ailgysylltu, fel yr asesir hynny gan setiau data "Gweithio Gyda Phrosesau Naturiol" ar botensial plannu coetir gorlifdir, potensial coetir glannau afon a photensial ailgysylltu gorlifdiroedd

- Yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol mapio ardaloedd â lefelau uchel o gynefinoedd pwysig nad ydynt ar hy o bryd yn destun rheolaeth gadarnhaol nac mewn dynodiad ecolegol, ar y sail y byddai newidiadau cymharol syml o ran rheoli yn debygol o arwain at wella cynefinoedd.

Ardaloedd Cynefin â photensial o greu GI

- Ardaloedd trefol gyda gorchudd canopi coed isel (< 18%)
- Yn y dyfodol byddai'n ddefnyddiol mapio ardaloedd ble mae yna lefel isel iawn ar hyn o bryd o gynefinoedd s7 â blaenoriaeth bioamrywiaeth, y is na 10% dyweder.

Ardaloedd Cynefinoedd GI i'r Gwarchod

4.15 Mae'r map dadansoddi yn amlygu adnoddau bioamrywiaeth creiddiol Conwy yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt Conwy a choetir hynafol. Mae'r adnoddau yma yn cael gwarchodaeth statudol a pholisi ond mae'n gritigol sicrhau eu bod yn cael eu rheoli er mwyn cynnal (neu adfer) eu statws cadwraeth ffafriol. Dylid cefnogi tirfeddianwyr o ran eu hymdrechion i sicrhau gwarchodaeth barhaus. Gellir targedu arian grant gan y llywodraeth at warchod a, phan fo'n briodol, ehangu asedau bioamrywiaeth o'r fath.

4.16 Mae ardaloedd trefol a lefel uchel o orchudd coed (ardaloedd cynnyrch ehangach is (LSOA) dros 18%) yn gynwysedig yn y categori yma, er bod gan rai o'r ardaloedd yma fwy o warchodaeth polisi cyfyngedig ar hyn o bryd efallai.

4.17 Mae ardaloedd GI i'w gwarchod wedi eu lleoli yn rhannol ar hyd yr arfordir o Llanfairfechan i'r dwyrain o Abergele, er bod ardaloedd adeiledig yn amharu ar gysylltedd. Mae coridor yn ymestyn i'r de ar hyd Afon Conwy tuag at Ddolgarrog. Mae yna ardal fawr o GI i'w gwarchod yn rhan ganolog y fwrdeistref sirol o gwmpas Moel Derwydd. Mae pocedi eraill o ardaloedd cynefin GI i'w gwarchod yn cynnwys coetiroedd hynafol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Conwy ledled ardal yr astudiaeth.

4.18 Gallai tirfeddianwyr sydd yn rhan o'r amrywiol gynlluniau Glastir (rheoli tir cynaliadwy) ledled y fwrdeistref sirol gael eu cynnwys yn yr ardaloedd GI i'w gwarchod. Mae'r cynlluniau yn cynnwys cyfnod o bum mlynedd a dylid annog ffermwyr a thirfeddianwyr i ymestyn eu trefniadau gyda LIG o ran amserlenni a'r tir sy'n gynwysedig. Nid yw'r ardaloedd yma wedi eu mapio ar hyn o bryd.

Ardaloedd Cynefinoedd GI i'w Gwella

4.19 Mae ailgysylltu cynefinoedd yn ysgogydd allweddol mewn perthynas â rhwydwaith ecolegol ledled y fwrdeistref sirol. Mae bywyd gwyllt angen cysylltedd rhwng cynefinoedd er mwyn sicrhau goroesiad parhaus yn wyneb pwysau o ran yr hinsawdd, defnydd tir a datblygu. Mae'r map dadansoddi yn amlygu nifer o fylchau yn y rhwydwaith bioamrywiaeth craidd. Rhai o'r bylchau mwy ble gellid gwella GI yw:

- Cyrsiau dŵr cysylltiedig â dalgylch Afon Dulas - sydd yn cysylltu tir uwch yn rhan ogleddol y fwrdeistref sirol a Llanddulas a'r arfordir

- Cyrsiau dŵr cysylltiedig â dalgylch Afon Elwy - sydd yn cysylltu tir uwch yn rhan ganolog y fwrdeistref sirol tuag at Lanelwy ac Afon Clwyd
- Cyrsiau dŵr cysylltiedig â dalgylch Afon Dyfrdwy - sydd yn cysylltu tir uwch yn rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol tua'r dwyrain tuag at Langollen ac Afon Dyfrdwy isaf.
- Cyrsiau dŵr cysylltiedig â dalgylch Afon Conwy - sydd yn cysylltu tir uwch yn rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol tuag at Afon Conwy isaf

4.20 Mae'r map ategol 'Rhwydweithiau Cynefinoedd' yn amlygu yr un rhwydwaith bioamrywiaeth craidd, yn ogystal â pharseli tir addas sydd yn croestorri byffer 250m o'r safleoedd craidd. Mae'r map yn dangos cyfleoedd ar gyfer rhwydwaith yn arbennig yn yr ardaloedd o gwmpas trefi ar yr arfordir ac ardal ganolog y fwrdeistref sirol. Mae cynefin addas ar gyfer ei wella yn fwyaf tebygol o fod yn dir amaethyddol fyddai angen arferion rheoli tir sydd yn cefnogi bywyd gwyllt.

4.21 Gallai ardaloedd ble mae yna lefel uchel (dyweder >33%) o gynefinoedd s7 nad ydynt ar hyn o bryd yn destun rheolaeth gadarnhaol nac mewn dynodiad, gael eu cynnwys yn y categori yma, er na ellir eu mapio ar hyn o bryd oherwydd nad yw gwybodaeth am gytundebau Glastir ar gael yn ddigidol i'r cyhoedd.

<u>Ardaloedd Cynefin â photensial o greu GI</u>


4.22 Mae'r map dadansoddi yn amlygu ardaloedd â lefel isel o orchudd canopi yn yr ardaloedd trefol (wedi'i fapio yn ôl ardaloedd cynnyrch ehangach is (LSOA). Mae'r dadansoddiad yn cael ei ategu gan yr Astudiaeth Gorchudd Coed Tref yng Nghonwy (2016). Yn seiliedig ar ddata o 2013, yr ardaloedd trefol arfordirol â'r lefel isaf o orchudd canopi coed yw Towyn/Bae Cinmel (6.4%), Llandudno (7.7%), Tywyn/Deganwy/Cyffordd Llandudno (11.3%), Abergele (11.6%) a Bae Penrhyn (11.9%). Mae'r ardaloedd trefol yma yn cynnwys ardaloedd cymharol eang o rannau canolog a dwyreiniol yr arfordir.

4.23 Mae'r Astudiaeth Gorchudd Coed Tref yng Nghonwy (2016) (y cyfeirir ati fel yr Astudiaeth) yn argymell y dylid mabwysiadu strategaethau coed lleol a gyfer ardaloedd â lefel isel o orchudd canopi coed, yn ogystal â phennu targedu gorchudd canopi. Mae'r Astudiaeth yn darparu dadansoddiad lefel ward o'r gorchudd canopi ar gyfer pob math o ddefnydd tir a dosbarthiad gofodol coed yn ôl wardiau.

4.24 Bydd amcanion gorchudd canopi a bennir ar gyfer ardaloedd lleol yn cael eu hwyluso'n fawr os bydd ffrydiau arian presennol sydd yn cefnogi darparu amgylchedd a seilwaith o ansawdd uchel ledled y Gymru drefol yn integreiddio mesurau cysylltiedig â choed fel gwariant dilys, yn cynnwys arian gan Lywodraeth Cymru a CNC.

4.25 Bydd unrhyw strategaeth coed lleol a tharged gorchudd canopi yn cyfrannu hefyd at bedwar amcan arall Asesiad Seilwaith Gwyrdd, fydd yn cynnwys anghenion megis amddifadedd iechyd, ansawdd aer a llifogydd.

4.26 A tu allan i'r ardaloedd trefol, yng nghefn gwlad yn ehangach, gellid dosbarthu unrhyw ardaloedd ble mae'r gorchudd cynefin s7 yn llai na 10% fel ardaloedd ag amddifadedd byd natur, sydd yn deilwng o dderbyn camau rheoli ac adfer cynefinoedd gwell er mwyn codi ansawdd a chydnerthedd amgylchedd Conwy yn gyffredinol. Ar hyn o bryd nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ddigidol.



## KEY

- Conwy County Borough Council (Planning Authority)
- Area to Protect Existing Green Infrastructure
- Area to Enhance Existing Green Infrastructure
- Area of Potential to Create Green Infrastructure


Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved.
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of
Her Majesty's Stationery Office.
Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020.
All rights reserved. Conwy County Borough Council





| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | |
| | | | | |



THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP


Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Analysis of Needs and GI Functions – Biodiversity

Drawing Number
G8016.014

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| SA | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |



## KEY

- Conwy County Borough Council (Planning Authority)
- Ecological designations
- Suitable habitats within 250m of ecological designations

Note:
This drawing contains Natural Resources Wales information.
© Natural Resources Wales and Database Right. All rights reserved.

Esri, HERE, Garmin, Intermap, increment P Corp., GEBCO, USGS, FAO, NPS, NRCAN, GeoBase, IGN, Kadaster NL, Ordnance Survey, Esri Japan, METI, Esri China (Hong Kong), (c) OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved.
**Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office.**
**Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020.**
**All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380.**



| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com

Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Habitat Networks

Drawing Number
G8016.017

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| SA | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |

Blaenoriaethau GI seiliedig ar rywogaethau

4.27 Er mwyn adnabod ardaloedd o Gonwy sydd, neu allai fod, yn bwysig ar gyfer rhwydweithiau rhywogaethau, cynhaliwyd asesiad o Grynodiadau Adar Allweddol ac Ardaloedd Fforio Ystlumod Pwysig. Darparodd Cofnod, y ganolfan gofnodion leol, ddata a mewnwelediadau lleoler mwyn cynorthwyo gyda'r dadansoddiad.

4.28 Pwrpas y dadansoddiad oedd adnabod tirluniau oedd angen camau cadwraeth, gwella neu adfer cynefinoedd ar gyfer crynodiadau o rywogaethau blaenoriaethol neilltuol lleol. Mae'r darparu dadansoddiad o dri chrynodiad adar allweddol sydd yn gysylltiedig â chynefinoedd tir fferm, ucheldir a gwlypdir. Mae pob aderyn wedi ei restru o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) ac efallai eu bod hefyd yn rhywogaeth Atodlen 1. Mae pob un angen cyfuniad o elfennau ecolegol er mwyn ffynnu yn eu math penodol o gynefin.

4.29 Mae'r dadansoddiad hefyd yn archwilio crynodiadau ystlumod.

4.30 Mae Atodiad 2 yn darparu dull ar gyfer y dadansoddiad a darperir amlinelliad isod. Yn nhermau adar ucheldir, ystyrir hyd at un ar ddeg o rywogaethau yn cynnwys Yr Ehedydd, Llinos a'r Siglen Felen. Ystyrir tair rhywogaeth ar gyfer adar ucheldir, sef Mwyalchod y Mynydd, y Gylfinir a'r Cwtiad Aur. O ran adar gwlypdir, ystyrir hyd at ddeg o rywogaethau yn cynnwys Bras y Gors, y Gïach a'r Gylfinir.

4.31 Mae Conwy yn cefnogi naw rhywogaeth o ystlumod yn cynnwys yr ystlum pedol lleiaf, sydd â chwmpas cyfyngedig yn y DU, ac mae Cymru yn gadarnle iddo.

4.32 Enwodd y dadansoddiad gadarnleoedd ar gyfer y rhywogaethau blaenoriaethol o ran cadwraeth, er mwyn hyrwyddo camau rheoli tir cadwraeth, yn cynnwys coridorau a chynefinoedd fesul cam yn y cadarnleoedd ac o'u cwmpas.

4.33 Mae Mapiau 'Cadarnleoedd' yn dangos amledd cofnodion ar gyfer cyfnod 2014-2019 ar gyfer y tri chrynodiad adar a'r crynodiad ystlumod. Mae cadarnleoedd yn sgwariau grid ble:

- Chofnodir 6 neu ragor o blith 11 rhywogaeth adar tir fferm posibl yn ddiweddar;
- Cofnodir 3 rhywogaeth o adar ucheldir;
- Cofnodir 7 neu ragor o blith 10 rhywogaeth adar gwlypdir posibl yn ddiweddar;
- Cofnodir 7 neu ragor o rywogaethau ystlumod yn ddiweddar.

4.34 Mae tabl 5 isod yn dangos sut y defnyddir y cofnodion rhywogaethau i ddangos ardaloedd sydd angen gwarchodaeth, gwella a chreu GI, yn ôl eu trefn.

***Tabl 5 - Meini Prawf ar gyfer Crynodiadau Blaenoriaethol Cadwraethol a chysylltiad ag Asesiad GI***

| Crynodiad Rhywogaeth | Cadarnleoedd<br>(Gwarchodaeth GI) | Presenoldeb Cymedrol<br>(Gwella GI) | Peth Presenoldeb<br>(Creu GI) |
|---|---|---|---|
| Adar Tir Fferm | 6,7,8,9,10,11 o rywogaethau | 3, 4 neu 5 rhywogaeth | 1 neu 2 rhywogaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adar Ucheldir | 3 rhywogaeth | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Adar gwlypdir | 7, 8, 9 neu 10 rhywogaeth | 4 neu 5 rhywogaeth | 3.2 neu 1 rhywogaeth |
| Crynodiad ystlumod | 7, 8 neu 9 rhywogaeth | 4, 5 neu 6 rhywogaeth | 1, 2 neu 3 rhywogaeth |

Cadarnleoedd Rhywogaethau ar gyfer Gwarchodaeth GI

4.35 Mae'r sgwariau cadarnleoedd yn dangos cyfoeth mawr o rywogaethau, ac mae cynefinoedd agored yn y sgwariau yma yn deilwng o ddull gwarchodol yn gyffredinol wrth ystyried datblygiadau newydd neu newidiadau i reoli tir. Nid yw'r dull yma yn warchodaeth absoliwt, ond yn hytrach mae'n "Rhybudd" i reolwyr tir a phenderfynwyr i adnabod y nodweddion yn y tirlun sydd yn cyfrannu at gynhaliaeth y rhywogaethau a sicrhau bod y cyfryw nodweddion yn cael eu cynnal, gan gydnabod bod rhywogaethau yn symudol a bod rhai nodweddion yn amnewidiadwy.

Gwella GI ar gyfer Rhywogaethau

4.36 Mae presenoldeb cymedrol o rywogaethau blaenoriaethol yn dangos bod gan y tirlun ystod dda o nodweddion sydd eu hangen ar rywogaethau i ffynnu, er yr effeithir ar hynny efallai gan wasgariad, dwysau neu drefoli. Dylai datblygiadau neu newidiadau o ran rheoli tir amcanu at gynnydd net ym mhresenoldeb a chysylltedd nodweddion o'r fath.

Creu GI ar gyfer Rhywogaethau

4.37 Mae rhai sgwariau wedi cofnodi niferoedd isel o s7 neu rywogaethau gwarchodedig, sydd yn dangos bod yr ardal o fewn yr ystod bridio neu fforio arferol y cyfryw rywogaethau (o'i gymharu â sgwariau gyda di cofnodion). Byddai'r ardaloedd yma yn elwa o greu cynefinoedd er mwyn cynyddu nifer y nodweddion sydd yn cynnal rhywogaethau pwysig. Yn ogystal â sgwariau gwella, os byd datblygu yn digwydd yn yr ardaloedd yma neu yn agos atynt, gallai dull creu enillion net hybu presenoldeb rhywogaethau.


Cyfyngiadau

4.38 Mae'r dadansoddiad yn dibynnu ar gofnodion biolegol, y dylanwadir arnynt gan nifer y cofnodwyr lleol a mynediad i gynnal arolygon. Felly nid yw diffyg data yn golygu diffyg rhywogaeth, a bydd angen i unrhyw gynlluniau datblygu gydymffurfio â gofynion arolwg a bennir gan statud neu bolisi, yn hytrach na dibynnu ar y mapiau cadarnleoedd, sydd at ddiben arwain buddsoddi mewn GI.

*Adar Tir Fferm*

4.39 Mae'r map 'cadarnleoedd' yn dangos cadarnleoedd ar hyd yr arfordir, yn arbennig o gwmpas Llanfairfechan, aber afon Conwy, Y Gogarth, y Gogarth Bach, Bae Penrhyn ac aber afon Clwyd. Mae 'cadarnleoedd' eraill yn rhannau isaf Afon Conwy o gwmpas Tal-y-Bont a dalgylch uchaf Afon Conwy ger Padog.

4.40 Mae ardaloedd â phresenoldeb rhywogaethau cymedrol yn cynnwys coridor Afon Conwy, yr arfordir rhwng Bae Colwyn a Bae Cinmel, rhannau o ddalgylch Afon Elwy a'r rhostir ym Moel Llyn.




**KEY**

Conwy County Borough Council (Planning Authority)

**Farmland Birds**

- Species hotspot
- Moderate species present
- Few species present

| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

TEP


Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH

Project: Conwy Green Infrastructure Assessment

Title: Species Records - Farmland Bird Hotspots

Drawing Number: G8016.027

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AP | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |




**KEY**

Conwy County Borough Council (Planning Authority)

**Upland Birds**

Species hotspot

Note:
This drawing is based on Cofnod information.

Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office.

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved. All rights reserved. Conwy County Borough Council 100023380.
Esri, HERE, Garmin, Intermap, increment P Corp., GEBCO, USGS, FAO, NPS, NRCAN, GeoBase, IGN, Kadaster NL, Ordnance Survey, Esri Japan, METI, Esri China (Hong Kong), (c) OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community




| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP


Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com

Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Species Records - Upland Bird Hotspots

Drawing Number
G8016.026

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AP | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |



**KEY**

Conwy County Borough Council (Planning Authority)

**Wetland Birds**

- Species hotspot
- Moderate species present
- Few species present




| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|


THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Species Records - Wetland Bird Hotspots

Drawing number
G8016.025

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AP | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |


KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Bats
Moderate species present
Few species present
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Conwy Green Infrastructure Assessment
Species Records - Bat Hotspots
G8016.024
AP
JO
TJ
1:175,000 @ A3
01/10/2020
Kilometres
0
2
4
8

*Adar Ucheldir*

4.41 Mae'r map 'cadarnleoedd yn dangos presenoldeb rhywogaethau o gwmpas Y Gogarth, Coed Gaer (i'r de ddwyrain o Landudno) ac o gwmpas y Gogarth Bach. Efallai ei bod yn destun pryder nad yw'n ymddangos bod ucheldiroedd yn cefnogi crynodiadau.

*Adar gwlypdir*

4.42 Mae'r map 'cadarnleoedd' yn dangos cadarnleoedd ar hyd yr arfordir, yn arbennig o gwmpas Llanfairfechan, aber afon Conwy ac aber afon Clwyd.

4.43 Mae ardaloedd ble mae yna bresenoldeb rhywogaethau cymedrol yn cynnwys Y Gogarth, y Gogarth Bach, Bae Penrhyn, yr arfordir o gwmpas Abergele, Afon Conwy isaf a Llyn Aled yn rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol.

*Crynodiad ystlumod*

4.44 Mae yna bresenoldeb rhywogaethau cymedrol o gwmpas Penmaenmawr, rhan isaf Afon Conwy, o gwmpas Llanrwst, Bae Penrhyn, tir uwch i'r de o Abergele ac o gwmpas Coedwig Clocaenog yn rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol.

**Blaenoriaeth 2: A Amgylchedd Glas Ffyniannus**

4.45 Mae'r ystod o fetrigau mewn perthynas â'r amgylchedd glas wedi cael eu mapio er mwyn caffael dealltwriaeth ofodol o angen a chyfleoedd mewn perthynas â GI, ac mae'r rhain yn cynnwys:

*Ardaloedd GI i'w Gwarchod*

- Dalgylchoedd cyrff dŵr mewn cyflwr 'da' gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)
- Ardal coetir

*Ardaloedd GI i'w Gwella*

- Dalgylchoedd cyrff dŵr mewn cyflwr 'cymedrol' gan WFD

*Ardaloedd â photensial i greu GI*

- Dalgylchoedd cyrff dŵr mewn cyflwr 'gwael' gan WFD
- Ardaloedd â lefel uchel o wyneb wedi selio
- Llifogydd afonol (ardal llifogydd 3)

<u>Ardaloedd GI i'w Gwarchod</u>

4.46 Mae'r map dadansoddi yn amlygu dalgylchoedd cyrff dŵr sydd mewn cyflwr 'da' ble mae'n tybio bod GI yn cyfrannu at ansawdd dŵr. Mae'r dalgylchoedd cyrff dŵr a nodwyd yn cynnwys:

- Dalgylch Afon Dulas uchaf yn rhan ogleddol y fwrdeistref sirol;

- Dalgylch Afon Elwy yn rhan ganolog y fwrdeistref sirol (ac eithrio rhannau o'r dalgylch uchaf);
- Rhan o ddalgylch Afon Dyfrdwy yn ne y fwrdeistref sirol;
- Dalgylch Afon Conwy uchaf yn ne y fwrdeistref sirol.

4.47 Mae ardaloedd coetir mewn dalgylchoedd eraill yn cael eu hamlygu hefyd ar gyfer gwarchodaeth oherwydd eu cyfraniad i ansawdd dŵr da a lliniaru llifogydd.

Ardaloedd GI i'w Gwella

4.48 Mae dalgylchoedd cyrff dŵr mewn cyflwr 'cymedrol' yn cael eu hamlygu oherwydd y cyfle i wella ansawdd dŵr a lliniaru risg llifogydd drwy ymyriadau GI megis sefydlu coetir a phrysg bridd o ansawdd salach a llethrau mwy serth ble mae cynhyrchiant amaethyddol yn arafach. Mae plannu coetir ac adfywio prysg yn lleihau erydiad pridd a symudiad gwaddod tuag at gyrsiau dŵr o ganlyniad i hynny. Maent hefyd yn "gerwino" y tir, gan arafu llif dŵr wyneb a gwella hydreiddiad; gan leihau risg llifogydd.

4.49 Pan fo angen tir ar gyfer gweithgareddau amaethyddol parhaus, gall plannu gwrychoedd ar ffiniau caeau wella ansawdd dŵr hefyd, lliniaru risg llifogydd a lleihau dŵr ffo amaethyddol i gyrsiau dŵr.

4.50 Mae'r dalgylchoedd cyrff dŵr ar gyfer gwella yn cynnwys:

- Cyrion gogleddol y fwrdeistref sirol;
- Dalgylch Afon Elwy uchaf yn rhan ganolog y fwrdeistref sirol;
- Afon Dyfrdwy.

Ardaloedd â photensial i greu GI


4.51 Dalgylchoedd cyrff dŵr mewn cyflwr "Gwael" neu "Ddrwg" yw:

- Dalgylch uchaf Afon Elwy ger Pandy Tudur a'r A548.
- Rhan isaf Afon Dulas o gwmpas Rhyd y Foel a Llanddulas.

4.52 Dylid blaenoriaethu'r rhannau yma a dylai unrhyw ymyriadau ddilyn y dull ar gyfer 'Ardaloedd GI i'w Gwella' (uchod).

4.53 Mae'r map dadansoddi yn amlygu ardaloedd cynnyrch ehangach is (LSOA) sydd â gorchudd wyneb wedi ei selio o dros 50%, yn cynnwys:

- Llandudno;
- Cyffordd Llandudno a choridor yr A55 i Fae Colwyn;
- Llanddulas;
- Towyn a Bae Cinmel.


KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Area to Protect Existing Green Infrastructure
Area to Enhance Existing Green Infrastructure
Area of Potential to Create Green Infrastructure
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
LIVERPOOL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Conwy Green Infrastructure Assessment
Analysis of Needs and GI Functions – Water
G8016.016
SA
JO
TJ
1:175,000 @ A3
01/10/2020
Kilometres
0
2
4
8

4.54 Mae ardaloedd â lefel uchel o wyneb wedi selio yn debygol o gyfrannu at ddŵr wyneb a risg llifogydd afonol a gellir mynd i'r afael â hynny yn rhannol drwy gynyddu gorchudd canopi coed, ac annog mesurau SuDS seiliedig ar GI mewn mannau gwyrdd cyhoeddus a phreifat. Gallai hynny gynnwys defnyddio palmentydd hydraidd a gerddi glaw mewn datblygiadau newydd ac mewn sefyllfaoedd ôl-osod, yn ogystal â mesurau i wrthod gosod mwy o wynebau caled. Mae'r ystâd cyhoeddus yn cynnwys ysgolion, clinigau iechyd a meysydd parcio, felly ar adegau o adnewyddu, efallai bydd yna gyfleoedd i wella arwynebedd tirlun meddwl a sefydlu SuDS. Efallai y gellid ymgymryd â hynny mewn cydweithrediad â chwmnïau dŵr er mwyn lleihau costau carthffosiaeth dŵr wyneb.

4.55 Hefyd mae yna berthynas agos rhwng yr ardaloedd sydd â chrynodiadau uchel o wyneb wedi ei selio a lefel iselo orchudd canopi coed (gweler paragraff 4.22).

4.56 Wedi eu hamlygu hefyd ar y map dadansoddi mae ardaloedd sydd yn yn wynebu'r risg mwyaf o lifogydd afonol (ardal llifogydd 3), yn cynnwys:

- Rhannau isaf Afon Conwy o Lanrwst i Dal-y-Bont;
- Cyrsiau dŵr yn nalgylchoedd Afon Conwy, Afon Dulas, Afon Elwyn ac Afon Dyfrdwy.

4.57 Mewn ardaloedd o'r fath, mae yna nifer o ymyriadau graddfa caeau y gellir eu defnyddio, gan weithio gyda thirfeddianwyr cymaint â phosibl. Daw'r mesurau yma o dan bennawd cyffredinol "rheoli llifogydd naturiol" ac mae'n cynnwys creu golchdiroedd, argaeau sydd yn gollwng, adfer afonydd, sefydlu gorlifdiroedd a choetiroedd etc.

**Blaenoriaeth 3: Twf Cynaliadwy a Datblygu Economaidd**

4.58 Mae twristiaeth yn allweddol i'r economi leol, ac mae nifer o fentrau ymwelwyr yn dibynnu ar ansawdd yr amgylchedd naturiol er mwyn cadw ymwelwyr a chreu profiad i ymwelwyr. Mae GI o ansawdd da hefyd yn bwysig o ran cyfrannu at ddynesfeydd a gosodiad asedau twristiaeth. Hefyd dylid hyrwyddo cyfleoedd i GI gyfrannu ar y ddynesfeydd (prif seilwaith ffyrdd (a thir yn ffinio â ffyrdd y cyfeirir ato fel 'byffer') a mannau cyrraedd hybiau trafnidiaeth gyhoeddus) yn y fwrdeistref sirol, ynghyd â ffyrdd gwyrdd a choridorau gwyrdd sydd yn cysylltu asedau twristiaeth. Mae'r fwrdeistref sirol hefyd yn cael ei hyrwyddo fel lle i ymwelwyr aros ynddo gan ddefnyddio'r asedau twristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

4.59 Hefyd gall GI effeithio'n sylweddol ar ansawdd yr amgylchedd mewn ardaloedd busnes, cyflogaeth a thai, ac ystyrir hynny hefyd isod.

4.60 Mae'r ystod o fetrigau mewn perthynas â thwf cynaliadwy a datblygiad economaidd wedi cael ei fapio er mwyn caffael dealltwriaeth o angen.

*Ardaloedd GI i'w Gwarchod*

- Safleoedd a seilwaith cysylltiedig â thwristiaeth o fewn GI gweithredol sydd yn cyfrannu at osodiad ased, yn cynnwys: hamdden a fforio; diddordeb ym myd natur; treftadaeth ddiwylliannol;

- Tir sydd yn ffurfio rhan o ddynesfeydd coridorau ffyrdd (byffer 100m) sydd â GI gweithredol presennol;
- Ardal â dwysedd busnes a masnachol uchel (10% uchaf yn y Fwrdeistref Sirol) mewn GI gweithredol presennol.

*Ardaloedd GI i'w Gwella*

- Safleoedd a seilwaith cysylltiedig â thwristiaeth gyda chyfleoedd i wella GI.

*Ardaloedd â photensial i greu GI*

- Ardal â dwysedd busnes a masnachol uchel (10% uchaf yn y Fwrdeistref Sirol) gyda GI cyfyngedig;
- Tir sydd yn ffurfio rhan o ddynesfeydd coridorau ffyrdd (byffer 100m), mannau cyrraedd gorsafoedd rheilffordd a phromenadau arfordirol â GI cyfyngedig;
- Cynlluniau ar gyfer safleoedd Strategol

<u>Ardaloedd GI i'w Gwarchod</u>

4.61 Mae'r map Asedau Twristiaeth yn amlygu yr asedau twristiaeth niferus yng Nghonwy ble mae GI yn chwarae rhan bwysig yn ansawdd a phoblogrwydd yr ased. Mae rhai o'r asedau ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac maent wedi eu cynnwys oherwydd bod yr adolygiad polisi wedi nodi bod ymwelwyr yn teithio drwy ardal yr astudiaeth ac yn ei defnyddio ar gyfer llety a chynhaliaeth, ac oherwydd hynny yn dod ag incwm i'r economi. Mae gan y canlynol GI gweithredol fydd angen eu gwarchod:

- Cyrchfannau Twristiaeth Antur a dynesfeydd coridor (gweler isod)
- Parc Gwledig Y Gogarth
- Pier Llandudno
- Marinas
- Traethau

4.62 Mae dynesfeydd coridor ffyrdd a rheilffyrdd yn bwysig oherwydd eu bod yn cyfleu delwedd o'r ardal i ymwelwyr, buddsoddwyr a thrigolion. Mae gan y dynesfeydd coridor canlynol GI gweithredol fydd angen eu gwarchod:

- A55;
- A470 Llandudno i Fetws-y-Coed;
- A547 Mochdre
- A5 Betws-y-Coed i Gorwen;
- A543 Pentrefoelas i Ddinbych;
- A548 Llanrwst i Abergele.

4.63 Hefyd mae dynesfeydd a gosodiad ardaloedd â dwysedd busnes a masnachol uchel yn bwysig i fuddsoddwyr oherwydd eu bod yn cyfleu delwedd o'r ardal. Mae amgylcheddau ansawdd uchel yn fuddiol i gyflogwyr oherwydd eu bod y denu cyflogeion newydd ac yn galluogi cyfraddau uwch o ran cadw staff. Mae gan nifer o ardaloedd â dwysedd busnes uchel osodiadau GI aeddfed eisoes a byddant angen gwarchodaeth. Mae'r ardaloedd yma'n cynnwys:

- Parc Busnes Morfa Conwy;
- Ardal fasnachol rhwng Gorsaf Cyffordd Llandudno a'r A55;
- Ardal fasnachol sydd yn ffryntio'r A548 ym Mochdre;
- Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele.

<u>Ardaloedd GI i'w Gwella</u>

4.64 Mae Llwybr Arfordir Cymru a Sustrans (Llwybr Cenedlaethol 5) yn darparu seilwaith twristiaeth sydd yn fras yn dilyn y 40km o arfordir ac mae'n caniatáu i ymwelwyr a thrigolion brofi harddwch naturiol yr arfordir. Er ei fod eisoes wedi ei sefydlu fel llwybr di-draffig o ansawdd uchel, mae yna nifer o ymylon, mannau agored ac argloddiau gwair y gellid eu gwella gyda phlannu priodol yn cynnwys blodau gwyllt, gwair, prysg a choed. Mae plannu gwrychoedd cynhenid ac addurniadol yn arbennig o effeithiol o ran diffinio llwybrau a mannau agored, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at amwynder gweledol a bioamrywiaeth. Byddai'r ymyriadau yma yn fuddiol nid yn unig i ddefnyddwyr llwybrau llinol ond hefyd y rhai sydd yn teithio i draethau niferus y fwrdeistref sirol.

4.65 Mae yna nifer o ardaloedd â dwysedd busnes a masnachol uchel gyda pheth GI yn bodoli, ond gyda chyfleoedd i wella, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Ardaloedd busnes a masnachol ar ffin ddwyreiniol Cyffordd Llandudno sydd yn ffryntio'r A547;
- Ystâd Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinmel

<u>Ardaloedd â photensial i greu GI</u>

4.66 Nodir mai yng nghanol trefi Llandudno a Bae Colwyn y mae'r 10% uchaf o ran dwysedd busnes am bob cilomedr sgwâr, ond mae yna GI cyfyngedig fel y disgrifir hynny yn Adran 3.0. Mae canol y ddwy dref wedi ei nodweddu gan ffurf adeiledig Fictoraidd ac Edwardaidd sydd yn gymharol ddwys, a pheth datblygiad mwy diweddar a rhwydwaith o strydoedd a thir cyhoeddus gyda choed strydoedd cyfyngedig a mathau eraill o GI. Gan ddefnyddio rhywfaint o ganfyddiadau'r Astudiaeth Gorchudd Canopi Coed (2016) byddai yna gyfle ar gyfer plannu coed strydoedd sylweddol, a phlannu gwrychoedd a phrysg fel rhan o welliannau integredig i dir cyhoeddus. Hefyd gallai unrhyw welliannau gynnwys mesurau draenio cynaliadwy er mwyn lliniaru effeithiau dŵr wyneb ffo. Mae cano y ddwy dref yn cynnwys rhai strydoedd di-draffig, troedffyrdd llydan, ardaloedd o wellt yn ffinio â datblygiadau diweddar a pharcio ar y stryd ellid ei ailffurfweddu er mwyn cynnwys GI wedi ei ôl-osod.

4.67 Mae'r gofodau sydd yn ffryntio gorsafoedd rheilffordd Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn yn cael eu meddiannu gan geir ac yn creu argraff gyntaf wael i deithwyr ar drenau sydd yn cyrraedd canol y trefi. Byddai yna gyfleoedd cyffelyb i integreiddio GI gyda gwelliannau i dir cyhoeddus, tra'n ailffurfweddu mynediad a pharcio i gerbydau.


4.68 Mae yna nifer o bromenadau arfordirol, yn cynnwys ardaloedd eang o 'galedlun' ar Draeth Glannau'r Gorllewin, Llandudno a Bae Colwyn sydd heb unrhyw GI. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth angenrheidiol, gellid gwella'r mannau agored yma gyda phlanhigion (gyda phrysg a gwellt addurniadol), tra gallai gwrychoedd isel a phrysg dringo addas wedi eu plannu a hyd waliau gyfrannu at amwynder gweledol a bioamrywiaeth.

4.69 Mae yna nifer o ddynesfeydd coridor fyddai yn elwa o ymyriadau GI yn cynnwys plannu coed strydoedd, gwrychoedd a phrysg. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- A546 Cyffordd Llandudno i Landudno;
- A547 Cyffordd Llandudno; o Fae Colwyn i Hen Golwyn; Abergele;
- A548 Abergele i Fae Cinmel a'r Rhyl.

4.70 GI cyfyngedig iawn sydd yn bodoli yn yr ardal fasnachol ym mhen dwyreiniol Abergele ger cyffordd 24 yr A55. Byddai yna gyfle i ddefnyddio triniaethau ffiniau a ffryntiad GI a ansawdd uchel fyddai yn gwella amodau ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr presennol ac allai ddenu buddsoddwyr newydd. Mae lleoliad amlwg y safle hefyd yn borth i Abergele o'r A55 a byddai unrhyw welliannau yn gwella argraffiadau cyntaf.

4.71 Mae CBSC yn bwrw ymlaen â phum Safle Strategol fel rhan o broses RLDP ac mae gan y rhain botensial i greu rhwydwaith o GI amlbwrpas fel rhan o unrhyw gynlluniau datblygu. Mae argymhellion GI ar gyfer y safleoedd yma yn cael eu hystyried yn fanylach yn adran 6.0.




**KEY**

- Conwy County Borough Council (Planning Authority)
- Area to Protect Existing Green Infrastructure
- Area to Enhance Existing Green Infrastructure
- Area of Potential to Create Green Infrastructure


Note:
This drawing contains Natural Resources Wales information.
© Natural Resources Wales and Database Right. All rights reserved.

Esri, HERE, Garmin, Intermap, increment P Corp., GEBCO, USGS, FAO, NPS, NRCAN, GeoBase, IGN, Kadaster NL, Ordnance Survey, Esri Japan, METI, Esri China (Hong Kong), (c) OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved.
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office.
Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020.
All rights reserved. Conwy County Borough Council





| Rev. | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP



Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com



Project:
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title:
Analysis of Needs and GI Functions – Economy

Drawing Number:
G8016.015

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| SA/AP | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 01/10/2020 |


KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Adventure Tourism
Recreation and Exploration
Cycle routes
Long distance trails
The Great Orme Country Park
Beach
National Park
Golf courses
Nature and Tourism
National Nature Reserve (NNR)
Local Nature Reserve (LNR)
RSPB Reserves
Cultural Heritage and Tourism
World Heritage Site
Adventure Parc, Snowdonia
Plas y Brenin - Outdoor pursuits centre
Zip World Fforest, Betws y Coed
Llyn Brenig Visitor Centre
Gwydir Forest Park
Go Below Underground Adventures
Antur Stiniog mountain bike centre, Blaenau Ffestiniog
Zip World and Slate Caverns, Blaenau Ffestiniog
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
LIVERPOOL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Conwy Green Infrastructure Assessment
Tourism Assets
G8016.013.1
Sheet 1 of 2
SA
JO
LDH
1:175,000 @ A3
02/10/2020


Llandudno Pier
Great Orme Country Park
North Shore beach
Little Orme
West Shore beach
Penrhyn Bay beach
The Beacons
Rhos-on-Sea beach
Conwy Morfa beach
Parc Eirias, Colwyn Bay
Deganwy Marina
Abergele beach
Penmaenmawr beach
Llanfairfechan beach
Conwy Marina
Adventure Parc, Snowdonia
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Adventure Tourism
Recreation and Exploration
Cycle routes
Long distance trails
The Great Orme Country Park
Beach
National Park
Golf courses
Nature and Tourism
National Nature Reserve (NNR)
Local Nature Reserve (LNR)
RSPB Reserves
Cultural Heritage and Tourism
World Heritage Site
Site Map
Llandudno
Benllech
Prestatyn
Colwyn Bay
Rhyl
Conwy
Beaumaris
Abergele
St Asaph
Bangor
Llanfair Talhaiarn
Denbigh
Bethesda
Llanrwst
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Tourism Assets
Drawing Number
G8016.013.2
Sheet 2 of 2
SA
JO
LDH
1:90,000 @ A3
02/10/2020

**Blaenoriaeth 4: Ffyrdd o Fyw'n Iach a Lles**

4.72 Roedd yr adolygiad polisi yn Adran 2.0 y ddogfen hon yn amlygu pwysigrwydd lleihau anghydraddoldeb iechyd drwy wella mynediad i fannau gwyrdd i'r holl drigolion. Mae'r Map Mynegai Amddifadedd Lluosog, sydd yn cynnwys maes iechyd, yn amlygu nifer o ardaloedd cynnyrch ehangach is (LSOA) sydd ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys LSOAau yn Llandudno, Bae Colwyn, Abergele a Bae Cinmel.

4.73 Ffordd effeithiol gynyddol o fynd i'r afael â iechyd gwael yw defnyddio rhagnodi cymdeithasol, a dangoswyd bod hynny yn creu buddion o ran lles cyffredinol, iechyd meddwl a lleihau arwahanrwydd. Mae rhagnodi cymdeithasol yn cynnwys galluogi meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gyfeirio cleifion at ystod o wasanaethau anghlinigol, allai gynnwys cerdded iach, Ysgolion Coedwigoedd, Campfeydd Gwyrdd a grwpiau gwirfoddol. Byddai'r dull rhagnodi cymdeithasol yn elwa o agosrwydd y fwrdeistref sirol i'r glannau a'r cefn gwlad amgylchynol. Gall cyfeirio pobl at y gweithgareddau yma gynyddu gweithgaredd awyr agored, ymgysylltu â byd natur a lleihau mynychder arwahanrwydd cymdeithasol.

4.74 Mae Abbey Physic Community Garden yn Faversham, Caint yn ardd furiog fawr sydd wedi ei chysylltu i eglwys leol ac mae'n esiampl ar gyfer rhagnodi cymdeithasol ac sydd yn defnyddio gofod cymharol fychan gaiff ei reoli yn dda. Rhan ganolog o'r gwaith o gynnal yr ardd yw cyfranogiad cymunedol. Mae gwirfoddolwyr, y mae pob un ohonynt yn aelodau o sefydliad Abbey Physic Community Garden Organisation, yn cael eu cyfeirio gan wasanaethau iechyd meddwl, elusennau sydd yn ymwneud â digartrefedd a dibyniaeth ar gyffuriau, ac yn gynyddol gan feddygon teulu a thrwy hunangyfeirio.


4.75 Roedd y crynodeb ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliad yn Adran 1.0 yn amlygu'r mentrau y mae Cartrefi Cymru yn eu harwain gyda thrigolion lleol o ran creu mannau agored gwyrdd amlbwrpas yn Llandudno a Llanrwst. Mae enghreifftiau eraill o Loegr yn dangos effaith gadarnhaol iawn ymgysylltu â phobl leol mewn perthynas ag ymarfer corff a gweithgareddau cadwraeth fel ffordd o ddarparu gwell mynediad a rhyngweithio gyda mannau agored gwyrdd.

4.76 Yn yr amgylcheddau trefol mwy dwys, y flaenoriaeth fyddai galluogi llwybrau cerdded a seiclo mwy diogel i fannau gwyrdd agored. Hefyd datgelodd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid y diffyg arian ar gyfer rheoli mannau gwyrdd agored, a hynny yn aml yn golygu bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o'r mannau agored yma.

4.77 Mae'r potensial ar gyfer man gwyrdd agored amlbwrpas hygyrch newydd mewn ardal o amddifadedd ym Mae Cinmel yn cael ei ddarparu gan astudiaeth achos Parc Hanes, a ddisgrifir yn Adran 5.

4.78 Mae'r anghenion eraill a nodir yn yr adolygiad polisi yn cynnwys pwysigrwydd ansawdd aer mewn ardaloedd trefol, gyda'r LSOAU mwyaf poblog a'r ardaloedd â'r amddifadedd iechyd uchaf o fewn 100m o'r prif rwydwaith ffyrdd sydd yn fwyaf sensitif i lygredd aer.

4.79 Gellir gwella'r broses o drapio llygryddion aer gyda phresenoldeb dail ar goed a phrysg yn agos i'r prif rwydwaith ffyrdd. Yr ardaloedd GI blaenoriaethol a amlygwyd o dan Flaenoriaeth 3: Byddai Twf Cynaliadwy a Datblygu Economaidd hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer. Mae rhai o'r dynesfeydd coridor hefyd yn croestorri'r LSAOau mwyaf difreintiedig:




**KEY**

Conwy County Borough Council (Planning Authority)

**Welsh Indices of Multiple Deprivation 2019**

**Health Domain (Welsh Threshold by LSOA)**

- 1st decile (most deprived)
- 2nd decile
- 3rd decile
- 4th decile
- 5th decile
- 6th decile
- 7th decile
- 8th decile
- 9th decile
- 10th decile (least deprived)

**DRAFT**

Note:
This drawing contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0


Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved.
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office.
Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020.
All rights reserved. Conwy County Borough Council.





| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |



THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com


Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Healthy Lifestyles and Wellbeing

| Drawing Number | | | | Sheet 1 of 2 |
|---|---|---|---|---|
| G8016.028.1 | | | | |
| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
| AP | JO | TJ | 1:175,000 @ A3 | 06/10/2020 |


KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Welsh Indices of Multiple Deprivation 2019
Health Domain (Welsh Threshold by LSOA)
1st decile (most deprived)
2nd decile
3rd decile
4th decile
5th decile
6th decile
7th decile
8th decile
9th decile
10th decile (least deprived)
DRAFT
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Conwy Green Infrastructure Assessment
Healthy Lifestyles and Wellbeing
G8016.028.2
Sheet 2 of 2
AP
JO
TJ
1:120,000 @ A3
06/10/2020
Kilometres
0
2
4
8
Llandudno
Conwy
Colwyn Bay
Abergele
Bangor
Llanrwst
Rhyl
Prestatyn
St Asaph
Denbigh
Ruthin
Anglesey
Liverpool Bay

- Llandudno - A546 Cyffordd Llandudno i Landudno (ardaloedd â photensial i greu GI);
- Bae Colwyn – A55 (ardal GI i'w gwarchod);
- Abergele - A548 Y Rhyl i Fae Cinmel ac Abergele (ardal GI i'w gwarchod);
- Bae Cinmel – A548 Y Rhyl i fae Cinmel ac Abergele (ardal GI i'w gwarchod).

**Blaenoriaeth 5: Gwella cysylltedd**

Hawliau Tramwyo

4.80 Amlygodd yr adolygiad polisi ar gyfer yr Asesiad GI allbynnau Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo Conwy (y ROWIP) (2019-2029) a phum prif amcan y Datganiad Gweithredu. Mae'r trydydd a'r pedwerydd nod yn benodol berthnasol i'r astudiaeth hon:

- *'Darparu rhwydwaith sydd yn fwy cysylltiedig, diogel a hygyrch sydd yn addas i bob defnyddiwr;'*
- *'Gwella'r broses o hyrwyddo rhwydwaith a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohoni'*

4.81 Gan gyfeirio at y trydydd nod, mae gan y fwrdeistref sirol gyfran uwch o bobl dros 65 oed o gymharu hynny â chyfartaledd Cymru. Mae'r ROWIP yn cydnabod hynny ac yn cynllunio i annog mwy o fynediad i bobl hŷn a phobl ag anableddau.

4.82 O ran cysylltedd, mae'r ROWIP yn cynnwys map o'r rhwydwaith hawliau tramwyo (PRoW) ledled y fwrdeistref sirol, ac ar hyn o bryd mae yna 1600km o lwybrau troed, 98km o lwybrau marchogaeth, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 16km o gilffyrdd. Mae'r llwybrau yma wedi eu cofnodi ar y Map a'r Datganiad Terfynol. Mae'r rhwydwaith PRoW yn cynnig mynediad am ddim i gefn gwlad, cysylltiad â byd natur a nifer mwy o fuddion o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

4.83 Mae'r map o'r rhwydwaith PRoW yn dangos rhwydwaith mwy cynhwysfawr o gwmpas y ffin â Pharc Cenedlaethol Eryri a thir agored o gwmpas Llandudno, Bae Penrhyn a Chyffordd Llandudno.

4.84 Mae ardaloedd â rhwydwaith PRoW mwy cymedrol yn cynnwys gweddill yr ardaloedd o gwmpas trefi arfordirol, rhan ganolog y fwrdeistref sirol a Llangernyw a Phandy Tudur a'r rhan ddeheuol o gwmpas Glasfryn a Cherrigydrudion.

4.85 Mae ardaloedd â rhwydwaith PRoW mwy cyfyngedig yn ymddangos o gwmpas dyffryn Conwy rhwng Parc Iolyn, safle Surf Snowdonia a Threfriw, er bod rhan o'r tir yma ar orlifdir. Mae'n fwy cyfyngedig hefyd ar dir uchel o gwmpas Gerddi Bodnant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Eglwysbach. mae'n gyfyngedig iawn o gwmpas y glaswelltir a'r rhostir o gwmpas Moel Derwydd, er bod llawer o'r tir yma wedi ei ddynodi fel SSSI.

4.86 Byddai yna botensial i ystyried rhwydwaith llwybrau troed mwy cynhwysfawr ar hyd y rhannau a nodwyd dyffryn Conwy, gan ddarparu llwybrau mwy hygyrch ar dir cymharol wastad. Byddai hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr Surf Snowdonio gael blas ar yr ardal leol.

4.87 Hefyd byddai darparu mwy o lwybrau troed cysylltiedig o gwmpas Gerddi Bodnant tuag at Eglwysbach yn rhoi cyfle i ymwelwyr archwilio'r ardal gyda'i chymeriad tirlun arbennig o amrywiol a golygfeydd ar hyd dyffryn Conwy.

4.88 O ran y potensial i greu GI byddai yna gyfle i blannu coed gwrychoedd ar hyd nifer o rannau o'r rhwydwaith PRoW. Mae'r math yma o GI llinol yn defnyddio ychydig iawn o dir a hynny am gost cymharol fechan, ond gall gyflawni nifer o swyddogaethau yn cynnwys; esthetig, gwaredu llygryddion, amsugno sŵn, cynefin i fywyd gwyllt, coridor i fywyd gwyllt, sefydlogi pridd, cysgod rhag gwynt, rhyng-gipio dŵr ac ymdreiddiad. Gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth cyfyngedig, gall grwpiau cymunedol hefyd greu gwrychoedd a gall hynny gysylltu pobl â byd natur a chreu nifer o fuddion cymdeithasol eraill megis gwell iechyd meddwl a chorfforol.

4.89 Mae'r ROWIP yn cyfeirio at bresenoldeb a pharhad Llwybr Arfordir Cymru a'r angen i gymunedau arfordirol fwynhau gwell cysylltiadau â'r arfordir fel y gallant fwynhau'r amgylchedd arfordirol neilltuol.

4.90 Mae cyfleoedd eraill mewn perthynas â chysylltedd yn cael eu hystyried gan y ROWIP ac maent yn cynnwys llwybrau cylchol mewn ardaloedd trefol ar gyfer defnydd hamdden gan drigolion lleol, a chreu llwybrau i ysgolion, parciau a thraethau sydd yn fwy addas i deuluoedd gyda phlant ifanc.

4.91 Hefyd mae Adran Draffig y Cyngor yn paratoi Cynllun Teithio Actif, yn cynnwys llwybrau mwy diogel i ysgolion, fydd yn darparu mwy o gyfleoedd i bobl ymgysylltu â dulliau teithio actif. Dylai unrhyw gynigion gael eu hintegreiddio â chyfleoedd i greu GI fydd n cynnwys plannu coed strydoedd, prysg a gwrychoedd fyddai'n cyflawni nifer o swyddogaethau er lled y cyhoedd.

4.92 Mae'r meysydd anghenus eraill a amlygwyd yn y ROWIP yn cynnwys y rhwydwaith di-gyswllt o lwybrau marchogaeth, cilffyrdd a cilffyrdd cyfyngedig. Mae gwahanol grwpiau â buddiant, megis seiclwyr a marchogion ceffylau yn gwneud defnydd penodol o'r mathau yma o PRoW a byddai darparu mwy o lwybrau cylchol yn cynnig mwy o fudd hamdden. Mae'r ROWIP hefyd yn gwneud argymhellion mewn perthynas â seilwaith ffisegol megis gwella wynebau a gwella pontydd er mwyn sicrhau defnydd diogel a hygyrch.


4.93 Mewn perthynas â'r pedwerydd nod 'Gwella'r broses o hyrwyddo rhwydwaith a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohoni', mae'r ROWIP yn amlygu rôl actif y Cyngor o ran annog hynny drwy hysbysebu Hwyl wrth Gerdded dan arweiniad tywyswyr profiadol. Mae'r llwybrau yma yn cymryd llai nag awr i'w cwblhau ac maent ar gael i bobl o bob lefel ffitrwydd.

4.94 Mae'r grŵp cerdded cymunedol Cerdded Conwy (a gefnogir gan y Cyngor) yn cynnig hyfforddiant i arweinwyr gwirfoddol er mwy hwyluso rhaglen gerdded fisol sydd ar gael i bawb. Mae poblogrwydd y teithiau yn dystiolaeth o fuddion cerdded o ran iechyd meddwl a chorfforol i'r arweinwyr a'r cerddwyr. Mae'r grŵp yn ystyried datblygu cysylltiadau â grwpiau iechyd meddwl megis Mind er mwyn i fwy o bobl fwynhau buddion cerdded.

Addysg Awyr Agored

4.95 Gall GI gynnig mannau agored i chwarae a rhyngweithio â natur, gyda buddion iechyd meddwl a chorfforol wedi eu profi yn ogystal â gwell datblygiad mewn plant. Mae addysg awyr agored mewn gosodiad GI, drwy gyfrwng Ysgolion Coedwigoedd, chwarae yn yr awyr agored a mentrau Gwyddoniaeth Dinasyddion yn cynnig cyfleoedd ar gyfer addysg awyr agored ac i ddysgu mwy am yr amgylchedd lleol.

4.96 Gan weithio gydag ysgolion yn y fwrdeistref sirol, mae yna botensial hefyd i greu rhandiroedd ysgolion. Drwy annog disgyblion i gymryd rhan mewn tyfu bwyd lleol, gellir mabwysiadu'r dull stiwardiaeth, gyda theimlad o berchnogaeth, a gal fod yn hyb ar gyfer ymgysylltu cymunedol ehangach. Gan ddefnyddio planhigion brodorol, gall ffiniau rhandiroedd hefyd gyfrannu at fioamrywiaeth.


KEY
Conwy County Borough Council (Planning Authority)
Public Rights of Way
Cycle routes
Active travel routes
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
LIVERPOOL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Conwy Green Infrastructure Assessment
Connectivity
G8016.006
Kilometres
0 2.5 5 10
SA
JO
TJ
1:175,000 @ A3
01/10/2020

# 5.0 Astudiaeth Achos – Parc Hanes

5.1 Yn ystod y broses y ymchwilio ac ymgynghori ar gyfer yr astudiaeth hon, nodwyd safle ym Mae Cinmel fel un oedd â photensial fel man gwyrdd agored amlbwrpas hygyrch. Mae'r safle yn cael ei gyflwyno isod fel astudiaeth achos, gan nodi:

- Disgrifiad o'r safle;
- Cyd-destun, yn cynnwys cyfeiriad at Broffil y Ward (2019), Asesiad Mannau Agored (2012), Astudiaeth Canopi Coed Tref (2016) a Chynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Y Rhyl (2013);
- Bu i ganfyddiadau o'r GIS gynhyrchu topoleg a mapio amlbwrpas;
- Cyfleoedd a chyfyngiadau, a chynllun ategol;
- Diagram tirlun, yn dangos mannau agored posibl a llwybrau cylchol; a
- Chynllun cynsail tirlun yn dangos cymeriad bwriedig y gwahanol fathau o fannau agored.

**Disgrifiad o'r safle:**

5.2 Mae'r safle yn tua 8 hectar, ar ffin ddwyreiniol Bae Cinmel, ger yr Afon Clwyd. Mae'r safle yn eiddo i Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei bori yn bennaf, gydag ardaloedd coediog bychan. Mae ganddo ffurfwedd anarferol ac mae ein ran ddwyreiniol yn llinol sydd yn dilyn rhan fer o'r hen reilffordd tuag at Lanelwy.

5.3 Mae ffin ogleddol y safle wedi ei ddiffinio gan y brif reilffordd sydd yn cysylltu trefi arfordirol Gogledd Cymru a Chaergybi. Defnydd preswyl yn bennaf sydd i'r tir i'r gogledd, i'r de a'r gorllewin, ac i'r dwyrain mae yna dai sengl a thir bugeiliol ger coridor Afon Clwyd.

**Cyd-destun**

<u>Proffil Ward Bae Cinmel</u>

5.4 O ran nodweddion poblogaeth, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Bae Cinmel boblogaeth uwch na'r cyfartaledd o blant dan 15 oed ac oedolion dros 45 oed. Mae ffigyrau dan 15 oed Bae Cinmel yn uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ond yn debyg yn achos oedolion dros 45 oed. Mae'r cohort ar gyfer 16-44 oed ym Mae Cinmel yn is na chyfartaledd Cymru ond yn debyg i gyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

5.5 Mae nifer y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (29.5%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a chyfartaledd Cymru (22.7%).

5.6 Mae'r pedair ardal cynnyrch ehangach is (LSOA) ym Mae Cinmel ymysg y 25% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn achos y rhan fwyaf o feysydd a ystyrir yn y dadansoddiad o amddifadedd.

Asesiad Mannau Agored Bwrdeistref Sirol Conwy (2012)

5.7 Mae astudiaeth 2012 yn dangos diffygion o 5.42ha ar gyfer meysydd chwarae, 0.68ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 2.28ha ar gyfer chwarae a 0.26ha ar gyfer prif amwynder ffurfiol. Mae'r asesiad mannau agored yn cael ei ddiweddaru (2020, yn cael ei baratoi).

Crynodeb o Ddemograffeg

5.8 Mae'r dystiolaeth yma o ran nodweddion poblogaeth, salwch hirdymor cyfyngol, amddifadedd lluosog a diffyg mannau agored, yn dangos yr angen ychwanegol am GI yn ardal Bae Cinmel.

Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC

5.9 O blith yr 11 ardal drefol a aseswyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, cadarnhawyd mai gan Dowyn/Bae Cinmel oedd y gochrudd canopi isaf, sef 6.4% o'r ôl troed trefol cyffredinol.

Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Y Rhyl (2013)

5.10 Paratowyd Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd Y Rhyl fel dogfen ymgynghorol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Cyngor Tref Y Rhyl a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae diagram fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu yn amcanu at, ymysg themâu eraill, 'Cysylltu Pobl a Lleoedd' a 'Rheoli Mannau Agored ar gyfer Pobl a Bywyd Gwyllt' ar hyd coridor Afon Clwyd. Mae'n nodi llwybr cerddwyr a seiclo ar draws adrannau deheuol segur y bont reilffordd dros Afon Clwyd, yn cysylltu'r Rhyl a Bae Cinmel, a byddai hynny yn hwyluso cylch o lwybrau ar hyd coridor yr afon o'r foryd tuag at Rhuddlan.

**Teipoleg a Mapio Amlbwrpas**

Mapio Teipoleg

5.11 Mae'r mapio teipoleg yn cadarnhau y mathau o GI sydd ar y safle: amaeth (tir pori) ac ardaloedd coediog llai. Yn yr ardal ehangach mae'r teipolegau GI yn erddi preifat, cod strydoedd, parciau a mannau agored gwyrdd mewn ardaloedd preswyl. Mae tir amaethyddol ac ardaloedd rhyng-lanw yn ymestyn ar hyd coridor Afon Clwyd.

Swyddogaethau GI

5.12 Drwy ddadansoddiad GIS wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur, mae'r astudiaeth GIA hefyd yn asesu nifer y swyddogaethau mae pob parsel o dir yn ei gyflawni. Mae'r dadansoddiad GIS yn ystyried hyd at 22 swyddogaeth ac maent yn cynnwys: hamdden, llwybrau teithio gwyrdd, cysgod rhag yr haul, anweddu drwy oeri, cynefin ar gyfer bywyd gwyllt a storio dŵr. Mewn nifer o achosion mae nifer isel neu gymedrol o swyddogaethau a gyflawnir gan barsel o dir yn dangos ble gellir rhoi ymyriadau neu welliannau o ran rheoli tir ar waith.

5.13 Ar hyn o bryd mae rhan orllewinol eang y safle (tir pori) yn cyflawni saith swyddogaeth, yn cynnwys: anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr. Yn gyferbyniol, mae natur goediog rhan ddwyreiniol y safle yn cyflawni hyd at 14 swyddogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y rhan fwyaf o'r swyddogaethau a gyflawnir yn y gorllewin, a swyddogaethau ychwanegol megis cysgod rhag yr haul, cynefin i fywyd gwyllt, storio carbon a rhyng-gipio dŵr.

5.14 Yn gyffredinol, Mae GI yn ardal Towyn a Bae Cinmel yn cyflawni swyddogaethau cyfyngedig iawn o'i gymharu â threfi arfordirol eraill Conwy, gydag ardaloedd â diffyg GI o gwmpas Ffair Tir Prince, Ystâd Fasnachu y Bae ac ar hyd yr arfordir. Mae yna lefel arbennig o isel o orchudd coed yn yr ardal. Mae'r dadansoddiad yn amlygu swyddogaeth gymedrol Coridor Afon Clwyd a swyddogaeth gyfyngedig y tir amaethyddol i'r de o Dowyn a Bae Cinmel.

**Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau**

5.15 Mae'r cynllun yn dangos cyfosodiad nodweddion allweddol yn cynnwys y prif gyrff dŵr, ffurf adeiledig, rheilffyrdd, coed a phrys a hawliau tramwyo.

5.16 O ran cyfleoedd, mae'r cynllun yn cydnabod dyhead Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych i gael llwybr teithio actif a hamdden ar ran ddeheuol segur y bont reilffordd dros Afon Clwyd, yn cysylltu'r Rhyl a Bae Cinmel. Byddai'r cynllun yma yn gwella llwybr 84 di-draffig Sustrans yn sylweddol (Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol), gan hwyluso seiclo o'r arfordir a hyd coridor yr afon i Ruddlan a Llanelwy. Byddai llwybrau cerdded a seiclo mwy lleol yn cysylltu â'r llwybr dyheadol gan gysylltu cymdogaethau Parc Hanes a Bae Cinmel.

5.17 Mae nifer o fannau mynediad i Barc Hanes wedi cael eu nodi, gyda chanolbwynt (man cydgyfeirio) yng nghanol y gofod ble byddai nifer o lwybrau yn cyfarfod.

5.18 Mae mapio CNC ar-lein bod y risg o lifogydd o afonydd a'r môr yn isel (rhwng 0.1% - 1%) er bod hynny yn ystyried effaith unrhyw amddiffynfeydd llifogydd yn yr ardal. Mae'r mapio yn amlygu swm y dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bychan ledled rhan orllewinol y safle. Mae'r rhan fwyaf yn risg isel, er bod rhai ardaloedd llai yn wynebu risg canolig. Mae'r cynllun yn enwi risg dŵr wyneb a'r cyrsiau dŵr bychan ac yn ystyried bod y lleoliad yma yn gyfle ar gyfer ardal gwlypdir wedi ei gwella.

5.19 O ran cymeriad Parc Hanes, mae'r cynllun yn cydnabod cymeriad lled naturiol rhan ddwyreiniol y safle ac yn argymell ei fod yn cael ei wella fel cynefin bywyd gwyllt a'i fod yn dod yn rhan o goridor ehangach.

5.20 Mae materion eraill a nodwyd yn cynnwys y gwahanu a achosir gan arglawdd y rheilffordd, tra bod y cartrefi preswyl ar hyd yr ymyl deheuol yn darparu goruchwyliaeth naturiol.

**Diagram Tirlun**

5.21 Mae'r diagram yn dangos datblygiad yn dilyn y cynllun cyfleoedd a chyfyngiadau, gyda chynigion ar gyfer gwahanol fathau o fannau agored a pharcdir agored, mannau chwarae anffurfiol, plannu coed, rheoli nodweddion presennol a gwella ardal gwlypdir. Byddai rhwydwaith o lwybrau cylchol yn darparu mynediad i bobl, ac mewn rhai achosion byddai'r llwybrau hynny yn darparu ffiniau rhwng y gwahanol fathau o ofodau. Y bwriad fyddai cynyddu swyddogaeth GI ar draws y safle.

**Cynsail Tirlun**

5.22 Mae'r cynllun cynsail yn dangos cymeriad bwriedig y gwahanol fathau o fannau agored a pharcdir agored, mannau chwarae anffurfiol, plannu coed, rheoli nodweddion presennol a gwella ardal gwlypdir.


Key
Marine Lake
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Conwy Green Infrastructure Assessment
Parc Hanes - Opportunities and Constraints
PS8016.001A
1:2000 @ A1
AJG
TJ
TJ



Key
Open parkland
More formal open space
Informal play elements
Tree and meadow planting
Management of existing features
Existing area subject to flooding enhanced to create wetland
Ecological features
Routes
Railway line
St Asaph Avenue
Park Avenue
Ffordd Elwy
Elwy Circle
0m
25m
50m
200m
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Parc Hanes - Landscape Diagram
Drawing Number
AI8016.002A
Scale
1:1250 @ A1
Date
16/07/2020
Drawn
AJG
Checked
TJ
Approved
TJ
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL


Key
Open parkland
More formal open space
Informal play elements
Tree and meadow planting
Management of existing features
Existing area subject to flooding enhanced to create wetland
Ecological features
Routes
Railway line
St Asaph Avenue
Elwy Circle
0m
25m
50m
200m
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
TEP
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Parc Hanes - Landscape Precedent
Drawing Number
AI8016.003A
Scale
1:1250 @ A1
Date
28/07/2020
Drawn
AJG
Checked
TJ
Approved
TJ
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# 6.0 Safleoedd Strategol

6.1 Mae CBSC yn hyrwyddo pum safle strategol ar gyfer twf cynaliadwy, fel rhan o broses RLDP. Mae'r safleoedd yma wedi cael eu hystyried o ran nodi anghenion a chyfleoedd penodol ar gyfer GI.

6.2 Y safleoedd strategol yw:

- Tir oddi ar Ffordd Aber, Llanfairfechan
- Tir i'r Dwyrain o'r A470, Llanrwst
- Tir oddi ar Ffordd Bryn Lupus, Llanrhos, Llandudno
- Fferm Peulwys, Heol Peulwys, Hen Golwyn
- Cae cylchfan, Abergele

6.3 Mae'r Asesiad GI ar gyfer y safleoedd yma wedi ei gyflwyno isod, gan nodi:

- Disgrifiad o'r safle;
- Cyd-destun, yn cynnwys cyfeiriad at Broffil y Ward (2019), Asesiad Mannau Agored (2012), Astudiaeth Canopi Coed Tref (2016);
- Canfyddiadau'r mapio teipoleg GI a mapio amlbwrpas; a
- Chyfleoedd a chyfyngiadau, a chynllun ategol.

**Tir oddi ar Ffordd Aber, Llanfairfechan**

<u>Disgrifiad o'r safle:</u>


6.4 Mae'r safle yn tua 19 hectar ac wedi ei leoli ar ffin orllewinol Llanfairfechan. Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn cael ei bori ac mae'n cynnwys rhai ardaloedd o goetir collddail aeddfed ar y ffiniau deheuol a dwyreiniol. Mae yna hefyd rhai lleiniau coediog ar hyd y ffin ogleddol gyda Ffordd Aber, gyda gwrych yn ymestyn rhwng y coed. Yn yr ardal ehangach mae yna rannau o goetir y tu allan i'r safle i'r gogledd, i'r de a'r dwyrain yn cynnwys ychydig o goetir hynafol. Mae'r safle yn llethru i lawr tua'r gogledd o 50m AOD i 30m AOD.

6.5 Mae ffin Parc Cenedlaethol Eryri 250m i'r de o'r safle, tra bod y parc hanesyddol sydd yn rhan o diroedd Ysbyty Bryn-y-Neuadd i'r gogledd o Ffordd Aber.

<u>Cyd-destun</u>

Proffil Ward Bryn - 2019 (Rhan orllewinol Llanfairfechan)

6.6 O ran nodweddion poblogaeth, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Bryn boblogaeth cyfartalog o blant dan 15 oed. Mae'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer y cohort 16-44 oed, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer 45-64 oed ac yn debyg ar gyfer pobl dros 65 oed. O'i gymharu â Bwrdeistref Sirol Conwy, mae Bryn ychydig yn uwch na'r ffigyrau cyfartalog ar gyfer y rhai oedran 15 oed a'r cohort 16-64 oed ond yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer pobl dros 65 oed.




**KEY**

- Conwy County Borough Council (Planning Authority)
- Strategic Sites

Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office. Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved. Contains data from Conwy County Borough Council.




| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com

Project: Conwy Green Infrastructure Assessment

Title: Strategic Sites

Drawing Number: G8016.023

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AP | JO | TJ | 1:120,000 @ A3 | 01/10/2020 |

6.7 Mae cyfran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (24.9%) yn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a chyfartaledd Cymru (22.7%).

*Asesiad Mannau Agored (2012)*

6.8 Mae'r asesiad mannau agored cyfredol (2020) yn cael ei baratoi, tra bod astudiaeth 2012 yn dangos diffygion yn Llanfairfechan o 3.43ha ar gyfer caeau chwarae, 0.49ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 1.37ha ar gyfer chwarae a gwarged o 1.70ha ar gyfer prif amwynder hamdden.

*Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC*

6.9 O blith yr 11 ardal drefol a aseswyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gan Lanfairfechan oedd y gochrudd canopi uchaf, sef 23.7% o'r ôl troed trefol cyffredinol.

<u>Teipoleg a Mapio Amlbwrpas</u>

*Mapio Teipoleg*

6.10 Mae'r  mathau o GI sydd ar y safle Ardal amaeth (tir pori) ac ardaloedd coediog. Yn yr ardal ehangach mae'r teipolegau GI yn erddi the preifat, cod strydoedd, parciau a mannau mewn gerddi mewn ardaloedd preswyl.

*Swyddogaethau GI ar y Safle*

6.11 Ar hyn o bryd mae'r tir pori yn cyflawni tua saith swyddogaeth, yn cynnwys: anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr. Mae'r rhannau coediog deheuol a dwyreiniol y safle yn cyflawni swyddogaethau ychwanegol: cysgodi rhag yr haul, cynefin i fywyd gwyllt, storio carbon a rhyng-gipio dŵr, sydd yn golygu cyfanswm o tua 15 o swyddogaethau.


<u>Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau</u>

6.12 Mae'r cynllun yn dangos cyfosodiad nodweddion presennol ar y safle, yn cynnwys yr ardaloedd coediog a gwrychoedd. Mae prif gyflenwad nwy yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, sydd yn golygu bod angen hawddfraint o 12m ac sydd yn cyfyngu ar ddatblygiad, ond gallai ddarparu cyfle ar gyfer coridor GI amlbwrpas.

6.13 Mae cwrs dŵr â chwlfer yn llifo ar hyd y ffin orllewinol a byddai yna gyfle i gael gward â'r strwythur wedi'i beiriannu ac 'agor' y nant gan greu coridor arall er lles bywyd gwyllt ac amwynder cyffredinol y safle.

6.14 Mae mapio CNC yn amlygu ardal fechan ble ceir risg llifogydd dŵr wyneb a chwrs dŵr bychan ger ffin ogleddol y safle. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal a ddisgrifir yn risg isel, er bod ardal lai yn risg canolig. Byddai hynny yn ddarostyngedig i newid o ganlyniad i ddatblygu posibl ar y safle. Tir ger y ffin ogleddol yw rhan isaf y safle a dylid cynnal coridor fel pant, fel rhan o system ddraenio gynaliadwy (SuDS) er mwyn helpu i reoli dŵr ffo, a phantiau eilaidd yn cysylltu o dir uwch.

6.15 Dylid cadw'r goll ardaloedd coediog ac er mwyn cynnal eu swyddogaeth byddai yna gyfle i gynnal gwrthbwysiad o ymyl unrhyw ardal goediog fel byffer tirlun ddylai barhau yn annatblygedig. Byddai hynny yn cynnal maint a phresenoldeb y coetir ar y safle ac yn gwella swyddogaethau GI megis cynefin a chysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt.




**Key**

Existing

- Site boundary
- Trees and Woodland
- Hedgerows
- Gas main, with easement (approx. location)
- Culvert (approx. location)

Potential

- Buffer to Woodland and Hedgerow
- Buffer for Sustainable Drainage
- Green Infrastructure Corridors


Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of Her Majesty's Stationery Office.
Mastermap provided by Client
© Crown Copyright and database right 2020. All rights reserved.


| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| C | Minor updates | AJG | TJ | [illegible] |
| B | Graphics updated | AJG | TJ | [illegible] |
| A | Culvert added, graphics updated | AJG | TJ | [illegible] |


THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com


Project
Conwy Green Infrastructure

Title
Strategic Site - Llanfairfechan

Drawing Number
D8016.002C

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AJG | TJ | TJ | 1:3000 @ A3 | 07/08/2020 |

6.16 At ei gilydd, byddai'r coridorau GI posibl ar draws rhannau o'r safle, a nodir uchod, yn creu buddion i fywyd gwyllt, yn gwella gosodiad unrhyw ddatblygiad arfaethedig ac yn annog llwybrau teithio actif. Byddai'r system SuDS yn helpu i reoli swm dŵr wyneb ffo; yn rheoli ansawdd dŵr ffo er mwyn atal llygredd; ac yn cyfrannu at amwynder a bioamrywiaeth.

**Tir i'r Dwyrain o'r A470, Llanrwst**

Disgrifiad o'r safle

6.17 Mae'r safle yn tua 9.5 hectar ac wedi ei leoli ar ffin gogledd orllewinol Llanrwst. Mae'r tir yn cael ei bori ac yn llethru o lawr yn raddol o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae yna gwrs dŵr bychan ar hyd y ffin orllewinol. Mae yna ddwy ran i'r safle, a'r ddwy wedi eu hamgáu ar y cyfan gan wrychoedd. Mae gan y rhan ogleddol goeden aeddfed ger y ffin orllewinol ac mae gan y ffin ddeheuol wrych a nifer o goed aeddfed sydd yn ei wahanu oddi wrth rhan ddeheuol y safle. Mae'r rhan ddeheuol yn cynnwys tri chae ac mae yna lain goediog ar hyd ffin ddwyreiniol y safle, gyda gerddi cefn tai preswyl y tu hwnt i'r coetir.

6.18 Yn yr ardal ehangach, ac eithrio'r de sydd yn cynnwys Llanrwst, mae'r tir ar y cyfan yn fugeiliol gyda rhan rhannau o goetir a choed unigol.

Cyd-destun

*Proffil Ward Crwst - 2019*

6.19 O ran nodweddion poblogaeth, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Crwst boblogaeth is na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 0-64 oed ond yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 65+ oed. O'i gymharu â Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Crwst boblogaeth gyfartalog gyffelyb ar gyfer y cohort 0-44 oed. Mae ganddi ffigyrau is na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 45-64 oed ac mae ganddi boblogaeth uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 65+ oed.

6.20 Mae cyfran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (26.3%) yn uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a chyfartaledd Cymru (22.7%).

*Asesiad Mannau Agored (2012)*

6.21 Mae'r asesiad mannau agored cyfredol (2020) yn cael ei baratoi, tra bod astudiaeth 2012 yn dangos diffygion yn Llanrwst o 1.61ha ar gyfer caeau chwarae, 0.31ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 0.89ha ar gyfer chwarae a gwarged o 0.09ha ar gyfer prif amwynder hamdden.

*Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC*

6.22 O'i gymharu â'r 11 ardal drefol a aseswyd yn y fwrdeistref sirol, mae gan Lanrwst orchudd canopi is, sef 11.6% o'r ôl troed trefol cyffredinol.

Teipoleg a Mapio Amlbwrpas

*Mapio Teipoleg*

6.23 Mae'r  mathau o GI sydd ar y safle Ardal amaeth (tir pori) a gwrychoedd, gyda rhai coed gwrychoedd. Yn yr ardal ehangach, y teipolegau GI yw amaeth, coetir a gerddi preifat.




| Rev | Description | Drawn | Approved | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP

Project
Conwy Green Infrastructure Assessment

Title
Strategic Site - Land to the East of A470, Llanrwst

Drawing Number
D8016.005

| Drawn | Checked | Approved | Scale | Date |
|---|---|---|---|---|
| AJG | TJ | TJ | 1:3000 @ A3 | 01/10/2020 |

*Swyddogaethau GI ar y Safle*

6.24 Ar hyn o bryd mae'r tir pori yn cyflawni tua saith swyddogaeth, yn cynnwys: anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr. Mae'r llain goediog ger y ffin ddwyreiniol yn cyflawni swyddogaethau ychwanegol: cysgodi rhag yr haul, cynefin i fywyd gwyllt, storio carbon a rhyng-gipio dŵr, sydd yn golygu cyfanswm o tua 15 o swyddogaethau.

Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau

6.25 Mae'r cynllun yn darlunio cyfosodiad gwrychoedd a choed presennol a dylid cadw'r rhain fel rhan o unrhyw gynlluniau datblygu.

6.26 Mae mapio CNC yn cadarnhau'r risg uchel o lifogydd dŵr wyneb o'r cwrs dŵr sydd yn llifo ar hyd y ffin orllewinol, er nad yw'r risg yn ymestyn i'r caeau ffiniol. Gallai mwy o risg dŵr wyneb ddeillio o ddatblygu posibl ar y safle, felly dylid ystyried rhwydwaith o bantiau ar dir ger y ffin orllewinol, sef rhan isaf y safle, fel rhan o system ddraenio gynaliadwy (SuDS).

6.27 Nododd yr Asesiad Mannau Agored a'r Astudiaeth Canopi Coed Tref ddiffyg mewn perthynas â mannau agored a gorchudd canopi coed is na'r cyfartaledd yn ôl eu trefn. Dylai unrhyw gynlluniau datblygu gynnwys mannau agored priodol, yn cynnwys potensial ar gyfer gorchudd canopi coed.

6.28 Dylai'r holl wrychoedd a choed gael eu cadw pryd bynnag fo hynny'n ddichonadwy, ac er mwyn cynnal swyddogaeth GI dylai byffer tirlun gael ei wrthbwyso oddi ar ymyl y elfennau yma, a byddai hynny yn cynnwys ardal goediog ar ffin ddwyreiniol y safle. Byddai cynnal byffer wedi ei dirlunio yn cynnal maint a phresenoldeb y nodweddion yma ar y safle ac yn gwella swyddogaethau GI megis cynefin a chysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt.

6.29 At ei gilydd, byddai'r coridorau GI posibl ar draws rhannau o'r safle, a nodir uchod, yn creu buddion i fywyd gwyllt, ac yn gwella gosodiad unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Byddai'r system SuDS yn helpu i reoli swm dŵr wyneb ffo; yn rheoli ansawdd dŵr ffo er mwyn atal llygredd; ac yn cyfrannu at amwynder a bioamrywiaeth.

**Tir oddi ar Ffordd Bryn Lupus, Llanrhos, Llandudno**

Disgrifiad o'r safle

6.30 Mae'r safle tua 12 hectar i'r de a'r gorllewin o Lanrhos ac i'r de o Landudno. Mae yna ddwy ran i'r safle; mae'r rhan ddeheuol yn cynnwys dau gae âr a phlot o wair i'r gogledd orllewin a chlystyrau o goed aeddfed. Mae'r caeau a'r plot o wair wedi eu hamgáu yn rhannol gan wrychoedd ac yn rhannol gan goed. Mae rhan orllewinol y safle yn gae bugeiliol unigol sydd wedi ei wahanu oddi wrth y plot o wair gan drac mynediad (sydd hefyd yn PRoW) tuag at faes carafannau i'r de. Mae ffin y cae yn rhannol goediog ac wedi ei amgáu yn rhannol gan wrychoedd.

6.31 Mae tai yn ffinio â rhan orllewinol y safle o'r gogledd, gyda'r B5115 i'r dwyrain a chae amaethyddol y tu hwnt. I'r de mae yna safle ysgol a maes carafannau i'r gorllewin. Mae'n llethru i lawr yn raddol o'r gorllewin i'r dwyrain.

6.32 Mae Ffordd Bryn Lupus yn rhedeg gyda ffin ogleddol rhan orllewinol y safle, gyda thir bugeiliol i'r gogledd. I'r dwyrain mae'r plot gwair a maes carafannau i'r de, a thir bugeiliol y tu hwnt. Mae tai ar ffin orllewinol y safle. Mae'r tir yn wastad.

Cyd-destun

*Proffil Ward Deganwy– 2019*

6.33 O ran nodweddion poblogaeth, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Deganwy boblogaeth is na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 0-44 oed ond yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 45- 65+ oed. O'i gymharu â Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Deganwy boblogaeth gyfartalog is ar gyfer y cohort 0-44 oed. Mae ganddi tebyg i'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 45-64 oed ac mae ganddi boblogaeth uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 65+ oed.

6.34 Mae cyfran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (24.7%) yn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a chyfartaledd Cymru (22.7%).

*Asesiad Mannau Agored (2012)*

6.35 Mae'r asesiad mannau agored cyfredol (2020) yn cael ei baratoi, tra bod astudiaeth 2012 yn dangos diffygion yn Neganwy o 4.50ha ar gyfer caeau chwarae, 1.16ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 1.45ha ar gyfer chwarae a 1.13ha ar gyfer prif amwynder hamdden.

*Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC*

6.36 O blith yr 11 ardal drefol a aseswyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Tywyn/Deganwy/Cyffordd Llandudno orchudd canopi is na'r cyfartaledd, sef 11.3% o'r ôl troed trefol cyffredinol.

*Mapio Teipoleg*

6.37 Y mathau o GI sydd ar y safle yw amaeth (tir pori), gwrychoedd a choed gwrychoedd. Yn yr ardal ehangach y teipolegau GI yw gerddi preifat, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, coetir a phrysgdir.

*Swyddogaethau GI ar y Safle*

6.38 Mae'r tir amaethyddol yn cyflawni tua chwe swyddogaeth, yn cynnwys esthetig, anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr.

Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau

6.39 Mae'r cynllun yn darlunio cyfosodiad gwrychoedd a choed presennol a dylid cadw'r rhain, pan fo'n ddichonadwy, fel rhan o unrhyw gynlluniau datblygu.

6.40 Ni chofnodir unrhyw gyrsiau dŵr, er bod mapio CNC yn amlygu risg llifogydd dŵr wyneb ger Ffordd Bryn Lupus yn rhan orllewinol y safle a ger ffin ogleddol rhan ddwyreiniol y safle. Mae cyfran o hynny wedi cael ei nodi fel risg uchel. Gallai cynnydd mewn llifogydd dŵr wyneb ddeillio o ddatblygu posibl ar y safle, felly dylid ystyried rhwydwaith o bantiau, fel rhan o system ddraenio gynaliadwy (SuDS) yn yr ardaloedd risg uchaf.



Bryn Lupus Road
Conway Road
Key
Existing
Site boundary
Trees
Woodland
Hedgerows
Potential
Buffer for Sustainable Drainage
Green Infrastructure Corridors
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
0m 25m 50m 100m 150m
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Genesis Centre, Birchwood Science Park, Warrington WA3 7BH
Tel 01925 844004 e-mail tep@tep.uk.com www.tep.uk.com
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Strategic Site - Land off Bryn Lupus Road, Llanros, Llandudno
Drawing Number
D8016.003
AJG
TJ
TJ
1:2500 @ A3
22/09/2020

6.41 Nododd yr Asesiad Mannau Agored a’r Astudiaeth Canopi Coed Tref ddiffyg mewn perthynas â mannau agored a gorchudd canopi coed is na’r cyfartaledd yn ôl eu trefn. Dylai unrhyw gynlluniau datblygu gynnwys mannau agored priodol, yn cynnwys potensial ar gyfer gorchudd canopi coed.

**Fferm Peulwys, Hen Golwyn**

Disgrifiad o'r safle

6.42 Mae’r safle yn tua 15 hectar ar ffin ddeheuol Hen Golwyn. Mae wedi ei rannu yn nifer o gaeau sydd wedi eu hamgáu gan wrychoedd. Mae cyflwr y gwrychoedd yn amrywio o ran cyflwr, gyda rhai wedi eu tocio yn agos, eraill wedi gordyfu, ac ambell i goeden gwrych. Mae’r rhan fwyaf o’r safle yn dir âr, gyd pheth porfa. Mae tai yn edrych dros y safle o’r gogledd, ac i’r dwyrain mae yna dŷ sengl mewn ardal o goetir bach, gyda phrysgdir yn ymestyn o’r ardal goediog a thir amaethyddol y tu hwnt.

6.43 Mae’r tir i’r de yn amaethyddol gyda phocedi o brysg ar dir mwy serth, ac yna cwrs golff i’r de ddwyrain a’r de. Mae Heol Peulwys yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol a gogleddol y safle. Mae tir yn llethru’n serth i lawr o’r dwyrain ( 150m AOD) i’r gorllewin (66m AOD) ac mae rhan ganolog y safle yn arbennig o serth.

Cyd-destun

*Proffil Ward Colwyn - 2019*

6.44 O ran nodweddion poblogaeth, o’i gymharu â’r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Golwyn boblogaeth uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y cohort 0-15 oed a 45-65+ oed. Mae ganddi boblogaeth gyfartalog is ar gyfer y cohort 16-44 oed. O’i gymharu â Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Golwyn boblogaeth uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 0-44 oed. Mae ganddi ffigyrau tebyg ar gyfer y cohort 45-64 oed ac mae ganddi boblogaeth is na’r cyfartaledd ar gyfer y cohort 65+ oed.

6.45 Mae cyfran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (22.8%) yn ychydig yn is na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a thebyg i gyfartaledd Cymru (22.7%).

*Asesiad Mannau Agored (2012)*


6.46 Mae’r asesiad mannau agored cyfredol (2020) yn cael ei baratoi, tra bod astudiaeth 2012 yn dangos diffygion yn Hen Golwyn o 7.38ha ar gyfer caeau chwarae, 2.28ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 2.81ha ar gyfer chwarae a gwarged o 1.71ha ar gyfer prif amwynder hamdden.

*Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC*

6.47 O blith yr 11 ardal drefol a aseswyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Fae Colwyn orchudd canopi uwch na’r cyfartaledd, sef 17.9% o’r ôl troed trefol cyffredinol.

*Mapio Teipoleg*

6.48 Mae’r mathau o GI sydd ar y safle Ardal amaeth (tir pori a thir âr) a gwrychoedd gyda rhai coed gwrychoedd. Yn yr ardal ehangach y teipolegau GI yw gerddi preifat, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, coetir a phrysgdir.


Key
Existing
Site boundary
Trees
Woodland
Hedgerows
Steeper Slopes
Potential
Buffer for Sustainable Drainage
Green Infrastructure Corridors
0m 25m 50m 100m 150m
Rev Description Drawn Approved Date
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Strategic Site - Peulwys Farm, Peulwys Lane, Old Colwyn
Drawing Number
D8016.004
Drawn AJG
Checked TJ
Approved TJ
Scale 1:2500 @ A3
Date 23/09/2020
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

*Swyddogaethau GI ar y Safle*

6.49 Mae'r tir amaethyddol yn cyflawni tua chwe swyddogaeth, yn cynnwys : esthetig, anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr. Mae'r gwrychoedd yn cyflawni yr un swyddogaethau â'r tir amaethyddol gyda swyddogaethau ychwanegol yn cynnwys: gwaredu llygryddion, cynefinoedd i fywyd gwyllt, storio carbon, cysgod rhag y gwynt a rhyng-gipio dŵr, sydd yn creu cyfanswm o tua 12 swyddogaeth.

Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau

6.50 Mae'r cynllun yn darlunio cyfosodiad caeau amaethyddol, gwrychoedd a choed gwrychoedd presennol a dylid cadw'r rhain, pan fo'n ddichonadwy, fel rhan o unrhyw gynlluniau datblygu.

6.51 Ni chofnodir unrhyw gyrsiau dŵr ar y safle, er bod mapio CNC yn amlygu risg llifogydd dŵr wyneb ar heol Peulwys y tu hwnt i ffin orllewinol y safle. Mae cyfran o hynny yn cael ei nodi fel risg uchel a gallai'r risg yma gynyddu gyda datblygu posibl ar y safle. Tir ger y ffin orllewinol yw rhan isaf y safle a dylid cynnal coridor fel pant, fel rhan o system ddraenio gynaliadwy (SuDS) er mwyn helpu i reoli dŵr ffo, a phantiau eilaidd yn cysylltu o dir uwch.

6.52 Byddai'r tir mwyaf serth yng nghanol y safle yn rhwystr i ddatblygu, ond gellid ei gadw fel coridor GI posibl, yn rhannol drwy ymestyn y cynefin prysgdir o'r de, gyda chynlluniau ar gyfer plannu coed er mwyn cynyddu swyddogaeth y safle a gorchudd canopi mwy hirdymor.

6.53 At ei gilydd, byddai'r coridorau GI posibl ar draws rhannau o'r safle, a nodir uchod, yn creu buddion i fywyd gwyllt, yn gwella gosodiad unrhyw ddatblygiad arfaethedig ac yn annog llwybrau teithio actif. Dylent hefyd gynnig ardaloedd chwarae a nodwyd fel maes anghenus yn yr Asesiad Mannau Agored. Byddai'r system SuDS yn ; helpu i reoli swm dŵr wyneb ffo; yn rheoli ansawdd dŵr ffo er mwyn atal llygredd; ac yn cyfrannu at amwynder a bioamrywiaeth.

**De Ddwyrain Abergele**

Disgrifiad o'r safle

6.54 Mae'r safle yn tua 15 hectar, wedi ei leoli i'r de ddwyrain o Abergele a ger cyffordd 24 yr A55. Mae'r safle wedi ei rannu yn bedwar sydd wedi eu hamgáu yn rhannol gan wrychoedd, gyda'r rhan fwyaf gorllewinol yn gweithredu fel cyfleuster chwaraeon awyr agored. Mae'r gweddill yn ddefnydd amaethyddol ac ar hyn o bryd yn cael eu rheoli fel tir âr.

6.55 Mae yna wrych darniog ar hyd ffin ddwyreiniol y safle tuag at ardal goediog fechan (y tu allan i'r safle) ble mae'r safle yn ffinio â Gwesty Kinmel Manor. Mae'r ffin ddeheuol fer yn cael ei diffinio'r rhannol gan wrych a choed gwrych. Mae'r ffin orllewinol yn cael ei ddiffinio gan wrych dwbl aeddfed, er bod rhan ogleddol y gwrych yn dod yn ffin fewnol. Mae hawl tramwyo (PRoW) a ffoes ddraenio yn rhedeg rhwng y ddau wrych. Mae yna wrych ar ffin ogleddol fer y safle gyda'r gyffordd i'r A55.

6.56 Nid oes gan y cae gorllewinol unrhyw ddyluniad ffisegol ar ei ochr orllewinol, ond mae'r gwrych dwbl aeddfed (y cyfeirir ato uchod) yn ffurfio'r ffin ddwyreiniol. Mae yna ardal goediog fechan ar hyd ei ffin ddeheuol.

6.57 Mae'r tir yn gostwng yn raddol iawn o'r ffin ddeheuol i'r ffin ogleddol.

Cyd-destun

*Proffil Ward Gele - 2019 (Rhan ddeheuol Abergele)*

6.58 O ran nodweddion poblogaeth, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer Cymru, mae gan Gele boblogaeth is na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort 0-44 oed. Mae'n uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y cohort 45-64 od ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y cohort dros 65 oed. O'i gymharu Bwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Gele boblogaeth gyfartalog is ar gyfer y cohort 0-64 oed. Ond, mae Gele yn sylweddol uwch na'r cyfartaled ar gyfer y cohort dros 65 oed.

6.59 Mae cyfran y bobl â salwch hirdymor cyfyngol (28.8%) yn uwch na chyfartaledd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (24.2%) a chyfartaledd Cymru (22.7%).

*Asesiad Mannau Agored (2012)*

6.60 Mae'r asesiad mannau agored cyfredol (2020) yn cael ei baratoi, tra bod astudiaeth 2012 yn dangos diffygion yn Abergele (cyfanswm) o 6.86ha ar gyfer caeau chwarae, 2.34ha ar gyfer chwaraeon awyr agored, 6.33ha ar gyfer chwarae a gwarged o 9.58ha ar gyfer prif amwynder hamdden.

*Astudiaeth Canopi Coed Trefi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (2016), CNC*

6.61 O blith yr 11 ardal drefol a aseswyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae gan Abergele orchudd canopi is, sef 11.6% o'r ôl troed trefol cyffredinol.

Teipoleg a Mapio Amlbwrpas

*Mapio Teipoleg*

6.62 Y mathau o GI sydd ar y safle yw amaeth (tir âr), gwrychoedd a chyfleuster chwaraeon awyr agored. Yn yr ardal ehangach y teipolegau GI yw gerddi preifat, amaeth, glaswelltir a choetir.

*Swyddogaethau GI ar y Safle*

6.63 Ar hyn o bryd mae'r tir âr yn cyflawni tua 5- 9 swyddogaeth, yn cynnwys: anweddu drwy oeri, coridor ar gyfer bywyd gwyllt, cynhyrchu bwyd ac ymdreiddiad dŵr. Mae'r caeau sydd yn ffinio â'r hawl tramwyo yn cyflawni nifer uwch o swyddogaethau oherwydd eu bod yn agos i'r llwybr troed, a'r swyddogaethau ychwanegol a gyflawnir yw hamdden cyhoeddus, llwybr teithio gwyrdd ac estheteg.

Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau


6.64 Mae'r cynllun yn dangos cyfosodiad nodweddion presennol ar y safle, yn cynnwys yr ardaloedd coediog, gwrychoedd a choed unigol yn y caeau.

6.65 Mae mapio CNC yn cadarnhau'r risg uchel o ran llifogydd dŵr wyneb o'r ffoes sydd yn llifo ger yr hawl tramwyo ar hyd ffin orllewinol y safle, er nad yw' risg yn ymestyn i'r caeau cydffiniol, mae'n bwydo ardal fwy ger cyffordd yr A55. Gallai mwy o risg dŵr wyneb ddeillio o ddatblygu posibl ar y safle, felly dylid ystyried rhwydwaith o bantiau ar dir ger y ffin orllewinol, yn ymestyn i ran isaf y safle, fel rhan o system ddraenio gynaliadwy (SuDS).

6.66 Dylid cadw'r holl ardaloedd coediog pan fo hynny'n ddichonadwy a chynnal eu swyddogaeth, a dylid cynnal gwrthbwysiad o ymyl unrhyw ardal coediog fel byffer tirlun. Byddai hynny yn cynnal maint a phresenoldeb y coetir ar y safle ac yn gwella swyddogaethau GI megis cynefin a chysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt.

6.67 Dylai'r PRoW sydd yn rheged ar hyd ffin orllewinol y safle (yn rhannol) ffurfio 'asgwrn cefn' ar gyfer llwybrau teithio actif eraill ar y safle gan gysylltu â chanol tref Abergele a chefn gwlad yn ehangach. Dylid darparu mannau agored addas, yn gysylltiedig â'r llwybrau teithio actif, yn nhermau teipoleg, a byddai hynny yn rhan o unrhyw goridorau GI posibl.

6.68 At ei gilydd, byddai'r coridorau GI posibl (byfferau tirlun) ar draws rhannau o'r safle, a nodir uchod, yn creu buddion i fywyd gwyllt, ac yn gwella gosodiad unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Byddai'r system SuDS yn helpu i reoli swm dŵr wyneb ffo; yn rheoli ansawdd dŵr ffo er mwyn atal llygredd; ac yn cyfrannu at amwynder a bioamrywiaeth.



Key
Existing
Site boundary
Trees
Woodland
Hedgerows
Footpath
Ditch
Potential
Buffer for Sustainable Drainage
Buffer to woodland
A55
0m 25m 50m 100m 150m
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL
Rev Description Drawn Approved Date
THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP
Project
Conwy Green Infrastructure Assessment
Title
Strategic Site - Roundabout field, Abergele
Drawing Number
D8016.006
Drawn AJG
Checked TJ
Approved TJ
Scale 1:3000 @ A3
Date 01/10/2020

# 7.0 Argymhellion Polisi Cynllunio

7.1 Mae'r adran hon yn nodi canllawiau er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau GI yn RLDP Conwy.

**Polisïau Seilwaith Gwyrdd**

7.2 Gan ystyried yr anghenion a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd gan y GIA yma, nodir argymhellion ar gyfer polisïau GI yn yr RLDP isod.

Polisi GI Strategol

7.3 Yn unol â Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PPW 10), dylai'r RLDP ei gwneud yn ofynnol i ymgorffori a chynnal GI fel cydrannau allweddol o leoedd neilltuol a naturiol, tra'n nodi cyfleoedd strategol ble byddai cadw, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn cyflawni'r nifer fwyaf o fuddion arwyddocaol.

7.4 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a chanllawiau CNC, mae'r GIA yma yn darparu cronfa dystiolaeth a fframwaith strategol arfaethedig ar gyfer cynllunio GI ym Mwrdeistref Sirol Conwy er mwyn ategu'r RLDP arfaethedig. Mae'r GIA yn nodi anghenion a chyfleoedd GI er mwyn creu rhwydwaith amlbwrpas o goridorau gwyrdd a glas, gan ystyried ffactorau megis mynediad, mannau agored presennol, cynefinoedd naturiol a lled naturiol, gwarchod yr amgylchedd dŵr, tirluniau a geoamrywiaeth, a chyfrannu at rwydweithiau ecolegol. Mae'r cyfleoedd yma yn cael eu hamlinellu yn Adran 4.0 ar lefel strategol ar gyfer y fwrdeistref gyfan, ac ar lefel leol yn achos cymunedau arfordirol ble mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Conwy wedi ei chrynodi.

7.5 Dylai polisi trosfwaol gael ei gynnwys yn yr RLDP er mwyn darparu'r cyfeiriad polisi strategol ar gyfer darparu GI er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy.

7.6 Yn unol â gweledigaeth GIA Conwy a'r datganiad argyfwng hinsawdd cenedlaethol, mae'n rhaid i bolisi cynllunio yn yr RLDP eirioli dros ddatblygu rhwydwaith GI amlbwrpas a chydnerth, fel y bydd Conwy, erbyn 2033 yn lle hyd yn oed mwy gwyrdd a ffyniannus i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo. Argymhellir y dylai'r polisi GI Strategol; ar gyfer Conwy adlewyrchu'r elfennau canlynol:

- Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu ystyried cyfleoedd ar gyfer y buddion canlynol drwy greu, gwella a gwarchod GI; iechyd a lles, cefnogi twf cynaliadwy yn yr economi, tanategu ymateb y sir i newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon, a darparu rhwydweithiau ecolegol cysylltiedig a chydnerth;
- Dylid ystyried GI fel seilwaith gritigol a dylid cynllunio ar ei gyfer ochr yn ochr a thrafnidiaeth, lliniaru llifogydd a chyfleustodau er mwyn creu'r budd mwyaf posibl;
- Dylai datblygiadau ystyried yr Asesiad GI yma, yn cynnwys:
    - Asesiad o swyddogaethau, anghenion a chyfleoedd GI
    - Y 5 thema blaenoriaethol ( bioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr, datblygu economaidd, iechyd a lles a chysylltedd)

- Mae’n rhaid i datblygiadau osgoi colli asedau GI presennol ac osgoi cyfaddawdu ar uniondeb y rhwydwaith GI pryd bynnag fo hynny’n bosibl, oni bai y gellir sicrhau darpariaeth yn amnewid neu ddarpariaeth amgen yn amnewid sydd yn gwella’r rhwydwaith GI;
- Pan fyddai maint datblygiad yn rhy fach er mwyn cynnal darpariaeth GI ar y safle, bydd y Cyngor, pan fo hynny yn rhesymol, yn gofyn am gyfraniad gan y datblygwr tuag at wella mannau gwyrdd presennol neu tuag at ddarparu GI newydd mewn ardal sydd ei angen;
- Pan fo angen digolledu am golli GI presennol, dylai’r ddarpariaeth o GI newydd neu well, fel sydd yn ofynnol yn ôl maint y datblygiad, fod yn ychwanegol at y gofyniad i ddigolledu;
- Ni fydd datblygiadau fydd yn achosi niwed sylweddol i swyddogaeth y Rhwydwaith GI, yn arbennig mewn perthynas â gallu GI i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a’r gallu i addasu i hynny, yn cael eu hannog;
- Bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer rheoli a chynnal seilwaith gwyrdd i’r dyfodol;
- Dylai datblygiadau ymgorfffori mesurau ar gyfer addasu i a lliniaru yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy ddatrysiadau dylunio GI blaengar, yn cynnwys systemau rheoli/draenio dŵr cynaliadwy a mesurau oeri trefol;
- Pan fo arwyddion yn cael eu defnyddio, mae'n rhaid i’r datblygiad gynnwys arwyddion priodol a dwyieithog.

<u>Argymhellion Cynllunio Gofodol</u>

7.7 Yn unol â PPW, mae’r ddogfen hon yn darparu GIA cyfredol, gan ddefnyddio setiau data presennol a’r wybodaeth orau er mwyn datblygu adnodd integredig seiliedig ar fapiau (paragraff 6.2.6 PPW).

7.8 Gellir defnyddio’r setiau data gofodol a gynhyrchwyd yn y GIA yma, sydd yn amlygu cyfleoedd wedi eu halinio ag angen lleol, i arwain penderfyniadau ynghylch datblygu, pan fo hynny yn briodol.

7.9 Gall hynny fod yn arbennig o berthnasol ar gyfer unrhyw ddyraniadau safle sydd yn gynwysedig yn yr RLDP. Dylai polisïau sydd yn berthnasol i safleoedd a nodir fel rhai addas ar gyfer eu datblygu gael eu harwain gan setiau data gofodol a mapio cyfleoedd a gynhyrchwyd fel rhan o’r GIA yma. Hefyd efallai y byd rhai ardaloedd yn llai priodol ar gyfer datblygu o safbwynt GI, fel y dangosir hynny fel ardaloedd a argymhellwyd ar gyfer eu gwarchod yn Adran 4.0.

<u>Safleoedd Strategol</u>

7.10 Dylai’r polisïau GI yn yr RLDP gael eu hategu gan bolisïau GI ar gyfer darparu’r pum Safle Strategol a ddyrannwyd ar gyfer datblygiadau defnydd preswyl a/neu gymysg.

7.11 Argymhellir y dylai’r polisïau GI trosfwaol ar gyfer y Safleoedd Strategol adlewyrchu’r elfennau canlynol:

- Dylai fod yn ofynnol i ddatblygiadau newydd wneud cyfraniad priodol at fynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd lleol mewn perthynas â darpariaeth GI yn yr ardal o dwf ac o'i chwmpas drwy gadw, gwella a gwarchod mannau a choridorau gwyrdd.

- Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau gyfrannu at:
  - Gadw coed a gwrychoedd presennol pryd bynnag fo'n bosibl;
  - Darparu rhwydwaith o goridorau GI amlbwrpas wedi eu cysylltu'n dda ar y safle strategol ac o'i gwmpas, yn arbennig yn agos at lystyfiant presennol ar y safle neu o'i gwmpas;
  - Gwella gosodiad tirlun y safle strategol drwy wella cymeriad, edrychiad a chyflwr coridorau mynediad, pyrth, ffiniau aneddiadau a nodweddion tirlun, yn cynnwys asedau amgylchedd hanesyddol;
  - Cynhyrchu bwyd (e.e. Rhandiroedd a gerddi cymunedol) pan fo'n bosibl;
  - Ymgorffori systemau draenio cynaliadwy i gynlluniau datblygu;
  - Gwella cysylltedd cerdded a seiclo rhwng ardaloedd preswyl, canol trefi, ysgolion a gweithleoedd, chwaraeon awyr agored, twristiaeth a chyfleusterau hamdden, gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus a chefn gwlad o gwmpas y safle strategol fel sy'n briodol.

GI mewn Datblygiadau

7.12 Gellir darparu GI fel cyd-gynnyrch buddsoddi mewn seilwaith newydd neu a adnewyddir. Mae datblygu yn creu cyfleoedd ar ffurf asedau newydd neu asedau gaiff eu gwella, yn ogystal â'r posibilrwydd o golli a newid nodweddion amgylcheddol. Mae hynny yn cyfiawnhau gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn cynorthwyo tuag at reoli asedau GI presennol yn barhaus a chreu asedau newydd - yn arbennig pan fo diffygion wedi cael eu nodi.

7.13 Mae amodau cynllunio yn galluogi i'r Cyngor wella ansawdd datblygiadau a lliniaru effeithiau niweidiol posibl y datblygiadau, a hynny yn unol â'r RLDP.

7.14 Yn draddodiadol bydd rhwymedigaethau cynllunio ar ffurf cytundebau Adran 106 (s106). Cytundebau cyfreithiol yw'r rhain a negodir rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r unigolion sydd â diddordeb mewn darn o dir (fel rheol yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio), ac fe'u bwriedir i sicrhau bod datblygiadau yn dderbyniol, fyddai fel arall yn annerbyniol yn nhermau cynllunio.

7.15 Gall cytundebau Adran 106 ddarparu tir ac arian hirdymor ar gyfer gweithredu asedau a mannau gwyrdd newydd a gwelliannau

7.16 Dylai argymhellion polisi cynllunio ar gyfer cynlluniau datblygu gael eu cefnogi pan fyddant yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r gosodiad a'r dyluniad yn parchu lleoliad asedau GI presennol ac yn cefnogi ac yn gwella'r swyddogaethau a'r buddion maent yn eu darpar;

- Mae'r datblygiad yn gwarchod ac yn gwella'r rhwydwaith GI ar y safle ac o'i gwmpas drwy ddarparu neu wella cysylltiadau neu goridorau gweithredol rhwng asedau GI gwahanol;
- Mae'r datblygiad yn darparu GI newydd a/neu'n cyflwyno defnydd amlbwrpas o fannau gwyrdd presennol neu gysylltiadau/goridorau; mewn ymateb i asesiad o angen safle benodol a chyfle mewn perthynas â GI;
- Mae'r gorchudd canopi coed ar y safle yn o leiaf yr un faint â chyfartaledd Bwrdeistref Sirol Conwy yn achos coed mewn trefi, gan ystyried cadw coed a thwf canopi i'r dyfodol gan goed fydd yn cael eu plannu fel rhan o dirlun y safle.
- Mae'r datblygiad yn defnyddio asedau seilwaith gwyrdd er mwyn gwella cydnerthedd llifogydd yn unol â Llawlyfr SuDS 9CIRIA C753F, neu ddiweddariadau i hynny);
- Mae enillion net sylweddol o ran bioamrywiaeth yn cael ei ddangos ar y safle a/neu'r tirlun ehangach, gan ddefnyddio'r dull "hierarchaeth lliniaru";
- Darperir cynllun adnoddau hirdymor ar gyfer rheoli ac adnewyddu asedau GI yn gylchol.

<u>Polisïau cysylltiedig ag Ardaloedd Blaenoriaethol GI</u>

7.17 Mae'r adran hon yn argymell mwy o argymhellion polisi wedi eu targedu mewn perthynas â phob maes GIA blaenoriaethol ac amcanion cysylltiedig. Mae'r meysydd blaenoriaethol yn cynnwys bioamrywiaeth, yr amgylchedd dŵr, datblygu economaidd, iechyd a lled a chysylltedd. Mae'r argymhellion mwy manwl ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn cael eu darparu yn Adran 4.0.

7.18 Mae'r pum maes blaenoriaeth yn rhyng-gysylltiedig, felly gall argymhellion polisi ar gyfer un maes blaenoriaeth fod o fudd i flaenoriaethau eraill.

*Blaenoriaeth 1: Gwarchod, gwella, creu ac adfer cynefinoedd er mwyn creu rhwydwaith bywyd gwyllt a bioamrywiaeth cydnerth*

Mae'r argymhellion polisi canlynol yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth bioamrywiaeth:

- Cadw a gwella coridorau cynefinoedd presennol, tra'n gwella cysylltiadau rhwng cynefinoedd presennol;
- Gwarchod a gwella safleoedd dynodedig a safleoedd a chynefinoedd â gwerth bioamrywiol;
- Sicrhau cynnydd net mewn bioamrywiaeth ac ymgorffori cyfleoedd i ella bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol;
- Cynnwys mesurau dylunio adeiladu ecolegol sydd yn gwella bioamrywiaeth - e.e. Toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, a phlannu neu greu cynefinoedd mewn mannau agored gwyrdd, yn cynnwys llefydd i nythu a chlwydo i adar, ystlumod, pryfed ac amffibiaid pan fo hynny yn ddichonadwy;
- Osgoi neu liniaru aflonyddu ar safleoedd o werth bioamrywiol, fydd yn deillio o ddefnydd hamdden e.e. Defnydd chwaraeon neu fynd â chŵn am dro.

*Blaenoriaeth 2: Galluogi amgylchedd glas ffyniannus*

7.19 Mae'r argymhellion polisi canlynol yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth amgylchedd dŵr:

- Annog cynlluniau sydd yn cyfrannu at well ansawdd dŵr;
- Gwarchod ansawdd dŵr rhag effeithiau negyddol posibl sydd yn gysylltiedig â draenio a gwastraff mewn perthynas â datblygu;
- Cadw a gwella coridorau cyrsiau dŵr presennol ac ystyried cyfleoedd ar gyfer amrywio cynefinoedd, megis gwlypdir, glaswelltir, prysg a choed;
- Eirioli am systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ac ôl-osod SuDS yn yr amgylchedd trefol, yn unol â'r Llawlyfr SuDS (CIRIA C753F).

*Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo twf cynaliadwy a datblygiad economaidd drwy GI*

7.20 Mae'r argymhellion polisi canlynol yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth ardal twf economaidd gynaliadwy:

- Hyrwyddo'r economi gwyrdd drwy gyfleoedd busnes cysylltiedig sydd yn deillio o GI a datblygu sydd yn arwain at welliannau GI a lleihau carbon;
- Cefnogi datblygu busnes ac adeiladau sydd yn ymgorffori GI amlbwrpas;
- Sicrhau bod rheoli ac adnewyddu asedau GI yn gylchol yn cael ei sicrhau cyn dechrau ar y gwaith datblygu.

*Blaenoriaeth 4: Annog, galluogi a hyrwyddo ffyrdd o fwy'n iach a gwella lles*

7.21 Mae'r argymhellion polisi canlynol yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth iechyd a lles:

- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio mannau agored gwyrdd ac asedau GI eraill fel dosbarthiadau awyr agored drwy ddarparu mynediad i asedau naturiol a diwylliannol, a'u dehongli;
- Dylid dylunio mannau hamdden a chwarae er mwyn darparu amgylchedd y gellir ei fwynhau, er mwyn annog rhyngweithio cymdeithasol a rhyngweithio â byd natur drwy ddefnyddio deunyddiau naturiol;
- Hyrwyddo cynhyrchiant a chyfleusterau bwyd cynaliadwy er mwyn galluogi i fentrau o'r fath weithredu ac ehangu, e.e. Mentrau cydweithredol a siopau cymunedol.

*Blaenoriaeth 5: Gwella cysylltedd*

7.22 Mae'r argymhellion polisi canlynol yn gysylltiedig â'r flaenoriaeth cysylltedd:

- Sicrhau dyluniad GI cynhwysol o gychwyn y cam enwi safleoedd drwy fapio cyfyngiadau a chyfleoedd ar y safle ac o'i gwmpas;
- Cysylltu ardaloedd tai, manwerthu a chyflogaeth â rhwydweithiau ffyrdd gwyrdd ehangach a rhwydweithiau trafnidiaeth cyhoeddus er mwyn cyfrannu at gymunedau iach a lleihau carbon;

<u>Cydlynydd GI</u>

7.23 O ystyried natur amlbwrpas GI, mae penderfyniadau a gweithredu mewn perthynas â datblygu polisïau a darparu GI yn pontio nifer o adrannau yn CBSC yn cynnwys rheoli mannau agored gwyrdd, ecoleg, priffyrdd, twristiaeth, SuDS, addysg, iechyd cyhoeddus, diwylliant a lleoedd a'r amgylchedd a thirlun. Mae ystyried GI hefyd yn ddyletswydd statudol ar holl gyrff cyhoeddus Cymru o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae gan CNC, y GIG a Llywodraeth Cymru cyfrifoldebau penodol. Mae gan nifer o dirfeddianwyr amcanion corfforaethol neu elusennol mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd o dan eu stiwardiaeth a byddai ganddynt fynediad i raglenni cyllido megis Glastir.

7.24 Er mwyn cynorthwyo gyda chydlynu'r dull o weithredu cynlluniau yn y GIA, mae yna gyfle i greu rôl Cydlynydd GI er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, dyrannu cyfrifoldebau a datblygu rhaglenni GI newydd.

7.25 Byddai cydlynydd GI yn ymwybodol o bopeth sydd gan GI i'w gynnig, ac yn cydlyni rhwng gwahanol adrannau'r awdurdod lleol a phartneriaid megis CNC, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Dŵr Cymru. Byddai'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer partneriaid cyflawni eraill, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynllunwyr, ac yn ceisio arian ar gyfer prosiectau GI yn y dyfodol.

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP



# ASESIAD SEILWAITH GWYRDD CONWYCONWY GREEN INFRASTRUCTURE ASSESSMENT

## CONWY COUNTY BOROUGH

## ATODIAD 1 - ADOLYGIAD O BOLISÏAU A DOGFENNAU

TEP
Genesis Centre
Birchwood Science Park
Warrington
WA3 7BH

Ffôn: 01925 844004
E-bost: tep@tep.uk.com
www.tep.uk.com

Swyddfeydd yn Warrington, Market Harborough, Gateshead, Llundain a Chernyw

| | |
|---|---|
| Teitl y Ddogfen | Adolygiad o Bolisïau a Dogfennau |
| Paratowyd ar gyfer | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paratowyd gan | TEP - Warrington |
| Cyfeirnod y Ddogfen | 8016.004 |

| | |
|---|---|
| Awdur | Laura D'Henin |
| Dyddiad | Chwefror 2020 |
| Gwiriwyd | Sarah Grady a Tim Johns |
| Cymeradwywyd | Tim Johns |

| Hanes Diwygiadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fersiwn | Dyddiad | Addaswyd gan | Gwiriwyd /Cymeradwywyd gan | Rhesymau | Statws |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**CYNNWYS** **TUDALEN**

1.0 Cyflwyniad ........................................................................................................ 1
2.0 Adolygiad o Bolisïau ........................................................................................ 3
3.0 Adolygiad o Arferion Gorau ........................................................................... 37
4.0 Adolygiad o Strategaethau CBSC ................................................................. 51
5.0 Casgliad .......................................................................................................... 59

**TABLAU** **TUDALEN**

Tabl 1: Adolygiad Polisi ……………………………………………………………………….3
Tabl 2: Y cysylltiad rhwng argymhellion CIEEM ar gyfer cynllunio a chyflawni GI a GIA Conwy ……………………………………………………………………………………………39
Tabl Camau a argymhellir gan LI ar gyfer cyflawni GI Strategol o'i gymharu â dull TEP …44
Tabl 4 Themâu yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy …………………………………….53
Tabl 5: Y berthynas rhwng GI a'r heriau economaidd sydd yn wynebu Conwy ……………54
Tabl 6: Safonau a argymhellir gan Feysydd Chwarae Cymru (FIT) ar gyfer mannau agored ……………………………………………………………………………………………………57
Tabl 7: Y berthynas rhwng GI ac amcanion y Cynllun Corfforaethol ………………………..58

**FFIGURAU** **TUDALEN**

Ffigwr 1: Rhwystr Sŵn Uchder-isel (HOSANNA) …………………………………………….50
Ffigwr 2: Rhwystrau ysgafn â llystyfiant ar bontydd(HOSANNA) ……………………………51
Ffigwr 3: Cyfuno Datrysiadau mewn ardaloedd ble ceir sŵn traffig ffordd a rheilffordd (HOSANNA) ……………………………………………………………………………52

# 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae The Environment Partnership (TEP) Ltd wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gwblhau Asesiad Seilwaith Gwyrdd (GIA) er mwyn bod yn rhan o'r gronfa dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP). Mae'r polisi yma a'r adolygiad o arferion gorau yn ffurfio Rhan 2 prosiect aml-gamau, a bydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu camau diweddarach a themâu allweddol y GIA.

1.2 Mae cynnwys y polisi a'r adolygiad o'r ddogfen wedi cael ei hysbysu gan fewnbwn gan CBSC a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae Adran 2 yn dadansoddi'r dogfennau polisi canlynol:

- Llywodraeth Cymru (2018). Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10
- Llywodraeth Cymru (2009). Nodyn Cyngor Technegol 5: Gwarchodaeth Natur a Chynllunio
- Llywodraeth Cymru (2004). Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Risg Llifogydd
- Llywodraeth Cymru (2009). Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored
- Llywodraeth Cymru (2007). Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
- Llywodraeth Cymru (2014). Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd
- Y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016
- Llywodraeth Cymru (2017). Polisi Cyfoeth Naturiol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2020
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2013). Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022

1.3 Mae Adran 3 yn dadansoddi'r dogfennau Arferion Gorau canlynol:

- Grŵp Polisi CIEEM Cymru (2019). Canllawiau Seilwaith Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Datganiad Sefyllfa
- Sefydliad Tirlun (2016) Ymagwedd Integredig tuag at Ddatganiad Sefyllfa Seilwaith Gwyrdd
- Prosiect HOSANNA (2013). Atebion Newydd ar gyfer Dinasoedd Mwy Tawel a Gwyrdd

1.4 Mae Adran 4 yn dadansoddi cynlluniau a strategaethau perthnasol eraill gan CBSC:

- Strategaeth Twf Economaidd Conwy 'Y Lle Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf' (2017-2027)
- CCBC (2018). RLDP Papur Pwnc 4 - Twristiaeth
- CCBC (2018). RLDP Papur Pwnc 6 - Yr Amgylchedd Naturiol
- CCBC (2018). RLDP Papur Pwnc 8 - Trafnidiaeth
- CCBC (2019). RLDP Papur Pwnc 12 - Mannau ar gyfer Hamdden
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy CBSC 2017- 2022
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo CBSC 2019- 2029

*Terminoleg*

1.5 Mae Adrannau 2 a 3 yn dadansoddi dogfennau polisi ac arferion gorau, gan gyfeirio at y 'Dull Seilwaith Gwyrdd' yn ogystal â'r 'dull'. Mae'r derminoleg yn cyfeirio at y dull sydd wedi ei hen sefydlu o gynnal asesiadau Seilwaith Gwyrdd (GI) a ddatblygwyd gan dîm amlddisgyblaethol TEP yn ystod y degawd diwethaf, a hynny wedi ei hysbysu gan bolisi ac arferion gorau ar lefel ryngwladol i lefel leol.

*Adolygiad Parhaus*

1.6 Mae PPW10 yn rhoi pwyslais newydd ar gyflawni buddion amlbwrpas mewn perthynas â datblygu drwy ddarparu seilwaith gwyrdd integredig. Ar ôl cyhoeddi PPW 10, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi canllawiau ar Asesiadau Seilwaith Gwyrdd (GIA) a sut y cyflawnir hynny yn y system gynllunio. Ond, mae'r gwaith o baratoi canllawiau ar GIAau yn dal yn mynd rhagddo. Mae PPW 10 hefyd yn nodi y dylai deilliannau Asesiadau Seilwaith Gwyrdd dynnu ar y gronfa dystiolaeth a ddarparwyd gan Ddatganiadau Ardal, sydd yn dal i gael eu cynhyrchu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Byddwn yn adolygu unrhyw ganfyddiadau ymddangosol ac yn eu cyflwyno i'r grŵp cleient er mwyn eu trafod.


# 2.0 Adolygiad Polisi

*Tabl 1: Adolygiad Polisi*

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10 (2018)** | | |
| Pennod 2<br><br>Pobl a Lleoedd: Creu Lles drwy Greu Lleoedd | Mae Pennod 2 yn cyflwyno cysyniad allweddol PPW, sef 'Creu Llefydd Cynaliadwy' sydd yn amcanu at greu lleoedd sydd yn ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, actif, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar.<br><br>Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylchfyd ehangach. Mae Pennod yn 2 yn nodi bod creu lleoedd yn golygu bod angen 'ffordd o feddwl doeth, amlddimensiynol ac arloesol er mwyn ei roi ar waith, a dylid ei ystyried ar y cyfle cyntaf posibl. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gynigion datblygu sydd yn arwain at fuddion sydd yn mynd y tu hwnt i finiau datblygu ffisegol ac yn ymgorffori gwytnwch i benderfyniadau cynllunio.'<br><br>Hefyd, mae rhai egwyddorion cynllunio allweddol yn cael eu hamlinellu yn Ffigwr 3:<br>• Tyfu ein economi mewn ffordd gynaliadwy<br>• Gwneud y defnydd gorau o adnoddau<br>• Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach<br>• Creu a chynnal cymunedau<br>• Gwneud y mwyaf o warchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd | Yn debyg iawn i gysyniad creu lleoedd, mae'r dull Seilwaith Gwyrdd (GI) yn cydnabod gwerth ystyried ymyriadau GI yn ystod camau cynharaf datblygu, er mwyn sicrhau bod hynny yn cael ei integreiddio'n effeithiol i wead trefol a gwledig Conwy. Hefyd, cydnabyddir bod ôl-osod GI mewn canol trefi sydd yn bodoli yn ateb effeithiol i leihau effeithiau llifogydd a'r effaith ynys gwres trefol (UHI), yn ogystal â bod yn ddull o gynyddu potensial mewnfuddsoddiad a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.<br><br>Yng Nghonwy, mae 80% o'r boblogaeth yn byw mewn trefi mwy ar hyd y llain arfordirol yn cynnwys Bae Colwyn, Abergele a Llandudno. Felly, er mwyn cyrraedd cyfran fawr o'r boblogaeth, gall ymyriadau mewn ardaloedd trefol presennol arwain at nifer o fuddion o ran cydnerthedd yn wyneb newid hinsawdd, mwy o fynediad i fyd natur ar gyfer bywydau mwy iach, yn ogystal â darparu nifer o fuddion amgylcheddol megis cysylltedd cynefinoedd a gwella ansawdd aer.<br><br>Mae dull GI yn cydnabod bod creu lleoedd yn broses gydweithredol, a bod angen mewnwelediad, arloesedd a gweithredu gan ystod o randdeiliaid. Gall meithrin perchnogaeth ar gynlluniau mewn trefi a phentrefi greu teimlad o stiwardiaeth, er mwyn annog hirhoedledd cynlluniau o ran creu lleoedd cynaliadwy. Bydd y gwaith o ddatblygu Asesiad Seilwaith Gwyrdd Conwy (GIA) yn archwilio beth yw'r ffordd orau i GI gyfrannu at amcan creu lleoedd PPW, o ran bodloni holl ddimensiynau datblygu cynaliadwy, ymgorffori cydnerthedd yn nhrefi, pentrefi a chymunedau Conwy ac awdurdodau cydffiniol. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Pennod 3<br><br>Dewisiadau Strategol a Gofodol | Mae Pennod 3 yn amlygu pwysigrwydd dylunio da ar gyfer llefydd cynaliadwy. Disgrifir dylunio fel y 'berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd.'<br><br>Mae cynwysoldeb y broses ddylunio yn cael ei amlinellu fel blaenoriaeth, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, atgyfnerthu balchder sifig a chreu teimlad o le.<br><br>Mae'r ddolen rhwng yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac iechyd a lles yn cael ei gydnabod ym Mhennod 3. Mae Paragraff 3.23 yn nodi y gall 'Seilwaith gwyrdd fod yn ffordd effeithiol o wella iechyd a lles, drwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a darparu mannau gwyrdd hygyrch o safon uchel.'<br><br>Mae'n rhaid i dirlun ac adnoddau naturiol mewn ardaloedd gwledig gael eu gwarchod a'u gwella, tra'n cynnal cydbwysedd ag anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden y gymuned leol.<br><br>Mar rôl Lletemau Gwyrdd o ran diogelu dyraniadau statudol a golygfeydd pwysig yn cael ei amlygu. | Mae'r dull yn darparu arweiniad er mwyn sicrhau bod datblygwyr newydd yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol er mwyn ymgorffori GI sydd yn berthnasol yn lleol i ddatblygiadau newydd tra'n cadw GI sydd yn bodoli, gan fodloni gofynion dylunio da ym Mhennod 3 PPW 10. Mae'r dull yn amcanu at ddarparu cyngor cysylltiedig â datblygu perthnasol er mwyn sicrhau bod gan ddatblygiadau ddyluniad ac adeiladwaith cynaliadwy mewn perthynas â GI. Hefyd, bydd y cyngor a ddarperir gan y GIA yn cynnwys canllawiau neilltuol, yn benodol ar gyfer y pum safle strategol a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP) er mwyn rhoi canllawiau i ddatblygwyr ynghylch sut y gellir ymgorffori GI mewn datblygiadau a gynigir. Gan adeiladu ar wybodaeth a ddarparwyd eisoes gan CBSC, mae'r dull y ein galluogi i gasglu ynghyd y dopoleg, swyddogaethau, cyfyngiadau a'r mapio cyfleoedd sydd eisoes wedi ei gwblhau ar gyfer y fwrdeistref, a choladu hynny ar gyfer pob safle strategol.<br><br>Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig, mae'r cyfleoedd i leihau'r defnydd o geir a chynyddu cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig na mewn ardaloedd trefol. Pan fo yna glystyrau o ganolfannau gwasanaethau lleol yn y Gonwy wledig, bydd y dull yn amcanu at ddarparu rhwydwaith GI wedi ei gysylltu'n dda er mwyn galluogi teithio actif rhwng ardaloedd ar gyfer buddion iechyd ac economaidd, tra'n darparu coridorau i fywyd gwyllt. |

| | | |
|---|---|---|
| Pennod 4<br><br>Lleoedd Actif a Chymdeithasol | Mae Pennod 4 yn nodi mai 'lleoedd actif a chymdeithasol yw'r rhai hynny sydd yn hyrwyddo ein lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy ddarparu cymunedau cydlynol sydd wedi du cysylltu yn dda.'<br><br>Mae Pennod 4 yn amlinellu'r ffordd y mae'n rhaid i bolisïau gyflawni'r canlynol sydd yn gysylltiedig â GI:<br><br>• Galluogi mynediad cynaliadwy i dai, cyflogaeth, siopa, addysg, iechyd, cymuned, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a seilwaith gwyrdd, gan greu'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol;<br>• Datblygu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn cadw Cymru i symud a chysylltu pobl gyda swyddi, tai a hamdden. Sicrhau bod y lleoliadau a ddewisir a dyluniad datblygiadau newydd o ganlyniad i hynny yn lleihau dibyniaeth ar y car preifat ar gyfer teithio dyddiol, yn cefnogi dulliau teithio cynaliadwy ac yn helpu i wella'r amgylchedd, iechyd cyhoeddus a bywyd cymunedol;<br>• Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau annog newid modd a bod yn hygyrch iawn o ran cerdded, seiclo a thrafnidiaeth cyhoeddus, yn rhinwedd eu lleoliad, dyluniad a darpariaeth seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy ar ac oddi ar y safle;<br>• Gwireddu potensial seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd er mwyn creu hybiau gweithgaredd newydd neu adnewyddedig er mwyn cefnogi cymunedau cynaliadwy sydd yn manteisio ar eu lleoliad a'r cyfleodd mae hynny yn ei gynnig;<br>• Annog a gwella lles ac iechyd cymdeithasol drwy gynnig cyfleoedd i ryngweithio cymdeithasol, profiadau diwylliannol a gweithgaredd corfforol.<br><br>Mae Pennod 4 hefyd yn nodi bod 'mannau hamdden yn allweddol i'n iechyd, lles, amwynder a gall gyfrannu ar | Mae gan Gonwy eisoes nifer o lwybrau seiclo a cherdded ledled y fwrdeistref, o'r rhai hynny ag arwyddocâd cenedlaethol megis Llwybr Arfordir Cymru, i'r llwybrau lleol sydd yn darparu cysylltiadau i drigolion lleol gyda'u gwasanaethau allweddol. Bydd y dull yma yn tynnu ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwyo Conwy 2019-2029, er mwyn deall ble mae newidiadau ac ychwanegiadau diweddar i'r rhwydwaith wedi arwain at fuddion, ac yn alinio â gweledigaeth Conwy ar gyfer teithio actif i'r dyfodol.<br><br>Gall cynllunio ar gyfer rhwydweithiau GI cynhwysfawr sydd wedi e cysylltu yn dda, gan feddwl am deithio actif, gyfrannu at gymunedau cydlynol ac iachach sydd wedi eu cysylltu yn well. Mae'r dull GI yn amcanu at wneud i seiclo neu gerdded fod y dewis naturiol ar gyfer teithiau dyddiol pan fo hynny'n bosibl, drwy ddarparu dewisiadau deniadol ar gyfer cymudo, hamdden a theithiau dyddiol.<br><br>Bydd y broses o ddatblygu GIA Conwy yn dilyn yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio fel y nodir hynny gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau sydd yn blaenoriaethu mynediad a symudiad drwy ddulliau teithio cynaliadwy. Mae'r dull GI yn cydnabod bod raid i gysylltiadau GI megis 'Llwybrau Seiclo Gwyrdd' gael eu cynllunio mewn ffordd sydd yn cysylltu cyrchfannau allweddol, yn cysylltu cymunedau gyda ardaloedd cyflogaeth a hamdden. Mae'r dull GI yn cydnabod yr angen i gyfuno apêl atyniadol a swyddogaeth ymarferol, a gall roi argymhellion yn seiliedig ar yr uchod. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| | seilwaith gwyrdd yr ardal.' Mae Paragraff 4.5.2 yn nodi beth yw cyfrifoldeb awdurdodau lleol:<br><br>'Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da mewn lleoliadau da, a datblygu polisïau clir ar gyfer darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylai'r polisïau yma osod safonau darpariaeth, fel y gellir adnabod diffygion lleol a'u bodloni drwy'r broses gynllunio, a phennu polisïau er mwyn osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau.'<br><br>'Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da mewn lleoliadau da, a datblygu polisïau clir ar gyfer darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylai'r polisïau yma osod safonau darpariaeth, fel y gellir adnabod diffygion lleol a'u bodloni drwy'r broses gynllunio, a phennu polisïau er mwyn osgoi neu ddatrys gwrthdaro rhwng gwahanol weithgareddau.' |   |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Pennod 5<br><br>Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus | Mae'r thema Cynhyrchiol a Mentrus yn cynnwys elfennau economaidd creu lleoedd. 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yw'r rhai sydd yn hyrwyddo ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ddarparu datblygiadau cyflogaeth ac economaidd cynaliadwy sydd wedi eu cysylltu'n dda. Mae'r llefydd yma wedi eu dylunio ac wedi eu lleoli er mwyn hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a thaclo newid yn yr hinsawdd. Gwneir hynny drwy sicrhau eu bod yn: hawdd seiclo a cherdded iddynt ac o'u cwmpas; hygyrch gyda thrafnidiaeth gyhoeddus; lleihau'r defnydd o adnoddau nad ydynt y adnewyddadwy; a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel.'<br><br>Mae twristiaeth yn un agwedd o Bennod 5. Mae paragraff 5.5.2 yn nodi bod 'y system gynllunio y annog twristiaeth pan fo'n cyfrannu at ddatblygiad economaidd, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio trefol a chynhwysiant cymdeithasol, tra'n cydnabod anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol.'<br><br>'Mae llwybrau pellter hir, hwaliau tramwyo, rheilffyrdd segur, dyfrffyrdd a seilwaith gwyrdd yn gyfleusterau twristiaeth a hamdden pwysig, ynddynt eu hunain ac fel ffordd o gysylltu atyniadau' (paragraff 5.5.5). | Ffigwr 8 PPW 10: Yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Cynaliadwy ar gyfer Cynllunio<br><br>Y ystyried y cysylltiad rhwng twristiaeth, ardaloedd cyflogaeth a chartrefi a'r angen am lwybrau teithio actif, mae'r dull GI yn cydnabod yr angen i gysylltiadau gwyrdd a llwybrau seiclo fod yn ddewis hawdd i gymudwyr, twristiaid a defnyddwyr hamdden fel ei gilydd. Un agwedd allweddol o gynllunio ar gyfer teithio actif yw deall anghenion y gymuned leol, fydd yn cael ei adnabod drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a sefydliadau lleol. Gall y tîm hefyd dynnu ar amrywiaeth o enghreifftiau o arferion gorau o'r DU a thu hwnt er mwyn sicrhau bod anghenion lleol a gwersi a ddysgwyd mewn mannau eraill yn arwain at ddull cydlynol a chynhwysfawr o annog cerdded a seiclo. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Pennod 6<br><br>Lleoedd Neilltuol a Naturiol | Mae Pennod 6 PPW yn nodi polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gynnal a/neu ymgorffori GI fel cydrannau allweddol lleoedd neilltuol a naturiol er mwyn gwneud y mwyaf o iechyd a lles cymunedau a’r amgylchedd.<br><br>Mae Pennod 6 yn nodi’r angen i integreiddio GI i'r amgylchedd adeiledig. Mae tirlunio, toeau gwyrdd, ymylon gwellt, draenio trefol cynaliadwy a gerddi yn cael eu cynnig fel enghreifftiau o fesurau lleol all arwain at fuddion cronnol ehangach (para 6.2.5).<br><br>Mae PPW yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol mewn perthynas â GI a bioamrywiaeth drwy gynhyrchu Asesiadau Seilwaith Gwyrdd Cyfredol (GIA) (para 6.2.6). Dylai GIA ddefnyddio setiau data sydd yn bodoli a’r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn datblygu adnodd integredig seiliedig ar fapiau.<br><br>Dylai GIA gael ei ddefnyddio i ddatblygu dull cydnerth o wella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol a gwella deilliannau lles; a dylai enwi cyfleoedd strategol allweddol pan fyddai adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn arwain at y buddion mwyaf arwyddocaol (6.2.7). | Mae dull GI yn cael eu gymeradwyo yn glir gan bolisi cenedlaethol, fel yr amlinellir hynny ym Mhennod 6 PPW10. Mae dull GI ar lefel strategol yn darparu canllawiau ledled y fwrdeistref ar gyfer adnabod mecanweithiau a chyfleoedd ledled Conwy ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth ac enillion net, er mwyn arwain strwythur ecolegol a thirlunio mwy cydnerth ar draws y fwrdeistref. Drwy fapio GIS ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae’r dull yn enwi ardaloedd gofodol ble mae gan ymyriadau GI y potensial i gynyddu bioamrywiaeth drwy ymyriadau aml-bwrpas.<br><br>Ar ôl cyhoeddi PPW 10, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi canllawiau ar GIA a sut y cyflawnir hynny yn y system gynllunio. Ond, mae’r gwaith o baratoi canllawiau ar GIAau yn dal yn mynd rhagddo. Mae PPW 10 hefyd yn nodi y dylai deilliannau GIA dynnu ar y gronfa dystiolaeth a ddarparwyd gan Ddatganiadau Ardal, sydd yn dal i gael eu cynhyrchu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Fel rhan o'r prosiect, byddwn yn adolygu unrhyw ganfyddiadau ymddangosol ac yn eu cyflwyno i’r grŵp cleient er mwyn eu trafod.<br><br>Gan gyfeirio at baragraff 6.2.7 PPW mae’r dull yn defnyddio ystod o setiau data er mwyn cofnodi’r waelodlin GI orau ar gyfer Conwy, yn ogystal ag enwi ardaloedd sydd yn perfformio'n dda o ran bod yn aml-bwrpas. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Llywodraeth Cymru, 2009)** | | |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Mae'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei ddarllen mewn perthynas ag ef. | Mae TAN 5 yn darparu cyngor ynghylch sut y dylai'r system gynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth geolegol. Mae TAN 5 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau yn cyflawni'r canlynol mewn perthynas â GI:<br>Datblygu gweledigaeth uchelgeisiol ond gyraeddadwy o amgylchedd ardal y cynllun, yn cynnwys ecosystemau iach a gweithredol, cyfoeth o fywyd gwyll brodorol a nodweddion naturiol a'r cynefinoedd a'r prosesau naturiol y maent yn dibynnu arnynt;<br>Diogelu safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol;<br>Gwarchod coetiroedd hynafol, hen goed a choed eraill o werth cadwraeth natur;<br>Annog cadwraeth a rheoli nodweddion y tirlun o bwysigrwydd mawr i fflora a ffawna gwyllt;<br>Darparu'r mesurau cadwraeth, gwella a rheoli cynaliadwy a, phan fo'n briodol, adfer rhwydweithiau cynefinoedd naturiol yn cynnwys coridorau bywyd gwyllt a mannau gwyrdd eraill, a rhwydweithiau a chadwyni o fannau agored;<br>Mynd i'r afael â goblygiadau lleol newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys effeithiau posibl newid hinsawdd, risg llifogydd arfordirol ac erydiad a materion ynghylch rheoli llifogydd gwely afon; a<br>Darparu ar gyfer gwarchod, gwella, rholi'n gynaliadwy a, phan fo'n briodol, adfer cynefinoedd naturiol neilltuol | Mae'r broses datblygu GIA yn cynnwys mapio GISS ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn enwi yn ofodol ble mae gan ymyriadau GI y potensial i wella bioamrywiaeth drwy ymyriadau aml-bwrpas. Ynghyd ag ymgynghori â rhanddeiliaid, gall mapio anghenion yn ofodol ddechrau nodi'r canlynol, fydd yn hysbysu'r argymhellion yn y GIA ac yn alinio ag amcanion TAN 5:<br>• Ble bydd angen efallai i fioamrywiaeth esblygu a/neu liniaru o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol<br>• Ble fydd cynefinoedd a thirluniau yn cael eu colli o ganlyniad i ddatblygu a fydd efallai angen eu lliniaru neu ddigolledu mewn lleoliadau eraill.<br>• Ble mae yna fylchau amlwg y gellir eu llenwi er mwyn creu rhwydwaith fwy cynhwysfawr a chydlynol o gynefinoedd<br>Yn gyffredinol mae'r dull yn amcanu at ddiogelu a gwella'r rhwydwaith presennol a gyfer ei ehangu y y dyfodol, yn unol â'r gofynion a nodir yn TAN 5. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Mae'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei ddarllen mewn perthynas ag ef. | Mae TAN 5 yn darparu cyngor mewn perthynas â datblygu a llifogydd, gan gynghori ar ddatblygu a risgiau llifogydd oherwydd bod hynny yn gysylltiedig ag egwyddorion cynaliadwyedd. Nod TAN yw cyfeirio datblygiadau newydd oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd yn wynebu risg uchel o lifogydd. | Fel y nodwyd yn strategaeth Reoli Risg Llifogydd Lleol Conwy (2013)[1] 'mae'n debygol y bydd newidiadau y ein hinsawdd, megis cynnydd yn nifrifoldeb stormydd a gaeafau gwlypach, yn cynyddu'r risg o lifogydd a'u heffaith. Mae llifogydd eisoes yn achosi risg difrifol i bobl, economi ac amgylchedd Conwy, a disgwylir i newid hinsawdd gynyddu'r risg yma, yn ogystal â chyflymder erydiad arfordirol, yn ystod y degawdau nesaf.'<br><br>O ystyried bod 80% o boblogaeth Conwy yn byw ar hyd y glannau, a bod prif drefi mewndirol Conwy ar lannau Afon Conwy, mae'r dull GI yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer lleihau risg llifogydd a gwneud cymunedau yn fwy cydnerth yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.<br><br>Bydd y dull yn cydbwyso angen yr amgylchedd, cymunedau a'r amgylchedd, er mwyn argymell datrysiadau risg llifogydd sydd yn lleihau risg tra'n arwain at fwy o fuddion. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (Llywodraeth Cymru, 2009)** | | |

[1] https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Crime-and-emergencies/Preparing-for-Emergencies/Flooding/documents/Conwy-Local-Flood-Risk-Management.pdf

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Mae'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei ddarllen mewn perthynas ag ef. | Mae TAN16 yn cynghori ar rôl y system gynllunio o ran gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a haden a mannau agored anffurfiol, yn ogystal â gwarchod cyfleusterau a mannau agored sydd yn bodoli mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru.<br>Mae TAN16 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu 'polisïau cynllunio clir ac effeithiol gaiff eu rhoi ar waith yn dda ar gyfer chwaraeon, hamdden a mannau agored, a dylent roi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghylch y math o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu mewn lleoliad penodol' (para 3.1). Hefyd, dylai awdurdodau lleol nodi 'gweledigaeth strategol ar gyfer yr awdurdod mewn perthynas â darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau ar gyfer chwaraeon, gweithgaredd corfforol, mannau agored a hamdden, a darparu polisïau clir seiliedig ar ardal neu feini prawf'. | Mae mannu agored priodol ac sydd wedi eu cynllunio yn dda yn allweddol i iechyd ac ansawdd bywyd cymunedau cynaliadwy.<br>Mae'r dull GI yn amcanu at integreiddio mannau hamdden rhyng-gysylltiedig i gymunedau sydd yn bodoli er mwyn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden ac iechyd.<br>Mae polisïau CFS/11, CFS/12 a CFS/13 Cynlluniau Datblygu Lleol Conwy yn darparu mwy o arweiniad ar ddyraniadau mannau agored, a mannau agored mewn datblygiadau, a maent yn cael eu dadansoddi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth ( Llywodraeth Cymru, 2007)** | | |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Mae'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei ddarllen mewn perthynas ag ef. | Mae TAN 18 yn hyrwyddo 'integreiddio cynllunio defnydd tir a datblygu seilwaith trafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael ag agweddau amgylcheddol datblygu cynaliadwy, yn benodol newid hinsawdd a'r deilliannau a nodwyd yn Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad' (para 2.3).<br>Mae Adran 6 TAN 18 yn mynd delio â seiclo a cherdded, gan nodi ei bod yn hanfodol bod polisïau yn gwarchod ac yn gwella mannau agored ac yn diogelu llwybrau mewn ardaloedd trefol a gwledig i gerddwyr, seiclwyr a marchogaeth ceffylau.<br>Mae Paragraff 6.2 yn amlinellu y dylai awdurdodau lleol:<br>• Sicrhau bod datblygiadau newydd yn annog cerdded fel un o'r prif ffyrdd ar gyfer cyflawni teithiau lleol<br>• Darparu amgylchedd cerddwyr diogel a hollol gynhwysol, yn arbennig llwybrau i ysgolion cynradd<br>• Cefnogi defnyddio hawliau tramwyo ar gyfer teithiau lleol<br>• Enwi a gwarchod llwybrau presennol ac arfaethedig ar gyfer defnydd gan seiclwyr a cherddwyr | Gall llwybrau teithio gwyrdd gyfrannu at ffyrdd o fyw iachach, ac annog cerdded a seiclo fel y dewis naturiol ar gyfer teithiau dyddiol. Mae hynny wedi ei ymgorffori yn y dull.<br>Bydd y dull yma yn tynnu ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwyo Conwy 2019-2029, er mwyn deall ble mae newidiadau ac ychwanegiadau diweddar i'r rhwydwaith wedi arwain at fuddion, ac yn alinio â gweledigaeth Conwy ar gyfer teithio actif i'r dyfodol. |
| **Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd ( Llywodraeth Cymru, 2014)** | | |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Mae'n ategu Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei ddarllen mewn perthynas ag ef. | Mae TAN23 yn cydnabod y cyfraniad economi-gyfan at dwf economaidd, ac yn nodi bod rhaid cynllunio ar gyfer dosbarthiadau defnydd tir cyflogaeth mewn ffordd gynaliadwy.<br>Mae paragraff 2.1.1 yn cydnabod y dylai awdurdodau lleol ystyried amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn gweithio yn gydlynol ag amcanion economaidd, ac er mwyn sicrhau deilliannau llwyddiannus ym mhob ffordd pan fo datblygiadau yn cyfrannu at holl ddimensiynau cynaliadwyedd. | Mae yna gyfoeth o dystiolaeth sydd yn cefnogi'r cyfleoedd datblygu economaidd lleol sydd yn gysylltiedig ag ymyriadau GI, sydd yn cynnwys[2]:<br>• Denu a chadw gweithlu o ansawdd<br>• Lleihau costau amgylcheddol megis y rhai sydd yn gysylltiedig â lleihau risg llifogydd<br>• Gwella delwedd lle<br>• Hybu gwerth eiddo<br>• Cefnogi gostyngiad mewn costau gofal iechyd<br>• Denu mewnfuddsoddiad<br>• Arbed ynni ac arian i berchnogion adeiladau<br>Mae'r dull yn tynnu ar y buddion uchod er mwyn penderfynu ble mae'r ardaloedd mwyaf priodol ar gyfer ymyriadau GI ar gyfer buddion economaidd, tra'n cydbwyso agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy. Hefyd gall GI fod yn llawer iawn rhatach i'w gynnal na seilwaith gwyrdd, felly ôl-osod GI mewn amgylcheddau trefol yn cael ei ystyried fel argymhellion pan fo'n briodol. |
| **Y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016** | | |

[2] Addaswyd o: https://www.gov.scot/publications/green-infrastructure-design-placemaking/

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Adran 4 | Mae Adran 2 yn pennu targed allyriadau o 2050, sef i allyriadau Cymru fod yn o leiaf 80% yn is na'r waelodlin erbyn 2050.<br><br>Mae Adran 4 y Ddeddf yn nodi egwyddorion ar gyfer hyrwyddo dull cydlynol a chynaliadwy o reoli adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd (Adran 6) ar gyrff cyhoeddus i baratoi Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, sydd yn dangos sut maent yn bwriadu cyflawni'r cynllun mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, gan ystyried Cynllun Adferiad Naturiol Cymru a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Adran 7 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â CNC, gyhoeddi rhestr o'r organebau a chynefinoedd o bwysigrwydd mawr (cynefinoedd blaenoriaethol), ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal a chyfoethogi'r rhestr hon, yn cynnwys annog eraill i wneud yr un peth. | Fel y cyfeiriwyd ato, gall GI helpu i gynyddu cydnerthedd trefi, pentrefi a chymunedau Conwy yn wyneb newid hinsawdd. Gall priddoedd a choed yn benodol weithredu fel dalfeydd carbon, gyda photensial i gyfrannu at y gostyngiad targed mewn allyriadau o 80% a bennir gan Ddeddf yr Amgylchedd. Mae gan briddoedd Conwy botensial ar gyfer cynyddu'r carbon gaiff ei ddal a'i storio, drwy reoli tir amaethyddol yn well.<br><br>Mae ffyrdd eraill y gall GI ymateb i newid yn yr hinsawdd yn cynnwys[3]:<br>• Lleihau allyriadau CO2 drwy ddarparu llwybrau trafnidiaeth cynaliadwy ar gyfer cerdded a seiclo<br>• Rheoli risg llifogydd drwy SuDS a datrysiadau seiliedig ar natur<br>• Arbed ynni gyda datrysiadau naturiol yn hytrach na datrysiadau wedi'i peiriannu<br>• Arbed ynni o ganlyniad i wresogi ac oeri drwy ddefnyddio walau a thoeau gwyrdd ar adeiladau, a choed i ddarparu cysgod. |
| **Polisi Cyfoeth Naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017)** | | |

[3] Addaswyd o: https://www.gov.scot/publications/green-infrastructure-design-placemaking/

<table>
<tr><th>Cyfeirnod Polisi</th><th>Polisi</th><th>Adolygiad o’r Polisi</th></tr>
<tr><td></td><td>Mae hwn yn ofyniad statudol y Ddeddf Amgylchedd (Cymru), ac mae’n nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy er mwyn gwneud y mwyaf o’u cyfraniad at amcanion Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r Polisi yn amlinellu’r tair blaenoriaeth genedlaethol yma:<br>• Darparu datrysiadau seiliedig ar natur<br>• Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a<br>• Defnyddio dull seiliedig ar leoedd.</td><td>Mae datrysiadau seiliedig ar natur (NBS) wedi eu dylunio i ddod â mwy o fyd natur a phrosesau cysylltiedig i ddinasoedd, mewn ffordd gost-effeithiol ac amlbwrpas. Y syniad yw gweithio gyda natur yn hytrach nag yn ei erbyn, er mwyn creu economi fwy gwyrdd sydd yn fwy effeithlon o ran adnoddau[4]. Mae’r dull yn gwerthfawrogi buddion NBS o ran bodloni anghenion Conwy nawr ac i'r dyfodol. Pan fo’n briodol, bydd argymhellion yn cael eu gwneud ar gyfer cynnwys datrysiadau naturiol er mwyn brwydro yn erbyn risg llifogydd ac ailaeddfedu trefi a phentrefi.<br><br>Mae dull seiliedig ar leoedd hefyd yn rhan ganolog o ddatblygu GIA Conwy. Bydd dadansoddiad GIS gyda chefnogaeth ymgynghoriad a rhanddeiliaid yn darparu asesiad o angen lleol er mwyn sicrhau bod yr atebion mwyaf priodol yn cael eu hargymell.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Deddf Lles Cenedlaethau’r dyfodol yn rhoi dyletswydd ar cyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy. Nid yw hyn yn gysyniad newydd i’r system gynllunio oherwydd bod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod wrth galon polisi cynllunio ers y cyhoeddwyd PPW gyntaf yn 2002. Ond, mae’r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae’n gofyn am welliant o ran cyflawni y pedair elfen o les: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.<br><br>Mae’r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod lles y bwriedir iddynt siapio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.</td></tr>
</table>

[4] https://ec.europa.eu/research/environment/index.cfm?pg=nbs

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Cymru Gydnerth | Cenedl sydd yn cynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol fioamrywiol gydag ecosystemau ffwythiannol iach sydd yn cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a’r gallu i addasu i newid. | Gall GI gefnogi Cymru Gydnerth drwy warchod a gwella asedau amgylcheddol presennol, tra’n gwella cysylltedd tirluniau a chynefinoedd er mwyn eu galluogi i wrthsefyll pwysau newid.<br><br>Mae’r dull yn cydnabod bod GI yn adnodd effeithiol sydd yn economaidd hyfyw ac a dderbynnir yn eang ar gyfer brwydro yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd[5] yn amlinellu ffyrdd y gall GI helpu i addasu neu liniaru effeithiau niweidiol newid yn yr hinsawdd.<br><br>Gall coridorau bywyd gwyllt ar raddfa tirlun a graddfa leol helpu i leihau effeithiau negyddol darnio,  a gall ganiatáu i rywogaethau fudo wrth i gynefinoedd addasu yn wyneb newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mae GI hefyd yn chwarae rôl o ran cynyddu cydnerthedd yn wyneb risg llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae digwyddiadau llifogydd sylweddol wedi effeithio ar Gonwy yn cynnwys yn Nyffryn Conwy yn Llanrwst, Trefriw a thref arfordirol Towyn.<br><br>Gall mesurau GI gyfrannu at y canlynol er mwyn lleihau risg llifogydd, ellid eu nodi fel datrysiadau addas a chost effeithiol drwy’r dull GI:<br>• Adfer a rheoli gorlifdir<br>• Adfer a rheoli gwlypdir<br>• Ailnaturioli gwelyau nentydd<br>• Ail-alinio arfordirol<br><br>Mae’r dull, sydd yn alinio â’r Ddeddf Llesiant, yn ystyried GI fel mesur ar gyfer cynyddu cydnerthedd Conwy yn wyneb newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd. Mae’r dulliau ar gyfer cyflawni hynny yn cynnwys defnyddio GI er mwyn brwydro yn erbyn effaith UHI ac adfer gorlifdiroedd er mwyn lleihau’r risg o lifogydd. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Cymru Iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei fwyhau a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall. | Mae galluogi ffyrdd o fyw iach yn un o nodweddion allweddol dull GI. Byd darparu mecanweithiau er mwyn cynyddu’r ddarpariaeth o ofodau megis rhandiroedd, mannau gwyrdd hygyrch ac annog seiclo a cherdded yn cyfrannu at egwyddorion Cymru Iachach.<br>Gellir gwireddu Cymru Iachach drwy leihau allyriadau a llygredd yr aer drwy wneud y mwyaf o ddarpariaeth dulliau teithio cynaliadwy, yn cynnwys ffyrdd gwyrdd a gwelliannau i gysylltedd seiclo a cherdded.<br>O ganlyniad i gyllidebau’r sector cyhoeddus sydd yn tynhau yn barhaus, mae’r dull GI yn cydnabod buddion cost ymyriadau GI ar gyfer darparwyr gofal iechyd. Oherwydd y pryder cynyddol ynghylch costau trin afiechyd, sydd yn deillio o bwysau ar arian cyhoeddus, poblogaethau sydd yn heneiddio ac anghydraddoldeb iechyd sydd yn gwaethygu, mae’r dull GI yn alinio gyda’r corff cynyddol o dystiolaeth sydd yn awgrymu bod ymgysylltu cyhoeddus â GI yn ffordd o atal problemau afiechyd a lleihau costau gofal iechyd. |

[5] http://ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_climate_adaptation.pdf

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, beth bynnag yw eu cefndir neu'u hamgylchiadau, (yn cynnwys eu hamgylchiadau economaidd gymdeithasol) | Gellir sicrhau Cymru sy'n Fwy Cyfartal drwy hwyluso mynediad hafal i'r amgylchedd naturiol, yn arbennig pan fo anghydraddoldeb yn bodoli. Drwy fapio GIS, gellir mapio anghydraddoldebau ledled Conwy er mwyn amlygu ble gall gwella mynediad at GI o ansawdd da arwain at y buddion corfforol a chymdeithasol gorau posibl. Gellir hyrwyddo a gwarchod cynhyrchwyr twristiaeth sylweddol ar gyfer pob demograffig, megis Llwybr Arfordir Cymru, a'u gwneud yn fwy hygyrch drwy gynllunio ar gyfer rhwydwaith GI cynhwysfawr.<br><br>Hefyd gall GI gyfrannu at sicrhau datblygu cymdeithasol gynhwysol fel bod datblygiadau newydd yn dod yn llefydd dymunol i fyw a gweithio ynddynt i bob aelod o'r gymdeithas. |
| Cymru o Gymunedau Cydlynol | • Pobl yn actif yn eu cymunedau: Creu'r amodau pan fo pobl a chymunedau yn gallu gwneud y pethau sydd yn bwysig iddynt<br>• Cymunedau Cysylltiedig: Cefnogi cymunedau i fod yn ddiogel a chael cysylltiadau da<br>• Mynediad at wasanaethau lles allweddol: Cefnogi economïau sylfaenol bywiog<br>• Sefydliadau sydd yn angorion cymunedol: Gwerthfawrogi rôl a'r potensial y gall sefydliadau sydd yn angorion cymunedol ei chwarae o ran adeiladu cymunedau cydlynol | Er mwyn meithrin Cymunedau Cydlynol, bydd angen i GI fod â chysyllted da, gan bwysleisio mannau hygyrch tra'n darparu mannau i bobl rhyngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol. Fel y soniwyd, bydd prosiectau megis Ysgolion Coedwigoedd a Champfeydd Gwyrdd sydd yn annog rhyngweithio gyda byd natur yn ogystal ag aelodau eraill y gymuned, yn cael ei ymgorffori i'r GIA pan ystyrir bod hynny yn briodol er mwyn darparu ystod o fuddion cymdeithasol ac amgylcheddol.<br><br>Bydd rhandiroedd yn cael eu mapio drwy fapio topoleg GIS. Drwy gydnabod eu gwerth ar gyfer iechyd, cyflenwadau bwyd cynaliadwy a rhyngweithio cymdeithasol, mae'r dull yn gwella cysylltiadau gwyrdd o ac i'r mannau yma. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus | • Cefnogi Pobl: Cefnogi pobl i ymgysylltu â diwylliant yn eu bywydau gwaith a hamdden dyddiol, a dod â'r gorau allan o'n gweithwyr diwylliannol proffesiynol<br>• Mynd i'r afael â materion cymdeithasegol ehangach: Defnyddio ymyriadau diwylliannol ac ieithyddol i fynd i'r afael â materion cymdeithasegol ehangach<br>• Ymgysylltu â diwylliant: Galluogi ein dinasyddion i gael mynediad i ac ymgysylltu â'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill. | Bydd meithrin diwylliant bywiog yn golygu y bydd angen adeiladu ar y nodweddion unigryw sydd yn rhoi hunaniaeth i dirluniau a lleoedd yng Nghonwy, tra'n cynnal teimlad o le. Gall gwarchod a gwella asedau GI cymunedol annog teimlad o le drwy ryngweithio cymdeithasol ac atgofion sydd yn gysylltiedig â'n mannau agored.<br>Mae'r dull yn cydnabod y gall GI annog creadigrwydd a phrofiadau diwylliannol drwy ddarparu cyfleoedd a gyfer chwarae yn yr awyr agored, gweithgareddau awyr agored a rhyngweithio cymdeithasol. Gall mannau chwarae awyr agored ac Ysgolion Coedwigoedd annog rhyngweithio â byd natur, tra'n ymgorffori diwylliant. Bydd y GIA yn ystyried opsiynau ar gyfer rhyngweithio a chysylltiadau rhwng GI a diwylliant Cymreig, a gall hynny hefyd feithrin teimlad dyfnach o hunaniaeth ymysg ymwelwyr i'r ardal. |
| Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang | Cenedl sydd, pan fo'n gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fydd gwneud hynny yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | Mae Cymru sydd yn Gyfrifol yn Fyd-eang yn hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon, yn mynd i'r afael â materion ansawdd aer a rheoli risgiau amgylcheddol. Mae'r dull yn cydnabod rôl GI o ran atal problemau amgylcheddol rhag gwaethygu, a dadwneud colledion bioamrywiaeth.<br>Bydd y GIA yn edrych ar yr hirdymor ac yn ystyried sut y gallant fod yn hyblyg er mwyn addasu i faterion ac anghenion yn y dyfodol, gan sicrhau hirhoedledd asedau naturiol yn wyneb newid.<br>Bydd awdurdodau cydffiniol yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid ehangach y byddir yn ymgynghori gyda nhw ynglŷn â'r prosiect. Mae hynny yn sicrhau bod y dull yn cysylltu â choridorau a mentrau GI presennol ar draws ffiniau gweinyddol, er mwyn sicrhau bod Conwy yn darparu y buddion gorau posibl i boblogaethau sydd yn byw yn agos i ac ar draws ei ffiniau. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymdeithas flaengar, gynhyrchiol a charbon isel sydd yn cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd fyd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); ac sydd yn datblygu poblogaeth sgiliedig sydd wedi ei haddysgu yn dda mewn economi sydd yn cynhyrchu cyfoeth ac sydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau swyddi da. | Mae'r dull GI yn cydnabod gwerth cynhenid amgylchedd hanesyddol a thirluniau presennol Conwy, yn seiliedig ar eu gwerth o ran cefnogi twristiaeth, busnesau, cyflogaeth a denu mewnfuddsoddiad. Mae PPW10 yn nodi y gallwn , drwy warchod a gwella bioamrywiaeth ac asedau amgylcheddol naturiol, gallwn ddiogelu asedau economaidd i'r dyfodol mewn ymateb i'r heriau a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Gall GI gyfrannu at wasanaethau ecosystem mwy effeithlon megis aer a dŵr glân drwy hidlo llygryddion. Mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd, gall GI arwain at amrywiol fuddion megis dal a chloi carbon mewn priddoedd a choetiroedd, a lleihau'r angen i ddefnyddio ynni yn nhrefi Conwy drwy wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Mae GI yn cael ei gydnabod am ei werth o ran cyfrannu at ansawdd bywyd, a chymuned ffyniannus o ganlyniad i hynny. Er enghraifft, mae GI cysylltiedig yn un elfen o rwydwaith seilwaith modern a chysylltiedig yn fwy cyffredinol, sydd yn galluogi mynediad i swyddi. |
| **Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2020 (Llywodraeth Cymru)** | | |

<table>
<tr><th>Cyfeirnod Polisi</th><th>Polisi</th><th>Adolygiad o’r Polisi</th></tr>
<tr><td></td><td>Mae’r strategaeth yma ar gyfer twristiaeth yn gyffredinol yng Nghymru, ac mae’n pennu cyfeiriad ar gyfer twristiaeth fydd yn cefnogi twf cynaliadwy.<br><br>Y nod yw i ‘dwristiaeth dyfu mewn ffordd gynaliadwy a gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.’<br><br>Yr uchelgais yw ‘creu cynnydd o 10% neu fwy yn enillion twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020’.<br><br>Mae’r Strategaeth yn amlinellu ardaloedd ffocws allweddol ar gyfer gwireddu’r uchelgais uchod. Mae GI yn chwarae rôl allweddol mewn perthynas â’r ffocws ar greu lleoedd.<br><br>• Datblygu cyrchfannau y mae pobl eisiau ymweld â nhw a’u hargymell;<br>• Darparu cyfleoedd i gymunedau lleol ddarparu profiadau cofiadwy i ymwelwyr;<br>• Hyrwyddo gwell cysylltiadau trafnidiaeth</td><td>Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Conwy (CLDP) yn nodi bod twristiaeth yn gwneud cyfraniad allweddol i economi Ardal y Cynllun, ac mae’n cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo a chefnogi darpariaeth amrywiol i dwristiaid drwy’r flwyddyn tra'n diogelu rhinweddau amgylcheddol.<br><br>Mae’r dull yn amcanu at integreiddio a gwneud y mwyaf o botensial twristiaeth safleoedd a chysylltiadau GI, mewn ffordd cynaliadwy a chynhwysol, gan ymateb i faterion ac anghenion allweddol trefi allweddol Conwy.<br><br>Bydd GIA Conwy yn ystyried sut y gall ymyriadau GI ffurfio mynedfeydd allweddol i drefi allweddol er mwyn dynodi mannau cyrraedd a chynyddu amwynder gweledol. Gall mynedfeydd fod yn amlbwrpas eu natur a dynodi pwynt allweddol ar goridorau bywyd gwyllt drwy ardaloedd trefol megis lleiniau o flodau gwyllt.<br><br>Mae trafnidiaeth a hygyrchedd yn ffactor a ystyrir ym mhroses gynllunio GI. Gall darparu cyfleoedd i ymwelwyr gerdded a seiclo rhwng asedau twristiaeth fod yn flaenoriaeth, a gellir hyrwyddo llwybrau mwy rhyngweithiol, megis llwybrau cerdded hanesyddol mewn canolfannau trefol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd Hydref 2013).</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Polisi Strategol DP/1 - Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy | **1.** Bydd datblygu ond yn cael ei ganiatáu pan ddangosir bod hynny yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob datblygiad:<br>• Warchod neu wella ansawdd adeiladau, safleoedd a mannau o bwysigrwydd hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol yn unol â Pholisi Strategol CTH/1 - 'Treftadaeth Ddiwylliannol';<br>• Gwarchod neu wella ansawdd bioamrywiaeth a chynefinoedd bywyd gwyllt, a diogelu rywogaethau gwarchodedig yn unol â Pholisi Strategol NTE/1 - 'Yr Amgylchedd Naturiol';<br>• Ystyried a mynd i'r afael â risg llifogydd a llygredd ar ffurf sŵn, golau, dirgryniad, arogl, allyriadau neu lwch yn unol â Pholisïau DP/2 a DP/3 - 'Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Troseddu'.<br>2. Hefyd, pan fo'n briodol, dylai cynlluniau datblygu:<br>• Ddarparu mynediad diogel a chyfleus ar drafnidiaeth cyhoeddus ac ar feic ne droed gan leihau'r angen i deithio mewn car yn unol â Pholisi DP/2 a Pholisi Strategol STR/1 - 'Trafnidiaeth Cynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd'<br>• Fod wedi eu dylunio i ansawdd uchel, yn ddeniadol, hyblyg, hygyrch, a diogel fel y nodir hynny ym mholisi DP/3<br>• Hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy yn unol â Pholisi Strategol EMP/1<br>• Gwarchod neu wella ansawdd mannau agored gwerthfawr, cymeriad ac ansawdd tirluniau lleol a chefn gwlad ehangach yn unol â Pholisïau Strategol NTE/1 a CFS/1 - 'Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol'<br>• Ystyried a mynd i'r afael ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn unol â Pholisi Strategol NTE/1 | Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn un o ffactorau allweddol y dull GI, er mwyn alinio â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.<br>Mae tri safon datblygu cynaliadwy - economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol - yn hysbysu'r themâu a enwir sydd yn rhan o'r dull, er mwyn sicrhau y bodlonir pob elfen drwy'r camau strategol, prosiectau ac ymyriadau a gynigir.<br>Mae Polisi ST1 yn cyfeirio'n benodol at y GIA Conwy arfaethedig. Bydd y dull yn ymgorffori'r camau a'r dulliau canlynol, er mwyn alinio â Pholisi ST1:<br>• Bydd mannau agored yn cael eu mapio a bydd eu ffwythiant presennol yn cael ei archwilio, er mwyn deall a oes angen cymryd camau er mwyn gwella mynediad neu annog gwneud defnydd ohonynt<br>• Bydd cynllunio Seilwaith Glas yn rhan ganolog o'r GIA, a bydd hynny yn cael ei archwilio er mwyn sicrhau bod GI yn chwarae rôl effeithiol o ran rheoli llifogydd, newid arfordirol ac ymateb i newid yn yr hinsawdd pan fo angen hynny<br>• Bydd y Datganiad Ardal ar gyfer Tirlun Gogledd Orllewin Cymru (2018) ac Asesiad Tirlun Clwyd (1995) yn rhan o'r gronfa dystiolaeth i'r GIA, er mwyn sicrhau bod dylanwadau tirluniau ar ymyriadau GI yn cael eu deall o'r dechrau<br>• Bydd y dull yn enwi mecanweithiau ar draws Conwy er mwyn gwella bioamrywiaeth ac enillion net mewn perthynas â bioamrywiaeth |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| | • Gwarchod ansawdd adnoddau naturiol yn cynnwys dŵr, aer a phridd yn unol â Pholisi Strategol NTE1 | |
| Polisi P/3 - Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Troseddu | **2.** Pan fo'n briodol, bydd y Cyngor hefyd yn amcanu at:<br>• Wella cymeriad lleol adeiladau, treftadaeth a mannau agored;<br>• Darparu ar gyfer cymysgedd gydnaws o ddefnyddiau, yn arbennig mewn canol trefi a phentrefi;<br>• Ymgorffori tirlunio i'r datblygiadau ac o'u cwmpas pan fo'n briodol, yn unol a maint ac effaith y datblygiad;<br>• Integreiddio â llwybrau presennol er mwyn darparu mannau sydd wedi eu cysylltu â'r ardal ehangach, yn arbennig cyfleusterau cyhoeddus a llwybrau trafnidiaeth gwyrdd;<br>• Darparu datblygiadau sydd yn cynnig dewisiadau teithio amgen a hyrwyddo cerdded, seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus;<br>• Creu lleoedd diogel drwy fabwysiadu egwyddorion 'dyluniad-gwaredu-troseddu' er mwyn darparu goruchwyliaeth a gwelededd naturiol ac amgylcheddau sydd wedi'u goleuo'n dda ac ardaloedd o symudiad cyhoeddus; a<br>• Sicrhau y cedwir ac y cyfoethogir nodweddion bioamrywiaeth | Mae'r dull yn darparu arweiniad er mwyn sicrhau bod datblygwyr newydd yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol er mwyn ymgorffori GI sydd yn berthnasol yn lleol i ddatblygiadau newydd tra'n cadw GI sydd yn bodoli.<br>Gall GI gyfrannu at ganol trefi deniadol a chysylltiedig, yn ogystal â gwella cynhyrchiant gweithlu, cynyddu mewnfuddsoddiad a gwella bioamrywiaeth a chadw dŵr stormydd mewn amgylcheddau trefol. Er enghraifft, gall llystyfiant mewn dylunio adeiladau leihau'n fawr yr angen am ynni er mwyn cynhesu ac oeri adeiladau, mae'n darparu buddion rheoli dŵr ac yn darparu buddion amwynder gweledol.<br>Er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng cymunedau newydd a phresennol, yn ogystal â'r ardal amgylchynol, mae'r dull yn darparu arweiniad neilltuol leol i ddatblygwyr ynghylch sut y gellir ymgorffori GI i ddatblygiadau, yn arbennig dyraniadau tai a chyflogaeth sylweddol ac aneddiadau newydd posibl. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi DP/4 - Meini Prawf Datblygu | 1. Dylai cynlluniau datblygu, pan fo’n briodol ac yn unol â pholisïau'r Cynllun a Safonau'r Cyngor ddarparu’r canlynol:<br>• Mynediad diogel oddi ar y rhwydwaith priffyrdd a gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, seiclo a cherdded;<br>• Llefydd parcio diogel i feiciau;<br>• Mannau Agored;<br>• Mynediad diogel a chyfleus i bawb i bob adeilada a gofod cyhoeddus, yn cynnwys rhai â symudedd cyfyngedig neu rai â namau eraill megis nam ar y golwg neu’r clyw; | Mae'r dull yn amcanu at ddarparu cyngor cysylltiedig â datblygu perthnasol er mwyn sicrhau bod gan ddatblygiadau ddyluniad ac adeiladwaith cynaliadwy mewn perthynas â GI. Yng nghyd-destun GIA Conwy, bydd y cyngor yma yn cynnwys y canlynol:<br>• Darparu canllawiau i’w defnyddio gan gydweithwyr Rheoli Datblygu er mwyn eu galluogi i asesu GI yn effeithiol mewn ceisiadau cynllunio, yn arbennig dyraniadau tai a chyflogaeth sylweddol ac aneddiadau newydd posibl; a<br>• Darparu mapiau cyfleoedd GI safle benodol er mwyn hysbysu datblygiadau mewn perthynas â phum safle strategol a nodir drwy’r broses RLDP. Gall sylwadau sydd yn ategu’r mapiau cyfleoedd roi arweiniad strategol ynghylch sut y gellir ymgorffori GI i ddatblygiadau, y arbennig datblygiadau tai a chyflogaeth sylweddol.<br>• Mae’r dull yn amcanu at sicrhau bod GI yn cael ei ystyried o ddechrau’r broses o ddylunio datblygiadau yn hytrach na bod yn ystyriaeth funud olaf. Drwy annog y broses hon, gellir integreiddio GI i lwybrau teithio actif, mannau agored a sicrhau safle diogel ac athraidd ar gyfer y defnyddwyr. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi DP/8 - Uwchgynllun Adfywio trefol Bae Colwyn | Bydd cynlluniau adfywio ym Mae Colwyn yn cael eu canolbwyntio ar ardal Uwchgynllun Bae Colwyn (CBMP) fel y dangosir hynny ar y map cynigion. Bydd Cynigion Allweddol ac ymyriadau yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cynorthwyo'r amcanion adfywio trefol canlynol mewn perthynas â Bae Colwyn:<br>• Cynyddu cysylltedd â'r glannau, cysylltiadau dwyrain-gorllewin rhwng canol y dref, Dwyrain Colwyn a Pharc Eirias ac ar hyd Ffordd Abergele;<br>• Cyfrannu at adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd treftadaeth lleol neu genedlaethol drwy gynigion gwella neu gadwraeth sympathetig;<br>• Darparu datblygiadau i wella'r glannau fydd yn cynnwys gwaith amddiffyn arfordirol a gwella'r ardal fel cyfleuster/atyniad twristaidd a hamdden;<br>• Creu ffocws newydd ar gyfer canol y dref | Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn nodi y bydd y 'Cyngor yn amcanu at weithredu cysylltiadau pontydd cerdded ym Mae Colwyn rhwng canol y dref a'r glannau.' Drwy ymgorffori ffyrdd gwyrdd a chysylltiadau gwyrdd gyda'r camau cysylltu a gynigir, mae'r dull yn blaenoriaethu cysylltedd cynefinoedd yn ogystal â chysylltiadau i gerddwyr.<br>Gall GI gyfrannu at wella gosodiad adeiladau presennol ac asedau treftadaeth drwy greu amgylchedd gweledol deniadol. Mae'r Sefydliad Tirlun (2013) yn cydnabod bod gosodiadau deniadol yn denu mewnfuddsoddiad. Mae gan GI y potensial i gyfrannu at weithleoedd deniadol a neilltuol, gan gyfrannu at economi leol fywiog, lleihau risg llifogydd ac effaith newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â chreu gofodau i fyd natur mewn amgylcheddau busnes. Mae'r dull ar gyfer GIA Conwy, yn cysylltu GI gyda galluogi gweithluoedd iach a chynhyrchiol.<br>Yn ogystal â hynny, mae twristiaeth yn chwarae rôl ym Mholisi DP/8. Mae'r dull yn amcanu at integreiddio a gwneud y mwyaf o botensial twristiaeth safleoedd a chysylltiadau GI. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi Strategol EMP/1 - Bodloni Anghenion Swyddfa a Chyflogaeth Ddiwydiannol B1, B2 a B8 | Mae Polisi EMP/1 yn cynghori y dylai'r Cyngor, yn ystod cyfnod y Cynllun, fonitro ac adolygu'r broses o ddarparu tua 20.5 hectar o dir cyflogaeth, gyda lefel wrth gefn ychwanegol o 22.5 hectar o dir cyflogaeth er mwyn bodloni' rhagfynegiadau poblogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. Un nod yw lleihau lefelau allgymudo drwy gefnogi datblygiad economaidd ychwanegol. Yn benodol i Fae Colwyn, mae Polisi EMP/1 yn amcanu at daclo problemau amddifadedd a dirywiad economaidd drwy gadw a datblygu defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth. Mae Polisi EMP/1 yn nodi y bydd yn 'annog seilwaith sydd yn cynnal a hyrwyddo'r economi leol yn unol â'r Egwyddorion Datblygu.' | Fel y nodwyd uchod, mae ymchwil yn dangos bod gosodiadau deniadol yn annog mewnfuddsoddiad, yn cyfrannu at economi leol fywiog, ac yn yr hirdymor yn gostwng lefelau allgymudo.<br><br>Mae adroddiad gan Natural England (2008)[6] yn adrodd bod atyniad amgylcheddol, yn cynnwys GI, yn cynyddu gwerth eiddo, ac mae hynny yn hybu'r economi leol. Mae'r dull hefyd yn cydnabod bod gweithwyr â mynediad at GI yn iachach ac yn fwy cynhyrchiol.<br><br>Felly, mae'n bwysig bod y GIA ar gyfer Conwy yn nodi ardaloedd ar gyfer gwelliannau GI o gwmpas safleoedd cyflogaeth allweddol, yn ogystal â darparu cyfleoedd i weithwyr deithio i ac o'r gwaith drwy gysylltiadau gwyrdd a llwybrau teithio actif. |

[6] http://www.greeninfrastructurenw.co.uk/resources/The_Economic_Value_of_Green_Infrastructure.pdf

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi Strategol TOU/1 - Twristiaeth Cynaliadwy | Bydd y Cyngor yn hyrwyddo economi twristiaeth gynaliadwy drwy:<br>• Gefnogi, mewn egwyddor, cynlluniau datblygu twristiaeth cynaliadwy drwy'r flwyddyn sydd yn arallgyfeirio'r economi ac sydd yn annog cysylltiadau trawsffiniol gydag awdurdodau cyffiniol, yn unol â Pholisi TOU/2 - 'Twristiaeth Gynaliadwy Newydd a Datblygiadau Hamdden';<br>• Cefnogi, mewn egwyddor, cynlluniau i ymestyn y tymor gwyliau yn ystod cyfnodau allfrig ar gyfer cabanau gwyliau presennol, carafannau statig a symudol a gwersylloedd campio tra'n cynnal rhinweddau amgylcheddol a threftadaeth fel y nodir hynny ym Mholisi TOU/4;<br>• Gwella cysylltedd drwy gefnogi'r broses o ddarparu gwell cysylltiadau yn Harbwr Foryd, gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru a thrwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo yn unol â Pholisi Strategol STR/1 - 'Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Mynediad' a Pholisi TOU/2 | Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Conwy (CLDP) yn cydnabod bod 'twristiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol i Ardal y Cynllun' ac mae'r Strategaeth Gymunedol - 'Un Gonwy' yn cydnabod bod atyniadau twristiaeth drwy'r flwyddyn yn hanfodol i ffyniant a lles yr ardal a'r economi leol (para 4.4.2.1 Cynlluniau Datblygu Lleol Conwy). Mae'r dull GI yn cydnabod bod y prif atyniadau yn cynnwys yr asedau amgylcheddol naturiol sydd yn bodoli ac agosrwydd Conwy i Barc Cenedlaethol Eryri. Felly mae'n bwysig bod y GIA yn cyflwyno cyfleoedd i warchod a gwella asedau sydd yn bodoli, tra'n darparu mynediad cynaliadwy i fwynhad i drigolion Conwy a thwristiaid. Mae pwysigrwydd gweithgareddau morol (para 4.2.2.2 CLDP) yn pwysleisio'r angen i gydnabod gwerth yr amgylchedd glas yn y GIA, gan alluogi cysylltedd cynaliadwy rhwng ardaloedd mewndirol ac arfordirol.<br><br>Ar gyfer datblygu twristiaeth i'r dyfodol, gall y dull GI adnabod yr angen am GI mewn prif ardaloedd twristiaeth, tra'n annog cynlluniau sydd wedi eu dylunio'n dda sydd yn gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd tirlun er lles economi twristiaeth Conwy. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi TOU/2 - Twristiaeth Cynaliadwy Newydd a Datblygiadau Hamdden | 1. Bydd datblygiadau twristiaeth a hamdden cynaliadwy newydd o ansawdd dda yn yr Ardaloedd Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig ond yn cael eu cefnogi cyn belled bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:<br>• Mae’r cynllun yn cynnig darpariaeth twristiaeth o ansawdd uchel drwy’r flwyddyn sydd yn darparu ystod o gyfleusterau twristiaeth a gweithgareddau hamdden;<br>• Mae’r cynllun yn briodol o ran ei faint a’i natur o ystyried ei leoliad, ac mae ganddo ddyluniad sydd yn effeithlon o ran adnoddau;<br>• Mae’r cynllun yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth er mwyn dangos y byddai’n creu buddion cyflogaeth yn lleol o ran nifer ac amrediad swyddi;<br>• Mae’r cynllun yn gynaliadwy o hygyrch ac yn annog defnyddio trafnidiaeth ar wahân i geir;<br>• Byddai’r cynllun yn cefnogi ac yn ymestyn yr ystod o gyfleusterau gaiff eu cynnig yn y Sir;<br>• Byddai’r cynllun yn ategu amcanion adfywio'r Cyngor ar gyfer Conwy;<br>• Mae’r cynllun un bodloni polisïau cysylltiedig eraill yn y Cynllun;<br>• Ni fyddai’r cynllun yn ymwthiol yn y tirlun | Mae’r GI dull yn amcanu at integreiddio a gwneud y mwyaf o botensial twristiaeth safleoedd a chysylltiadau GI. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi Strategol CFS/1 - Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Byd y Cyngor yn gwarchod a, phan fo'n bosibl, yn gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol drwy:<br>• Warchod a gwella hyfywedd, apêl a bywiogrwydd y canolfannau manwerthu yn Ardal y Cynllun<br>• Gwarchod a gwella atyniad canolfannau siopa<br>• Bodloni angen y gymuned am randiroedd drwy ddiogelu rhandiroedd presennol a dyrannu tir ar gyfer rhandiroedd newydd yn Abergele, Cyffordd Llandudno, Llanrwst a Dwygyfylchi<br>• Sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion mannau agored eu trigolion ac yn diogelu mannau agored presennol<br>• Dyrannu caeau chwarae newydd ac ardaloedd newydd o dir ar gyfer mannau agored yn Abergele a Glan Conwy | Bydd rhandiroedd yn cael eu mapio drwy fapio topoleg GIS. Bydd y fethodoleg GIA yn cynnwys asesiad o angen yn nodi a yw'r rhandiroedd presennol yn y fwrdeistref yn bodloni angen lleol, a bydd ystyried a ellir eu cysylltu'n well â'r boblogaeth amgylchynol drwy gysylltiadau gwyrdd er enghraifft. |
| Polisi CFS/9 - Diogelu Rhandiroedd | Ni fydd Caniatâd Cynllunio yn cael ei roi i ddatblygiadau fydd yn arwain at golli tir a ddefnyddir ar gyfer rhandiroedd, ac eithrio:<br>• Pan fo'n addas, mae darpariaeth arall yn cael ei wneud sydd yn o leiaf hafal o ran maint ac ansawdd i'r hyn fydd yn cael ei golli, neu;<br>• Pan ellir dangos nad oes angen mwyach yn y gymuned am randiroedd. | Bydd rhandiroedd yn cael eu mapio drwy fapio topoleg GIS. Drwy gydnabod eu gwerth ar gyfer iechyd, cyflenwadau bwyd a rhyngweithio cymdeithasol, mae'r dull yn gwella cysylltiadau gwyrdd o ac i'r mannau yma. Mae rhandiroedd yn darparu'r gosodiad ar gyfer nifer o fuddion yn cynnwys buddion iechyd, llai o straen, gwell ansawdd aer a hwyluso cyfalaf cymdeithasol. Drwy asesu angen yn y GIA, bydd yn dod yn |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi CFS/10 - Rhandiroedd Newydd | 1. Mae tir yn cael ei ddyrannu er mwyn bodolni'r galw am ddyraniadau newydd yn y lleoliadau canlynol:<br>• Oddi ar Ffordd Rhuddlan, Abergele<br>• Esgyryn, Cyffordd Llandudno<br>• I'r Gogledd o Lanrwst<br>• I'r gogledd o Groesffordd, Dwygyfylchi<br>• I'r Gorllewin o Borthdy Gwrych, Abergele<br>**2.** Gellir enwi mwy o dir yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r Egwyddorion Datblygu. | amlwg a fydd angen mwy neu well rhandiroedd cysylltiedig, neu a fydd raid gwella ansawdd rhandiroedd presennol.<br>Mae'r dull Gi hefyd yn cydnabod gwerth cymdeithasol rhandiroedd, o ran creu gofod ar gyfer rhyngweithio a datblygu sgiliau. Drwy hyn gallant fod yn ased cymunedol. Mae ymchwil gan Brifysgol Newcastle[7] yn amlygu'r ffordd y gall rhandiroedd fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, oherwydd ei fod yn weithgaredd sydd yn hygyrch beth bynnag fo incwm, addysg, cefndir ethnig ac oedran (i raddau helaeth) pobl ac mae'n cefnogi rhyngweithio cymdeithasol gyda theulu, ffrindiau a chymdogion. |
| Polisi CFS/11 - Datblygu a Mannau Agored | Bydd datblygiadau tai o 30 neu ragor o anheddau yn sicrhau darpariaeth ar y safle ar gyfer anghenion hamdden eu trigolion, yn unol â safonau'r Cyngor ar gyfer mannau agored o 3 hectar am bob 1000 o'r boblogaeth. | Bydd mannau agored yn cael ei fapio gan GIS, drwy fapio topoleg. Wrth asesu hynny yn erbyn amlswyddogaeth ac angen yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd hynny yn meithrin dealltwriaeth o p'un a yw'r ddarpariaeth mannau agored presennol yn bodloni anghenion lleol, a p'un a yw dyraniadau mannau agored presennol yn mynd yn ddigon pell i fodloni hynny. Gellir adnabod mannau agored nad ydynt yn gweithredu'n dda drwy'r broses yma, a gellir argymell ymatebion ar gyfer arferion rheoli gwell a gofodau mwy amlbwrpas drwy'r GIA.<br>Mae'r dull yn amcanu at ddarparu pum map cyfleoedd dangosol ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol a enwyd drwy'r broses RLDP. Bydd y mapiau cyfleoedd yn cael eu |
| Polisi CFS/12 - Datblygu Mannau Agored Presennol | Mae Polisi CFS/12 yn cynghori na ddylai datblygiad arwain at golli mannau agored ac eithrio pan fo yna or-ddarpariaeth o fannau agored yn y gymuned dan sylw a bod y cynllun yn dangos bod buddion cymunedol sylweddol yn deillio o'r datblygiad, neu ble fyddant yn cael ei amnewid gan ddarpariaeth amgen derbyniol yn agos i'r datblygiad neu yn yr un gymuned. | |

[7] https://www.ncl.ac.uk/media/wwwnclacuk/globalurbanresearchunit/files/electronicworkingpapers/ewp47.pdf

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi CFS/13 - Dyraniadau Mannau Agored Newydd | Mae tir yn cael ei ddyrannu er mwyn bodolni'r galw am fannau agored yn y lleoliadau canlynol:<br>• Oddi ar Ffordd San Siôr i'r de o Gaeau Chwarae Abergele<br>• Ffordd Top Llan / Ffordd Llanrwst, Glan Conwy<br>**2.** Gellir enwi mwy o dir yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r Egwyddorion Datblygu. | datblygu drwy osod topoleg a nodweddion amlbwrpas ar gyfer pob safle, a bydd ardaloedd cyfleoedd ar gyfer byffers tirlun, coridorau bywyd gwyllt a llwybrau teithio gwyrdd yn cael eu hysbysu gan CBSC a mewnbwn gan randdeiliaid. Bydd eglurder y dull yma yn cynorthwyo cynllunwyr rheoli datblygu a datblygwyr o ran cyflwyno opsiynau GI ar y safleoedd strategol arfaethedig sydd yn ymateb i angen lleol.<br>Darparu canllawiau i'w defnyddio gan gydweithwyr Rheoli Datblygu er mwyn eu galluogi i asesu GI yn effeithiol mewn ceisiadau cynllunio, yn arbennig dyraniadau tai a chyflogaeth sylweddol ac aneddiadau newydd posibl; a<br>Darparu canllaw neilltuol lleol i ddatblygwyr er mwyn rhoi arweiniad ar sut y gall GI gael ei ymgorffori i ddatblygiadau, yn arbennig dyraniadau tai a chyflogaeth sylweddol ac aneddiadau newydd posibl. |

| | | |
|---|---|---|
| Polisi Strategol NTE/1 - Yr Amgylchedd Naturiol | Wrth amcanu at gefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach Ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn amcanu at reoleiddio datblygiadau er mwyn gwarchod a, phan fo'n bosibl, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir Ardal y Cynllun. Bydd hynny yn cael ei gyflawni drwy:<br>• Ddiogelu bioamrywiaeth, geoleg, cynefinoedd, hanes a thirluniau Ardal y Cynllun drwy warchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.<br>• Defnyddio Lletemau Gwyrdd a ffiniau aneddiadau i reoli hunaniaeth aneddiadau unigol, er mwyn atal uno a gwarchod y tirlun sydd yn amgylchynu ardaloedd trefol<br>• Pan fo'n briodol ac angenrheidiol, gwella ansawdd tirluniau statudol ac anstatudol ac ardaloedd o werth bioamrywiaeth yr effeithiwyd arnynt gan ddatblygiadau, drwy drefniadau rheoli, cysylltedd cynefinoedd, gwell plannu, tirlun a manylebau cynnal a chadw.<br>• Gweithio gyda datblygwyr er mwyn diogelu rhywogaethau gwarchodedig a gwella eu cynefinoedd<br>• Amcanu at leihau'r tir amaethyddol Gradd 2 a 3a a gollir i ddatblygiadau newydd, yn benodol yng ngweddill yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol.<br>• Parchu, gwarchod neu wella cymeriad lleol a nodweddion neilltuol Ardaloedd Tirlun Arbennig unigol<br>• Gwarchod yr Ardal Arfordirol<br>• Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn datblygiadau<br>• Atal, lleihau neu unioni pob math o lygredd yn cynnwys llygredd yr aer, golau, sŵn, pridd a dŵr. | Bydd mapio GIS o gyfyngiadau amgylcheddol ar y cychwyn a cynodiadau presennol yn cynnwys Ardaloedd Tirlun Arbennig (SLAau) yn gymorth o ran adnabod asedau allweddol i'w gwrachod. Bydd ymgynghori â rhanddeiliaid a mwy o ddadansoddi yn hysbysu pryd y bydd angen mesurau gwella a gwarchod, a ble allai fod angen rheoli pwysau gweithgareddau hamdden er enghraifft.<br>Mae'r dull yn cydnabod gallu cynllunio ar gyfer GI i ddiogelu a chyfoethogi coed, coetiroedd, coed perllannau a gwrychoedd fel nodweddion, cynefinoedd ac ardaloedd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r amgylchedd.<br>Yn unol â Pholisi NTE/1, mae'r dull yn darparu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn cael eu hystyried mewn perthynas ag i ba raddau fyddent yn gwarchod cymeriad y tirlun lleol, a'i ddiddordeb cadwraeth natur pan fo hynny yn berthnasol.<br>Mae'n rhaid i'r GIA sicrhau bod tir amaethyddol yn perfformio cymaint o swyddogaethau â phosibl, pan fo'r tir wedi ei ddiogelu o dan Bolisi NTE/1. Er enghraifft, gall cynnwys lleiniau byffer, pan fo tir amaethyddol ar lannau afon, liniaru dŵr fo ar gaeau a gall nodweddion gwlypdir llinol gynyddu bioamrywiaeth lleol tra'n 'arafu'r llif'.<br>Mae CBSC yn gyfrifol am 56km o arfordir, sydd yn golygu bod gwarchod yr ardal arfordirol, fel y cynghorir ym Mholisi NTE/1, yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd y fwrdeistref o ystyried bod 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol. Edrychodd Crynodeb Dalgylch Rheoli Conwy[8] ar y risg llifogydd presennol ledled y fwrdeistref a nododd bod Conwy yn agored i'r risg posibl cyfun o lifogydd afonydd, llanwol ac arfordirol. Mae draenio trefol a phroblemau dŵr wyneb hefyd wedi cyfrannu at hanes hir o lifogydd yn y sir. Mae'n debygol y bydd y math yma o lifogydd yn cael ei waethygu yn y dyfodol wrth i lefel y môr godi ac wrth i lefelau glaw gynyddu. Wrth enwi'r angen yma, gall y dull GI yng Nghonwy dargedu amrediad o ymyriadau |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| | | megis ail-alinio arfordirol, Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) a darparu gwlypdiroedd iach a gorlifdiroedd er mwyn targedu'r risg yma. |
| Polisi NTE/3 - Bioamrywiaeth | Dylai datblygiadau newydd amcanu at warchod a, phan fo'n bosibl, cyfoethogi bioamrywiaeth drwy:<br>• Lleoli sensitif; osgoi safleoedd gwarchodedig Ewropeaidd neu rai o bwysigrwydd cenedlaethol neu leol;<br>• Gosodiad a dyluniad sensitif<br>• Creu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirluniau naturiol yn cynnwys cysylltedd;<br>• Integreiddio mesurau bioamrywiaeth i'r amgylchedd adeiledig;<br>• Cyfrannu at gyrraedd targedau yng Nghynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth Lleol Conwy (LBAP) | Mae dull ar lefel strategol yn darparu canllawiau ledled y fwrdeistref ar gyfer adnabod mecanweithiau a chyfleoedd ledled Conwy ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth ac enillion net.<br>Yn ogystal ag ymateb i'r ardaloedd targed ar gyfer yr amgylchedd naturiol a amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy, mae'r dull hefyd yn arwain y dull o greu strwythur ecolegol a thirluniol mwy cydnerth ledled y fwrdeistref. Drwy fapio GIS ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'r dull GI yn adnabod bylchau yn y rhwydwaith GI presennol, a ble gallai gwelliannau ar raddfa strategol ar gyfer bioamrywiaeth a thirlun ddigwydd. Drwy fapio GIS ac ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'r dull yn adnabod ble gellir targedu enillion net mewn bioamrywiaeth, yn ogystal ag ehangu asedau GI presennol.<br>Mae gwasanaethau ecosystem yn un o gysyniadau allweddol y dull; mae elfen amlbwrpas GI yn chwarae rôl sylweddol o ran adnabod ble gellid gwella neu weithredu asedau GI er mwyn darparu ystod eang o fuddion ar gyfer poblogaeth Conwy a'r ecosystemau ehangach. |

[8] https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Crime-and-emergencies/Preparing-for-Emergencies/Flooding/documents/Conwy-Local-Flood-Risk-Management.pdf

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o’r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi NTE/4 - Y Tirlun a Gwarchod Ardaloedd Tirlun Arbennig | Mae Polisi NTE/4 yn dynodi chwe Ardal Tirlun Arbennig (SLA). Er mwyn gwarchod rhinweddau Ardaloedd Tirlun Arbennig bydd raid i gynlluniau datblygu ri ystyriaeth benodol i gymeriad pob ardal leol er mwyn lleihau ei heffaith. Mae’n rhaid i ddatblygiadau gael eu hintegreiddio mewn modd dderbyniol i'r tirlun. | Yn unol â Pholisi NTE/4, mae'r dull yn darparu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn cael eu hystyried mewn perthynas ag i ba raddau fyddent yn gwarchod cymeriad y tirlun lleol, a’i ddiddordeb cadwraeth natur pan fo hynny yn berthnasol.<br><br>Mae gan gynllunio GI ar raddfa tirlun y potensial i gysylltu ardaloedd naturiol mawr ag arwyddocâd ecolegol gyda choridorau gwyrdd sydd yn darparu cynefinoedd i rywogaethau brodorol a mudol, gwella ansawdd dŵr ar raddfa dalgylch, a chynyddu cydnerthedd y tirlun yn wyneb stormydd a llifogydd.<br><br>Mae yna nifer o bartneriaethau ar draws y DU sydd yn elwa a fuddion ar raddfa tirlun. Drwy uno gwybodaeth ac adnoddau ar y lefel strategol, gall y dull GI eirioli am weithio ar y cyd ac annog dulliau mwy cydlynol mewn perthynas â gwarchod a gwella amgylcheddol. Er enghraifft, mae partneriaeth Weaver-Gowy yng ngogledd orllewin Lloegr yn cynnwys yr awdurdod lleol, Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, United Utilities, busnesau lleol a grwpiau amgylcheddol sydd yn gyrru agendau yn eu blaenau gyda chronfa ar y cyd o adnoddau i'w defnyddio. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi NTE/5 - Yr Ardal Arfodirol | Mae Ardal Arfordirol yn cael ei diffinio ar y Map Cynlluniau. Bydd datblygu yn yr Ardal Arfordirol, y tu allan y ffiniau aneddiadau, ond yn cae lei ganiatáu pan fo'r datblygiad:<br>• Angen lleoliad arfordirol yn benodol;<br>• Nid yw'n effeithio'n niweidiol ar gymeriad agored yr ardal;<br>• Nid yw'n effeithio'n niweidiol ar werth cadwraeth natur yr ardal ac mae unrhyw effeithiau a enwyd yn cael eu<br>• lliniaru;<br>• Nid yw'n effeithio ar werth na chyfleusterau twristiaeth;<br>• Nid yw'n ymyrryd â phrosesau arfordirol naturiol;<br>• Nid yw'n effeithio ar swyddogaeth unrhyw strwythurau gwarchod arfordirol presennol;<br>• Mae'n cydymffurfio ag Egwyddorion Datblygu'r Cynllun. | Fel y crybwyllwyd, mae CBSC yn gyfrifol am 56km o arfordir, y mae 37km ohono wedi ei amddiffyn yn artiffisial. Mae 80% o boblogaeth CBSC yn byw ar hyd yr arfordir yn y trefi mwyaf, sef Abergele, Bae Colwyn a Llandudno.<br>Oherwydd bod twristiaeth yn sector economaidd allweddol yn y trefi arfordirol mwyaf, ni fydd pwysigrwydd GI o ran gwella gosodiad trefi yn cael ei ddiystyru yn y GI.<br>Fel y nodwyd yn Strategaeth Reoli Risg Llifogydd Lleol Conwy (2013), mae yna risg o lifogydd dan ddylanwad y llanw ar hyd holl ffryntiad Conwy yn arbennig yn yr ardaloedd trefol, a'r prif ardaloedd sydd yn destun pryder yw; Llanddulas, Llanfairfechan, Bae Cinmel, Llandudno, Hen Golwyn (arglawdd rheilffordd) a thref Conwy. Fel yr eiriolwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (2016), gall atebion seiliedig ar natur gynyddu cydnerthedd arfordirol yn wyneb llifogydd. Gellir creu dull seilwaith gwyrdd o wella arfordiroedd - "glannau sydd yn fyw" - drwy ddefnyddio planhigion, riffiau, tywod a rhwystrau naturiol er wyn lleihau erydiad a llifogydd. |
| Polisi NTE/8 Systemau Draenio Cynaliadwy | Bydd angen defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy pan fo hynny yn rhesymol ymarferol, gan ffafrio dulliau gwaredu ar y safle a ble gellir sefydlu trefniadau derbyniol er mwyn cynnal y systemau hynny yn yr hirdymor. | Cydnabyddir yn eang y Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), megis toeau gwyrdd, helpu o ran rhyng-gipio glaw, lleihau dŵr ffo oddi ar yr wyneb, a lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd o ganlyniad i hynny. Yn ei dro, bydd poblogaethau yn llai agored i ddigwyddiadau stormydd mawr, sydd yn debygol o gael eu gwaethygu oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae'r dull GIA yn cydnabod bod SuDS yn ateb effeithiol i leihau risg llifogydd, ac y gall ddarparu buddion amlbwrpas megis coridorau bywyd gwyllt a lleihau'r effaith ynys wres drefol. |

| Cyfeirnod Polisi | Polisi | Adolygiad o'r Polisi |
|---|---|---|
| Polisi Strategol STR/1 - Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygu a Mynediad | Dylai mynediad cyfleus ar ffurf llwybrau traed, seilwaith seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus fodoli neu gael ei ddarparu pan fo'n briodol, er mwyn annog defnyddio'r dulliau teithio hynny ar gyfer teithiau lleol a lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat a gwella mynediad i wasanaethau i'r rhai sydd ag argaeledd trafnidiaeth gwael. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wella mynediad ac yn ceisio newid ymddygiad teithio. Bydd hynny yn cynnwys:<br>• Canolbwyntio datblygu i'r dyfodol mewn lleoliadau hygyrch iawn<br>• Hyrwyddo cymunedau hygyrch sydd yn annog dulliau teithio cynaliadwy integredig<br>• Hyrwyddo cerdded a seiclo fel dulliau allweddol a chynaliadwy iawn o deithio | Drwy gyfrwng GIS, a thestun ategol, mae'r dull yn enwi cyfleoedd i wella athreiddedd ar gyfer cerddwyr a seiclwyr mewn cyd-destun gwyrdd (oddi ar y ffordd) yng Nghonwy. Mae hynn yn cynnwys adnabod ardaloedd all gynnal ffyrdd gwyrdd newydd a llwybrau seiclo er mwyn cynyddu cysylltedd, tra'n darparu dewis amgen deniadol a diogel yn lle'r car ar gyfer trigolion a thwristiaid fel ei gilydd.<br>Er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng cymunedau newydd a phresennol, yn ogystal â'r ardal amgylchynol, mae'r dull yn darparu arweiniad neilltuol leol i ddatblygwyr ynghylch sut y gellir ymgorffori GI i ddatblygiadau, yn arbennig dyraniadau tai a chyflogaeth sylweddol ac aneddiadau newydd posibl.<br>Os bydd coridorau teithio cynaliadwy a mentrau cysylltedd gwyrdd yn cael eu hadnabod, bydd y dull hefyd yn ystyried cysylltiadau i awdurdodau cydffiniol.<br>Bydd y dull yma yn tynnu ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwyo Conwy 2019-2029, er mwyn deall ble mae newidiadau ac ychwanegiadau diweddar i'r rhwydwaith wedi arwain at fuddion, ac yn alinio â gweledigaeth Conwy ar gyfer teithio actif i'r dyfodol. |

# 3.0 Adolygiad o Arferion Gorau

3.1 Mae TEP wedi cynnal adolygiad o ddogfennau eirioli presennol sydd cyfleu negeseuon GI yn effeithiol. Mae hynny wedi cynnwys adolygu'r dogfennau canlynol yr ystyrir eu bod yn elfennau o arferion da y gellir eu trosglwyddo:

- Grŵp Polisi CIEEM Cymru (Awst 2018). Canllawiau Seilwaith Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Datganiad Sefyllfa;
- Y Sefydliad Tirlun (2016) Datganiad Sefyllfa: Seilwaith Gwyrdd - Dull Integredig ar gyfer Defnydd Tir

**CIEEM (2019) Datganiad Sefyllfa Canllawiau GI Llywodraeth Cymru**

3.2 Mae'r canllawiau, a gynhyrchwyd gan Grŵp Polisi Cymru CIEEM, wedi eu hysgrifennu yng nghyd-destun canllawiau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar GI a'r broses o'u cyflawni yn y system gynllunio ar ôl cyhoeddi PPW10. Mae Gweithgor Polisi Cymru CIEEM yn nodi eu bod yn croesawu'r cynigion mewn perthynas â chanllawiau ychwanegol wedi eu hanelu at ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â gweithredu GI mewn prosesau datblygu a phenderfynu, ac mae'n ystyried bod hyn yn gyfle i fireinio'r egwyddorion a fabwysiadwyd yn y PPW adolygedig.

3.3 Mae Tabl 2 yn amlinellu'r argymhellion a geir yn y datganiad sefyllfa, ac mae'n myfyrio ar sut mae'r rhain yn berthnasol i GIA Conwy.

*Tabl 2: Y cysylltiad rhwng argymhellion CIEEM ar gyfer cynllunio a chyflawni GI a GIA Conwy*

| Argymhelliad CIEEM | Cysylltiad â GIA Conwy |
|---|---|
| Diffiniad manwl o'r term 'seilwaith gwyrdd'. Gellir ystyried bod 'seilwaith gwyrdd' yn derm amwys, sydd yn agored i'w ddehongli gan wahanol gyrff a/neu unigolion. Felly, dylai unrhyw ganllawiau ddarparu diffiniadau manwl o'r term a'r ystyr er mwyn sicrhau dealltwriaeth a gweithredu cyson yn y system gynllunio, ac o ganlyniad i hynny, dull cyson o'i roi ar waith ar draws ffiniau gweinyddol. | At ddibenion GIA Conwy, bydd y dull GI yn defnyddio'r diffiniad o GI a ddarperir gan PPW 10 sef 'y rhwydwaith o nodweddion, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd naturiol a lled naturiol sydd yn gwasgaru a chysylltu llefydd,' Mae'r defnydd o'r diffiniad yma yn GIA Conwy wedi cael ei gymeradwyo gan CBSC a CNC fel grŵp rhanddeiliad allweddol. |

| Argymhelliad CIEEM | Cysylltiad â GIA Conwy |
|---|---|
| Mwy o bwyslais ar y buddion amlbwrpas y gellir eu cyflawni drwy seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau, yn cynnwys effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles cymuned. Gallai hynny gynnwys cyfeiriad at nodweddion a chynefionedd penodol nad ydynt fel arfer yn cael eu hystyried mewn dyluniad uwch gynllun. Er enghraifft, mae rhandiroedd a pherllannau yn cynnig buddion o ran iechyd a lles cymuned, tra'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth hefyd. | Bydd teipoleg GI yn cael ei fapio ar lefel bwrdeistref, yn ogystal â mewn aneddiadau trefol allweddol a'r pum safle strategol a nodir yn yr RLDP. Gan ddefnyddio setiau data ffynhonnell agored, wedi ei ategu gan setiau data ychwanegol sydd yn eiddo i'r cyngor, mae'r dull GI yn gallu mapio cynefinoedd yn cynnwys rhandiroedd a pherllannau fydd yn cael eu harddangos yn ofodol.<br><br>Mae'r dull GI hefyd yn ymgorffori setiau data sydd yn eiddo i'r cyngor a setiau data ffynhonnell agored er mwyn asesu ansawdd GI yng Nghonwy. Mae mapio amlbwrpas yn adeiladu ar y mapio teipoleg cychwynnol, ac mae'n asesu nifer y swyddogaethau y gall pob teipoleg GI ei ddarparu, megis storio carbon, hamdden, cysgod rhag yr haul, coridor bywyd gwyllt, rhyng-gipio dŵr a gwaredu llygryddion. |
| Dylid rhoi mwy o bwyslais ar fuddion ymgysylltu cynnar gydag ymarferwyr cymwys er mwyn adnabod cyfleodd a chyfyngiadau amgylcheddol ar y safle, gan ganiatáu i gynlluniau seilwaith gwyrdd priodol gael eu hymgorffori i uwch gynllun arfaethedig ar ddechrau'r broses o ddylunio datblygiad. | Cydnabyddir bod ymgysylltu a chyfranogiad rhanddeiliaid yn gynnar fel rhan o'r dull GI yn rôl allweddol o ran adnabod anghenion a chyfleoedd ar lefel bwrdeistref a safle. Ar gyfer y pum safle strategol a enwyd yng Nghonwy, mae'r dull yn annog ymgysylltu er mwyn ennyn gwybodaeth leol a phenderfynu sut y gall ymyriadau GI ar lefel safle ymateb orau i angen lleol. Er enghraifft, gall Safle Strategol mewn ardal mwy difreintiedig o Gonwy elwa o fwy o fynediad i fannau agored i gael buddion iechyd. |
| Cyfeirio at yr Hierarchaeth Liniaru ac Egwyddorion Arferion Da Enillion Net Bioamrywiaeth CIEEM ar gyfer Datblygu. | Mae'r dull GI yn cydnabod bod ymyriadau GI nid yn unig yn darparu budd ecolegol ac enillion amgylcheddol ar lefel prosiect, ond hefyd ar raddfa fwy drwy ddarparu cysylltedd.<br><br>Yn nhermau Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) gall y dull ddarparu fframwaith ar gyfer ymyriadau GI ar safleoedd yn y pum safle strategol yng Nghonwy yn yr RLDP. Gall y rhain helpu datblygwyr o ran lleoli eu cynlluniau enillion net er budd i'r amgylchedd a'r gymuned.<br><br>Ar raddfa'r fwrdeistref gyfan, drwy fapio teipolegau GI presennol ledled y fwrdeistref, gall y dull GI adnabod ble mae yna botensial i gysylltu cynefinoedd presennol drwy goridorau bywyd gwyllt a chysylltiadau gwyrdd. |

| Argymhelliad CIEEM | Cysylltiad â GIA Conwy |
|---|---|
| Mwy o bwyslais ar gyfrifoldebau datblygwyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA) gan sicrhau bod 'seilwaith glas' (h.y. Afonydd, llynnoedd a phyllau) yn ystyriaeth allweddol hefyd yn y broses o uwch gynllunio, oherwydd gall nodweddion o'r fath hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau. | Mae gan Gonwy 76 km o arfordir ac mae'n gartref i nifer o gyrsiau dŵr megis Afon Conwy. Felly, mae seilwaith glas yn elfen allweddol o'r dull GI ar gyfer GIA Conwy. At ddibenion GIA Conwy, bydd y dull GI yn defnyddio'r diffiniad o GI a ddarperir gan PPW 10, sydd yn cydnabod bod seilwaith glas yn rhan o GI, sef 'y rhwydwaith o nodweddion, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd naturiol a lled naturiol sydd yn gwasgaru a chysylltu llefydd,' Mae'r defnydd o'r diffiniad yma yn GIA Conwy wedi cael ei gymeradwyo gan CBSC a CNC fel grŵp rhanddeiliad allweddol.<br><br>Mae'r data gofodol ar gyfer y dull GI yn ymgorffori seilwaith glas yn cynnwys gwlypdiroedd, cyrsiau dŵr a dŵr llanwol sydd yn darparu gwaelodlin gydnerth o adnoddau seilwaith gwyrdd ac sydd yn galluogi dadansoddi amlbwrpasedd, er enghraifft, o ganlyniad i hynny. |
| Mwy o bwyslais ar fuddion cyfuno strategaethau seilwaith gwyrdd a glas fel rhan o uwch gynllun holistig. Mae hynny yn golygu bod angen gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ym mhob datblygiad newydd sydd yn fwy nag un annedd neu pan fo'r ôl-troed adeiladu yn fwy na 100m$^2$. | Fel y nodir uchod, mae'r dull GI yn ystyried bod seilwaith glas a gwyrdd yn gydnaws â'r diffiniad o GI.<br><br>Bydd y dull GI yn galluogi datblygu cyfleoedd GI ar gyfer pum safle strategol Conwy drwy'r RLDP. Yn ogystal â chyfleoedd  ar gyfer cysylltedd, byffers tirlun a hamdden, bydd cyfleoedd hefyd yn cael eu henwi ar gyfer SuDS, pan fo hynny yn briodol. |
| Dylai cyfleoedd sydd yn deillio o 'seilwaith llwyd' newydd ac adnewyddedig (h.y. Tirlunio sy'n gysylltiedig â ffyrdd a rheilffyrdd) gael eu hystyried hefyd yn nhermau y gallant wella mwy ar seilwaith glas a gwyrdd, er enghraifft, a bydd hynny yn bwysig wrth adnewyddu rheilffyrdd na ddefnyddir, sydd efallai wedi datblygu cynefinoedd pwysig yn lleol. | Mae'r A547 Ffordd Conwy yn mynd drwy ganol aneddiadau mwyaf Conwy a chanolfannau trefol â phoblogaethau mawr, yn cynnwys Abergele a Bae Colwyn. Fel rhan o'r dull GI, bydd ymgynghori â rhanddeiliaid, yn cynnwys gyda'r Rheolwr Traffig a Rhwydwaith gyda CBSC, yn bwydo syniadau i gyfleoedd posibl ar gyfer GI mewn cysylltiad â ffyrdd a seilwaith. Er enghraifft, profwyd bod byffers GI ar hyd ffyrdd yn cynnwys gwrychoedd isel a choed yn hidlo llygryddion aer ymyl y ffordd ac yn fyffer rhag sŵn traffig i drigolion cyfagos, yn ogystal â bod yn goridorau bywyd gwyllt. Mae yna rai enghreifftiau integredig o goed strydoedd sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn rhai rhannau o Gonwy all ddylanwadu ar gynigion mewn mannau eraill. |

| Argymhelliad CIEEM | Cysylltiad â GIA Conwy |
|---|---|
| Manylion am y fecanwaith ar gyfer sgrinio a chwmpasu pan fo angen Datganiad Seilwaith Gwyrdd ar gyfer safle datblygu penodol, gan gydnabod mai dim ond effaith gyfyngedig sydd gan fân ddatblygiadau ar seilwaith gwyrdd. Yn yr achos yma, dylid ond paratoi Datganiad Seilwaith Gwyrdd pan ystyrir bod hynny yn briodol, a dylai unrhyw ddarpariaeth seilwaith gwyrdd fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad ac effeithiau cysylltiedig. | Tu hwnt i gwmpas comisiwn GIA Conwy. Gall CBSC ystyried hyn ar ôl cynhyrchu'r GIA. |
| Ystyriaeth i ddefnyddiau ac anghenion cyferbyniol posibl yn nyluniad uwch gynllun, yn benodol pan fo datblygiad yn cael ei gyfyngu o ran maint, ac felly o ran cyfleoedd i gynnwys strategaeth seilwaith gwyrdd holistig. Rhaid cydnabod y bydd yna achlysuron pan nad yw'n briodol nac yn bosibl cyflawni holl fuddion seilwaith gwyrdd. Er enghraifft, mewn achosion pan fo'r gofyniad statudol i ddarparu SuDS yn gwrthdaro efallai â gofyniad i ddarparu camau lliniaru neu ddigolledu cynefin ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig. Yn yr achos yma dylai'r canllawiau ganiatáu datrysiad pragmatig i gyfyngiadau amgylcheddol. | Yn ystod y broses o ddatblygu mapiau cyfleoedd ar gyfer pum safle datblygu strategol Conwy, bydd y dull GI yn derbyn argymhellion CIEEM er mwyn ystyried defnyddiau cyferbyniol posibl.<br><br>Mewn ymateb i ddatganiad CIEEM 'y bydd yna achlysuron pan nad yw'n briodol nac yn bosibl cyflawni holl fuddion seilwaith gwyrdd' mae'r dull GI yn cydnabod y gall ardaloedd, mewn rhai achosion, berfformio un swyddogaeth yn dda ac nad yw eraill yn angenrheidiol. Er enghraifft, efallai y bydd dynodiadau bywyd gwyllt rhyngwladol yn bodloni anghenion yr amgylchedd, ond yn darparu fawr ddim o adnoddau hamdden ac economaidd oherwydd byddent yn gwrthdaro â rheoli a gwarchod cynefinoedd. |

| Argymhelliad CIEEM | Cysylltiad â GIA Conwy |
|---|---|
| Rhaid i unrhyw ganllawiau fod yn gyson â pholisïau cynlluniau datblygu presennol a chanllawiau polisi cenedlaethol, a hefyd bod yn hyblyg mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth cynllunio sydd yn esblygu. Dylai hynny alluogi i seilwaith gwyrdd ddarparu buddion hirdymor i ddylunio datblygiad yn hytrach na bod yn rhwystr i bolisïau a deddfwriaeth cyferbyniol. Mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y bydd hynny yn cael ei gyflawni. | Mae TEP wedi cynnal adolygiad o Gynllun datblygu mabwysiedig CBSC, yn ogystal â dogfennau'r gronfa dystiolaeth o'r RLDP. |
| Mae cyflawni system integredig sydd yn darparu buddion amlbwrpas yn golygu bod angen tîm cynllunio gyda set sgiliau amlddisgyblaethol a digon a ddealltwriaeth ac arbenigedd mewn perthynas â holl agweddau datblygu cynaliadwy. Felly byddem yn ystyried y byddai'n fuddiol cyhoeddi canllawiau yn y dyfodol law yn llaw â hyfforddiant ychwanegol, er enghraifft drwy weithdai gyda LPAau, llunwyr uwch gynlluniau a datblygwyr, er mwyn cefnogi'r gwaith o roi cysyniadau allweddol ar waith. | Mae TEP yn ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol ac mae'r dull GI wedi cael ei ddatblygu gydag ecolegwyr, dylunwyr trefol, cynllunwyr trefi, tyfwyr coed, ymgynghorwyr treftadaeth ac ymgynghorwyr GIS. Ymgynghorir â phob disgyblaeth ar adegau angenrheidiol yn ystod y dull GI drwyddo draw, ac ymgysylltir â nhw yn ystod sesiynau herio ac adolygu mewnol TEP. Mae TEP yn cynnal sesiynau hyfforddi CPD ar GI ar gyfer cleientiaid allanol ar gais. |

### Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Tirlun Seilwaith Gwyrdd (2016)

3.4 Mae'r argraffiad yma o Ddatganiad Sefyllfa y Sefydliad Tirlun (LI) yn deillio o gyfle i arddangos ystod o waith GI strategol llwyddiannus a phrosiectau sydd wedi eu cwblhau. Y nod yw rhoi i gyrff yn y sectorau preifat a chyhoeddus, cleientiaid a gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd naturiol ac adeiledig fewnwelediadau newydd i'r buddion y gall GI eu cyflawni drwy greu tirluniau amlbwrpas a dangos sut y gall pobl gydweithio i gyflawni hynny.

3.5 Mae'r Datganiad Sefyllfa yn amlinellu saith cam ar gyfer datblygu dull strategol mewn perthynas â GI. Mae Tabl 4 yn nodi sut mae'r fethodoleg gytunedig ar gyfer GIA Conwy yn gyflawni'r camau hyn.

*Tabl 3 Camau a argymhellir gan LI ar gyfer cyflawni GI Strategol o'i gymharu â dull TEP*

| Camau ar gyfer Cyflawni GI Strategol | Cymhariaeth â Dull TEP |
|---|---|
| **1.** Partneru a Gweledigaeth | Wrth adnabod maint geo-ofodol y prosiect, mae'r dull GI yn cydnabod nad yw GI yn stopio ar ffiniau gweinyddol, ac oherwydd hynny mae ymgynghori a phartneru ag awdurdodau cyffiniol yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Pharc Cenedlaethol Eryri yn elfennau pwysig o'r dull.<br><br>Mae'r dull GI yn ymgorffori ymgynghori â rhanddeiliaid fesul cam yn y GIA drwyddo draw. Cytunwyd gyda CBSC ar y grŵp rhanddeiliaid. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhanddeiliad allweddol, sydd yn gweithio â TEP ar ddatblygu dull a darparu setiau data presennol. |
| **2.** Adolygiad Cyd-destunol | Mae TEP wedi cynnal adolygiad o bolisi cenedlaethol a lleol mewn perthynas â GI er mwyn darparu gwaelodlin gadarn a hysbysu camau diweddarach y GIA megis datblygu themâu.<br><br>Bydd rhai o'r setiau data LANDMAP yn rhan o'r data gwaelodlin er mwyn alinio ag argymhelliad LI i ddatblygu 'teimlad o le.' Bydd nodweddion allweddol dynodiadau tirluniau eraill megis Ardaloedd Tirlun Arbennig (SLAau) yn rhan o'r waelodlin. |
| **3.** Archwilio Data a Mapio Adnoddau | Mae camau mapio sydd yn rhan o'r dull GI yn cynnwys mapio teipoleg GI presennol ledled y fwrdeistref yn cynnwys coetiroedd, glaswelltiroedd, dŵr llanwol a chyrsiau dŵr, i enwi dim ond rhai. Mae mapio amlbwrpas yn adeiladu ar y mapio teipoleg cychwynnol, ac mae'n asesu nifer y swyddogaethau y gall pob teipoleg GI ei ddarparu, megis storio carbon, hamdden, cysgod rhag yr haul, coridor bywyd gwyllt, rhyng-gipio dŵr a gwaredu llygryddion. Byddir yn cytuno ar restr o swyddogaethau gyda'r cleient a bydd yn ddibynnol ar argaeledd ac ansawdd data. |

<table>
<tr><th>Camau ar gyfer Cyflawni GI Strategol</th><th>Cymhariaeth â Dull TEP</th></tr>
<tr><td>4. Asesiad o Anghenion a Chyfleoedd</td><td>Angen<br><br>Mae’r dull GI yn cydnabod bod raid i'r GIA dargedu adnoddau yn effeithiol ble mae’r angen ar ei fwyaf. Felly, rhan allweddol o’r dull GI yw adnabod ardaloedd anghenus, h.y. Ardaloedd sydd yn wynebu pwysau presennol ac a fyddai yn elwa o greu neu wella GI. Mae cyfuniad o’r cyd-destunol a pholisi, mapio amlbwrpas ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn galluogi adnabod pwyntiau pwysau seiliedig ar dystiolaeth. Gellir categoreiddio anghenion i destunau megis bioamrywiaeth ac amgylchedd; amgylchedd dŵr, cysylltedd, iechyd a lles a’r economi.<br><br>Cyfleoedd<br><br>Gan ddefnyddio’r ardaloedd anghenus a nodir, gall y dull GI fynd gam ymhellach er mwyn adnabod cyfleoedd wedi eu hysbysu gan deipoleg a mapio swyddogaethau. Gall y dull GI, wedi ei arwain gan fewnbwn rhanddeiliaid, adnabod ble mae yna ardal gyda photensial i:<ul><li>Greu GI</li><li>Gwella GI</li><li>Gwarchod GI</li></ul></td></tr>
<tr><td>5. Dylunio'r Ymyriadau a Gynlluniwyd</td><td rowspan="3">Mae Camau 5-7 o argymhellion y dull LI yn gysylltiedig â chamau diweddaraf cynllunio strategol. Gall y dull GI wneud argymhellion ar gyfer dylunio, gweithredu a rheoli/cynnal GI, a darparu canllawiau a fframweithiau strategol ar gyfer cyflawni.</td></tr>
<tr><td>6. Gweithredu</td></tr>
<tr><td>7. Rheoli a Chynnal</td></tr>
</table>

3.6 Mae Tabl 5 yn nodi argymhellion allweddol y datganiad polisi yma, ac yn rhoi dadansoddiad cryno mewn perthynas â GIA Conwy.

*Tabl 4: Y Berthynas rhwng Argymhellion yn Natganiad Sefyllfa LI a GIA Conwy*

| | **Argymhelliad** | **Sut all GI gyfrannu at fodloni'r argymhelliad yma?** |
|---|---|---|
| GI Strategol | Rydym yn argymell bod datblygwyr yn ymwybodol o amcanion GI strategol ardal ac yn gwerthfawrogi sut mae'r amcanion hynny yn cyfrannu at liniaru effeithiau amgylcheddol datblygiadau newydd a chreu lleoedd prydferth. | Mae adolygiad cyd-destunol a pholisi trylwyr o bolisi CBSC wedi amlinellu amcanion strategol ar gyfer y fwrdeistref sirol. |
| | Oherwydd ei natur, mae GI yn aml yn croesi ffiniau gweinyddol a gweithredol, ac rydym yn credu y dylid mynd i'r afael â hynny drwy weithio ar y cyd rhwng cyrff cenedlaethol ac awdurdodau lleol. | Mae'r dull GI yn caniatáu ymgysylltu trylwyr gydag awdurdodau lleol Gwynedd, Sir Ddinbych a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn rhanddeiliaid allweddol hefyd, ynghyd â CBSC. |
| | Rhaid rhoi ystyriaeth i'r rhyngweithio cymhleth rhwng tai, rheoli llifogydd, tyfu nwyd a bioamrywiaeth er enghraifft. Mae'r dull yma yn ein galluogi i fabwysiadu datrysiadau blaengar, integredig a blaengar. Mae GI yn cynnig ffordd nid yn unig o dracio heriau penodol yn uniongyrchol, ond o wireddu buddion eilaidd niferus ar yr un pryd. Y dull integredig yma fydd yn datgloi potensial ein tirlun. | Er bod gan y rhan fwyaf o fathau o GI bwrpas neu swyddogaeth sylfaenol, mae'r dull GI yn cydnabod bod GI, oherwydd ei natur, yn amlbwrpas, ac yn darparu ystod o swyddogaethau ar gyfer yr amgylchedd a chymunedau. Pa bynnag ddeilliant sylfaenol a geisir, bydd yn darparu ystod eang o fuddion ategol. |
| Terminoleg GI | Asedau Seilwaith Gwyrdd:<br>Mae asedau GI yn amrywio o barciau gwledig, llynnoedd a choetiroedd i ymyriadau trefol megis toeau gwyrdd a choed strydoedd. Gallant fod yn safleoedd penodol ar y lefel leol neu nodweddion amgylcheddol ehangach ar raddfa tirlun mewn a rhwng ardaloedd gwledig a threfol megis gwlypdiroedd, corstiroedd a chadwyni o fynyddoedd. | Mae'r dull GI yn defnyddio'r diffiniadau a ddarperir gan LI ar gyfer asedau, swyddogaethau a gwasanaethau ecosystem GI. |

| | Argymhelliad | Sut all GI gyfrannu at fodloni'r argymhelliad yma? |
|---|---|---|
| | Swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd:<br><br>Swyddogaethau GI yw'r rolau y gall asedau eu chwarae os cânt eu cynllunio, dylunio a'u rheoli mewn ffordd sydd yn sensitif i, ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer nodweddion naturiol a gwasanaethau ecosystem. Efallai bod ganddynt swyddogaethau sylfaenol amlwg, ond gall pob ased berfformio gwahanol swyddogaethau ar yr un pryd - cysyniad a elwir yn amlddefnydd. Er enghraifft, mae coed strydoedd yn ychwanegu rhinwedd esthetig i ardal drefol, ond byddant hefyd yn lleihau llygredd aer, yn darparu cysgod, yn lleihau effeithiau ynys wres drefol, yn lliniaru oerni a dyrfedd gwynt ac yn cynyddu bioamrywiaeth | |
| | Gwasanaethau Ecosystem:<br><br>Tanategu'r swyddogaethau amrywiol y mae asedau GI yn eu perfformio yw cysyniad gwasanaethau ecosystem. Rhwng 2009 a 2011, dadansoddodd Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU (UK NEA) yr amgylchedd naturiol yn nhermau'r buddion mae'n ei ddarparu  i gymdeithas a ffyniant economaidd. Canfu UK NEA bod iechyd, lles a chynhyrchiant economaidd yn dibynnu ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan ecosystemau a'u cydrannau, megis dŵr, pridd, maetholion ac organebau. | |

<table>
<tr><th></th><th>Argymhelliad</th><th>Sut all GI gyfrannu at fodloni’r argymhelliad yma?</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Mecanweithiau ar gyfer Cyflawni GI</td><td>Ariannu:<br><br>Gellir a dylid ariannu seilwaith gwyrdd gyda chyfraniadau gan ddatblygwyr, er mwyn adlewyrchu’r pwysau ychwanegol y mae datblygiadau o bob math yn ei roi ar yr amgylchedd naturiol a’r seilwaith presennol. Drwy ddangos gallu GI i gyflawni amcanion polisi ehangach, efallai y gellid ei ariannu hefyd gan ffynonellau fydd yn elwa o’i gymhwyso yn ehangach, megis asiantaethau cenedlaethol a chyrff iechyd yr UE, y DU neu genedlaethol, cwmnïau dŵr, darparwyr ynni ac awdurdodau priffyrdd.</td><td rowspan="3">Er mwyn sicrhau lefel uchel o uchelgais mewn perthynas â GI ledled y fwrdeistref, er gwaethaf cyfyngiadau crian cyhoeddus, mae’r dull GI yn cydnabod bod angen datblygu dulliau ychwanegol o ariannu ar gyfer gweithredu a rheoli a chynnal a chadw yn barhaus. Gyda chefnogaeth proses ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r dull GI yn cydnabod gwerth sicrhau bod digon o fuddsoddiad ar gael heb ddibynnu'n ormodol ar un ffynhonnell arian.</td></tr>
<tr><td>Hyd yn oed pan fo cyfalaf cychwynnol ar gyfer GI wedi cael ei sicrhau, mae’n hanfodol bod cynllun ariannu ar gyfer rheoli a chynnal a chadw parhaus yn cael ei ffactora o; cychwyn, a bod dyheadau GI yn cael ei dylunio yn unol â hynny.</td></tr>
<tr><td>Gall ffynonellau arian refeniw gynnwys cyfleoedd i gynhyrchu incwm o asedau GI drwy fasnachfreintio, trwyddedu a ffioedd mynediad, gwaddolion, ymddiriedolaethau cymunedol, buddsoddiad masnachol ac arian awdurdod lleol traddodiadol. Neu gallai refeniw gynnwys incwm uniongyrchol o ynni adnewyddadwy, cynhyrchu bwyd, pori amaethyddol, silwair neu ddigwyddiadau, neu arbedion anuniongyrchol o ganlyniad i leihau risg llifogydd.</td></tr>
</table>

### Prosiect HOSANNA (2013). Atebion Newydd ar gyfer Dinasoedd Mwy Tawel a Gwyrdd

3.7 Mae HOSANNA (‘HOlistic and Sustainable Abatement of Noise by optimized combinations of Natural and Artificial means’) yn brosiect cydweithredol wedi ei ariannu gan Ewrop ac a gydlynir gan Brifysgol Technoleg Chalmers yn Sweden. Mae partneriaid eraill yn cynnwys arbenigwyr ym maes adeiladu ac amrywiaeth o brifysgolion yn cynnwys Prifysgol Sheffield a Phrifysgol Bradford. Mae’r prosiect yn amcanu at ddatblygu pecyn adnoddau ar gyfer lleihau sŵn traffig mewn amgylcheddau awyr agored drwy ddefnyddio llystyfiant mewn modd optimaidd.

3.8 Nod HOSANNA oedd canfod gwell ffyrdd o ddefnyddio wynebau â llystyfiant a deunyddiau wedi’u hailgylchu er mwyn lleihau sŵn ffyrdd a rheilffyrdd a gwella’r amgylchedd sŵn ganfyddiadol. Gall y strategaethau lleihau gwyrdd a amlygir arwain at welliannau cost effeithiol drwy ddefnyddio dyluniadau rhwystrau newydd, plannu coed, prysg neu lwyni, triniaethau tir a ffyrdd a gwyrddu ffasadau a thoeau adeiladau. Er bod yr adroddiad yn gysylltiedig yn bennaf â lleihau sŵn, mae’r ymyriadau yn arwain at fuddion trawsffiniol ar gyfer bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac iechyd a lles. Mae’r ddogfen yn cyflwyno pecyn adnoddau yn cynnwys amrywiaeth mawr o fesurau - mae’r rhai sydd yn fwyaf priodol i Gonwy wedi cael eu dewis a’u disgrifio isod.

<u>Rhwystrau Sŵn</u>

*Rhwystrau sŵn uchder-isel*

3.9 Mae rhwystrau sŵn uchder-isel yn rwystrau bychan nad ydynt yn fwy na 1m o ran lled nac uchder, sydd wedi eu codi er mwyn lleihau sŵn rholio o geir neu dramiau. Gellir defnyddio rhwystrau o'r fath mewn ardaloedd trefol dwys er mwyn gwarchod palmentydd a meinciau cyfagos i ffyrdd neu reilffyrdd rhag sŵn. Mae hynny yn bosibl mewn sefyllfaoedd sydd â chyflymder traffig cyfyngedig, megis mewn canol dinasoedd.




*Ffigwr 1: Rhwystr Sŵn Uchder-isel (HOSANNA)*

*Rhwystrau ysgafn â llystyfiant ar bontydd*

3.10 Gall traffig sydd yn teithio dros bontydd mewn ardaloedd trefol achosi sŵn i gerddwyr a seiclwyr mewn ardaloedd o dan y pontydd. Gall rhwystrau sŵn tenau a chadarn 1 m o uchder ar hyd ymylon pontydd leihau lefelau sŵn yn yr ardaloedd derbyn hyd at 4 dB(A) yn achos traffordd pedair lôn. Gall y math yma o osodiad hyrwyddo cerdded a seiclo drwy sicrhau ansawdd seinlun derbyniol ar hyd y llwybr teithio.



Ffigwr 2: Rhwystrau ysgafn â llystyfiant ar bontydd(HOSANNA)

Coed, prysg a llwyni

*Coed mewn canionau strydoedd*

3.11 Ar hyd ffyrdd trefol sydd ag adeiladau ar y ddwy ochr mae yna nifer o adlewyrchiadau rhwng ffasadau adeiladau, ac mae'r rhain yn cynyddu lefelau sŵn strydoedd yn sylweddol, er enghraifft, pan fo ceir yn mynd heibio. Gall plannu coed ger y ffordd gyfrannu at wasgaru sŵn nifer o weithiau gan ganghennau, brigau a dail yng nghanopi coed.

*Rhesi lluosog o goed mewn caeau agored*

3.12 Ni fydd un rhes o goed ar hyd ffordd ger cae agored yn effeithio'n fawr ar lefelau sŵn traffig, ond gellir disgwyl effeithiau cadarnhaol yn achos rhesi lluosog.

*Prysg, llwyni a chloddiau*

3.13 Mae lleihau sŵn yn sylweddol drwy blannu prysg, llwyni a gwrychoedd yn golygu bod angen dwyseddau biomas uchel uwch lefel y tir. Mae gwrychoedd yn achosi gostyngiad mewn sŵn traffig ffordd o rhwng 1 dB(A)hyd at uchafswm o 2–3 dB(A). Dylai gwrychoedd fod yn ddigon trwchus a dwys iawn.


Triniaethau Tir

*Tir a Gorchudd Tir*

3.14 Gall meddalu'r tir rhwng ffynhonnell a derbynnydd, er enghraifft, amnewid asffalt gyda gwellt, leihau'r sŵn o'r ffordd.

Cyfuno Datrysiadau

3.15 Pan y'u defnyddir yn unigol, efallai na fydd yr ymyriadau a gynigir gan brosiect HOSANNA yn perfformio cystal â rhai traddodiadol, ond o'u cyfuno, maent yn cynnig dewisiadau amgen sydd yn rhatach, yn haws ei hintegreiddio ac sydd yn destun i lai o gyfyngiadau a gwrthdaro safle benodol. Fel y dangoswyd, mae'r prosiect yn cynnig deis eang o ddatrysiadau y gellir eu cyfuno mewn dyluniad cytbwys.




Ffigwr 3: Cyfuno Datrysiadau mewn ardaloedd ble ceir sŵn traffig ffordd a rheilffordd (HOSANNA)

# 4.0 Adolygiad o Strategaethau CBSC

4.1 Mae TEC wedi cynnal adolygiad o ddogfennau cronfa dystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol CBSC. Pwrpas yr adolygiad yw sicrhau bod y fethodoleg a'r themâu allweddol y cyfeirir atynt yn GIA Conwy yn cysylltu ac yn cyfrannu at eu nodau a'u deilliannau allweddol. Mae'r dogfennau sydd wedi eu hadolygu yn cynnwys:

- CBSCC (2017) Strategaeth Twf Economaidd Conwy 'Y Lle Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf' (2017-2027)
- CBSC (2018). RLDP Papur Pwnc 4 - Twristiaeth
- CBSC (2018). RLDP Papur Pwnc 6 - Yr Amgylchedd Naturiol
- CBSC (2018). RLDP Papur Pwnc 8 - Trafnidiaeth
- CBSC (2019). RLDP Papur Pwnc 12 - Mannau ar gyfer Hamdden
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy CBSC 2017- 2022
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo CBSC 2019- 2029
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy (2015-2018)

### Strategaeth Twf Economaidd Conwy

4.2 Mae Strategaeth Twf Economaidd Conwy wedi ei osod yng nghyd-destun y weledigaeth twf economaidd sengl ar gyfer y rhanbarth a ddatblygwyd gan y chwe awdurdod lleol, y sector preifat, a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r weledigaeth wedi ei phennu er mwyn sicrhau datblygiadau seilwaith sylweddol ledled y rhanbarth.

4.3 Mae'r Strategaeth yn enwi mentrau strategol all greu a gwella swyddi yn yr economi leol, gan symud o gyflogaeth tymhorol i gyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r strategaeth yn enwi'r ddwy themâu drawsffiniol sydd yn cefnogi twf ac sydd yn gysylltiedig â GI, a ddadansoddir yn Nhabl 3.

*Tabl 4 Themâu yn Strategaeth Twf Economaidd Conwy*

| Thema | Disgrifiad | Sut all GI gyfrannu at fodloni'r thema yma? |
|---|---|---|
| Seilwaith sydd yn Galluogi Twf | Gwneud y sir yn fagned ar gyfer pobl sydd eisiau sefydlu a thyfu busnesau dynamig sy'n edrych i'r dyfodol. | Gall GI fod yn un o nifer o ffactorau sydd yn cyfrannu at greu'r amodau ar gyfer twf cynaliadwy, drwy ddarparu gofodau deniadol ac ysgogi mewnfuddsoddiad. Rhaid i drefi ffyniannus fyd yn drefi cydnerth hefyd yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae cydfuddion GI mewn seilwaith trefol yn niferus, yn cynnwys adenillon ariannol uwch ar eiddo, a chyflenwad a rheolaeth mwy effeithlon ar ddŵr. Gall nifer o'r cydfuddion yma effeithio ar hyfywedd buddsoddiad i'r dyfodol a thwf busnesau. Hefyd gall ymyriadau GI anfon neges gadarnhaol, gan amlygu ymrwymiad i gynaliadwyedd. |

| Thema | Disgrifiad | Sut all GI gyfrannu at fodloni'r thema yma? |
|---|---|---|
| Twristiaeth Trawsnewidiol | Gwneud Conwy yn gyrchfan gydol y flwyddyn wirioneddol ryngwladol. | Bydd angen i Gonwy weithredu fel cyrchfan ryngwladol mewn perthynas â holl agweddau profiadau ymwelwyr ledled y Sir, ac mae hynny angen rheoli cyrchfannau yn gynaliadwy. Mae teimlad o le a chanfyddiad yn agweddau allweddol o brofiad ymwelwyr, a gall GI gyfrannu at wella hynny oherwydd ei allu i greu natur mewn ardaloedd trefol. Hefyd gellir defnyddio GI fel 'pyrth' i asedau twristaidd allweddol Conwy pan fo hynny yn briodol. Ar hyn o bryd, mae nifer o asedau twristiaeth antur Conwy yn hygyrch o'r A470 Ffordd Llanrwst, sydd yn golygu mai dulliau teithio preifat yw'r prif ddewis ar gyfer cyrraedd y llefydd yma. Mae gan ffyrdd gwyrdd a choridorau gwyrdd y potensial i gysylltu asedau twristiaeth yn well, a gwella'r profiad cyffredinol i dwristiaid. |

4.4 Mae Adran 3.3 y strategaeth yn amlinelli'r heriau economaidd yng Nghonwy. Mae Tabl 4 yn amlinellu pa rai sydd yn berthnasol i GIA Conwy, ac yn amlinellu enghreifftiau o sut y gall GI frwydro yn erbyn hynny, a gan symud hynny yn ei flaen i gamau diweddarach y GIA.

*Tabl 5: Y berthynas rhwng GI a'r heriau economaidd sydd yn wynebu Conwy*

| Her Economaidd | Crynodeb o'r Her a Wynebir | Sut all GI gyfrannu at wynebu'r her yma? |
|---|---|---|
| Allfudo | Un her sylfaenol yw mynd i'r afael â thalent ifanc yn allfudo o'r sir pan maent yn gadael am y brifysgol. | Gall ymyriadau GI feithrin balchder sifig yn rhinweddau naturiol cymunedau, a denu a chadw trigolion sydd yn gynyddol yn gwerthfawrogi amgylchedd o ansawdd uchel. Mae seilwaith gwyrdd wedi'i ddylunio'n dda a mannau gwyrdd wedi'u dylunio'n greadigol yn cynnig llawer o fuddion a gallant gefnogi agendau niferus drwy helpu i ddatblygu cymunedau a lleoedd sydd yn gynaliadwy, cadw trigolion sydd yn cael eu denu ar y ffyrdd o fyw iachach a mwy chymdeithasol y mae GI wedi'i gynllunio'n dda yn ei gynnig. |
| Adfywio | Mae gwaddol hanesyddol twristiaeth wedi arwain at bocedi crynodedig o amddifadedd yn agos i ganol trefi. | Mae gan GI y potensial i wneud i gymdogaethau fod yn fwy deniadol ac iach. Nid oes gan lawer o ganol trefi ddigon o fynediad i fannau gwyrdd, ac yn aml maent yn gartref i seilwaith llwyd hŷn megis systemau rheoli dŵr storm. |
| Cynaliadwyedd Gwledig | Mae ffermwyr Conwy yn wynebu heriau o ran hyfywedd economaidd. | Gall GI fod yn gymaint o fudd i gymunedau gwledig ag yw i leoliadau trefol. Er enghraifft, gall coed a llwyni warchod priddoedd rhag sychu yn ystod y tymhorau cynnes, a gallant ddarparu lloches bwysig rhag y gwynt, gan ddylanwadu ar gynhyrchiant amaethyddol yn yr ardal.<br><br>Hefyd mae cyrsiau dŵr yn croesi nifer o leoliadau gwledig Conwy, ac mae hynny yn achosi i lifogydd lleol fod yn broblem i gymunedau gwledig. Gall GI chwarae rôl o ran lleihau risg llifogydd, gan greu mynediad cynaliadwy i lannau afonydd a dychwelyd afonydd i'r gorlifdiroedd ble mae peiriannu caled wedi digwydd. |

| Her Economaidd | Crynodeb o'r Her a Wynebir | Sut all GI gyfrannu at wynebu'r her yma? |
|---|---|---|
| Ariannu | Mae arian yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru wedi lleihau. | Gellir dylunio a chynllunio GI ar gyfer ystod eang o wasanaethau ecosystem sydd yn cynnwys darparu bwyd, dŵr, mwynau, rheoleiddio ansawdd aer a dŵr, gwarchod rhag erydiad a galluogi amwynderau sydd yn bwysig o ran lles pobl. |

### Papur Pwnc 4 RLDP - Twristiaeth

4.5 Ffocws Papur Pwnc 4 yw gwarchod gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig, gan archwilio mwy i'r potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.

4.6 Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Conwy, sydd yn cefnogi 12,208 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan greu £839m o refeniw i economi'r Sir yn flynyddol. Nodir bod yr Economi Ymwelwyr yn llawer mwy eang nag effaith uniongyrchol yr elfen dwristiaeth yn unig, yn arbennig i gymunedau gwledig.

4.7 Mae twristiaeth antur a diwylliannol y sectorau sydd ar gynnydd yn y Sir a Gogledd Cymru, ac mae Papur Pwnc 4 yn nodi y bydd CBSC yn amcanu at ddatblygu mwy ar y rhanbarth fel man i fusnesau twristiaeth ffynnu.

4.8 Adolygwyd Strategaeth Partneriaeth Twf Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 (Llywodraeth Cymru) yn Adran 2.0 yr adroddiad yma; mae'r dadansoddiad yn dangos sut y gall GI greu lleoliadau deniadol a chynaliadwy ar gyfer seilwaith twristiaeth a denu mewnfuddsoddiad.

### Papur Pwnc 6 RLDP - Yr Amgylchedd Naturiol

4.9 Mae Papur Pwnc 6 yn nodi y bydd 'RLDP yn gweithi er mwyn gwarchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hynny yn ei dro yn arwain at fuddion i dwristiaeth, seilwaith gwyrdd a chyfleoedd o ran iechyd a lles.'

4.10 Mae'r Papurau Pwnc yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu a gwella cymeriad ac edrychiad yr arfordir annatblygedig.

**Papur Pwnc 8 RLDP - Trafnidiaeth**

4.11 Mae Papur Pwnc 8 yn ymdrin â'r materion allweddol mewn perthynas â thrafnidiaeth sydd yn gofyn am newid yn yr adolygiad o'r LDP. Gan alinio â themâu allweddol eraill, mae'r Papurau Pwnc trafnidiaeth yn nodi y dylai'r RLDP gynnwys mwy o amcanion ynghylch sut y gellir integreiddio trafnidiaeth cynaliadwy i ardal y cynllun, yn cynnwys ymgorffori canllawiau newydd ar GI a draenio cynaliadwy. Bydd hynny yn golygu cydbwyso'r angen am dwf cynaliadwy gyda lleoliad safleoedd dyranedig newydd ar gyfer datblygu.

**Papur Pwnc 12 RLDP - Mannau ar gyfer Hamdden**

4.12 Ym Mhapur Pwnc 12, mae CBSC yn cydnabod bod mannau hamdden yn werthfawr oherwydd eu gallu i hyrwyddo gweithgareddau corfforol a hamdden iach, yn ogystal â'u rôl o ran cadwraeth natur a bioamrywiaeth.

4.13 Mae'r TAN yn cyfeirio at safonau a argymhellir gan Feysydd Chwarae Cymru (TIT). Hefyd cyfeirir at y safonau a osodwyd gan yr hyn oedd yn Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer mannau gwyrdd naturiol a hygyrch. Mae'r canllawiau meincnod ar gyfer mannau agored, fel y'u rhoddir gan FiT yn cael eu dangos yn Nhabl 6.

*Tabl 6: Safonau a argymhellir gan Feysydd Chwarae Cymru (FIT) ar gyfer mannau agored*

<table>
<tr><th colspan="2">Teipolegau Mannau Agored</th><th>Canllawiau Swm</th><th>Pellter Cerdded (m)</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Gofod Awyr Agored Ffurfiol</td><td>Lleiniau Chwarae</td><td>1.20</td><td>1200</td></tr>
<tr><td>Pob camp awyr agored</td><td>1.60</td><td>1200</td></tr>
<tr><td>Ardaloedd chwarae dynodedig/gyda chyfarpar</td><td>0.25</td><td>LAPs 100<br>LEAPs 400<br>NEAPs 1,000</td></tr>
<tr><td>Darpariaeth awyr agored arall (MUGA a pharciau sglefrio)</td><td>0.30</td><td>700</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gofod Awyr Agored Anffurfiol</td><td>Parciau a gerddi</td><td>0.80</td><td>710</td></tr>
<tr><td>Gofod gwyrdd ar gyfer amwynder</td><td>0.60</td><td>480</td></tr>
<tr><td>Naturiol a lled naturiol</td><td>2.00</td><td>720</td></tr>
</table>

4.14 Mae pwyntiau allweddol eraill a nodir yn RLDP 12 sydd yn berthnasol i GIA Conwy yn cynnwys:

- 'Dylai'r Cyngor ddarparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden o ansawdd da mewn lleoliadau da;
- Dylai'r RLDP nodi polisïau clir ar gyfer darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylai'r rhain bennu safonau darpariaeth fel bod y broses gynllunio yn gallu adnabod a mynd i'r afael â diffygion lleol; a
- Dylai mannau agored ffurfiol a anffurfiol gael eu gwarchod. Dylai pob maes chwarae, yn cynnwys rhai sydd yn eiddo i sefydliadau preifat a gwirfoddol gael eu gwarchod, oni bai fod yna ormodedd yn yr ardal.'

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017- 2022**

4.15 Gweledigaeth CBSC fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Corfforaethol yw bod yn 'Sir flaengar sydd yn creu cyfleoedd.' Mae themâu perthnasol y Cynllun Corfforaethol i GIA Conwy yn cael eu hamlinellu yn Nhabl 7.

*Tabl 7: Y berthynas rhwng GI ac amcanion y Cynllun Corfforaethol*

| Nod y Cynllun Corfforaethol | Perthynas â GI |
|---|---|
| Diogelwch. - Mae pobl yn iach a diogel | Rhaid i lwybrau a choridorau gwyrdd gael eu dylunio mewn ffordd sydd yn annog mynediad diogel, gan ymgorffori goleuadau ac arwyddion pan fo angen. Mae marcio llwybrau ar PRoW yn bwysig er mwyn creu llwybrau y gellir eu dilyn. |
| Tai - Mae gan bob dai o ansawdd da y gallant eu fforddio ac sydd yn gwneud eu bywydau yn well. | Gall GI greu mannau hamdden deniadol mewn datblygiadau preswyl, a gall ôl-osod ymyriadau GI, megis SuDS a choed strydoedd, ar strydoedd preswyl presennol, wella iechyd a lles tra'n darparu buddion ar gyfer bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer. |
| Iechyd - Mae pobl yn iach ac actif | Gall ymyriadau megis darparu gofodau hamdden, llwybrau teithio actif a gwell PRoW, wella dewisiadau bywyd iach. Mae'r dull GI yn hyrwyddo cerdded o seiclo fel y dewis naturiol drwy sicrhau bod gan bobl fynediad i ofodau glas a gwyrdd mewn radiws derbyniol o'u cartrefi. |
| Twf - Mae pobl yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus | Gall GI greu amgylcheddau deniadol a ffyniannus ar gyfer busnesau, ac yn ei dro gall hynny ddenu mwy o fewnfuddsoddiad. Mae'r dull GI yn cydnabod mai twristiaeth yw'r diwydiant mwyaf yng Nghonwy ac mae'n gwerthfawrogi rôl GI o ran cyfoethogi'r diwylliant. |

| Nod y Cynllun Corfforaethol | Perthynas â GI |
|---|---|
| Yr Amgylchedd - Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am eu hamgylchedd | Mae'r dull GI yn cynnig buddion niferus i fioamrywiaeth. Un o amcanion y nod o ran yr amgylchedd yw bod cymunedau yn gydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Drwy gysylltu cynefinoedd gal rhywogaethau fod yn wy cydnerth oherwydd eu bod yn gallu mudo drwy ymateb i amgylcheddau sydd yn newid. Mae llifogydd hefyd yn rhan o'r nod amgylchedd, gan wella amddiffynfeydd llifogydd arfordirol a gwarchod cartrefi yn benodol. Mae'r dull GI yn ymgorffori lleihau risg llifogydd yn ei ddadansoddiadau, oherwydd yr ystyrir seilwaith glas yn y dull drwyddo draw. |
| Llais - Mae pobl yn cael eu hysbysu, eu cynnwys, eu clywed, a gallant gyfrannu i'w cymuned. | Gall ymyriadau GI, pan y'u dylunnir gan ystyried anghenion cymunedol, greu teimlad o stiwardiaeth a pherchnogaeth gymunedol. Er enghraifft, gall y gymuned leol, gan ddefnyddio grwpiau o wirfoddolwyr redeg rhandiroedd a gerddi cymunedol a gallant ddarparu adnoddau addysgol. Gall ymyriadau megis Ysgolion Coedwigoedd, Campfeydd Gwyrdd a Llwybrau Iach annog rhyngweithio cymdeithasol a rhoi teimlad o gyfranogiad cymunedol. |

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo 2019- 2029**

4.16 Mae gan Gonwy rwydwaith o 16,000km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 16km o gilffyrdd. Mae yna fwy o gyfleoedd i gerddwyr o'i gymharu â mathau eraill o weithgareddau hamdden megis marchogaeth ceffylau neu seiclo.

4.17 Mae CBSC wedi cynnal adolygiad o'u Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo. (ROWIP) 2008-2017 fel sydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwyo (ROWIP) CBSC wedi ei ysgrifennu yng nghyd-destun llai o adnoddau a thynnu cymorth ariannol yn ôl oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn cynnwys Datganiad o Gamau Gweithredu sydd yn cynnwys 5 prif nod:

1. Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwyo cyhoeddus yn agored ac ar gael i ddefnyddwyr;
2. Darparu Map a Datganiad Diffiniol cyfredol ac sydd ar gael yn eang;
3. Darparu rhwydwaith sydd yn fwy cysylltiedig, diogel a hygyrch sydd yn addas i bob defnyddiwr;
4. Gwella'r broses o hyrwyddo rhwydwaith a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohoni; ac
5. Annog mwy o gyfranogiad cymunedol o ran rheoli hawliau tramwyo lleol

4.18 O dan Nod 3, dylai pob llwybr sydd wedi ei wella fod yn synhwyrol a dilyn llinellau dymunol, a dylent gael eu cynnal yn dda a'u marcio yn glir. Dylai'r cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru gael eu cynnal i safon uchel. Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru yn swyddogol ar 5 Mai 2012 rhwng Cas-gwent a Queensferry. Mae'r rhan sydd yn rhedeg drwy Gonwy yn dilyn yr arfordir, ac mae yna gysylltiad cylchol ar draws Mynydd Conwy hefyd. Swydd a ariennir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd yn rheoli'r prosiect yn strategol erbyn hyn.

4.19 Ffocws Nod 4 yw gwella dealltwriaeth y gymuned, sydd yn cynnwys hyrwyddo Wythnos Gerdded a Cherdded Conwy, gan gefnogi sefydliadau cerdded gwirfoddol. Bydd gwybodaeth benodol am lwybrau ar gael ar y rhyngrwyd drwy Nod 4 er mwy cynyddu ymwybyddiaeth o lwybrau cerdded sydd yn agos i aneddiadau.

4.20 Yn yr un modd, mae Nod 5 yn amcanu at gynyddu cyfranogiad cymunedol. Gall y dull stiwardiaeth, sydd yn cynnwys cynlluniau cynnal a chadw cymunedol a grwpiau gwirfoddol yn cynnal llwybrau, yn gallu creu nifer o fuddion cymdeithasol ar wahân i gynnal a chadw PRoW, yn cynnwys lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a gwella setiau sgiliau.

4.21 Mae'r ROWIP yn amlygu bo 24.4% o boblogaeth Conwy yn 65 oed neu'n hŷn, sydd yn amlygu pwysigrwydd y dull GI o ystyried demograffeg mynediad i bawb. Mae yna gorff cynyddol o ymchwil ynghylch y cysylltiad rhwng GI a dementia er enghraifft, a gallai hynny fod yn briodol mewn rhai lleoliadau yng Nghonwy.

# 5.0 Casgliad

5.1 Mae'r adolygiad yma o bolisi a dogfennau wedi cael ei baratoi er mwyn arwain y camau nesaf GIA Conwy a darparu asesiad gwaelodlin o gyd-destun polisi Conwy.

5.2 Mae themâu allweddol wedi cael eu henwi yn yr adolygiad polisi yma drwyddo draw, ac maent yn cynnwys:

- Mae creu lleoedd erbyn hyn yn  rhan greiddiol o PPW a rhaid cofleidio hynny wrth wneud pob penderfyniad er mwyn creu lleoedd cynaliadwy yn unol ag amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn debyg iawn i gysyniad creu lleoedd, mae'r dull Seilwaith Gwyrdd (GI) yn cydnabod gwerth ystyried ymyriadau GI yn ystod camau cynharaf datblygu;
- Yn ôl Strategaeth Reoli Risg Llifogydd Lleol Conwy (2013), 'mae llifogydd eisoes yn achosi risg difrifol i bobl, economi ac amgylchedd Conwy, a disgwylir i newid hinsawdd gynyddu'r risg yma, yn ogystal â chyflymder erydiad arfordirol, yn ystod y degawdau nesaf.' Bydd y dull GI yn cydbwyso angen yr amgylchedd, cymunedau a'r amgylchedd, er mwyn argymell datrysiadau risg llifogydd sydd yn lleihau risg tra'n arwain at fwy o fuddion;
- Bydd y dull yma yn tynnu ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwyo Conwy 2019-2029, er mwyn deall ble mae newidiadau ac ychwanegiadau diweddar i'r rhwydwaith wedi arwain at fuddion, ac yn alinio â gweledigaeth Conwy ar gyfer teithio actif i'r dyfodol;
- Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Conwy (CLDP) yn nodi bod twristiaeth yn gwneud cyfraniad allweddol i economi Ardal y Cynllun, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo a chefnogi darpariaeth amrywiol i dwristiaid drwy'r flwyddyn tra'n diogelu rhinweddau amgylcheddol. Mae'n bwysig bod y GIA yn cyflwyno cyfleoedd i warchod a gwella asedau sydd yn bodoli, tra'n darparu mynediad cynaliadwy i fwynhad i drigolion Conwy a thwristiaid;
- Mae'r dull yn cydnabod gallu GI i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, yn unol â'r CLDP a pholisi cenedlaethol yn cynnwys Deddf yr Amgylchedd; ac
- Yn unol â Strategaeth Twf Economaidd Conwy a'r CLDP, mae'r dull GI yn deall bod raid i drefi ffyniannus fyd yn drefi cydnerth hefyd yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae gan GI y potensial i wneud i gymdogaethau fod yn fwy deniadol ac iach, denu mewnfuddsoddiad, a chreu adenillon ariannol uwch ar eiddo. Yn yr un modd gall GI greu amgylcheddau deniadol a ffyniannus ar gyfer busnesau, ac yn ei dro gall hynny ddenu mwy o fewnfuddsoddiad.

THE ENVIRONMENT PARTNERSHIP


**PRIF SWYDDFA**

Genesis Centre,
Birchwood Science Park,
Warrington
WA3 7BH

Ffôn: 01925 844004
E-bost: tep@tep.uk.com

**MARKET HARBOROUGH**

Harborough Innovation Centre,
Airfield Business Park,
Leicester Road,
Market Harborough
Leicestershire
LE16 7WB

Ffôn: 01858 383120
E-bost: mh@tep.uk.com

**GATESHEAD**

Office 26, Gateshead International Business Centre,
Mulgrave Terrace,
Gateshead
NE8 1AN

Ffôn: 0191 605 3340
E-bost: gateshead@tep.uk.com

**LLUNDAIN**

8 Trinity Street,
London,
SE1 1DB

Ffôn: 020 3096 6050
E-bost: london@tep.uk.com

**CERNYW**

4 Park Noweth,
Churchtown,
Cury,
Helston
Cornwall
TR12 7BW

Ffôn: 01326 240081
E-bost: cornwall@tep.uk.com

## Atodiad 2 – Dadansoddiad o Ardaloedd Ymgynulliad Adar Allweddol a Phorthiant Ystlumod Pwysig

**<u>Asesiad Isadeiledd Gwyrdd Bwrdeistref Conwy – Ardaloedd Ymgynulliad Adar Allweddol a Phorthiant Ystlumod Pwysig.</u>**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi dadansoddiad o'r tri ymgynulliad adar allweddol mewn perthynas â'r cynefinoedd canlynol o Dir Amaethyddol, Ucheldir a Gwlyptir. Mae pob aderyn a nodir wedi'i restru gydag Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a gallent hefyd fod yn rywogaethau Rhestr 1, ac oll angen cyfuniad o gilfachau ecolegol i ffynnu o fewn eu math o gynefin.

Mae hefyd yn archwilio ymgynulliadau ystlumod.

Mae'n gwneud argymhellion am y ffordd i fapio'r mannau prysur o fewn cyfyngiadau cyllidebol. Mae angen trafod hyn gyda Chofnod ac nid yw'r syniadau a gyflwynir isod wedi cael eu cadarnhau.

Pwrpas y dadansoddiad yw nodi'r tirluniau sydd angen cadwraeth, gwella neu adfer cynefinoedd ar gyfer ymgynulliadau o ffawna penodol lleol. Bydd y dadansoddiad yn mynd ar y cyd gyda thystiolaeth eraill ar dyraniad safleoedd, cynefinoedd a choridorau o werth. Os yw'r dulliau yn profi'n hawdd i'w dyblygu, gallent gael eu defnyddio mewn ailadroddiadau yn y dyfodol er mwyn cynnwys ymgynulliadau rhywogaethau eraill, megis anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n flaenoriaeth neu blanhigion mewn perthynas â thirluniau a daeareg penodol.

<u>Dewis o Rywogaethau Ystlumod ac Adar Blaenoriaeth</u>

1. **Adar Tir Amaeth – Cyfnodau Cenhedlu a Gaeafu**
   <u>Rhywogaethau adar allweddol o fewn ardal Conwy / Gogledd Cymru, gyda meini prawf Adran 7</u>
   Ehedydd (*Alauda arvensis*)
   Llinos Gyffredin (*Linaria cannabina*)
   Siglen Felen (*Motacilla flava*)
   Gwennol Ddu (*Apus apus*)
   Cornchwiglen (*Vanellus vanellus*)
   Gylfinir (*Numenius arquata*)
   Gylfinbraff *(Coccothraustes coccothraustes)*
   Golfan y Mynydd *Passer Montanus)*
   Bronfraith *(Turus philomelos)*
   Coch y Berllan *(Pyrrhula pyrrhula)*
   Y gog *(Cuculus canorus)*

2. **Adar yr Ucheldir – Cyfnod Cenhedlu**
   <u>Rhywogaethau adar cenhedlu allweddol o fewn ardal Conwy / Gogledd Cymru, gyda meini prawf Adran 7/ neu Restr 1.</u>
   Mwyalchen y Mynydd *(Turdus torquatus*)
   Gylfinir Ewrasiaidd (*Numenius arquata*) B/W
   Cwtiad Aur (*Pluvialis apricaria*) B/W

   MAE'R Bod Tinwen (*Circus cyaneus*) (hefyd yn rhywogaeth Rhestr 1) WEDI'I EITHRIO O'R DADANSODDIAD YN SGIL RISGIAU ERLEDIGAETH

3. **Adar y Gwlyptir – cyfnod dim cenhedlu yn bennaf**
   <u>Rhywogaethau adar cenhedlu allweddol o fewn ardal Conwy / Gogledd Cymru, gyda meini prawf Adran 7 a/neu Restr 1.</u>
   Gŵydd Ddu Fol Olau (*Branta bernicla*)

Rhostog Gynffonddu (*Limosa limosa*)
Bras y Cyrs (*Emberiza schoeniclus*)
Gïach *Gallinago gallinago*; Rhestr 1
Gylfinir Ewrasiaidd *(Numenius arquata)*
Cwtiad Aur *(Pluvialis apricaria)*
Corhwyaden Ewrasiaidd (*Anas* crecca); Rhestr 1
Hwyaden Lydanbig (*Anas clypeata*); Rhestr 1
Hwyaden Lwyd (*Mareca strepera*); Rhestr 1
Hwyaden Goch yr Eithin (*Tadorna tadorna*); Rhestr 1

4. **Ardaloedd Porthiant Ystlumod Pwysig** – Mae Conwy yn cefnogi naw rhywogaeth o ystlumod, gan gynnwys yr Ystlum Pedol Lleiaf, sydd â gwasgariad cyfyngedig yn y DU, gyda Chymru yn gadarnle. Mae gan holl rywogaethau o ystlumod strategaethau porthi gwahanol ac mae'r pellter maent yn porthi o'r clwydfan cymunedol yn amrywio rhwng rhywogaethau. Caiff y pellter ei alw yn Barth Cynhaliaeth Craidd (CSZ) ac mae'r rhywogaethau a ganfyddir yng Nghonwy wedi'u rhestru isod:
    - Ystlum hirglust  (*Plecotus auritus)* - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 3km.
    - Ystlum lleiaf (*Pipistrellus pipistrellus)* - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 2km.
    - Ystlum y Dŵr (*Myotis daubentonii*) - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 2km.
    - Ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*) - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 2km.
    - Rhywogaethau ystlum glustiog *(Plecotus sp.) CSZ ar gyfer y rhywogaeth hwn yw 3km**
    - Rhywogaethau ystlum Myotis (*Myotis sp.)* Gall y CSZ ar gyfer y rhywogaethau hyn amrywio o 1-4km.
    - Ystlum Clebrwr (*Rhinolophus hipposideros)* - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 4km.
    - Ystlum fwyaf (*Nyctalus noctula)* - CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 4km.
    - Ystlum lleiaf soprano *(Pipistrellus pygmaeus) -* CSZ ar gyfer y rhywogaeth hon yw 3km.

    Mae ardaloedd porthiant arferol i ystlumod yn gynefinoedd megis gwrychoedd, tir pori heb ei wella/wedi'i wella'n rhannol ac ymylon caeau gyda chyrff o ddŵr. Mae'r ardaloedd porthi hyn yn cynnwys bioamrywiaeth ffawna/fflora uchel, sydd yn eu tro, yn cynnwys niferoedd infertebrata uchel o rywogaethau pryfaid a gwyfynod. Mae ymddygiad porthi ystlumod yn dilyn llwybr unionsyth o gymudo rhwng clwydfannau a'r safleoedd bwydo, trwy lwybrau dilynol o wrychoedd, llinellau ffens, cyrsiau dŵr ac ymylon coetir.

## Meini Prawf Mapio Mannau Prysur Awgrymedig ar gyfer y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd

O ran rhywogaethau â blaenoriaeth, nod yr astudiaeth y canfod mannau prysur (cadarnleoedd) ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth er mwyn hyrwyddo rheoli tir cadwraeth yn ac o amgylch y man prysur. Ym maes rheoli tir cadwraeth, mae nifer o ddulliau o fapio mannau prysur a chanfod cerrig camu a choridorau cynefinoedd. O ystyried cyfyngiadau cyllidebol a rhaglen, cynigir dull syml, ond croesawir mewnbwn Cofnod fel deiliaid y cofnodion.

### Adar Tir Amaeth

Cam 1: Mapio holl gofnodion diweddar (2014-2019) o rywogaethau ar y rhestr blaenoriaeth. Dim gwahaniaethu rhwng cofnodion cenhedlu na gaeafu, ond gall gofnodion "hedfan heibio" eu hidlo allan os yw'n ymarferol.

Cam 2: Mapio amlder y cofnodion gan ddefnyddio grid (i'w gynghori gan Cofnod, ond defnyddir tetradau 2km x 2km yn aml mewn cyfrifiadau adar):

- Sgwariau grid lle mae 6 neu fwy o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – "Sgwariau Man Prysur"
- Sgwariau grid lle mae 3, 4 neu 5 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – "Sgwariau Cynnydd"
- Sgwariau grid lle mae 2 neu 1 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol

Cam 3: Gellir ystyried dadansoddiad GIS pellach o'r allbwn os oes angen, ond gall y wybodaeth uchod fod yn ddigonol er mwyn llywio blaenoriaethau.

Sylwch: os oes cyfyngiadau cyllidebol, gall y dadansoddiad gael ei gyfyngu i unrhyw detratau sy'n croestorri gyda pharth clustogi ochr setliad 2km; y rheswm dros hyn yw bod yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o ddod o dan ddylanwad rheoli datblygiad.

### Adar yr Ucheldir – Cyfnod Cenhedlu

Mae niferoedd eithaf isel o rywogaethau ar y rhestr flaenoriaeth (4) ac mae risgiau erledigaeth wrth ddatgelu neu gasglu cofnodion o fod tinwyn, felly dylid eithrio'r rhain.

Cam 1: Mapio'r holl gofnodion cenhedlu o'r 3 rhywogaeth ddewisol yn y cyfnod 2014-2019

Cam 2: Canfod sgwariau grid (tetradau?) gyda chofnod o 2 rhywogaeth – diffinnir y rhain fel mannau prysur

Sylwch: os oes cyfyngiadau cyllidebol, gall y dadansoddiad hwn gael ei eithrio os yw canolbwynt yr astudiaeth ar dirluniau ar ochr setliadau

### Adar y Gwlyptir

Gan fod y rhywogaethau â blaenoriaeth yn cynnwys cymysgedd o gofnodion cenhedlu a dim cenhedlu, bydd rhai o'r cofnodion cenhedlu yn gorgyffwrdd gyda'r

ymgynulliad ucheldir. Felly awgrymir defnyddio cofnodion y gaeaf yn unig (1 Medi i 1 Mawrth).

Cam 1: Mapio'r holl gofnodion o'r rhywogaethau dewisol

Cam 2: Mapio amlder y cofnodion gan ddefnyddio grid (i'w gynghori gan Cofnod, ond defnyddir tetradau 2km x 2km yn aml mewn cyfrifiadau adar):

- Sgwariau grid lle mae 7,8,9,10 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – "Sgwariau Man Prysur"
- Sgwariau grid lle mae 5 neu 6 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – "Sgwariau Cynnydd"
- Sgwariau grid lle mae 4,3,2 neu 1 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol

Cam 3: Gellir ystyried dadansoddiad GIS pellach o'r allbwn os oes angen, ond gall y wybodaeth uchod fod yn ddigonol er mwyn llywio blaenoriaethau.

Sylwch: os oes cyfyngiadau cyllidebol, gall y dadansoddiad gael ei gyfyngu i unrhyw detratau sy'n croestorri gyda pharth clustogi ochr setliad 2km; y rheswm dros hyn yw bod yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o ddod o dan ddylanwad rheoli datblygiad.

**Ystlumod**

Awgrymir bod dau agwedd i'r dadansoddiad; yn gyntaf cadwraeth clwydfannau ystlum pedol lleiaf ac yn ail ymgynulliad porthi ystlumod

<u>Dylid canfod CSZ yr ystlum pedol lleiaf</u> yn unigol gan ddefnyddio byffer 2km o amgylch y cofnod clwyfan fel CSZ craidd

<u>Ar gyfer ymgynulliad ystlumod</u>, cydnabyddir efallai nad oes cofnodion ar lefel rhywogaethau, yn arbennig rhywogaethau myotis a lleiaf. Gall y defnydd o gofnodion clwydfannau ar eu pennau eu hunain amlygu ardaloedd trefol yn syml oherwydd bod yr ardaloedd hyn yn cael eu cofnodi yn fwy aml.

Mae'r CSZ ar gyfer rhywogaethau ystlumod fel arfer yn 2, 3 neu 4km o'r clwydfan.

Ar gyfer dibenion yr astudiaeth, gall ddadansoddiad syml o amlder cofnodion i bob tetrad (2km x 2km) fod yn ddigonol i ganfod mannau prysur a choridorau cynnydd posibl.

Cam 1: Hidlo cofnodion

- Gellir ystyried holl gofnodion (clwydfan a hedfan) yn y cyfnod 2014 – 2019.
- Holl gofnodion rhywogaethau lleiaf i gael eu cymryd fel ystlum lleiaf ar gyfer dibenion dadansoddiad amlder
- Cofnodion rhywogaethau myotis i gael eu trin ar wahân o Ystlum y Dŵr (Myotis daubentonii) ar gyfer dibenion asesu amlder

Cam 2: Dadansoddiad Amlder

- Tetradau lle mae 7,8,9,10  o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – “Sgwariau Man Prysur”
- Tetradau lle mae 4, 5 neu 6 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol – “Sgwariau Cynnydd”
- Tetradau lle mae 3,2 neu 1 o rywogaethau wedi cael eu cofnodi mewn amser penodol

Sylwch: os oes cyfyngiadau cyllidebol, gall y dadansoddiad gael ei gyfyngu i unrhyw detratau sy’n croestorri gyda pharth clustogi ochr setliad 2km; y rheswm dros hyn yw bod yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o ddod o dan ddylanwad rheoli datblygiad.

Crynodeb o Allbynnau

Mapiau gwasgariad yn dangos holl gofnodion yn y cyfnod 2014-19 ar gyfer y rhywogaethau dewisol yn y categorïau canlynol:

1. Adar Tir Amaeth (holl gofnodion)
2. Adar yr Ucheldir (cofnodion tymor cenhedlu yn unig)
3. Adar y Gwlyptir (cofnodion tymor y gaeaf yn unig)
4. Ystlum Pedol Lleiaf: Clwydfannau a’u Parth Cynhaliaeth Craidd

Mapiau Mannau Prysur gan ddefnyddio tetradau, yn seiliedig ar amlder cofnodion o’r cyfnod 2014-2019 ar gyfer y rhywogaethau dewisol, fel a ganlyn

| Rhywogaeth | Mannau Prysur | Cynnydd | Presenoldeb |
|---|---|---|---|
| Adar Tir Amaeth | 6, 7, 8, 9, 10, 11 o rywogaethau | 3, 4 neu 5 o rywogaethau | 1, 2 neu 3 o rywogaethau |
| Adar yr Ucheldir | 3 o rywogaethau | Amh. | Amh. |
| Adar y Gwlyptir | 7, 8, 9 neu 10 o rywogaethau | 4 neu 5 o rywogaethau | 3,2 neu 1 o rywogaethau |
| Ymgynulliad Ystlumod | 7, 8, neu 9 o rywogaethau | 4, 5 neu 6 o rywogaethau | 1, 2 neu 3 o rywogaethau |

Sylwch: os oes cyfyngiad cyllidebol, gall y mapiau mannau prysur a gwasgariad ar gyfer adar tir amaeth, adar y gwlyptir ac ymgynulliad ystlumod eu cyfyngu i unrhyw detradau sy’n croestorri gyda parth clustogi ochr setliad 2km; am y rheswm bod yr ardaloedd hyn yn fwy tebygol o ddod o dan ddylanwad rheoli datblygiad. Byddai ymgynulliad adar yr ucheldir yn cael ei eithrio’n gyfan gwbl.

TEP

5 Mai 2020

Diweddarwyd 12 Mai 2020 mewn ymateb i sylwadau Ecolegydd CBS Conwy

## Atodiad 3: Geirfa – Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG)

**Ased**
Ased yw'r term cyffredinol sy'n cwmpasu unrhyw elfen o SGG megis parc, coetir neu gwrs dŵr.

**Teipoleg**
Dyma'r prif ddefnydd neu ddisgrifiad o SGG. Amlinellir isod y teipolegau a ddefnyddir yn yr adroddiad technegol hwn:

*Tir Amaethyddol a Garddwriaeth*
Tir amaethyddol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu cnydau a phori.

*Rhandir, Gardd Gymunedol neu Fferm Dref*
Mannau agored yw'r rhain a ddefnyddir yn bennaf gan aelodau o'r cyhoedd ar gyfer tyfu ffrwythau, llysiau a blodau. Maent fel arfer yn cynnwys gwelyau tyfu a llystyfiant terfyn, a gellir cyfyngu ar fynediad weithiau.

*Mannau Amwynder Gwyrdd a Grîniau Pentref*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys safleoedd sydd ar gyfer hamdden cyhoeddus yn bennaf, ac yn cynnwys arwyneb glaswelltog a llystyfiant cysylltiedig. Maent fel arfer yn eiddo cyhoeddus ac yn cael eu rheoli.

*Mynwentydd*
Mae'r rhain yn ardaloedd sy'n gysylltiedig â mynwentydd neu dir claddu. Maent yn bennaf yn cynnwys glaswellt gyda llwyni neu goed achlysurol.

*Tir Diffaith a Gwag, Gwaith Trin Carthion*
Tir diffaith a gwag yw tir nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ffurfiol. Gall gynnwys 'tiroedd comin trefol' a ddefnyddir ar gyfer hamdden anffurfiol a thir llwyd nad yw wedi'i ailddatblygu eto. Mae gwaith trin carthion yn ardaloedd mawr o dir preifat sy'n cynnwys ardaloedd sychu llaid carthion, gwelyau hidlo a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â thrin carthion.

*Glaswelltir, Rhostir a Phrysgdir*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys safleoedd sy'n cynnwys glaswelltir a phrysgdir yn bennaf nad ydynt wedi'u gwella'n amaethyddol, ond nad ydynt ychwaith yn rhan o ofod hamdden ffurfiol fel grîn pentref.

*Coridorau Gwyrdd ar hyd Rheilffyrdd, Priffyrdd a Llwybrau Eraill*
Mae'r rhain yn fannau agored llinol sy'n gysylltiedig â llwybrau trafnidiaeth megis llwybrau beicio, ffyrdd a rheilffyrdd. Gallant gynnwys cymysgedd o laswellt, llwyni a choed.

*To Gwyrdd*
Toeau adeiladau sydd wedi'u gorchuddio â llystyfiant gyda'r bwriad o leihau dŵr ffo dŵr wyneb. Gall amrywiaeth o lystyfiant fod yn bresennol, gan gynnwys mwsoglau, hesgau a llystyfiant lefel isel arall.

*Ardaloedd wedi'u tirlunio o Amgylch Tai ac Ystadau/Adeiladau Diwydiannol*
Mae'r rhain yn ardaloedd sy'n gysylltiedig ag ystadau tai ac ystadau neu adeiladau diwydiannol. Mae'r ardaloedd fel arfer yn cynnwys glaswellt amwynder, llwyni a choed.

*Parciau a Gerddi Ffurfiol*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys parciau a gerddi ffurfiol sydd wedi'u cynllunio at ddefnydd y cyhoedd ac sy'n cynnwys amrywiaeth o elfennau tirwedd a garddwriaeth. Gall cyfleusterau allfaol fel bloc toiledau neu ganolfan ymwelwyr fod yn bresennol ar y safle hefyd.

*Ardal Chwarae (Pob Math)*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys mannau agored sydd wedi'u dynodi i'w defnyddio gan bobl ifanc ar gyfer hamdden. Fel arfer mae'n cynnwys ardaloedd glaswelltog, coed a llwyni, gydag offer chwarae ychwanegol.

*Caeau Chwarae, Cyrsiau Golff, Canolfan Farchogaeth a Meysydd Hamdden Eraill*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer hamdden chwaraeon. Maent fel arfer yn cynnwys arwyneb chwaraeon â llystyfiant a llystyfiant cysylltiedig. Gall y safleoedd fod mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat.

*Gardd Ddomestig Breifat*
Mae'r ardaloedd hyn yn fannau agored preifat o fewn cwrtil anheddau unigol, ac yn gyffredinol nid ydynt yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd. Gallant gynnwys amrywiaeth o nodweddion tirwedd caled a meddal.

*Cronfa Ddŵr*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys safleoedd ag ehangder mawr o ddŵr agored yn bennaf, nad ydynt yn rhan o safle gofod agored arall (fel parc). Fel y nodwyd yn y cyfyngiadau data, nid oedd yn bosibl nodi cyrff dŵr llai fel pyllau o'r setiau data ffynhonnell.

*Tiroedd Ysgolion ac Ysbytai*
Mae'r rhain yn fannau agored sy'n gysylltiedig â thiroedd cyfleusterau addysgol ac iechyd, ac fel arfer maent yn cynnwys glaswelltir â choed gwasgaredig, gwrychoedd a llwyni.

*Coed Stryd*
Mae coed stryd yn cynnwys rhes neu gasgliad o goed unigol ar hyd ochr ffordd mewn potiau coed neu ar ymylon glaswellt.

*Cwrs dŵr*
Mae hyn yn cynnwys rhannau helaeth o ddŵr rhedeg, fel afonydd a chamlesi. Fel y nodwyd yn y cyfyngiadau data, nid oedd yn bosibl nodi cyrff dŵr llai fel nentydd neu ffrydau o'r setiau data ffynhonnell.

*Coetir*
Mae'r deipoleg hon yn cynnwys safleoedd a nodir fel coetir gan set ddata mannau agored GiGL. Gall y coetir gynnwys coed collddail a choed conwydd, a gallant fod mewn perchnogaeth breifat neu yn hygyrch i'r cyhoedd. Ni ellir cynnwys coetiroedd o fewn teipoleg mannau agored eraill, megis parciau a gerddi ffurfiol, yn y deipoleg hon.

**Manteision**
Er bod swyddogaethau SGG yn cyfeirio at y defnydd penodol o dir, mae manteision yn cyfeirio at y cyfraniadau ehangach, a allai fod yn llai diriaethol, i bobl a natur sy'n deillio o SGG. Er enghraifft, gall y swyddogaeth llwybr teithio gwyrdd sicrhau nifer o fanteision ehangach, megis iechyd a lles i bobl sy'n dewis cerdded neu feicio, manteision hamdden a lleihau traffig modur sy'n arwain at lai o allyriadau i'r atmosffer a llai o risg o newid yn yr hinsawdd.

**Gwasanaethau Ecosystem**
Caiff manteision dynol o lu o adnoddau a phrosesau naturiol eu cynnal gan ecosystemau. Mae'r 'gwasanaethau ecosystemau' hyn yn cynnwys darparu bwyd, dŵr glân, adnoddau ar gyfer ynni a diwydiant, lliniaru llifogydd, peillio cnydau a chyfleoedd hamdden. Grwpir gwasanaethau ecosystemau yn bedwar categori cyffredinol: darparu, megis cynhyrchu bwyd a dŵr; rheoleiddio, megis rheoli'r hinsawdd; cefnogi, megis cylchoedd maetholion a pheillio cnydau; diwylliannol, megis manteision hamdden.

**Swyddogaethau**
Un o brif sbardunau cynllunio SGG yw rheoli tir mewn ffordd fwy cynaliadwy. Er y bydd gan y rhan fwyaf o asedau SGG brif ddiben neu swyddogaeth, mae hefyd yn bosibl i swyddogaethau gydfodoli, gan arwain at SGG amlswyddogaethol a'r gallu i ddefnyddio tir yn fwy effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, mae coed stryd yn ychwanegu ansawdd esthetig i ardal drefol ond gallant hefyd gefnogi bywyd gwyllt a gwella iechyd yr amgylchedd drwy leihau llygredd a gludir mewn aer a rhoi cysgod i bobl a bywyd gwyllt. Diffinnir y swyddogaethau a ddefnyddir yn y fframwaith hwn isod:

*Esthetig*
Gall SGG wella delwedd ardal a gall hyn wneud yr ardal gyfagos yn lle mwy deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, a hefyd arwain at werthoedd eiddo uwch.

*Storio Carbon*
Storio carbon (neu ddal a storio) yw tynnu carbon o'r atmosffer a’i storio mewn planhigion, coed a phriddoedd. Mae coed a phriddoedd mawn yn arbennig o bwysig ar gyfer storio carbon. Bydd gwahanol fathau o SGG yn dal a storio carbon ar wahanol gyfraddau yn dibynnu ar gyflymder twf llystyfiant.

*Diogelu Rhag Llifogydd Arfordirol*
Gall SGG ddiogelu seilwaith ac amaethyddiaeth yn agos at y lan. Gall ddiogelu rhag gwyntoedd a chwistrell môr drwy leihau cyflymder y tonnau ac effaith ymchwydd y llanw.

*Cysylltedd ar gyfer Bywyd Gwyllt*
Ardaloedd y gall bywyd gwyllt wasgaru drwyddynt rhwng mannau cynefin. Bydd y swyddogaeth hon yn dod yn bwysicach yn y dyfodol, wrth i ystodau rhywogaethau gynyddu tua'r gogledd gyda'r newidiadau yn yr hinsawdd. Mae gwahanol fathau o SGG yn darparu cysylltedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau. Fodd bynnag, mae'r ystod o rywogaethau hefyd yn dibynnu ar ffactorau eraill fel yr hinsawdd neu aflonyddwch.

*Diwylliant*
Gofod a ddefnyddir at ddibenion diwylliannol, cynnal celfyddyd gyhoeddus, digwyddiadau a gwyliau sy'n darparu swyddogaeth diwylliant.

*Oeri Anweddol*
Oeri anweddol yw'r broses lle mae planhigion yn chwysu dŵr sy'n cael ei anweddu o'u harwynebau gan oeri eu hardal gyfagos. Gall pob math o lystyfiant ddarparu'r swyddogaeth

hon, gan gynnwys dŵr agored. Mae planhigion sydd ag arwynebedd dail mwy yn debygol o fod yn well na'r rhai sydd ag arwynebedd dail llai.

Yn ystod cyfnodau o sychder, mae'n debygol y bydd angen dyfrhau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y swyddogaeth hon mewn planhigion, tra bydd dŵr agored yn parhau i fod yn werthfawr ynddo'i hun.

*Cynhyrchu Bwyd*
Tir a ddefnyddir ar gyfer tyfu cnydau neu bori anifeiliaid.

*Llwybr Teithio Gwyrdd*
Mae llwybrau teithio gwyrdd yn llwybrau oddi ar y ffordd i gerddwyr a beicwyr (at ddibenion hamdden yn ogystal â symud rhwng lleoedd) drwy wyrddni ac mae'n cynnwys yr ardal o amgylch y llwybr teithio gwyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

*Cynefin i Fywyd Gwyllt*
Darparu lle i fywyd gwyllt fyw ynddo, gan gynnwys ffynhonnell o fwyd. Bydd yr amrywiaeth o fathau o SGG yn darparu cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau. Fodd bynnag, mae'r ystod o rywogaethau hefyd yn dibynnu ar ffactorau eraill fel yr hinsawdd neu aflonyddwch.

*Treftadaeth*
Cysylltiadau hanesyddol yn y dirwedd (gan gynnwys coetiroedd hynafol, camlesi, safleoedd dynodedig a henebion). Diffinnir treftadaeth fel yr hyn a etifeddir.

*Dysgu*
Gall SGG ddarparu cefndir ar gyfer ystafelloedd dosbarth awyr agored a dysgu y tu allan i amgylchedd yr ysgol dan do. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel lleoliad ar gyfer dysgu sgiliau newydd a allai helpu oedolion i ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle.

*Amsugno Sŵn*
Gall sgrinio sŵn, yn enwedig o brif lwybrau trafnidiaeth, wella ansawdd yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am elfennau SGG sy'n ddigon uchel i gyfnewid ac amsugno tonnau sain. Mae'r swyddogaeth hon fel arfer yn gysylltiedig ag ardaloedd trefol, yn enwedig yn agos at lwybrau teithio.

*Hamdden Preifat*
Tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden ond dim ond gan y tirfeddianwyr neu'r rhai a wahoddir gan y tirfeddianwyr i'w ddefnyddio. Mae hyn yn bennaf yn cynnwys gerddi domestig preifat.

*Hamdden Cyhoeddus*
Ardaloedd y gellir eu defnyddio'n rhydd at ddibenion hamdden (ffurfiol/anffurfiol a gweithredol/goddefol), heb unrhyw gyfyngiadau ar fynediad (fel talu neu aelodaeth). Gall hyn gynnwys ardaloedd sydd ar gau yn y nos, ar ddiwrnodau penodol neu'n dymhorol ond aseswyd hyn ar sail unigol.

*Hamdden Cyhoeddus Cyfyngedig*
Ardaloedd y gall y cyhoedd eu defnyddio at ddibenion hamdden (ffurfiol/anffurfiol a gweithredol/goddefol), ond sydd wedi'i gyfyngu (fel arfer drwy dalu neu aelodaeth). Mae hyn fel arfer yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon awyr agored a pharciau a gerddi ffurfiol.

*Cysgodi o'r Haul*

Gall cysgodi pobl ac arwynebau o ymbelydredd solar leihau'r tymheredd a chynyddu lefelau cysur ac fel arfer fe'i darperir gan goed a phlanhigion talach. Mae cysgodi o'r haul hefyd yn bwysig er mwyn diogelu tir amaethyddol a rhywogaethau eraill rhag ymbelydredd solar. Bydd y swyddogaeth hon yn dod yn fwy allweddol wrth addasu i newid yn yr hinsawdd.

*Trapio Llygryddion Aer*
Tynnu llygryddion, gan gynnwys osôn, nitrogen deuocsid a gronynnau o'r aer, drwy ddefnyddio stoma dail ac adneuo ar arwynebau dail. Unwaith y tu mewn i'r ddeilen, mae nwyon yn gwasgaru i fannau rhyng-gellol a gallant gael eu hamsugno gan ffilmiau dŵr i ffurfio asidau neu adweithio ag arwynebau dail mewnol. Mae'r swyddogaeth hon fel arfer yn gysylltiedig ag ardaloedd trefol, yn enwedig yn agos at lwybrau teithio.

*Ymdreiddiad Dŵr*
Gall llystyfiant a gwreiddiau helpu i symud dŵr i'r ddaear. Yn cynnwys ymdreiddiad wyneb ac ymdreiddiad dwfn, sy'n gallu lleihau'r perygl o lifogydd.

*Rhagodi Dŵr*
Rhagori dŵr glaw cyn iddo gyrraedd y ddaear, gan ddail coed a phlanhigion, yn arafu llif y dŵr i'r ddaear. Gall hyn leihau'r perygl o lifogydd. Bydd pob math llysieuol o SGG yn rhagodi dŵr mewn rhyw ffordd, er bod hyn yn amrywio gydag arwynebedd dail.

*Storio Dŵr*
Storio dŵr mewn pyllau, llynnoedd, afonydd a rhai gwlypdiroedd. Mae'n hygyrch i'w ddefnyddio gan bobl ac i'w dyfrhau os oes ei angen.

*Cysgod Gwynt*
Gall SGG ddarparu cysgod rhag gwyntoedd drwy arafu neu ddargyfeirio cerrynt.

**System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)**
Mae GIS yn system sydd wedi'i chynllunio i gasglu, dadansoddi, rheoli a chyflwyno pob math o ddata daearyddol. Yng nghyd-destun Asesiad Seilwaith Gwyrdd Conwy, defnyddir GIS i fapio holl asedau SGG a nodi swyddogaethau presennol yr asedau hynny. Mae GIS hefyd yn darparu'r dadansoddiad ar gyfer yr asesiad o anghenion.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD)**
Mae hyn yn fesur o amddifadedd cymharol ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae'n cynnwys nifer o ddangosyddion sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar brofiad amddifadedd gan y rhai sy'n byw mewn ardal.

**Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is**
Mae'r Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardal ddaearyddol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer llawer o'i hallbynnau ystadegol.

**Cyfrifeg Cyfalaf Naturiol**
Cyfalaf naturiol yw 'stoc ein hasedau naturiol ffisegol (fel pridd, coedwigoedd, dŵr a bioamrywiaeth) sy'n darparu llifau gwasanaethau sydd o fudd i bobl (fel cnydau peillio, diogelu peryglon naturiol, rheoleiddio hinsawdd neu fanteision iechyd meddwl taith gerdded yn y parc). Mae cyfalaf naturiol yn werthfawr i'n heconomi. Mae gan rai cynhyrchion y gellir eu marchnata fel pren werth ariannol sydd wedi bod yn hysbys ers canrifoedd. Mewn achosion eraill (e.e. rôl gwenyn wrth beillio cnydau), dim ond nawr yr ydym yn dechrau deall eu gwerth ariannol'
Cyfrifyddu cyfalaf naturiol yw'r broses o gyfrifo'r stociau a'r llifau a ddisgrifir uchod a phriodoli gwerth ariannol iddynt.

**Anghenion**
Hanfod datblygu cynaliadwy yw darparu ar gyfer anghenion pobl a natur, nawr ac yn y dyfodol. Felly mae'n bwysig cymryd pobl a natur fel y man cychwyn ar gyfer cynllunio SGG yng nghyd-destun yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae gan bobl a bywyd gwyllt lawer o anghenion: er enghraifft mae angen i bobl ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer hamdden ac iechyd a lles; mae angen i rywogaethau bywyd gwyllt symud ar draws tir i ddod o hyd i ffynonellau bwyd a lleoedd i gysgodi.